Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR GWAITH	**THE EXECUTIVE**
DYDD MAWRTH 24 CHWEFROR 2026 10.00 o'r gloch	**TUESDAY 24 FEBRUARY 2026 10.00 am**
YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM	**COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM**

Swyddog Pwyllgor	**Ann Holmes 01248 752518**	Committee Officer

AELODAU/MEMBERS

Plaid Cymru/The Party of Wales

Neville Evans, Carwyn E Jones, Dyfed Wyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group

Dafydd Roberts, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

3 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

4 COFNODION (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2026.

5 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH (Tudalennau 9 - 16)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

6 MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2025/26, CH3 (Tudalennau 17 - 42)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 3, 2025/26 (Tudalennau 43 - 58)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

8 MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 3, 2025/26 (Tudalennau 59 - 68)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

9 DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2026/27 (Tudalennau 69 - 108)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

10 **FFIOEDD CARTREFI GOFAL Y SECTOR ANNIBYNNOL AR GYFER 2026/27** (Tudalennau 109 - 112)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

11 **FFIOEDD A THALIADAU 2026/27** (Tudalennau 113 - 172)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

12 **STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2026/27** (Tudalennau 173 - 184)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

13 **CYLLIDEB GYFALAF 2026/27** (Tudalennau 185 - 198)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

14 **POLISI GOSTYNGIADAU DEWISOL Y DRETH GYNGOR** (Tudalennau 199 - 214)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

15 **NEWID I'R CYFANSODDIAD - CYMERADWYAETH TERFYNOL I DDATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL Y CYNGOR** (Tudalennau 215 - 220)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

16 **DYRANNU HYD AT £100K O GYLLID O'R BALANSAU CYFFREDINOL** (Tudalennau 221 - 226)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

17 **ARDOLL YMWELWYR** (Tudalennau 227 - 312)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblgu Economaidd.

18 **DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU 2026 - 2031** (Tudalennau 313 - 370)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

19 **MAES PARCIO GER Y CASTELL, BIWMARES** (Tudalennau 371 - 384)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

20 **CYNLLUN STRATEGOL MANDDALIADAU 2026-2031** (Tudalennau 385 - 402)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar-lein drwy Zoom ar 27 Ionawr, 2025

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Ieuan Williams, Robin Williams.
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Dirprwy Brif Weithredwr Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitemau 9 a 10) Pennaeth Democratiaeth Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau (LMR)(ar gyfer eitem 8) Y Rheolwr Newid Hinsawdd (CBCDC) (ar gyfer eitem 11) Swyddog Pwyllgor (ATH) Swyddog Gwe-ddarlledu (FT)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorydd Neville Evans
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorwyr Jeff Evans (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) (ar gyfer eitemau 6 ac 11), Kenneth Hughes

---

1. YMDDIHEURIADAU

Nodwyd yr ymddiheuriad am absenoldeb.

2. DATGANIAD BUDDIANT

Bu i'r Cynghorwyr Dafydd Roberts a Mr Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ddatgan buddiant personol a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 8 ar yr agenda a gadawodd y ddau y cyfarfod pan drafodwyd yr eitem.

3. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG

Dim i'w adrodd.

4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod i'w cadarnhau:-

- 16 Rhagfyr 2025

- 6 Ionawr 2026 (arbennig)

Penderfynwyd cadarnhau bod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod yn gywir -

- **16 Rhagfyr 2025**
- **6 Ionawr 2026 (arbennig)**

5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Chwefror a Medi, 2026 i'w gadarnhau.

Diweddarodd y Pennaeth Democratiaeth y Pwyllgor Gwaith ar y newidiadau canlynol i'r Blaenraglen Waith –

- Newid i'r Cyfansoddiad – Cymeradwyaeth derfynol i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor, a Maes Parcio Biwmares yn eitemau newydd ar gyfer cyfarfod 24 Chwefror 2026.
- Mae ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol ar gyfer 2026/27 a'r Ardoll Ymwelwyr yn eitemau a aildrefnwyd i gyfarfod 24 Chwefror 2026.

Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru ar gyfer y cyfnod rhwng Chwefror a Medi 2026 gyda'r newidiadau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod.

6. CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi cyllideb refeniw dros dro y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2026/27 i'w ystyried.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad gan nodi bod y cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft gychwynnol wedi'u trafod yn llawn yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yr wythnos diwethaf. Y cynnydd mewn cyllid ar gyfer Ynys Môn ar gyfer 2026/27 yw 4.2%. Fodd bynnag, oherwydd y setiau data y mae'r fformiwla dyrannu wedi'i seilio arnynt, mae hwn yn cynrychioli un o'r setliadau isaf o blith y cynghorau yng Nghymru. Mae'n is na'r cynnydd cyfartalog o 4.5% gyda'r uchaf - Cyngor Casnewydd, yn derbyn 6.1%.

Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu galw cynyddol, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol i Oedolion a Phlant yn ogystal â phwysau cyflogau sy'n gysylltiedig â'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol, y ddau ohonynt yn cynyddu ar gyfradd uwch na chwyddiant CPI. Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnig cyfanswm cyllideb gychwynnol o £207.023 miliwn, cynnydd o 4.8% yn y Dreth Gyngor ynghyd â 0.3% ar gyfer Ardoll y Gwasanaeth Tân, gan arwain at gynnydd o 5.1%, gan fynd â thâl Band D i £1,792.98. Mae hefyd yn cynnig cadw'r premiwm ail gartrefi a chartrefi gwag ar 100% a rhyddhau £1.685m o falansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27. Ni ddisgwylir unrhyw newidiadau sylweddol i'r ffigurau hyn cyn i'r gyllideb derfynol gael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2026.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y setliad terfynol a dderbyniwyd yr wythnos diwethaf £5,962 yn uwch na'r ffigur a ddyfynnwyd yn yr adroddiad a bydd y gyllideb derfynol a gynigir yn cael ei haddasu yn unol â hynny. Nid yw'r cynnydd yn y dreth gyngor yn cynnwys praeseptau Heddlu Gogledd Cymru na Chyngor Tref a Chymuned, a fydd yn cael eu hychwanegu ar wahân.

Rhoddodd y Cynghorydd Jeff Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adroddiad ar gyfarfod y pwyllgor ar 21 Ionawr 2026 lle bu aelodau'n ystyried yr adroddiad a'r cynigion ar gyfer y gyllideb refeniw ddrafft. Cynhaliodd y pwyllgor drafodaeth lawn a gonest ar gyllid y Cyngor a sut i gydbwyso'r gyllideb a gwahoddwyd cyfraniadau gan aelodau nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor. Rhoddwyd sylw arbennig i gronfeydd wrth gefn y Cyngor, y premiwm ar gartrefi gwag ac ail gartrefi, a'r cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor. Ar ôl ceisio sicrwydd ynghylch nifer o gwestiynau ac ystyried yr ymatebion a ddarparwyd gan yr Aelod Portffolio a'r swyddogion, penderfynodd y pwyllgor gefnogi'r cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb ddrafft ar gyfer 2026/27 fel y'u cyflwynwyd a'u hargymell i'r Pwyllgor Gwaith.

Diolchodd y Pwyllgor Gwaith i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am y drafodaeth fanwl yng nghyfarfod yr wythnos diwethaf. Cydnabu aelodau'r pwyllgor gwaith y gwaith sylweddol sy'n gysylltiedig â pharatoi'r gyllideb, gan nodi ei bod yn broses hir sy'n cynnwys nifer o gyfarfodydd a heriau, gan ddechrau bron yn syth ar ôl i gyllideb y flwyddyn flaenorol gael ei chymeradwyo. Roedd yr Aelodau yn cydnabod y pwysau sy'n wynebu rhai meysydd gwasanaeth ac yn croesawu'r cyllid ychwanegol a neilltuwyd i ddiwallu'r anghenion hynny. Nodwyd hefyd fod y gyllideb yn ceisio gwneud buddsoddiadau lle bo'n bosibl heb roi baich gormodol ar drigolion Ynys Môn, wrth gynnal gwasanaethau craidd. Cafwyd cydnabyddiaeth bellach o'r cyllid parhaus ar gyfer gwasanaethau anstatudol sy'n cael eu gwerthfawrogi gan lawer o drigolion, fel Môn Actif.

Cododd aelod o'r pwyllgor gwaith gwestiwn ynglŷn â'r cais arfaethedig o £364,200 ar gyfer seiberddiogelwch a ystyriwyd yn uchel i'r pwrpas a roddwyd a gofynnodd am weld y cynllun busnes manwl sy'n cefnogi'r cais. Awgrymwyd hefyd fod y buddsoddiad o £81,900 a gynigiwyd ar gyfer rheoli a dadansoddi data yn ymddangos yn isel o ystyried uchelgais y Cyngor i ddod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata.

Eglurodd y Prif Weithredwr fod papur yn cael ei baratoi i'w gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor Gwaith cyn cymryd camau pellach. Er nad yw'n gynllun busnes llawn, bydd yn nodi gwybodaeth ar gyfer y cais cyllido seiberddiogelwch, ac yn ei gyfiawnhau. Gofynnwyd am ragor o fanylion ynghylch sut y bydd y buddsoddiad yn cefnogi cydymffurfiaeth â'r Fframwaith Asesu Seiber ac yn cryfhau diogelwch a pharhad busnes. Er bod y Cyngor wedi ymrwymo i gael ei yrru gan ddata, cadarnhaodd unwaith eto bod yn rhaid i benderfyniadau fod yn gymesur a chytbwys. Cyfeiriodd hefyd at y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio newydd a fydd yn adolygu'r maes hwn a fydd yn cynghori ynghylch unrhyw gamau neu adnoddau eraill sydd eu hangen, neu gyfleoedd i ddefnyddio'r adnoddau presennol yn wahanol.

Penderfynwyd -

- **Y gyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2026/27 o £207.023m.**
- **Cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 4.8%, ynghyd â 0.3% ar gyfer Ardoll y Gwasanaeth Tân, sy'n gyfanswm o 5.1%, gan olygu fod y gost i eiddo Band D yn £1,792.98.**
- **Cynnig yn ffurfiol i gadw'r premiwm ar gartrefi gwag ac ail gartrefi yn 100%.**
- **Bod £1.685m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor a'r arian wrth gefn a glustnodwyd er mwyn cyd-bwyso cyllideb refeniw 2026/27.**

7. STRATEGAETH GYFALAF 2026-2031

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys Strategaeth Gyfalaf 2026-2031 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad, gan nodi bod Cod Darbodus CIPFA diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi strategaeth gyfalaf. Mae'r strategaeth yn nodi gofynion buddsoddi hirdymor y Cyngor sy'n deillio o Gynllun y Cyngor a strategaethau cysylltiedig eraill ynghyd â'r buddsoddiad cyfalaf sy'n ofynnol i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r gofyniad gwariant cyfalaf dros y pum mlynedd nesaf yn cael ei gyflwyno trwy dri senario -

- Achos sylfaenol sy'n defnyddio'r cyllid sydd wedi'i sicrhau
- Achos uchelgeisiol sy'n defnyddio lefel o fenthyca heb gymorth a allai fod yn fforddiadwy os bydd sefyllfa cyllideb refeniw y Cyngor yn gwella
- Achos delfrydol sef y buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni holl amcanion y Cyngor a dod â'r holl asedau presennol i gyflwr derbyniol

Cydnabu'r Cynghorydd Robin Williams fod llawer o adeiladau'r Cyngor yn heneiddio a bod angen buddsoddiad sylweddol ar rai. Er y byddai buddsoddiad o'r fath yn ddymunol, mae'n dibynnu ar lefel cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Bydd yr elw o werthu asedau yn parhau i gael ei ail-fuddsoddi yn yr ystâd.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 mai prif bwrpas y strategaeth yw rheoli lefelau gwariant a benthyca. Mae goblygiadau benthyca a refeniw pob senario wedi'u nodi yn y strategaeth - mae'r achos sylfaen yn cadw costau'n sefydlog, tra bod yr achos delfrydol yn arwain at gostau sylweddol uwch ac anfforddiadwy. Mae'r achos uchelgeisiol yn cynrychioli'r sefyllfa a ffefrir ond mae'n dibynnu ar sicrhau grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae benthyca heb gymorth yn parhau i fod yn opsiwn, ond byddai'r costau cysylltiedig yn disgyn ar drethdalwyr Ynys Môn. Felly, mae angen i'r Cyngor anelu at lefel o wariant rhwng yr achos sylfaenol a'r achos uchelgeisiol, gan nad yw gwariant achos sylfaen yn unig yn ddigon i gynnal asedau presennol.

Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith y gall rheoli asedau fod yn gymhleth a nododd, er y gellir ymestyn oes asedau, mewn rhai achosion, rhaid cynnal adeiladau er mwyn osgoi costau uwch yn y tymor hir. Gyda chyllid cyfalaf a grantiau yn lleihau, mae benthyca yn fwyfwy angenrheidiol. Croesawodd Aelodau'r pwyllgor gwaith lefel y manylder yn y strategaeth, yn enwedig y tri model senario achos, sy'n dangos yn glir yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor o safbwynt gwariant cyfalaf.

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y rhyngberthynas rhwng y strategaeth gyfalaf, Cynllun y Cyngor a chynlluniau strategol eraill. Eglurodd fod gwaith ar y gweill i nodi'r cyllid blynyddol sydd ei angen i gynnal y gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau hynny. Mae bwlch yn parhau rhwng yr adnoddau sydd ar gael a'r hyn sydd ei angen. Er bod y Cyngor wedi llwyddo i sicrhau grantiau, bydd angen ystyried adolygu ystâd y Cyngor i leihau nifer yr adeiladau a'r lleoliadau. Mae'r rhain yn benderfyniadau hirdymor, wedi'u cymhlethu gan amodau sy'n gysylltiedig â llawer o adeiladau, ac ni ellir eu gwneud yn gyflym.

Penderfynwyd argymell y Strategaeth Gyfalaf 2026 - 2031 i'r Cyngor Llawn.

8. PREMIWM Y DRETH GYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad ar opsiynau mewn perthynas â'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 29 Medi 2025 a daeth i ben ar 7 Tachwedd 2025 ac roedd yn agored i drigolion Ynys Môn yn ogystal â pherchnogion eiddo gwag hirdymor.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad, gan nodi bod sawl opsiwn wedi'u hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad fel y manylir yn yr adroddiad. Derbyniwyd cyfanswm o 449 o ymatebion, o'r rheini roedd 136 wedi'u cwblhau'n rhannol a 313 wedi'u cwblhau'n llawn. Ar ôl ystyried yr ymatebion, yr opsiwn a argymhellir gan y Pwyllgor Gwaith yw Opsiwn 5 – i osod lefel y premiwm yn seiliedig ar faint o amser y mae'r eiddo wedi bod yn wag:

- llai na 5 mlynedd – 100%.
- rhwng 5 a 6 blynedd – 125%.
- rhwng 6 a 7 mlynedd – 150%.
- rhwng 7 ac 8 mlynedd – 175%.
- rhwng 8 a 9 mlynedd – 200%.
- rhwng 9 a 10 mlynedd – 250%.
- dros 10 mlynedd – 300%

Byddai hyn yn cael ei weithredu o fis Ebrill 2027. Y nod yw annog perchnogion eiddo gwag hirdymor i ddod â'u heiddo yn ôl i ddefnydd, gan helpu i ddarparu cartrefi diogel a fforddiadwy a chynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn lleol. Tynnodd y Cynghorydd Robin Williams sylw at y ffaith bod eithriadau i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor, sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Cadarnhaodd Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau y byddai perchnogion eiddo gwag hirdymor yn cael eu hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau i'r trefniadau premiwm presennol os cânt eu cymeradwyo. Cadarnhaodd ymhellach fod gan y gwasanaeth ddigon o gapasiti i ddelio ag unrhyw ymholiadau.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y gallai'r 805 eiddo gwag ar yr Ynys helpu i fynd i'r afael ag anghenion tai ar hyn o bryd, o ystyried bod tua 950 o bobl, gan gynnwys teuluoedd, ar restr aros y gofrestr dai. Yr amcan yw dod â'r eiddo hwn yn ôl i ddefnydd trwy werthu neu rentu fel rhan o strategaeth ehangach i leihau nifer y cartrefi gwag a chefnogi amcan Cynllun y Cyngor i sicrhau bod gan bawb le i'w alw'n gartref.

Cydnabu aelodau'r pwyllgor gwaith y gallai rhai unigolion fod wedi etifeddu cartrefi mawr y mae angen gwneud gwaith uwchraddio sylweddol arnynt, gan eu gwneud yn anodd eu gwerthu. Fodd bynnag, nodwyd bod y mwyafrif o eiddo gwag hirdymor yn dod o fewn Bandiau Treth y Cyngor A i D, gyda llai na chwarter ym Mand E neu uwch (gweler Tabl 1.3). Nododd yr Aelodau hefyd fod cynlluniau ar gael i helpu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, fel Cynllun Prydlesu Cymru ac anogodd unrhyw un sy'n ansicr o'u sefyllfa i esbonio eu hamgylchiadau a gofyn am gyngor gan y Cyngor. Pwysleisiodd bwysigrwydd cyfathrebu'n glir â pherchnogion eiddo gwag i esbonio'r rhesymeg dros newid y premiwm.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod o'r pwyllgor gwaith ynghylch a allai gwybodaeth ynghylch newidiadau i'r premiwm hefyd gynnwys gwybodaeth am gynlluniau cymorth fel Cynllun Prydlesu Cymru wrth gyfathrebu ag unigolion, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau y byddai'n edrych ar hyn.

Penderfynwyd -

- **Nodi canlyniad yr ymgynghoriad ar Bremiwm y Dreth Gyngor.**
- **Cymeradwyo Opsiwn 5 fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2027 - gosod lefel y premiwm yn seiliedig ar y cyfnod y mae'r eiddo wedi bod yn wag o'r dyddiad y daeth yn wag ond gan ddechrau â phremiwm o 100%.**

DRAFT

- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn ystyried sut y dylid dyrannu'r incwm cysylltiedig yn unol â blaenoriaethau strategol y Cyngor.**

9. GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL DIBRESWYL YN Y GYMUNED – FFIOEDD A THALIADAU 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i osod y ffioedd a'r taliadau ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymunedol ar gyfer 2026/27 i'w ystyried.

Yn absenoldeb Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, cyflwynodd y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones, Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nodwyd bod ffioedd am wasanaethau gofal cartref yn cael eu hadolygu'n flynyddol i gyd-fynd ag adolygiad y Llywodraeth Ganolog o lefelau pensiwn a budd-daliadau.

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau trwy ei setliad bod y cap wythnosol o £100 ar ofal dibreswyl yn cael ei gadw. Mynegodd y Cynghorydd Alun Roberts, fel cyn-aelod o bortffolio Gwasanaethau Oedolion, siom am y penderfyniad hwn, gan nodi bod pwysau parhaus wedi bod ar Lywodraeth Cymru i godi'r cap fel bod ffioedd yn adlewyrchu'n fwy cywir y gost wirioneddol o ddarparu gwasanaethau.

Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol -

- **Codi'r uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cartref.**
- **Y taliadau ar gyfer gwasanaethau Teleofal, fel yr amlinellir yn Nhabl A yr adroddiad:**
  - **Haen 1 – bydd pawb yn talu £81.25 y chwarter**
  - **Haen 2 – bydd pawb yn talu £159.25 y chwarter**
- **Y taliadau blynyddol ar gyfer gwasanaethau Teleofal, fel yr amlinellir yn Nhabl B yr adroddiad:**
  - **Gwasanaethau a Chynnal a Chadw £147.95**
  - **Gwasanaethau yn unig £95.00**
  - **Costau gosod unwaith ac am byth £59.20**
- **Cyfradd o £17.85 yr awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol**
- **Gweithredu tâl o £20.00 yr awr ar gyfer Micro Ofalwyr**
- **Cadw'r taliad o £10.00 ar gyfer gweinyddu ceisiadau am Fathodynnau Glas a darparu bathodynnau newydd fel yr amlinellwyd**
- **Cynnydd o 3.8%, i £46.85 y dydd, yn y ffi ar gyfer prynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol**
- **Cynnydd o £1.38 yr awr yn y ffioedd Gofal Cartref, i gyd-fynd â'r cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol**
- **Y taliadau ar gyfer Prydau Bwyd mewn Gwasanaethau Dydd, fel yr amlinellir yn Nhabl C yr adroddiad:**
  - **Prydau mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer oedolion (ac eithrio pobl ag anableddau dysgu) - £8.10**

DRAFT

- **Byrbryd ganol dydd mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu - £3.45**
- **Lluniaeth arall (te / coffi / teisen) mewn Gwasanaethau Dydd - £1.95**

10. CARTREFI PRESWYL YR AWDURDOD LLEOL I BOBL HŶN – GOSOD Y TÂL SAFONOL AR GYFER 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i osod y tâl safonol ar gyfer cartrefi gofal y Cyngor ar gyfer 2026/27.

Yn absenoldeb Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, cyflwynodd y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones, Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yr adroddiad, gan nodi bod gosod y tâl blynyddol yn ofyniad o dan Adran 22 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

Mewn ymateb i gais gan aelod o'r pwyllgor gwaith am ddiweddariad ynghylch y galw am ofal dementia a gallu'r gwasanaeth i ymateb, cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y sefyllfa'n parhau i fod yn heriol. Mae rhestr aros ar gyfer unigolion sydd angen gofal dementia, gyda'r galw yn cynyddu, yn enwedig am ofal nyrsio dementia nad yw'r Cyngor yn ei ddarparu. Mae'r rhain yn feysydd lle mae'n anodd sicrhau lleoliadau. Mae'r gofyniad am ddarparwyr posibl hefyd yn fwy llym o ran lefelau staffio a'r amgylchedd ffisegol. Er y byddai twf yn y ddarpariaeth yn y meysydd hyn yn ddymunol, mae cyflawni hyn yn parhau i fod yn her ar hyn o bryd.

Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith ymrwymiad ac ymroddiad staff sy'n gofalu am unigolion sy'n byw gyda dementia.

Penderfynwyd -

- **Mai'r ffi safonol ar gyfer cartrefi preswyl yw £1,026.52 yr wythnos, sef y gost lawn am y gwasanaeth.**
- **Oherwydd y cytunwyd yn 2025/26 fod cost lawn y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno dros gyfnod o 3 blynedd, caiff cost lawn y gwasanaeth gofal preswyl dementia ei ostwng i £1,150.99 yr wythnos yn 2026/27.**

11. TUAG AT GYNLLUN STRATEGOL SERO NET 2026-2031

Cyflwynwyd adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a oedd yn cynnwys y Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2026-2031 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Ieuan Williams, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd yr adroddiad gan nodi y bydd y Cynllun arfaethedig yn parhau i hyrwyddo nod y Cyngor o ddod yn sefydliad sero net. Mae'n adeiladu ar y cynnydd a'r gwersi o'r Cynllun Strategol Tuag at Sero Net blaenorol 2022-2025 fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad Pwynt Diwedd. Mae'r cynllun newydd yn cydnabod nad yw targed 2030 y Cyngor ar gyfer cyrraedd statws sero net yn ymarferol o fewn yr adnoddau presennol, yr amser sydd ar gael neu raddfa'r datgarboneiddio sydd ei angen. Felly, mae'n cynnig gosod targed sy'n gyson â tharged carbon sero net Cymru erbyn 2050 a osodwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r cynllun yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn parhau i drawsnewid y fflyd trwy leihau allyriadau carbon, cynyddu'r carbon a amsugnir a chryfhau gwytnwch sefydliadol i hinsawdd sy'n newid. Mae'n nodi chwe maes blaenoriaeth allweddol sy'n cynnwys asedau ac

allyriadau tai, allyriadau trafnidiaeth y Cyngor, allyriadau'r gadwyn gyflenwi, defnydd tir, adfer natur a bioamrywiaeth, datblygu sefydliadol, a phrosiectau strategol a gwytnwch hinsawdd.

Tynnodd y Cynghorydd Ieuan Williams sylw at oblygiadau ariannol gweithio tuag at sero net a nododd nad yw cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i gynnwys yn y setliad, er bod grantiau ar gael ac y gall y Cyngor gael mynediad at fenthyciadau di-log ar gyfer rhai gweithgareddau. Esboniodd hefyd y trefniadau monitro a llywodraethu ac argymhellodd fod y Rheolwr Newid Hinsawdd yn goruchwylio'r holl gynlluniau gweithredu sero net lefel gwasanaeth a'u cydgrynhoi mewn un cynllun. Cynigiodd ymhellach y dylid penodi aelod etholedig naill ai o'r Pwyllgor Gwaith neu'r Pwyllgor Sgriwtini i'r Grŵp Llywio Sero Net.

Rhoddodd y Cynghorydd Jeff Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adroddiad ar gyfarfod y pwyllgor ar 21 Ionawr 2026 lle bu aelodau'n ystyried y Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2026-31. Cafodd y pwyllgor ei ddiweddaru ynghylch yr hyn a gyflawnwyd o dan y cynllun blaenorol a blaenoriaethau'r Cyngor o dan y cynllun newydd. Cafodd yr aelodau eu sicrhau hefyd ynglŷn â'r trefniadau monitro a llywodraethu sydd ar waith i sicrhau cynnydd. Roedd y pwyllgor wedi ceisio sicrwydd pellach ar faterion sy'n ymwneud ag asedau a thrafnidiaeth y Cyngor, yn ogystal â'r prif risgiau a'r heriau wrth leihau allyriadau carbon. Ar ôl adolygu'r cynllun, penderfynodd y pwyllgor argymell y Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2026-31 i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo.

Croesawodd y Pwyllgor Gwaith y cynllun a chydnabu'r cynnydd sylweddol a wnaed o dan y cynllun blaenorol. Roedd yr Aelodau yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â chyflawni sero net ond pwysleisiodd ei bwysigrwydd i les cenedlaethau'r dyfodol a'r amgylchedd ehangach.

Cydnabu'r Prif Weithredwr hefyd y gwaith a wnaed i ddod â phob rhan o'r Cyngor at ei gilydd ar yr agenda sero net. Pwysleisiodd fod hon yn daith hirdymor, yn enwedig o ystyried nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y Cyngor. Nododd, er bod gan y Cyngor hanes da o sicrhau grantiau a'i fod yn deall ei nodau sero net a sut i'w cyflawni, nid oes ganddo'r capasiti ar hyn o bryd i'w cyflawni ar y raddfa angenrheidiol oherwydd adnoddau cyfyngedig.

Cadarnhaodd fod gwaith i baratoi trosolwg cyffredinol wedi dechrau. Eglurodd hefyd, oherwydd pwysigrwydd strategol sero net, fod y grŵp llywio o fewn cylch gwaith Tîm Rheoli'r Cyngor i ddarparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd ochr yn ochr â chyfrifoldebau strategol allweddol eraill. Sicrhaodd yr aelodau y bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i gais yr Aelod Portffolio ynghylch cynnwys aelodau etholedig, gan gynnwys sut y gellid ei sicrhau er mwyn hwyluso'r broses o ymgysylltu a dylanwadu ar y gwaith hwn o fewn y trefniadau llywodraethu presennol.

Penderfynwyd mabwysiadu'r Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2026-2031.

Y Cynghorydd Gary Pritchard
Cadeirydd

DRAFT

F2. 2025/07

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	24 Chwefror 2026
Pwnc:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Aelod(au) portffolio:	Y Cynghorydd Gary Pritchard
Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr adroddiad:	Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Aelodau lleol:	Amherthnasol

A – Argymhellion a rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

- gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mawrth – Hydref 2026**
- adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda phwyllgorau sgriwtini'r Cyngor
- nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

Amherthnasol

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i'r dyfodol? Os felly, sut?

Amherthnasol

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.

Amherthnasol

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

Amherthnasol

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Amherthnasol

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Amherthnasol

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Amherthnasol

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth
2. Cyllid / Swyddog 151	Gweler uchod
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Gweler uchod
4. Adnoddau Dynol	Amherthnasol
5. Eiddo	Amherthnasol
6. Technoleg Gwybodaeth	Amherthnasol

7. Caffael	Amherthnasol
8. Sgriwtini	Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau bwyllgor sgriwtini, er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.
9. Aelodau lleol	Amherthnasol

F – Atodiadau

Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mawrth – Hydref 2026

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

Cyngor Sir Ynys Môn

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Mawrth - Hydref 2026

Mae'r flaen raglen waith hon yn rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgriwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae'r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw'r ffaith nad yw penderfyniad wedi'i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 13 Chwefror 2026

Mawrth 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Penderfyniad dirprwyiedig	Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2024/25	Cyng Alun Roberts	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 17.03.26
Cyfarfod 24.03.26	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 3, 2025/26	Cyng Robin Williams	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.03.26
	Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2026-2056	Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.03.26

Ebrill 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 28.04.26	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	

Mai 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod Mai 2026	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Datblygiad gogledd yr ynys – cytuno menter ar y cyd efo Llywodraeth Cymru	Cyng Gary Pritchard	

Mehefin 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Penderfyniad dirprwyiedig	Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2025/26	Cyng Dafydd Roberts	
Cyfarfod Mehefin 2026	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 4, 2025/26	Cyng Robin Williams	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 4, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Adnoddau
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 4, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Adnoddau
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 4, 2025/26	Cyng Robin Williams Cyng Carwyn Jones	Panel Sgriwtini Adnoddau

Gorffennaf 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod Gorffennaf 2026	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cyfrifon terfynol drafft 2025/26 a defnydd o arian wrth gefn a balansau	Cyng Robin Williams	
	Cynllun Datblygu Lleol – Ymgynghoriad ar y strategaeth a ffefrir	Cyng Nicola Roberts	

Medi 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod Medi 2026	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 1, 2026/27	Cyng Robin Williams	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2026/27	Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Adnoddau
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 1, 2026/27	Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Adnoddau
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 1, 2026/27	Cyng Robin Williams Cyng Carwyn Jones	Panel Sgriwtini Adnoddau

Hydref 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod Hydref 2026	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	**PWYLLGOR GWAITH**
Dyddiad:	**24 CHWEFROR 2026**
Pwnc:	**MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 3 2025/26**
Deilydd Portffolio:	**CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER**
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	**MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	**BETHAN HUGHES OWEN - RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG** 01248 752663 BethanOwen2@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	**d/b**

A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

Argymhellion

(i) Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B a C mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2025/26;
(ii) Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2025/26, y manylir arnynt yn Atodiad CH;
(iii) Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2025/26 yn Atodiadau D a DD;

Rheswm

Mae'r sefyllfa gyffredinol a ragwelir ar ddiwedd y trydydd chwarter yn awgrymu y bydd tanwariant o £1,865k (0.95%) yn y gyllideb refeniw erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 3, 31 Rhagfyr 2025. Mae'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan yn cael ei chrynhoi hefyd. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd chwarter 3 yn rhoi mwy o sicrwydd i ni, o gymharu â'r rhagolygon blaenorol ar ddiwedd chwarteri 1 a 2, gan fod y rhagolwg hwn wedi'i seilio ar incwm a gwariant gwirioneddol dros gyfnod o 9 mis. Er hynny, mae'n parhau i fod yn anodd darogan y sefyllfa mewn rhai meysydd allweddol, gan olygu y gallai'r sefyllfa derfynol fod yn wahanol i'r rhagolwg hwn. Y meysydd allweddol yw:-

1. Newid yn y ceisiadau am wasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw, yn bennaf lleoli plant mewn gofal, y galw am wasanaethau oedolion, digartrefedd, cludiant ysgol ac addysg allsirol.
2. Derbyn cyllid grant ychwanegol yn ystod y chwarter olaf.
3. Gwariant unwaith ac am byth nad oedd wedi cael ei rhagweld.
4. Anawsterau recriwtio a chadw staff, sy'n arwain at fwy na'r disgwyl o swyddi gweigion.
5. Tywydd annisgwyl / anarferol.

O ganlyniad i'r sefyllfa a ragwelir a newidiadau eraill, bydd gan y Cyngor falans cyffredinol o £17.57m (9.0% o gyllideb refeniw net 2025/26) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac mae hyn £7.8m yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymell i'r Cyngor.

Oherwydd bod y rhagolwg ariannol cyffredinol yn rhagweld tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a chan fod disgwyl i lefel y balansau cyffredinol fod yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymell, nid oes angen i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo unrhyw gamau unioni.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol - Adroddiad monitro yw hwn ac nid yw'n cynnwys opsiynau i'w hystyried.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Mae monitro cyllideb y Cyngor yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.		
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydi.		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Ydi, ond mae unrhyw newidiadau o gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi yn yr adroddiad.		
DD – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	**Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?**	Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio gydag adroddiadau eraill, i lunio'r cynllun ariannol tymor canol a'r gyllideb flynyddol. Bydd yr effaith ar anghenion hirdymor yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol.
2	**A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?**	Amherthnasol
3	**A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy.**	Amherthnasol
4	**A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.**	Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2025/26 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol.
5	**Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.**	Amherthnasol
6	**Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.**	Amherthnasol
7	**Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**	Amherthnasol
E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		**Beth oedd eu sylwadau?**
1	**Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol)	Rhannwyd copi drafft o'r adroddiad gydag aelodau'r TA ac mae'r adroddiad terfynol yn ymgorffori unrhyw sylwadau a dderbyniwyd.
2	**Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol)	Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.

3	**Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)**	Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried.
4	**Adnoddau Dynol (AD)**	Amherthnasol
5	**Eiddo**	Amherthnasol
6	**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**	Amherthnasol
7	**Sgriwtini**	Adolygodd y Panel Sgriwtini Cyllid y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 2 yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2025.
8	**Aelodau Lleol**	Amherthnasol
9	**Unrhyw gyrff allanol / eraill**	Amherthnasol

F - Atodiadau:

- Atodiad A - Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2025/26
- Atodiad B - Tabl Alldro Dros Dro 2025/26
- Atodiad C - Dadansoddiad o'r Amrywiant a Ragwelir fesul Gwasanaeth a'r Rhesymau
- Atodiad CH - Crynodeb o sefyllfa Cyllidebau wrth Gefn ar gyfer 2025/26
- Atodiad D - Gwybodaeth ynglŷn â monitro Staff Asiantaeth 2025/26
- Atodiad DD - Gwybodaeth ynglŷn â monitro ymgynghorwyr 2025/26
- Atodiad E - Cost Newidiadau 2025/26

FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

Cyllideb Refeniw 2025/26 (fel y'i hargymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 27 Chwefror 2025 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 6 Mawrth 2025)

ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 3 2025/26

1. Y GYLLIDEB REFENIW A GYMERADWYWYD AR GYFER 2025/26

1.1 Cymeradwyodd y Cyngor gyllideb refeniw net ar gyfer 2025/26 fel a ganlyn:-

Tabl 1
Cyllideb a Chyllid a Gymeradwywyd ar gyfer 2025/26

	£'000	£'000
Cyfanswm Gwariant Refeniw a Gymeradwywyd		
Diwygiadau i'r Gyllideb ers Cymeradwyaeth	195,442	
Defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor	(2,459)	
Cyllideb Gymeradwy Gyfredol ar gyfer 2025/26 (Net o gronfeydd wrth gefn)		**192,983**
Cyllidir gan	135,881	
Cyllid Allanol Cyfun (CAC)	52,843	
Debyd Dreth Gyngor Safonol a Godwyd	4,259	
Premiwm y Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi a Chartrefi Gwag		
		192,983

2. Y SEFYLLFA A RAGWELIR AR GYFER Y GYLLIDEB AR DDIWEDD CHWARTER 3 2025/26

2.1 Mae amcangyfrif o'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd chwarter 3 wedi'i gynnwys yn Nhabl 2, isod:-

Tabl 2
Crynodeb o'r Sefyllfa Ariannol a Ragwelir ar ddiwedd Chwarter 3

	Cyllideb 2025/26	Rhagolwg Ch 3 (Tan) / Gorwariant	% Amrywiant	Rhagolwg Ch 2 (Tan) / Gorwariant	Symudiad
	£'000	£'000	%	£'000	£'000
Cyllidebau Gwasanaeth	178,958	463	0.26	403	60
Cyllidebau Corfforaethol	16,484	(1,267)	(7.59)	(1,055)	(212)
Cronfeydd Cyffredinol	(2,459)	0	0.00	0	0
Gwariant Refeniw Net	**192,983**	**(804)**	**(0.41)**	**(652)**	**(152)**
Cyllid Allanol Cyfun (CAC)	135,881	0	0	0	0
Y Dreth Gyngor Safonol	52,843	(483)	(0.91)	(564)	81
Premiwm y Dreth Gyngor	4,259	(578)	(13.57)	(491)	(87)
Cyllid Net	**192,983**	**(1,061)**	**(0.54)**	**(1,055)**	**(6)**
Rhagolwg o'r (Tan) / Gor Wariant Net	**0**	**(1,865)**	**(0.95)**	**(1,707)**	**(158)**

2.2 Mae amcangyfrif o sefyllfa Balansau Cyffredinol y Cyngor i'w weld yn Nhabl 3, isod:-

Tabl 3
Amcangyfrif o Falansau Cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2026

	Swm £'m	Pwrpas
Balans Agoriadol	(18,166)	Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2025
Cyllid ar gyfer Cyllideb 2025/26	2,459	
Y Sefyllfa a Ragwelir 2025/26	(1,865)	Yn unol â Thabl 2, uchod
Amcangyfrif o Falansau Cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2026	**17,572**	

3. PERFFORMIAD ARIANNOL FESUL GWASANAETH

3.1 Dengys y sefyllfa gyfun gyffredinol ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor fod gorwariant o £0.363m yn cael ei ragweld ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r dadansoddiad fesul gwasanaeth wedi'i gynnwys yn Nhabl 4, isod:-

Tabl 4
Dadansoddiad o'r Sefyllfa a Ragwelir ar gyfer y Gyllideb, fesul Gwasanaeth

Gwasanaeth	(Tan) / Gorwariant £'000	%
Addysg Ganolog	(189)	(3.49)
Gwasanaethau Oedolion	(1,246)	(2.91)
Gwasanaethau Plant	1,625	9.26
Tai	(182)	(9.01)
Datblygu Economaidd, Hamdden a Morwrol	(113)	(3.43)
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	172	5.59
Priffyrdd	(244)	(2.89)
Busnes y Cyngor	262	11.72
Trawsnewid	(451)	(5.79)
Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer (Yswiriant, Costau Cyfalaf Pensiynau, Darpariaeth ar gyfer Drwg Ddyledion)	600	-
Gwasanaethau Eraill (Amrywiadau o dan £100k)	181	0.21
Cyfanswm Amrywiadau Gwasanaeth	**463**	**0.26**

3.2 Mae gorwariant sylweddol mewn tri gwasanaeth. Rhagwelir gorwariant o £1,625k yn y Gwasanaethau Plant, oherwydd costau lleoliadau sy'n parhau i gynyddu, ynghyd â chynnydd yn nifer y plant mewn gofal. Rhagwelir gorwariant o £172k yn y gwasanaeth Cynllunio, yn bennaf oherwydd problemau staffio yn y tîm Rheolaeth Adeiladu. Bu'n rhaid cyflogi staff ychwanegol ac mae hyn wedi effeithio ar yr incwm a gynhyrchwyd. Rhagwelir gorwariant hefyd o £262k yn y swyddogaeth Busnes y Cyngor oherwydd bod problemau recriwtio'n golygu fod rhaid cyflogi cyfreithwyr locwm i lenwi swyddi.

3.3 Y prif wasanaethau sy'n tanwario yw'r Gwasanaethau Oedolion, Addysg Ganolog a TGCh. Mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi manteisio ar nifer o ddigwyddiadau unwaith ac am byth sydd naill ai wedi cynyddu incwm neu leihau costau. Cyfanswm y digwyddiadau unwaith ac am byth hyn yw £2.4m a, phe baent yn cael eu diystyru, byddai'r gwasanaeth yn wynebu gorwariant o £1.2m.

3.4 Mae'r tanwariant a ragwelir ar gyfer Addysg Ganolog wedi lleihau o £258k yn chwarter 2 i £189k ar ddiwedd chwarter 3. Y prif reswm am y newid yn y tanwariant yw bod y cyllid grant ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim i Bawb wedi cynyddu ac mae llai o alw am brydau ysgol ond mae hyn yn cael ei gydbwyso gan gynnydd yn y cyllid ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

3.5 Nifer o swyddi gweigion ar ddechrau'r flwyddyn sydd i gyfrif yn bennaf am y tanwariant yn y gwasanaeth TGCh, ac mae nifer fechan o swyddi'n parhau i fod yn wag, gan ychwanegu at y tanwariant a ragwelir.

3.6 Mae'r prif resymau am y gwahaniaethau'n cael eu crynhoi yn Nhabl 5, isod, ac mae dadansoddiad mwy manwl fesul Gwasanaeth ac Is-wasanaeth wedi'i gynnwys yn Atodiad C:-

Tabl 5
Dadansoddiad o'r Amrywiant a Ragwelir yn ôl Rheswm

	Amrywiant a Ragwelir £'000
Amrywiant mewn costau o ganlyniad i newid yn y galw am wasanaethau	3,247
Amrywiant mewn costau staffio oherwydd swyddi gweigion, net o gostau staff dros dro ychwanegol a staff asiantaeth	(871)
Newidiadau mewn prisiau contractau nad oedd y gyllideb a gymeradwywyd yn darparu ar eu cyfer	(99)
Newidiadau mewn cyllid grant sy'n cynyddu neu'n lleihau'r gofyn am gyllid o'r gyllideb graidd	(1,020)
Incwm o ffioedd a thaliadau sy'n (uwch) / is na'r targed incwm	(1,956)
Amrywiant mewn costau sy'n gysylltiedig ag adeiladau	(294)
Amrywiant mewn costau sy'n gysylltiedig â chyflogi ymgynghorwyr allanol	23
Trosglwyddo cyllid i / (o) gronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol	431
Camgymeriadau amlwg yn y broses gosod cyllideb	20
Rhesymau amrywiol	982
CYFANSWM YR AMRYWIANT A RAGWELIR	**463**

3.7 Mae'r tabl uchod yn amlygu mai cynnydd yn y galw am wasanaethau sy'n parhau i greu'r prif bwysau ar gyllideb y Cyngor, ac mae'n gyfrifol am werth £3.247m o bwysau ychwanegol ar y gyllideb. Y Gwasanaethau Oedolion a Phlant sy'n profi'r pwysau mwyaf ar y galw. Mae'r pwysau hwn yn cael ei wrthbwyso gan gyllid grant ac incwm ffioedd ychwanegol sydd £1.956m yn uwch na'r gyllideb. Mae swyddi gweigion yn y Gwasanaethau Oedolion, y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth TG hefyd yn lleihau gwariant ac mae hynny'n lliniaru'r pwysau ariannol yn sgil y galw am wasanaethau.

4 PERFFORMIAD ARIANNOL CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

4.1 Dangosir y sefyllfa ariannol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol yn Nhabl 6, isod:-

Tabl 6
Y Sefyllfa Ariannol a Ragwelir ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol 2025/26

	Cyllideb 2025/26	Rhagolwg o'r (Tan) / Gorwariant Ch 3	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant
	£'000	£'000	%	
Ardollau	5,276	0	0.00	
Rhyddhad Trethi Dewisol	106	68	64.12	Nifer uwch o geisiadau.
Cyllido Cyfalaf	4,637	(1,482)	(31.96)	Costau llog is oherwydd llai o fenthyca na'r disgwyl. Enillion uwch ar fuddsoddiadau gan fod cyfraddau llog wedi aros yn uchel.
Budd-daliadau a Roddwyd	7,459	41	0.55	Cynnydd disgwyliedig oherwydd bod lefelau diweithdra yn codi
Ail-godi tâl ar y CRT am Wasanaethau Cefnogi	(840)	84	10.00	Costau îs gwasanaethau canolog oherwydd swyddi gweigion
Arbedion i'w Gwneud	(22)	22	100.00	
Cyllidebau wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill	822	0	0	
Defnyddio Cronfeydd Cyffredinol	(2,459)	0	0	
CYFANSWM	**14,979**	**(1,267)**	**(7.59)**	

5. CASGLU'R DRETH GYNGOR

5.1 Mae cyllideb Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2024. Nid yw'n caniatáu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd a fu, addasiadau i rwymedigaethau yn codi o flynyddoedd y gorffennol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddo eiddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol, neu ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn pan osodir y gyllideb ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Fel arfer, bydd yr incwm a ragwelir ar gyfer y Dreth Gyngor yn gostwng yn ystod y flwyddyn wrth i gamau adennill gael eu cymryd ac wrth i drethdalwyr hawlio eithriadau a gostyngiadau sy'n ddyledus iddynt. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd incwm craidd y Dreth Gyngor £483k yn uwch na'r gyllideb, ac mae hyn £81k yn is na'r rhagolwg ar ddiwedd chwarter 2.

5.2 Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, fel y cyfryw, mae risg y gallai nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, gosodwyd sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sy'n talu'r premiwm ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn cynhyrchu gwarged. Newidiwyd y rheolau ynghylch pwy sy'n gymwys i dalu trethi busnes ar lety hunan arlwyo ac mae nifer o eiddo wedi cael eu trosglwyddo'n ôl o'r gofrestr trethi busnes i'r gofrestr Dreth Gyngor o ganlyniad i hyn. Mae hyn yn golygu fod mwy o eiddo yn gorfod talu'r premiwm ar ail gartrefi. O ganlyniad, rhagwelir gwarged o £578k ar gyllideb premiwm y Dreth Gyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sef £87k yn uwch na rhagolwg chwarter 2. Fodd bynnag, mae risg sylweddol y bydd apeliadau'n cael eu penderfynu yn 2025/26 mewn perthynas ag eiddo hunanarlwyo a drosglwyddwyd o'r gofrestr trethi busnes i'r gofrestr Dreth Gyngor yn 2024/25. Er mwyn gwrthbwyso'r risg hwn, rhoddwyd £900k mewn cronfa wrth gefn glustnodedig ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25 fydd yn cael ei ddefnyddio i ad-dalu treth gyngor os bydd angen ar ddiwedd y broses apelio.

6. CYLLIDEBAU WRTH GEFN

6.1 Cyfanswm gwreiddiol y cyllidebau wrth gefn oedd £586k, ac roedd yn cynnwys grant gwerth £2m ar gyfer cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Mae'r trosglwyddiadau net i gyllidebau gwasanaeth a throsglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn clustnodedig ac ohonynt wedi cynyddu'r gyllideb i £2.080m ar ddiwedd chwarter 3 (heb gynnwys y grant yswiriant gwladol). Ar hyn o bryd ystyrir bod y gyllideb gyfan wedi'i hymrwymo, er bod ansicrwydd ynglŷn â faint o'r symiau sy'n weddill yn y gyllideb wrth gefn gyffredinol a'r gyllideb wrth gefn ar gyfer tâl a graddio fydd angen ei ddefnyddio yn ystod y chwarter olaf. Bydd unrhyw falans sydd heb gael ei ddefnyddio yn y cronfeydd yma yn cyfrannu at y sefyllfa net gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn, h.y. gallai gynyddu'r tanwariant. Bydd unrhyw danwario ar gyllidebau wrth gefn eraill yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn clustnodedig penodol, gweler Atodiad CH.

7. COSTAU ASIANTAETH AC YMGYNGHORWYR

7.1 Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £1,298k ar staff Asiantaeth, a'r gwasanaeth Gwastraff oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwariant er mwyn cyflogi staff i weithio yn y canolfannau ailgylchu, y Gwasanaethau Oedolion er mwyn cyflogi staff llanw mewn cartrefi preswyl, cyflogi staff asiantaeth i lenwi swyddi gweigion o fewn Busnes y Cyngor ac yn Adnoddau i lenwi swyddi gweigion a gwneud gwaith ychwanegol.

7.2 Mae'n rhaid defnyddio staff asiantaeth mewn canolfannau ailgylchu a chartrefi preswyl i sicrhau parhad gwasanaeth ac mae'r costau'n cael eu cyllido o gyllidebau craidd. Mae defnyddio staff asiantaeth yn hanfodol bellach yn y Gwasanaethau Cyfreithiol ac o fewn Caffael oherwydd problemau recriwtio, ac mae'r costau'n cael eu cyllido o gyllidebau staffio cyfredol a chronfeydd wrth gefn. Defnyddiwyd staff adennill ychwanegol i ddelio â'r dyledion sydd heb eu casglu a bydd hyn yn cynhyrchu incwm ychwanegol i'r Cyngor fydd yn talu am gostau'r staff asiantaeth.

7.3 Gwariwyd cyfanswm o £805k ar Ymgynghorwyr yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2025, ac roedd £449k o'r gwariant hwnnw wedi'i gyllido gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae Atodiad DD yn cynnwys crynodeb llawn o'r gwariant fesul gwasanaeth.

8. CRONFA COSTAU NEWIDIADAU

8.1 Gwariwyd £72k hyd yma ar brosiectau unigol oedd i'w cyllido o'r Gronfa Cost Newidiad, a gwariwyd £26k yn ystod 2025/26. Cytunwyd ar bum prosiect yn 2024/25, a chyfanswm y gyllideb ar gyfer y prosiectau yw £107k. Mae'r manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad E. Mae 2 brosiect arall wedi cael eu cymeradwyo yn 2025/26, a chyfanswm y gost yw £188k. Mae hyn yn golygu fod £105k yn weddill yn y gronfa sydd heb gael ei ymrwymo.

9. CASGLIADAU

9.1 Y sefyllfa diwedd blwyddyn a ragwelir ar ddiwedd y trydydd chwarter yw tanwariant o £2.730m yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2026. Er bod risg sylweddol yn parhau y gallai'r swm newid yn ystod y chwarter olaf, wrth roi cyfrif am effaith dau fis diwethaf y gaeaf, ynghyd ag unrhyw ddigwyddiadau sylweddol sy'n effeithio ar incwm neu wariant a allai ddigwydd yn ystod y chwarter olaf.

9.2 Mae'r sefyllfa mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol yn creu pryder arbennig, a rhagwelir gorwariant o £1.625m yn y Gwasanaethau Plant. Mae'r rhagolwg yn seiliedig ar lefel bresennol y galw, ond mae'r galw'n amrywio yn ystod y flwyddyn a gall newid yn sylweddol, e.e. gall un lleoliad ar gyfer cleient dibyniaeth uchel sydd ag anghenion gofal arbenigol gostio rhwng £250k a £500k. Bydd unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau'n golygu fod y sefyllfa'n gwaethygu.

9.3 Er bod y rhagolwg ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion yn dangos tanwariant o £1.246m, mae nifer o ffactorau unwaith ac am byth yn helpu'r sefyllfa. Ar ôl diystyru'r ffactorau hyn, y sefyllfa wirioneddol yw gorwariant o £1.2m.

9.4 Mae sefyllfa ariannol cyffredinol y Cyngor yn iach, ac mae'r tanwariant yn cyfrannu at gynnydd yng nghronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor. Mae hyn, unwaith eto, yn caniatáu i'r Cyngor ddefnyddio arian wrth gefn i gynorthwyo i gydbwyso cyllideb 2026/27, ac mae'n parhau i fod yn opsiwn ar gyfer 2027/28.

ATODIAD B

RHAGOLWG O'R ALLDRO REFENIW AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL A DDAW I BEN AR 31 MAWRTH 2026 - CHWARTER 3

Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function*	2025/26 Cyllideb Flynyddol Annual Budget £'000	Amcangyfrif o Wariant hyd at 31 Mawrth 2026 Estimated Expenditure to 31 March 2026 £'000	Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2026 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2026 over/(under) £'000	2025/26 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under)spend as a % of Total Budget %	Gor /(Tan)wariant – Amcangyfrif Ch2 Over/(Under)spend Q2 Forecast £'000	Newid ers Ch2 Movement since Q2 £'000
Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ***Education, Skills and Young People***						
Cyllideb Ddatganoledig Ysgolion *Delegated Schools Budget*	64,478	64,478	0	0.00	0	0
Addysg Ganolog *Central Education*	5,408	5,219	(189)	(3.49)	(232)	43
Diwylliant *Culture*	1,646	1,738	92	5.59	100	(8)
Gwasanaethau Oedolion ***Adult Services***	42,787	41,341	(1,246)	(2.91)	(932)	(314)
Gwasanaethau Plant ***Children's Services***	17,545	19,170	1,625	9.26	1,350	275
Tai ***Housing***	2,020	1,838	(182)	(9.01)	(217)	35
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff ***Highways, Property & Waste***						
Priffyrdd *Highways*	8,450	8,206	(244)	(2.89)	(274)	30
Eiddo *Property*	1,822	1,920	98	5.38	(96)	194
Gwastraff *Waste*	10,379	10,439	60	0.58	25	35

Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function*	2025/26 Cyllideb Flynyddol Annual Budget	Amcangyfrif o Wariant hyd at 31 Mawrth 2026 Estimated Expenditure to 31 March 2026	Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2026 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2026 over/(under)	2025/26 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under)spend as a % of Total Budget	Gor /(Tan)wariant – Amcangyfrif Ch2 Over/(Under)spend Q2 Forecast	Newid ers Ch2 Movement since Q2
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ***Regulation & Economic Development***						
Datblygu Economaidd *Economic Development*	3,087	2,974	(113)	(3.43)	(91)	(22)
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd *Planning and Public Protection*	3,079	3,251	172	5.59	317	(145)
Trawsnewid ***Transformation***						
Adnoddau Dynol *Human Resources*	1,596	1,585	(11)	(0.69)	(7)	(4)
TGCh *ICT*	5,072	4,669	(403)	(7.95)	(263)	(140)
Trawsnewid Corfforaethol *Corporate Transformation*	1,124	1,087	(37)	(3.29)	(4)	(33)
Adnoddau ***Resources***	4,165	4,175	10	0.24	5	5
Busnes y Cyngor ***Council Business***	2,236	2,498	262	11.72	254	8
Costau Corfforaethol a Democrataidd ***Corporate & Democratic costs***	2,981	2,966	(15)	(0.50)	(27)	12
Rheolaeth Corfforaethol ***Corporate Management***	873	857	(16)	(1.83)	(5)	(11)

Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function*	2025/26 Cyllideb Flynyddol Annual Budget	Amcangyfrif o Wariant hyd at 31 Mawrth 2026 Estimated Expenditure to 31 March 2026	Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2026 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2026 over/(under)	2025/26 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under)spend as a % of Total Budget	Gor /(Tan)wariant – Amcangyfrif Ch2 Over/(Under)spend Q2 Forecast	Newid ers Ch2 Movement since Q2
Costau heb gyllideb ac na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion / lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau *Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs / impairment allowances on services' income*	0	600	600	-	500	100
Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth Total Service Budgets	**178,746**	**179,209**	**463**	**0.26**	**403**	**60**
Ardollau *Levies*	5,277	5,277	-	0.00	0	0
Rhyddhad Trethi Dewisol *Discretionary Rate Relief*	106	174	68	64.12	69	(1)
Cyllido Cyfalaf *Capital Financing*	4,637	3,155	(1,482)	(31.96)	(1,022)	(460)
Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill *General & Other Contingencies*	80	80	-	0.00	0	0
Arbedion Cyllideb i'w Cyflawni *Budget Savings to be Achieved*	(22)	0	22	100.00	0	22
Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor *Council's General Reserves*	(2,460)	(2,460)	-	0.00	0	0
Cyfraniad gan y CRT am Wasanaethau Cefnogol *Support Services contribution HRA*	(840)	(756)	84	10.00	0	84
Budd-daliadau a Roddwyd *Benefits Granted*	7,459	7,500	41	0.55	(102)	143
Cyfanswm Cyllid Corfforaethol *Total Corporate Finance*	**14,237**	**12,970**	**(1,267)**	**(7.59)**	**(1,055)**	**(212)**

Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function*	2025/26 Cyllideb Flynyddol Annual Budget	Amcangyfrif o Wariant hyd at 31 Mawrth 2026 Estimated Expenditure to 31 March 2026	Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2026 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2026 over/(under)	2025/26 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under)spend as a % of Total Budget	Gor /(Tan)wariant – Amcangyfrif Ch2 Over/(Under)spend Q2 Forecast	Newid ers Ch2 Movement since Q2
Cyfanswm 2025/26 ***Total 2025/26***	**192,983**	**192,179**	**(804)**	**(0.41)**	**(652)**	**(152)**
Cyllido ***Funding***						
Trethi Annomestig *NDR*	(25,097)	(25,097)	0	0.00	0	0
Y Dreth Gyngor *Council Tax*	(52,843)	(53,326)	(483)	(0.91)	(564)	81
Premiwm y Dreth Gyngor *Council Tax Premium*	(4,259)	(4,837)	(578)	(13.57)	(491)	(87)
Grant Cynnal Refeniw *Revenue Support Grant*	(110,784)	(110,784)	0	0	0	0
Cyfanswm Cyllid 2025/26 ***Total Funding 2025/26***	**(192,983)**	**(194,044)**	**(1,061)**	**(0.54)**	**(1,055)**	**(6)**
Cyfanswm yr alldro, yn cynnwys effaith cyllido ***Total outturn, including impact of funding***	**0**	**(1,865)**	**(1,865)**	**(0.95)**	**(1,707)**	**(158)**

ATODIAD C

DADANSODDIAD O'R AMRYWIANT A RAGWELIR FESUL GWASANAETH A'R RHESYMAU

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
		£'000	Newid yn y galw am wasanaeth £'000	Staff / Asian-taeth Amryw-iadau £'000	Newid-iadau mewn Prisiau Contractau £'000	Newid-iadau mewn Cyllid Grant £'000	Amrywiant yn yr Incwm £'000	Costau Adeiladu £'000	Ymgynghor-wyr £'000	Tros-glwyddo I / (O) Gronfeydd wrth Gefn £'000	Gor / Tan Ddarpar-iaeth yn y Gyllideb £'000	Amrywiol £'000
Addysg Ganolog	Cludiant Ysgol	(32)	(32)	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Prydau Ysgol	(216)	(156)	0	0	(60)	0	0	0	0	0	0
	Strategaeth ADY	276	0	(24)	0	0	0	0	0	300	0	0
	Eithriadau Ysgolion	(32)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	(32)
	Canolfan Iaith	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Trwsio a Chynnal a Chadw	(42)	(12)	(6)	0	0	0	(24)	0	0	0	0
	Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Clwb Gofal Plant	(5)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	(5)
	Addysg Bellach	(39)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	(39)
	Addysg Ganolog	(82)	(8)	0	(74)	0	0	0	0	0	0	0
	Lleoliadau Allsirol	17	0	0	0	0	12	5	0	0	0	0
	Millbank	(102)	0	28	0	0	(130)	0	0	0	0	0
	GWE	45	0	0	0	0	0	0	0	0	0	45
	SIMS	23	0	14	0	0	8	0	0	0	0	1
	Arall	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	CYFANSWM	**(189)**	**(208)**	**12**	**(74)**	**(60)**	**(110)**	**(19)**	**0**	**300**	**0**	**(30)**
Diwylliant	Amgueddfeydd ac Orielau	80	0	0	0	0	15	20	0	0	0	45
	Llyfrgelloedd	(3)	0	(24)	0	0	21	0	0	0	0	0
	Archifau	15	0	0	0	0	0	10	0	0	0	5
	CYFANSWM	**92**	**0**	**(24)**	**0**	**0**	**36**	**30**	**0**	**0**	**0**	**50**

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
		£'000	Newid yn y galw am wasanaeth £'000	Staff / Asian-taeth Amryw-iadau £'000	Newid-iadau mewn Prisiau Contractau £'000	Newid-iadau mewn Cyllid Grant £'000	Amrywiant yn yr Incwm £'000	Costau Adeiladu £'000	Ymgynghor-wyr £'000	Tros-glwyddo I / (O) Gronfeydd wrth Gefn £'000	Gor / Tan Ddarpar-iaeth yn y Gyllideb £'000	Amrywiol £'000
Gwasan-aethau Oedolion	Yr Henoed - Preswyl	(933)	153	0	0	0	(1,086)	0	0	0	0	0
	Yr Henoed - Nyrsio	(249)	86	0	0	0	(335)	0	0	0	0	0
	Yr Henoed - Gofal Cartref	126	340	0	0	(278)	(136)	0	0	0	0	200
	Yr Henoed - Arall	(73)	(21)	55	0	(107)	0	0	0	0	0	0
	Anableddau Corfforol - Preswyl	286	342	0	0	0	(56)	0	0	0	0	0
	Anableddau Dysgu - Nyrsio	106	0	0	0	0	106	0	0	0	0	0
	Anableddau Corfforol - Gofal Cartref	75	75	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Anableddau Corfforol - Arall	(50)	(3)	(10)	0	(37)	0	0	0	0	0	0
	Anableddau Dysgu - Preswyl	(224)	(175)	0	0	0	(49)	0	0	0	0	0
	Anableddau Dysgu - Gofal Cartref	132	121	0	0	0	11	0	0	0	0	0
	Anableddau Dysgu - Gofal Dydd	(30)	(36)	0	0	0	6	0	0	0	0	0
	Anableddau Dysgu - Llety â Chymorth	282	225	0	0	0	57	0	0	0	0	0
	Anableddau Dysgu - Arall	1	54	(7)	0	(20)	(26)	0	0	0	0	0
	Iechyd Meddwl - Preswyl	(170)	(177)	0	0	0	7	0	0	0	0	0
	Iechyd Meddwl - Gofal Cartref	(21)	(21)	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Iechyd Meddwl - Llety â Chymorth	129	99	0	0	0	30	0	0	0	0	0
	Iechyd Meddwl - Arall	(234)	(59)	(139)	0	(36)	0	0	0	0	0	0
	Uned Ddarparu - Preswyl	262	3	89	0	(86)	256	0	0	0	0	0
	Uned Ddarparu - Gofal Cartref	(208)	(31)	(203)	0	(72)	98	0	0	0	0	0
	Uned Ddarparu - Gofal Dydd	(143)	(38)	(105)	0	0	0	0	0	0	0	0
	Uned Ddarparu - Llety â Chymorth	8	4	0	0	0	4	0	0	0	0	0

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
		£'000	Newid yn y galw am wasanaeth £'000	Staff / Asian-taeth Amryw-iadau £'000	Newid-iadau mewn Prisiau Contractau £'000	Newid-iadau mewn Cyllid Grant £'000	Amrywiant yn yr Incwm £'000	Costau Adeiladu £'000	Ymgynghor-wyr £'000	Tros-glwyddo I / (O) Gronfeydd wrth Gefn £'000	Gor / Tan Ddarpar-iaeth yn y Gyllideb £'000	Amrywiol £'000
	Uned Ddarparu - Arall	(120)	(48)	(72)	0	0	0	0	0	0	0	0
	Gwasanaethau Cefnogi Rheoli	(198)	(48)	79	0	(229)	0	0	0	0	0	0
	CYFANSWM	**(1,246)**	**845**	**(313)**	**0**	**(865)**	**(1,113)**	**0**	**0**	**0**	**0**	**200**
Gwasan-aethau Plant	Plant sy'n Derbyn Gofal - Lleoliadau Allsirol	1,681	1,681	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Gofal Maeth	145	145	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Cartrefi Clyd	(296)	(343)	47	0	0	0	0	0	0	0	0
	Plant sy'n Derbyn Gofal - Arall	169	169	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Cefnogaeth i Deuluoedd	92	92	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Plant ag Anableddau	(66)	86	(138)	0	0	(14)	0	0	0	0	0
	Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol	(40)	46	(86)	0	0	0	0	0	0	0	0
	Arall	(60)	132	(171)	0	(21)	0	0	0	0	0	0
	CYFANSWM	**1,625**	**2,008**	**(348)**	**0**	**(21)**	**(14)**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**
Tai	Gwasanaethau Tai	(9)	0	(43)	0	0	0	0	0	0	0	34
	Digartrefedd	(172)	0	0	0	0	(172)	0	0	0	0	0
	Canolfan J E O'Toole	(1)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	(1)
	CYFANSWM	**(182)**	**0**	**(43)**	**0**	**0**	**(172)**	**0**	**0**	**0**	**0**	**33**
Priffyrdd	Priffyrdd - Cefnogi a Rheoli	(24)	0	(24)	0	0	0	0	0	0	0	0
	Cludiant Cymunedol Môn	(55)	(55)	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Meysydd Parcio a Rheoli Parcio	(115)	0	0	0	0	(115)	0	0	0	0	0
	Rheoli Datblygu	(140)	0	0	0	0	(140)	0	0	0	0	0
	Gwaith Stryd Preifat	(450)	0	0	0	0	(450)	0	0	0	0	0
	Cyllideb Gweithfeydd	620	620	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
		£'000	Newid yn y galw am wasanaeth £'000	Staff / Asian-taeth Amryw-iadau £'000	Newid-iadau mewn Prisiau Contractau £'000	Newid-iadau mewn Cyllid Grant £'000	Amrywiant yn yr Incwm £'000	Costau Adeiladu £'000	Ymgynghor-wyr £'000	Tros-glwyddo I / (O) Gronfeydd wrth Gefn £'000	Gor / Tan Ddarpar-iaeth yn y Gyllideb £'000	Amrywiol £'000
	Cynnal a Chadw a Rheoli	32	32	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Dylunio Gwaith Cynnal a Chadw	(50)	0	0	0	0	(50)	0	0	0	0	0
	Trafnidiaeth Gyhoeddus	(62)	0	0	0	0	(62)	0	0	0	0	0
	Arall	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	CYFANSWM	**(244)**	**597**	**(24)**	**0**	**0**	**(817)**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**
Eiddo	Rheoli a Staffio	(114)	0	(86)	0	0	(37)	0	0	0	0	9
	Glanhau	25	0	4	0	0	12	0	0	0	0	9
	Eiddo Masnachol	143	0	0	0	0	66	72	0	0	0	5
	Eiddo Cyngor	8	0	0	0	0	0	(191)	0	200	0	(1)
	Gwasanaethau Pensaernïol	36	0	0	0	0	41	0	0	0	0	(5)
	CYFANSWM	**98**	**0**	**(82)**	**0**	**0**	**82**	**(119)**	**0**	**200**	**0**	**17**
Gwastraff	Casglu a Gwaredu Gwastraff	40	40	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Cynhyrchu Trydan	(30)	0	0	0	0	(30)	0	0	0	0	0
	Ailgylchu	45	0	0	0	0	45	0	0	0	0	0
	Safleoedd Gwastraff	20	20	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Gweinyddu a Rheoli	(15)	0	0	0	0	(15)	0	0	0	0	0
	CYFANSWM	**60**	**60**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**
Datblygu Economaidd	Datblygu Economaidd	1	(15)	0	0	(37)	62	0	0	0	0	(9)
	Cyrchfan	(35)	0	(63)	0	0	23	10	0	0	0	(5)
	Hamdden	(79)	0	99	0	0	(105)	(196)	0	30	0	93
	CYFANSWM	**(113)**	**(15)**	**36**	**0**	**(37)**	**(20)**	**(186)**	**0**	**30**	**0**	**79**

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
		£'000	Newid yn y galw am wasanaeth £'000	Staff / Asian-taeth Amryw-iadau £'000	Newid-iadau mewn Prisiau Contractau £'000	Newid-iadau mewn Cyllid Grant £'000	Amrywiant yn yr Incwm £'000	Costau Adeiladu £'000	Ymgynghor-wyr £'000	Tros-glwyddo I / (O) Gronfeydd wrth Gefn £'000	Gor / Tan Ddarpar-iaeth yn y Gyllideb £'000	Amrywiol £'000
Cynllunio	Gweinyddu Cynllunio	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Rheoli Cynllunio	(54)	0	(19)	0	0	(42)	0	0	0	0	7
	Rheolaeth Adeiladu	217	0	90	0	0	130	0	0	0	0	(3)
	Cadwraeth	(39)	0	(37)	0	0	0	0	0	0	0	(2)
	Cofrestrfa Tir	75	0	0	0	0	0	0	0	0	0	75
	CYFANSWM	**199**	**0**	**34**	**0**	**0**	**88**	**0**	**0**	**0**	**0**	**77**
Gwarchod y Cyhoedd	Iechyd yr Amgylchedd	21	0	(17)	0	0	36	0	0	0	0	2
	Cŵn / Rheoli Plâu	(15)	0	(8)	(10)	0	0	0	0	0	0	3
	Iechyd Anifeiliaid	(3)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	(3)
	Safonau Masnach	0	0	0	0	0	(7)	0	0	0	0	7
	Trwyddedu	(2)	0	0	0	0	13	0	(12)	0	0	(3)
	Cofrestryddion	(43)	0	(12)	0	0	(26)	0	0	0	0	(5)
	Marchnadoedd	19	0	0	0	0	12	0	0	0	0	7
	Iechyd a Diogelwch	(4)	0	(4)	0	0	0	0	0	0	0	0
	CYFANSWM	**(27)**	**0**	**(41)**	**(10)**	**0**	**28**	**0**	**(12)**	**0**	**0**	**8**
Trawsnewid	Adnoddau Dynol	0	0	(4)	0	0	0	0	0	0	0	4
	Hyfforddiant	(11)	0	(32)	0	0	0	0	0	0	0	21
	TG	(403)	0	(269)	0	(15)	0	0	0	122	0	(241)
	Trawsnewid Corfforaethol	(24)	0	(1)	0	(11)	0	0	0	0	0	(12)
	Cyswllt Môn	(21)	0	(17)	0	0	0	0	0	(20)	0	16
	Cyfathrebu	(6)	0	(6)	0	0	0	0	0	0	0	0
	Partneriaeth Ynys Môn/ Gwynedd	14	0	0	0	0	0	0	0	0	0	14
	CYFANSWM	**(451)**	**0**	**(329)**	**0**	(26)	**0**	**0**	**0**	**102**	**0**	(198)
Adnoddau	Archwilio a Risg	(28)	0	(68)	0	0	0	0	35	0	0	5

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
		£'000	Newid yn y galw am wasanaeth £'000	Staff / Asian-taeth Amryw-iadau £'000	Newid-iadau mewn Prisiau Contractau £'000	Newid-iadau mewn Cyllid Grant £'000	Amrywiant yn yr Incwm £'000	Costau Adeiladu £'000	Ymgynghor-wyr £'000	Tros-glwyddo I / (O) Gronfeydd wrth Gefn £'000	Gor / Tan Ddarpar-iaeth yn y Gyllideb £'000	Amrywiol £'000
	Budd-daliadau a Refeniw	55	0	127	0	(11)	1	0	0	(135)	0	73
	Gwasanaethau Ariannol	9	0	09	0	0	0	0	0	0	0	0
	Caffael	5	0	(1)	0	0	0	0	0	(21)	0	27
	Rheolaeth	(31)	0	21	0	0	20	0	0	(45)	0	(27)
	CYFANSWM	**10**	**0**	**88**	**0**	**(11)**	**21**	**0**	**35**	**(201)**	**0**	**78**
Busnes Y Cyngor	Gwasanaethau Etholiadol	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Cynllunio at Argyfwng	(6)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	(6)
	Gwasanaethau Pwyllgor	(19)	0	(39)	0	0	0	0	0	0	20	0
	Cyfieithu	4	0	4	0	0	0	0	0	0	0	0
	Gwasanaethau Cyfreithiol	282	0	247	0	0	35	0	0	0	0	0
	CYFANSWM	**262**	**0**	**213**	**0**	**0**	**35**	**0**	**0**	**0**	**20**	**(6)**
Rheolaeth Corfforaethol	Rheolaeth Gorfforaethol	(16)	0	(16)	0	0	0	0	0	0	0	0
	CYFANSWM	**(16)**	**0**	**(16)**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**
Corffor-aethol a Democrataidd	Cyfraniadau Pensiwn	(34)	0	(34)	0	0	0	0	0	0	0	0
	Ffioedd Archwilio	81	0	0	(15)	0	0	0	0	0	0	96
	Crwneriaid	(41)	(40)	0	0	0	0	0	0	0	0	(1)
	Ardoll Prentisiaethau	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Treuliau a Chefnogaeth i Aelodau	(32)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	(32)
	Corfforaethol - Arall	11	0	0	0	0	0	0	0	0	0	11
	CYFANSWM	**(15)**	**(40)**	**(34)**	**(15)**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**74**

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant								
		£'000	Newid yn y galw am wasanaeth £'000	Staff / Asian-taeth Amryw-iadau £'000	Newid-iadau mewn Prisiau Contractau £'000	Newid-iadau mewn Cyllid Grant £'000	Amrywiant yn yr Incwm £'000	Costau Adeiladu £'000	Ymgynghor-wyr £'000	Tros-glwyddo I / (O) Gronfeydd wrth Gefn £'000	Gor / Tan Ddarpar-iaeth yn y Gyllideb £'000	Amrywiol £'000
Arall	Darpariaeth ar gyfer Costau nad oes Cyllideb ar eu cyfer	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	600
	CYFANSWM	**600**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**600**
	CYFANSWM GWASANAETHAU	**463**	**3,247**	**(871)**	**(99)**	**(1,020)**	**(1,956)**	**(294)**	**23**	**431**	**20**	**982**

CRYNODEB O SEFYLLFA CYLLIDEBAU WRTH GEFN - CHWARTER 3

	Cyllideb Wreiddiol £	Symudiadau (i) Linellau Gwasanaeth / o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig £	Cyllideb Ddiwygiedig - blwyddyn hyd yma £	Wedi'i Ymrwymo - blwyddyn hyd yma £	Sylwadau
Cyllideb wrth Gefn Gyffredinol	394,311	(109,858)	284,453	284,453	Nid oes unrhyw ddefnydd wedi'i nodi ar gyfer y gyllideb hyd yma, ond mae'r gyllideb ar gael i gyllido unrhyw wariant annisgwyl yn ystod y chwarter olaf.
Cymorth Tai i Brynwyr Tro Cyntaf	1,000,000	-	1,000,000	1,000,000	Trosglwyddir unrhyw falans heb ei ddefnyddio i gronfa wrth gefn glustnodedig.
Cyflogau a Graddio	300,000	(249,184)	50,816	50,816	Mae'r gyllideb wrth gefn yn cael ei dal er mwyn talu costau taliadau diswyddo, taliadau straen yn gysylltiedig â phensiynau a chostau eraill yn gysylltiedig â dirwyn contractau cyflogaeth i ben. Rhagwelir achosion pellach yn ystod y chwarter olaf.
Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig Arall	502,839	(309,259)	193,580	193,580	Trosglwyddir unrhyw falans heb ei ddefnyddio i gronfa wrth gefn glustnodedig.
Chwyddiant Cyflogau	49,209	(49,209)	-	-	-
Grant Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr	(2,000,000)	-	(2,000,000)	(2,000,000)	-
Cynllun Hyfforddeion	340,000	210,963	550,963	550,963	Trosglwyddir unrhyw falans heb ei ddefnyddio i gronfa wrth gefn glustnodedig.
Cyfanswm Cyllidebau Wrth Gefn Cyffredinol ac Arall	**586,359**	**(506,547)**	**79,812**	**79,812**	

ATODIAD D

COSTAU STAFF ASIANTAETH EBRILL - RHAGFYR 2025

Gwasanaeth	Swm £	Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol)	Parhaol / Dros Dro	Pwrpas
Economaidd ac Adfywio	55,152	Cyllideb Graidd	Dros Dro	Llenwi swydd wag
	38,899	Cyllideb Graidd	Dros Dro	Ôl-groniad gwaith
	94,051			
Ysgolion	105,009	Cyllideb Graidd	Dros Dro	Athrawon llanw
	105,009			
Gwastraff	221,069	Cyllideb Graidd Benodol	Dros Dro	Tasgau Penodol ar Safle
	51,537	Cyllideb Graidd Benodol / Cyfraniad Allanol	Dros Dro	Tasgau Penodol ar Safle
	272,606			
Busnes y Cyngor	317,484	Cyllideb staffio heb ei defnyddio a balansau cyffredinol y Cyngor	Dros Dro	Llenwi swyddi gweigion, h.y. 3 swydd Cyfreithiwr ac 1 Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol
	317,484			
Gwasanaethau Plant	**0**	Cyllideb Graidd	Dros Dro	Llenwi swydd wag
	0			
Gwasanaethau Oedolion	**337,639**	Cyllideb Graidd	Dros Dro	Llenwi swydd wag
	337,639			
Adnoddau	62,809	Cyllideb Graidd	Dros Dro	Llenwi swydd wag - tîm Caffael
	17,436	Cyllideb Graidd	Dros Dro	Cyflawni gwaith ychwanegol mewn perthynas â hawliadau cymhorthdal budd-dal tai
	73,965	Cyllideb Graidd	Dros Dro	Adnodd ychwanegol i fynd i'r afael ag ôl-groniad o ddyledion nad ydynt wedi cael eu casglu
	17,221	Cyllideb Graidd	Dros Dro	Staff dros dro yn ystod absenoldebau salwch
	171,430			
Cyfanswm	**1,298,219**			

ATODIAD DD

CRYNODEB O WARIANT AR YMGYNGHORWYR HYD AT DDIWEDD CHWARTER 3 2025/26

Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr fesul Gwasanaeth				
Gwasanaeth	**Chwarter 1** **£**	**Chwarter 2** **£**	**Chwarter 3** **£**	**Cyfanswm 2025/26** **£**
Addysg Ganolog	2,000	13,150	7,800	**22,950**
Diwylliant	0	0	0	**0**
Economaidd ac Adfywio	214,593	191,795	175,309	**581,697**
Eiddo	375	280	0	**655**
Priffyrdd	31,215	31,303	24,005	**86,522**
Ysgolion		4,600	0	**4,600**
Gwastraff	7,973	7,701	4,280	**19,954**
CRT	34	135	18,255	**18,424**
Tai	0	2,475	0	**2,475**
Corfforaethol a Democrataidd	0	0	0	**0**
Gwasanaethau Oedolion	0	0	0	**0**
Gwasanaethau Plant	0	0	0	**0**
Corfforaethol	0	0	0	**0**
Trawsnewid	0	0	0	**0**
Busnes y Cyngor	0	0	0	**0**
Adnoddau	24,020	23,500	19,704	**67,224**
Cyfanswm	**280,209**	**274,940**	**249,352**	**804,501**
Cyllidir Gan:				
Cyllideb Graidd	68,600	94,017	96,098	**258,716**
Grant	19,064	8,000	2,200	**29,264**
Cyfraniad Allanol	186,390	131,138	102,413	**419,940**
Cronfeydd wrth Gefn / Darpariaethau	6,156	41,784	48,641	**96,581**
Cyfanswm	**280,209**	**274,940**	**249,352**	**804,501**

ATODIAD E

CRYNODEB O WARIANT Y GRONFA COST NEWID HYD AT DDIWEDD CHWARTER 3 2025/26

Gwasanaeth / *Service*	**Disgrifiad / *Description***	**Cyllideb / *Budget*** **£**	**Gwariant / *Expenditure*** **£**	**Cyllideb i'w gario ymlaen i 2026/27/ *Budget Carried Forward to 2026/27*** **£**	**Diweddariad Prosiect / *Project Update***
Adnoddau *Resources*	**Gweithredu system Telesolutions i gysylltu gyda chwsmeriaid y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau /** *Implement Telesolutions system to contact customers of the Revenue and Benefits Service*	4,500	0	4,500	**Gweithredu System Telesolutions i gysylltu gyda chwsmeriaid y Gwasanaeth Refeniw a Budd-Daliadau /** *Implement Telesolutions system to contact customers of the Revenue and Benefits Service.*
Adnoddau *Resources*	**Cymorth gan Ymgynghorwyr o'r Cwmni Meddalwedd i wneud defnydd llawn o fodiwlau adennill dyledion a gweithredu'r modiwlau bilio blynyddol /** *Support from Software Company Consultants to make full use of the debt recovery modules and to implement the annual billing modules*	21,000	21,000	0	**Mae'r gwaith wedi ei gwblhau bellach ar y modiwlau hyn** */ Work has now been completed on these modules*
Adnoddau *Resources*	**Gweithredu modiwlau ychwanegol yn y System Casglu Incwm** / *Implement additional modules in the Income Collection System*	8,370	8,370	0	**Mae gwaith yn mynd rhagddo ar Call Secure cyn symud at y systemau eraill. Angen cytuno ar broses i gwsmeriaid ar ôl derbyn y system brawf.** / *Work is ongoing on Call Secure before moving to the other systems. Need to agree a process for customers after receiving the test system.*

Gwasanaeth / *Service*	Disgrifiad / *Description*	Cyllideb / *Budget*	Gwariant / *Expenditure*	Cyllideb i'w gario ymlaen i 2026/27/ *Budget Carried Forward to 2026/27*	Diweddariad Prosiect / *Project Update*
Plant *Children*	**Defnyddio Microsoft Co-Pilot i gofnodi cyfarfodydd achosion yn y Gymraeg a'r Saesneg** / *Use Microsoft Co-Pilot to Minute Case Conference meetings in both Welsh and English*	32,640	5,713	26,927	**Tra'r oedd gwaith yn cael ei wneud ar ddatblygu'r achosion defnydd, mae'r rhagofynion technegol sydd eu hangen er mwyn defnyddio Co-Pilot yn effeithiol wedi'u cwblhau. Mae'r rhain yn cynnwys creu sianel Amlder Diweddariad "Office" newydd a'r ffurfwedd cysylltiedig, a grŵp i ddosrannu'r trwyddedau yn ddeinamig. Mae profion ar gywirdeb trawsgrifio a'i allu i wahaniaethu rhwng cynnwys Saesneg a Chymraeg wedi nodi problemau sylweddol o ran cywirdeb y trawsgrifio ac mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch pa mor effeithiol ydi o ar gyfer tasgau trawsgrifio. Mae'r pryderon hyn wedi cael eu trosglwyddo i Dîm Cyfrif Cymraeg a'r Tîm Rheoli Cynnyrch Microsoft. Mae profion gan swyddogion wedi nodi bod y dechnoleg yn cyflawni ymchwil yn effeithiol, yn cyfuno canfyddiadau ac yn creu drafftiau o ddogfennau. Mae'r tîm prosiect yn adolygu'r canfyddiadau, gyda'r bwriad o argymell newid amcanion y prosiect a chanolbwyntio fwy ar lwyth gwaith gweinyddol ar draws amryw o wasanaethau.** / *Whilst work was being undertaken on developing the use-cases, the technical pre-requisites required to deploy Co-Pilot effectively have been completed. These include creating a new Office Update Frequency channel and the associated configuration, and a group to dynamically assign the licenses. Testing of the transcription accuracy and it's ability to discern English and Welsh content has identified significant issues with transcript accuracy, putting its effectiveness into question for transcription tasks. These concerns have been relayed to Microsoft's Welsh Account and Product Management teams. Officer testing has identified the technology effectively undertakes research, compiles findings and generates draft documents. The project team is reviewing the findings, with a view to recommending altering the project aims and re-focusing on administrative workloads across a variety of services.*

Gwasanaeth / *Service*	Disgrifiad / *Description*	Cyllideb / *Budget*	Gwariant / *Expenditure*	Cyllideb i'w gario ymlaen i 2026/27/ *Budget Carried Forward to 2026/27*	Diweddariad Prosiect / *Project Update*
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo *Highways, Waste and Property*	**Cynnal adolygiad o drefniadau trafnidiaeth ar draws y Cyngor** / *Undertake a review of the Council's transport arrangements across the whole Council*	40,000	37,357	2,643	**Mae'r ymgynghorwyr wedi cwblhau eu adroddiad. Bydd angen cytuno ar y ffordd ymlaen yn dilyn hynny.** / *The consultants have completed their report. Following this, a way forward will need to be agreed.*
	CYFANSWM / TOTAL	**106,510**	**72,440**	**34,070**	

DCYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	**PWYLLGOR GWAITH**
DYDDIAD:	**24 CHWEFROR 2026**
PWNC:	**ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB –TRYDYDD CHWARTER 2025/26 - CYFALAF**
DEILYDD(ION) PORTFFOLIO	**CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID , BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER**
PENNAETH GWASANAETH / CYFARWYDDWR:	**MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**
AWDUR YR ADRODDIAD : Ffôn: E-bost:	**MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** 01248 762601 rmjfi@ynysmon.gov.wales
Aelodau Lleol:	**Amherthnasol**

A – Argymhelliad/ion a rheswm/rhesymau

- Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2025/26 yn chwarter 3.
- Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol, gwerth £7.276m, a ychwanegwyd i'r rhaglen gyfalaf a'r cyllid diwygiedig, yn unol ag Atodiad C, a fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £66.945m ar gyfer 2025/26.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer y trydydd chwarter o'r flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a ddynodwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi – Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi'i gymeradwyo i awdurdodi'r addasiadau a wnaed i'r gyllideb gyfalaf gychwynnol a gymeradwywyd gan y Cyngor.

DD – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd sy'n ofynnol i ganiatáu i'r Cyngor gyflawni'r amcanion hirdymor a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'i Strategaeth Gyfalaf.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau ICF, yn lleihau'r ddibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau drutach.

3	A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Mae cyllid y prosiectau wedi'i gytuno a'i gynllunio gyda sefydliadau eraill, yn nodedig Llywodraeth Cymru.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor a Rhaglen Gyfalaf 2025/26.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei chael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Mae rhai o'r prosiectau a ariennir gan y rhaglen gyfalaf yn effeithio ar yr agenda cydraddoldeb, e.e. mynediad i'r anabl mewn ysgolion, grantiau cyfleusterau i'r anabl.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol.	Mae gwariant ar brosiectau cyfalaf wedi'i gynllunio i wella / cynnal asedau a gwasanaethau'r Cyngor, a all effeithio'n uniongyrchol ar y grwpiau hynny sy'n profi anfantais gymdeithasol-economaidd.
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Dim effaith ar yr iaith Gymraeg.
E -	**Gyda phwy yr ymgynghorwyd?**	**Beth oedd eu sylwadau?**
1	**Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol)	Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad ac mae'r sylwadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad derfynol.
2	**Cyllid / Adran 151** (gorfodol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	**Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried.
4	**Adnoddau Dynol (AD)**	Bydd y Gwasanaeth wedi darparu mewnbwn ar gynnydd ar gyfer prosiectau sy'n uniongyrchol o dan eu rheolaeth.
5	**Eiddo**	Bydd y Gwasanaeth wedi darparu mewnbwn ar gynnydd ar gyfer prosiectau sy'n uniongyrchol o dan eu rheolaeth.
6	**Technoleg Gwybodaeth (TGCh)**	Bydd y Gwasanaeth wedi darparu mewnbwn ar gynnydd ar gyfer prosiectau sy'n uniongyrchol o dan eu rheolaeth.
7	**Sgriwtini**	Trafodwyd y sefyllfa ar ddiwedd y chwarter gan Banel Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 12 Chwefror 2026.
8	**Aelodau Lleol**	Amherthnasol
9	**Unrhyw gyrff allanol eraill**	Amherthnasol

F - Atodiadau:
Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 3 2025/26 Atodiad B – Crynodeb o wariant prosiectau cyfalaf hyd yma yn erbyn y gyllideb gyfalaf a'r gwariant a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn Atodiad C – Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers cwblhau'r broses gosod cyllideb
FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):
• Cyllideb Gyfalaf 2025/26, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2025 • Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2025 • Adroddiad Alldro Cyfalaf 2024/25, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 17 Gorffennaf 2025 • Adroddiad Monitro Cyllideb 2025/26 – Chwarter Cyntaf, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 23 Medi 2025 • Adroddiad Monitro Cyllideb 2025/26 – Ail Chwarter, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 25 Tachwedd 2025

1. CYFLWYNIAD

1.1 Dyma adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol, ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi cynnydd o ran gwariant cyfalaf a derbyniadau cyfalaf yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

1.2 Ym mis Mawrth 2025, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £23.7m ar gyfer 2025/26, a rhaglen gyfalaf o £20.594m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal â hyn, ym mis Gorffennaf 2025, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i lithriad cyfalaf o £2.529m gael ei ddwyn ymlaen o 2024/25, a daw hyn â chyfanswm y rhaglen gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £25.929m, a £20.894m ar gyfer y CRT. Ers cwblhau'r broses gosod cyllideb, ychwanegwyd cynlluniau at y rhaglen, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau, yn ogystal ag addasu cyllid, a daw hyn i gyfanswm o £20.122m. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2025/26 i £66.945m. Dangosir hyn yn y tabl isod:-

Cyllidir gan	Cyllideb wreiddiol 2025/26, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn £'000	Llithriad, fel a gymeradwywyd yn alldro Ch 4 2024/25 £'000	Cynlluniau ychwanegol / addasiadau ers gosod y gyllideb £'000	CYFANSWM £'000
Grant	21,960	1,006	16,917	**39,883**
Benthyca â Chefnogaeth	3,118	696	2,153	**5,967**
Benthyca Digefnogaeth	12,068	0	(8,386)	**3,682**
Cyfraniad Refeniw	5,488	300	8,106	**13,894**
Derbyniadau Cyfalaf	500	331	(7)	**824**
Cronfeydd wrth gefn	1,160	181	494	**1,835**
Benthyciad	0	15	845	**860**
CYFANSWM	**44,294**	**2,529**	**20,122**	**66,945**

Gweler Atodiad C am fanylion newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers gosod y gyllideb.

2. CYNNYDD AR WARIANT 2025/26

2.1 Isod ceir tabl yn dangos crynodeb o gyllideb flynyddol rhaglen gyfalaf 2025/26 a sut y caiff ei gyllido, ynghyd â'r gwariant cyfalaf hyd at 31 Rhagfyr 2025:-

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol £'000	Gwariant Gwirioneddol £'000	Gwariant wedi'i Ymrwymo £'000	Cyfanswm Gwariant £'000	Cyllideb Flynyddol a Wariwyd %
Tai – Cronfa Gyffredinol	1,099	559	344	903	82
Tai - CRT	24,871	15,704	0	15,704	63
Dysgu Gydol Oes	3,905	1,704	271	1,975	51
Economaidd ac Adfywio	14,963	7,395	804	8,199	55
Priffyrdd	9,193	4,175	754	4,929	54
Rheoli Gwastraff	1,462	145	438	583	40
Eiddo	8,650	2,982	167	3,149	36
Trawsnewid	815	221	255	476	58
Gwasanaethau Oedolion	1,987	754	1	755	38
Cyfanswm	**66,945**	**33,639**	**3,034**	**36,673**	**55**

Cyllidir gan:	
Grant Cyfalaf	39,883
Derbyniadau Cyfalaf	824
Bentyca â Chefnogaeth	5,967
Benthyca Digefnogaeth	3,682
Cyfraniad Refeniw	13,894
Cronfeydd wrth gefn	1,835
Benthyciad	860
Cyfanswm Cyllid	**66,945**

2.2 Mae 50% o gyllideb flynyddol y Gronfa Gyffredinol wedi'i wario hyd yn hyn. Y rheswm am hyn yw bod nifer o'r cynlluniau cyfalaf wedi'u pwysoli tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol. Mae rhan helaeth cynlluniau cyfalaf ar y gweill, gydag eraill heb ddechrau eto, fodd bynnag, disgwylir i'w cyllideb gael ei defnyddio yn y chwarter nesaf neu tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol (Grant Galluogi, unedau gofal plant a'r grantiau Gwres Carbon Isel). Mae'r holl gynlluniau cyfalaf a'u gwariant cysylltiedig i'w gweld yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau grantiau cyfalaf yn 2025/26 a cheir diweddariad ar y rhain yn Adran 3.1 o'r adroddiad hwn.

2.3 Mae'r CRT wedi gwario 63% o'r gyllideb flynyddol. I gael rhagor o wybodaeth am wariant cyfalaf y CRT a'r gwariant a ragwelir, edrychwch ar adroddiad monitro cyllideb chwarter 3 y CRT, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 24 Chwefror 2026.

3. CYLLIDO

3.1 Grantiau Cyfalaf

3.1.1 Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2025/26, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt. Ceir diweddariad byr ar y cynlluniau hynny isod:-

- **Caergybi : Prosiect Trawsnewid a Yrrir gan Ddiwylliant a Threftadaeth (gan gynnwys Menter Treftadaeth Treflun THI Cam II a chyllid Llywodraeth y DU)** – Mae'r prosiect hwn yn gwneud cynnydd sylweddol, ac mae nifer o ddatblygiadau allweddol bron wedi'u cwblhau:-
  - Canolfan yr Empire: Ailagorodd y Ganolfan Chwarae i'r cyhoedd yn chwarter 2, ac mae'r ganolfan yn boblogaidd iawn. Mae holl elfennau prosiectau Cyngor Tref Caergybi bellach wedi'u cwblhau.
  - 9 Stryd Stanley: Mae'r prosiect wedi'i gwblhau, gyda'r llawr gwaelod bellach yn cael ei ddefnyddio i bwrpas masnachol a thenantiaid wedi'u sicrhau ar gyfer y gofod preswyl uwchben.
  - Adeiladau Canolog: Mae'r prosiect wedi wynebu llithriad pellach, a bellach disgwylir i'r adeilad gael ei gwblhau ganol Mawrth 2026. Mae'r tenantiaid wedi cael gwybod am yr oedi. Yn gyffredinol, mae'r rhaglen 4 mis ar ei hôl hi oherwydd gwaith na ellid bod wedi'i ragweld.
  - Hen Adeilad HSBC: Cafodd y gwaith ei ohirio oherwydd problemau gyda gwasanaethau cyfleustodau ac, yn gyffredinol, mae'r rhaglen waith 8 mis ar ei hôl hi, sydd wedi arwain at gynnydd o ran costau. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ym Mai 2026, ac mae'r tenantiaid wedi cael gwybod.
  - 2-4 Stryd y Farchnad: Mae'r llawr gwaelod wedi'i gwblhau, gyda'r tenant bellach yn masnachu'n llwyddiannus.
  - Sant Cybi: Ail-agorodd Sant Cybi i'r cyhoedd yn chwarter 3, gan roi cyfle i bobl gael mynediad cyn y Nadolig. Bydd Sant Cybi ac Eglwys y Bedd yn cael eu trosglwyddo'n ôl i'r Eglwys ddiwedd Ionawr. Bydd elusen leol yn symud i Eglwys y Bedd i weithredu menter gymdeithasol.
  - Canolfan Ucheldre: Mae'r gwaith yn parhau, a disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2026. Mae'r ganolfan wedi parhau i fod yn weithredol ac ar agor i'r cyhoedd tra bod yr holl waith yn cael ei wneud.
  - Menter Treftadaeth Treflun (THI): Mae'r gwaith ar y tri eiddo sy'n derbyn grant o dan THI yn mynd rhagddynt yn dda. Mae'r gwaith ar ffryntiad siopau ar y gweill, ac un bellach wedi'i gwblhau. Disgwylir i'r rhan fwyaf o brosiectau gael eu cwblhau yn chwarter 4, er y bydd rhai elfennau'n parhau yn chwarter 1 2026/27.

- Amgueddfa Forwrol – Mae gwaith wedi dechrau ar dynnu creigiau wrth ymyl yr amgueddfa. Disgwylir i hyn gael ei gwblhau erbyn canol mis Chwefror, gyda'r elfennau sy'n weddill i'w cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2026.
- Cyllid ychwanegol: Mae partneriaid cyflenwi wedi ceisio mwy o gyllid i dalu costau cynyddol. Mae'r elfen LUF o'r rhaglen gyffredinol yn parhau i fod o fewn y gyllideb a disgwylir i'r mwyafrif o brosiectau gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2026. Bydd HSBC yn mynd drosodd i chwarter 1 2026/27 yn ogystal â rhai o brosiectau THI.
- Derbyniwyd y taliad terfynol o'r Gronfa Ffyniant Bro (LUF) gan Lywodraeth y DU ym mis Medi, gan ddod â chyfanswm y cyllid a dderbyniwyd hyd yma i £17.047m. Bydd yn ofynnol adrodd i Lywodraeth y DU ar gynnydd yn y chwarter 4.

- **Gwaith Grantiau Lliniaru Llifogydd ar Raddfa Fach** - Mae 8 cynllun wedi'u cymeradwyo ar gyfer 2025/26 (tri chynllun adeiladu a phum cynllun dylunio). Mae gwaith ategol brys wedi'i wneud ym Mhorth Diana, ac mae'r prif waith allan ar dendr, i'w wneud yn chwarter 4. Mae Caerneddi a Lôn Trearddur yn parhau gyda'r asiantau tir, a rhoddir ystyriaeth i gael mynediad o dan hysbysiad yn Lôn Trearddur. Gwaith dylunio yn unig yw'r 5 cynllun sy'n weddill, ar gyfer gwella diogelwch a mynediad yn y griliau. Y gwaith i'w wneud mewn blwyddyn ariannol arall. Mae'r dyluniadau hyn bron wedi'u cwblhau. Rhagwelir gwariant llawn ar bob cynllun, yn amodol ar fynediad i'r tir neu hysbysiad.
- **Teithio Llesol (AT) -** Sicrhawyd £2.909m o grant Llywodraeth Cymru (LIC) i gynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a lles, gwella ansawdd aer, lleihau allyriadau carbon, cysylltu cymunedau a gwella mynediad teithio llesol at gyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus:-

  - Mae £0.500m ar gyfer gwaith craidd sy'n cynnwys nifer o gynigion ar gyfer cynlluniau, wedi'u rhannu i ddatblygu cyn y cynllun, mân waith a gweithgareddau monitro a gwerthuso.
  - £2.409m mewn perthynas â Malltraeth i Niwbwrch - Cam 2.

  Mae'r cynnydd yn chwarter 3 yn cynnwys gwaith sylweddol ar y safle ar gyfer y Prif Gynllun, Malltraeth - Niwbwrch, gyda chynnydd cadarnhaol yn unol â'r rhaglen waith. Mae Cam 1 i gyflawni'r gwaith mynediad ar gyfer gwaith adfer Pwll Traeth Bach hefyd wedi'i gwblhau (Cam 2 i'w gyflawni yn 2026/27 gyda ffynhonnell gyllid arall oherwydd cyfyngiadau amser o safbwynt ecoleg). Gwaith datblygu (astudiaethau / dylunio) yn parhau ym Menllech, Llanfairpwll, Amlwch a'r Gaerwen, gyda gwaith dylunio ar gyfer mân waith (cyfalaf) yn mynd rhagddo yn fewnol i'w gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol. Rhagwelir y bydd tanwariant cyffredinol o oddeutu £391k (ar y Rhaglen AT gyffredinol) yn bennaf oherwydd y rhagwelir y bydd gwariant is ar y prif gynllun o'i gymharu â swm y cyllid grant a sicrhawyd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r Cyngor yn y broses o gytuno ar Orchymyn Amrywio gyda Thrafnidiaeth Cymru (TrC), sy'n hwyluso'r Grant ar ran LIC.
- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) (2025/26)** – Mae £0.166m wedi'i ddyfarnu i hyrwyddo prosiectau isadeiledd gwefru cerbydau trydan, yn unol â Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan LIC. Pwrpas y cyllid hwn yw hwyluso'r gwaith o barhau i ddarparu safleoedd gwefru cyflym mewn 4 safle gwahanol ledled yr Ynys. Mae'r cynnydd yn chwarter 3 yn cynnwys cwblhau'r dogfennau tendro, y contract a'r gwaith cyfieithu o ddogfennau perthnasol a lansiwyd y tendr ddiwedd Hydref 2025. Ar ddiwedd chwarter 3, roedd y Cyngor yn y broses o sgorio'r ceisiadau a gyflwynwyd yn y Cam 'Gwahoddiad i Dendro'. Mae'r dyfynbrisiau wedi'u hadolygu ac yn y broses o gael eu derbyn gyda Scottish Power Energy Networks (SPEN) mewn 4 safle, gyda gwaith galluogi wedi'i gwblhau ar 1 safle. Rhagwelir y bydd y cyllid grant yn cael ei wario'n llawn.

- **Gwelliannau i Isadeiledd Bysiau** - Mae £0.208m wedi'i ddyfarnu i wneud gwaith dylunio manwl ar gyfer gwelliannau i safleoedd bysiau mewn lleoliadau ar y rhestr fer, a allai gynnwys ail-neilltuo lle ar ffyrdd. Adeiladir cynllun gwella un safle bysiau a gosodir RTI (Gwybodaeth Amser Real) mewn safleoedd bysiau gwledig. Mae'r cynnydd yn chwarter 3 yn cynnwys cwblhau'r arolygon topograffig a'r dyluniadau amlinellol ar gyfer y safleoedd y cytunwyd arnynt ymlaen llaw. Hefyd, cwblhawyd gweithgareddau ymgysylltu gyda Chynghorau Tref / Cymuned perthnasol. Dewiswyd y safle ar gyfer adeiladu ac mae trafodaethau'n parhau gyda chontractwr cynnal a chadw y Cyngor. Mae trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt gyda TrC a Journeo ynglŷn â chyflwyno Codau QR sy'n gallu cael mynediad at RTI – mae'r risg o gyflawni erbyn diwedd mis Mawrth yn cael ei ystyried yn gymedrol. Felly, mae'r Cyngor wedi uwchgyfeirio'r mater i sylw LlC a bydd Cais am Newid yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn y chwarter i wneud gweithgaredd arall yn ei le. Ar hyn o bryd, y nod yw gwario'r gyllideb gyfan ar yr amod y bydd LlC yn cytuno i'r Cais am Newid.

- **Plas Arthur (Cronfa Ffyniant a Rennir - SPF)** - Mae £0.350m o gyllid grant wedi'i sicrhau i gyfrannu at brosiect ehangach ym Mhlas Arthur. Mae'r dyddiad cau ar gyfer ei wario wedi ei symud ymlaen i Orffennaf 2026, a bydd yn cael ei ddefnyddio'n llawn erbyn y dyddiad cau i ddylunio'r datblygiad newydd a chostau adeiladu.

- **Grant Gwres Carbon Isel (4 grant)** – Dyfarnwyd cyllid ar draws pedwar grant ar wahân gwerth £15.7m. Y dyddiad cwblhau ar gyfer y pedwar bellach yw blwyddyn ariannol 2025/26. Mae Gwasanaeth Ynni LlC yn darparu cyllid grant sy'n talu 90% o'r costau ac mae'r Cyngor yn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer y 10% sy'n weddill o'r cyllidebau cyfalaf presennol. Mae'r gwaith yn ymwneud â gosod pympiau gwres ffynhonnell aer ac adeiladu gwaith effeithlonrwydd ynni 27 o safleoedd.

  Mae chwe safle wedi'u cwblhau a'u comisiynu hyd yn hyn, a disgwylir i sawl un arall gael eu comisiynu yn yr wythnosau nesaf, yn amodol ar uwchraddio mesuryddion trydan gan y darparwyr cyfleustodau perthnasol.

  Llwyddwyd i sicrhau cyllid ychwanegol gwerth £0.565m yn chwarter 3 ar draws yr holl brosiectau. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu i wneud gwelliannau pellach i'r ochr allanol - yn bennaf ailosod ffenestri a drysau mewn sawl ysgol. Dyfarnwyd y cyllid drwy gwerthwchigymru, yn hytrach nag fel estyniad i'n contract presennol gyda'r contractwr ReFit. Mae perygl o hyd na fydd rhai safleoedd yn cael eu comisiynu erbyn diwedd mis Mawrth oherwydd ffactorau y tu allan i'n rheolaeth, yn enwedig oedi gan y DNO (Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarth - SPEN) wrth uwchraddio cyflenwadau trydan. Byddwn yn asesu ac yn cyfathrebu'r risgiau hyn i Wasanaeth Ynni LlC dros yr wythnosau nesaf i helpu i flaengynllunio a phenderfynu ar y dull mwyaf priodol o reoli unrhyw danwariant posibl. Mae'n debygol y gellir dwyn cyllid ymlaen i 2026/27, ond bydd angen cadarnhau trefniadau ffurfiol.

- **Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (2025/26) - M**ae £0.476m o gyllid grant wedi'i ddyfarnu gan LlC yn 2025/26 i gefnogi dysgwyr ag ADY. Nod y grant yw sicrhau'r amgylcheddau dysgu gorau posibl ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, i wella mynediad, hyrwyddo ymarfer cynhwysol, cefnogi dysgu a lles disgyblion. Bydd hyn yn cefnogi amcanion ALNET (ADY a Thribiwnlys Addysg) a newidiadau ADY, i greu system ddwyieithog unol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed gydag ADY, a chyflwyno Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion. Gyda'r prosiectau sydd ar hyn o bryd yn y rhaglen i'w cyflawni o dan y grant hwn, disgwylir y bydd y cyllid yn cael ei wario'n llawn.

- **Grant Ysgolion Bro (CFS) (2025/26)** - Dyfarnwyd £0.209m i gefnogi prosiectau ymarferol ar raddfa fach a chanolig i agor ysgolion y tu allan i'r oriau traddodiadol, yn benodol i addasu ysgolion i'w gwneud yn ddiogel a'u hagor yn effeithiol y tu allan i oriau traddodiadol i allu gwneud defnydd cymunedol o'r cyfleusterau presennol. Disgwylir y bydd y gyllideb yn cael ei gwario'n llawn. Bydd y gwaith yn dechrau yn ystod Ionawr, a disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

- **Cyllid cyfalaf Mannau Chwarae -** Dyfarnwyd £0.111m o gyllid grant i ymateb i ddiffygion a nodwyd yn Asesiad Digonolrwydd Chwarae yr Awdurdod Lleol 2025, yn unol â chanllawiau cyfalaf Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan i awdurdodau lleol ar gyfer cyllid cyfalaf ar gyfer mannau chwarae a meysydd chwarae 2025-26. Mae'r cyllid yn rhoi hyblygrwydd i brynu eitemau ar raddfa fawr i wella ansawdd mannau chwarae, adnewyddu meysydd chwarae a, hefyd, i helpu i greu mannau chwarae cynhwysol a hygyrch. Disgwylir i'r cyllid gael ei wario'n llawn.

- **Rhaglen Trawsnewid Trefi ar gyfer Prosiect Terfynfa Forol Amlwch** - Dyfarnwyd £0.920m o gyllid grant i gefnogi'r gwaith o adnewyddu adeilad Terfynfa Forol Amlwch a dod â'r adeilad yn ôl i ddefnydd, gan gynnwys costau adeiladu a ffioedd proffesiynol. Cyflwynwyd yr hawliad cyntaf ar gyfer chwarter 3, gan sicrhau £0.248m. Mae Rheolwr Prosiect wedi'i benodi i gyflawni'r ddau ddatblygiad. Sicrhawyd cyllid o £0.351m, sy'n mynd tan fis Mehefin 2028, gan y Gwasanaeth Adfer Niwclear yn flaenorol i gefnogi'r ddau elfen o'r prosiect ac mae'r hawliad cyntaf wedi'i gyflwyno, gan sicrhau £58k. Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cytuno i gyllid o'r Cynllun Twf i gefnogi'r Unedau Diwydiannol a'r Derfynfa Forol, a disgwylir Llythyr Cynnig am £7m yn chwarter 4, yn ogystal â Chytundeb Cyd-Fenter gyda LlC am £1.5m ar gyfer yr Unedau Diwydiannol. Mae dyluniadau llawn ar gyfer yr Unedau a'r Derfynfa wedi'u paratoi ac mae'r broses o ymgysylltu â defnyddwyr y Derfynfa Forol ar y gweill. Ymgynghorwyd â Grŵp Defnyddwyr y Porthladd ac roedd yr adborth yn gadarnhaol.

- **Rhaglen Trawsnewid Trefi (TTP) ar gyfer Grant Creu Lleoedd Ynys Môn -** Dyfarnwyd £0.294m o gyllid grant tuag at gefnogi adfywio Amlwch, Llangefni a Biwmares, a gwelliannau isadeiledd gwyrdd i'r Llain Werdd yn Nant y Pandy, sy'n cyfrannu at TTP LlC. Mae cyllid ychwanegol gan y TTP wedi'i sicrhau, gan fanteisio ar danwariant rhanbarthol yn chwarter 3. Mae'r grant diweddaraf bellach yn £0.952m, sy'n mynd tan fis Mawrth 2027 ac yn cynnwys 14 o brosiectau eiddo ar wahân ar draws Llangefni, Amlwch, Biwmares a Chaergybi. Mae £0.651m wedi'i broffilio i'w wario erbyn diwedd chwarter 4, gyda £0.210m yn cael ei hawlio hyd at ddiwedd chwarter 3. Er bod llawer o waith i'w gwblhau yn chwarter 4, dylid hawlio'r grant ar gyfer 2025/26 yn llawn.

- Mae cyllid gofal cymdeithasol wedi'i ddyfarnu gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o sawl ffrwd cyllido wahanol, fel a ganlyn:-

    - **Cronfa Gofal Integredig (ICF)** - Hawliwyd £0.118m drwy'r ICF mewn blynyddoedd blaenorol, ac o gyllid arall, er mwyn cwblhau prosiectau sydd wedi llithro i 2025/26. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y cyllid sy'n weddill yn cael ei wario'n llawn y flwyddyn ariannol hon, a chaiff ei ddefnyddio i gyfrannu at gynlluniau sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb y CRT.

    - **Y Gronfa gyfalaf integreiddio ac ail-gydbwyso (IRCF)**

        - Canolfan Glanhwfa (£0.777m) – Mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i drawsnewid capel / adeilad hanesyddol yn agos at ganol Llangefni yn Ganolfan Dementia gyntaf Ynys Môn. Mae rhan y Capel wedi'i chwblhau. Mae gwaith strwythurol wedi dechrau yng nghefn yr adeilad i adeiladu siafft y lifft. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n llawn.

3.2 Derbyniadau Cyfalaf

3.2.1 Dyma'r derbyniadau cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma a'r derbyniadau cyfalaf y cyllidwyd ar eu cyfer:-

	Cyllideb 2025/26 £'000	Derbyniwyd hyd at 31 Rhagfyr 2025 £'000	Rhagolwg hyd at 31 Mawrth 2026 £'000
Cronfa'r Cyngor:			
Mân-ddaliadau	0	0	0
Cyffredinol	155	70	70
Diwydiannol	238	0	0
Ysgolion	554	0	157
CRT	123	0	123
Cyfanswm	**1,070**	**70**	**350**

3.2.2 Y derbyniadau cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2026 yw £0.350m, gyda £0.070m wedi'i dderbyn ar 31 Rhagfyr 2025 (20%). Mae'r rhagolwg yn wahanol iawn i'r gyllideb am nifer o resymau. Mewn un achos, mae gwerthiant wedi methu, mae diddordeb cyfyngedig mewn ased arall ac ni fydd rhai, yn syml oherwydd amserlenni, yn cwblhau'r gwerthiannau yn y flwyddyn ariannol hon. Mae'r ffigwr a ragwelir, felly, wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu hyn.

3.2.3 Er bod y derbyniadau cyfalaf a ragwelir yn £0.350m, mae £2.966m o dderbyniadau cyfalaf ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf, gan fod £2.616m o dderbyniadau cyfalaf wedi'u dwyn ymlaen o 2024/25, sydd ar hyn o bryd yn cael eu cadw yn y gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf. Ni fydd y ffigwr hwn i gyd ar gael i gyllido rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol gan y bydd cyllid wedi'i glustnodi i gyllido'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, fel rhan o gyllid cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â chronfa wrth gefn clustnodedig Hamdden i gyllido gwelliannau hamdden, derbyniadau cyfalaf y CRT, yn ogystal â chyllid wedi'i glustnodi ar gyfer cynlluniau llithro o'r flwyddyn flaenorol.

4. GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN 2025/26

4.1 Isod ceir tabl sy'n dangos y Gwariant a ragwelir ar 31 Mawrth 2026 a'r cyllid diwygiedig:-

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol £'000	Gwariant a Ragwelir £'000	Tan / Gorwariant a Ragwelir £'000	Amrywiant %
Cronfa Gyffredinol Tai	1,099	1,099	0	0
Tai - CRT	24,871	24,007	(864)	(3)
Dysgu Gydol Oes	3,905	2,948	(957)	(25)
Economaidd ac Adfywio	14,963	10,866	(4,097)	(27)
Priffyrdd	9,193	8,439	(754)	(8)
Rheoli Gwastraff	1,462	646	(816)	(56)
Eiddo	8,650	7,081	(1,569)	(18)
Trawsnewid	815	660	(155)	(19)
Gwasanaethau Oedolion	1,987	1,350	(637)	(32)
Cyfanswm	**66,945**	**57,096**	**(9,849)**	**(15)**
Cyllidir gan:	**Cyllideb Flynyddol £'000**	**Cyllid a Ragwelir £'000**	**Amrywiant £'000**	**Amrywiant %**
Grant Cyfalaf	39,883	34,372	(5,511)	(14)
Derbyniadau Cyfalaf	824	446	(378)	(46)
Benthyca â Chefnogaeth	5,967	4,581	(1,386)	(23)
Benthyca Digefnogaeth	3,682	2,125	(1,557)	(42)
Cyfraniad Refeniw	13,894	13,651	(243)	(2)
Cronfeydd wrth gefn	1,835	1,076	(759)	(41)
Benthyciad	860	845	(15)	(2)
Cyfanswm Cyllid	**66,945**	**57,096**	**(9,849)**	**(15)**

4.2 Fel y gwelir yn Nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2025/26 yw £9.849m, gyda'r posibilrwydd y bydd yn llithro i raglen gyfalaf 2026/27. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2026/27 a bydd yn cael ei ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2026/27.

Mae'r tanwariant sylweddol a ragwelir yn rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol yn cael ei grynhoi isod:-

Dysgu gydol oes
Mae disgwyl i'r gyllideb gyfalaf mynediad i adeiladau addysg i'r anabl danwario oherwydd bod Grant ADY LlC yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwaith er mwyn caniatáu Mynediad i Adeiladau Addysg i'r Anabl 2025/26. Gofynnir ar hyn o bryd bod unrhyw danwariant yn cael ei ddwyn ymlaen i gyllido gwaith yn 2026/27 a thu hwnt. Mae disgwyl hefyd i'r gyllideb gyfalaf ar gyfer Adeiladau Addysg danwario. Mae hyn yn deillio o gynnydd yn y gyllideb o £0.572m o'r Dyfarniad Grant Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Cyfalaf 2025/26 a chynnydd pellach o £0.381m i'r dyfarniad hwn ym mis Rhagfyr 2025. Gwnaed penderfyniad bwriadol i beidio â brysio'r gwariant ond, yn hytrach, ei roi yn erbyn gwariant sydd wedi'i ymrwymo a'i ddwyn ymlaen i raglen fesuredig yn 2026/27.

Economaidd ac Adfywio
Disgwylir tanwariant sylweddol ac mae hyn o ganlyniad i ddyfarnu cyllid grant dros nifer o flynyddoedd ariannol – bydd y cyllid grant yn cael ei ddwyn ymlaen ac, o ganlyniad, ni chollir unrhyw gyllid.

Priffyrdd
Rhagwelir y bydd tanwariant o tua £0.125m yn y gyllideb ar gyfer cerbydau a cherbydau graeanu. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau a wnaethpwyd yn barod ac archebion pellach a gynlluniwyd. Ni fydd y cyllid cyfatebol ar gyfer cynllun lliniaru llifogydd (£0.239m) yn cael ei ddefnyddio y flwyddyn ariannol hon. Gwnaed penderfyniad bwriadol i beidio â gwneud cais cyfalaf ar gyfer cynlluniau draenio ar gyfer 2026/27 ac, yn lle hynny, defnyddio'r cyllid cyfatebol presennol sydd ar gael. Hefyd, fel y nodwyd yn adran 3.1.1 o'r adroddiad hwn, rhagwelir y bydd tanwariant yn y gyllideb teithio llesol (£0.391m).

Rheoli Gwastraff
Bydd canolbwyntio ar yr eitemau blaenoriaeth y flwyddyn ariannol hon yn arwain at danwariant ar y gyllideb, fel yr adroddwyd yn y chwarter blaenorol.

Eiddo
Ni fydd cyllideb y cynllun Uwchraddio Cyfleusterau Cyhoeddus yn cael ei gwario'n llawn; yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r gyllideb hon wedi cael ei defnyddio i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer rhaglen grant Y Pethau Pwysig LIC, sy'n cyllido 80% o'r costau cymwys. Nid oes Rhaglen Y Pethau Pwysig yn 2025/26, ond mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd y rhaglen ar gael yn y blynyddoedd i ddod ac y bydd y gyllideb sydd wedi'i thanwario ar gael i gefnogi Y Pethau Pwysig a cheisiadau grant eraill. Ni chredir y byddai'n synhwyrol ymrwymo'r gyllideb hon ar gyfer prosiectau sy'n cael eu cyllido'n llwyr gan y Cyngor eleni, tra bod posibilrwydd o ddefnyddio'r cyllid i gyflawni prosiectau yn y dyfodol, pan fydd 80% o'r costau'n cael eu cyllido gan grantiau. Os daw'n amlwg bod cyfleoedd grant yn y dyfodol yn annhebygol / anhyfyw, yna bydd y gwasanaeth yn cyllido gwaith uwchraddio'n uniongyrchol o'r gyllideb hon heb gyfraniad grant.

Ni fydd y gyllideb a ddyrannwyd i wneud gwelliannau ym Mhlas Arthur yn cael ei gwario'n llawn y flwyddyn ariannol hon. Mae £0.350m o gyllid SPF wedi'i sicrhau i gyfrannu at y gwaith hwn (gweler paragraff 3.1.1 uchod), a bydd y cyllid hwn yn cael ei flaenoriaethu a'i ddefnyddio cyn y dyddiad cau estynedig, gyda'r tanwariant i'w ddwyn ymlaen i 2026/27 i barhau â'r gwaith. Ni fydd y gyllideb ar gyfer llyfrgell Porthaethwy yn cael ei gwario yn 2025/26 oherwydd blaenoriaethau eraill y mae mwy o frys amdanynt.

Trawsnewid
Gwnaed buddsoddiad sylweddol mewn uwchraddio asedau TG mewn ysgolion gan ddefnyddio cyllid LIC (HWB). Bydd angen i'r Cyngor gyllido asedau yn lle'r rhain pan fyddant yn cyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol. Mae cyllid yn cael ei ddyrannu, pan fydd ar gael, i greu cronfa wrth gefn i gyllido'r gwariant sylweddol, dros £2m, a fydd yn angenrheidiol yn 2027/28. Mae £0.150m wedi'i ddyrannu i gyllido'rariannu'r gost o newid dyfeisiau TG ac isadeiledd mewn ysgolion ac, er nad oes unrhyw wariant wedi'i gynllunio, bydd y cyllid hwn yn cael ei sicrhau ar gyfer y dyfodol trwy ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn clustnodedig.

Gwasanaethau oedolion
Rhagwelir tanwariant ar draws y gwaith o adnewyddu cartrefi gofal o fewn y rhaglen gyfalaf. Gofynnir i'r holl danwariant ar hyn o bryd gael ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf (2026/27), naill ai i barhau â'r gwaith a fwriadwyd yn wreiddiol neu i barhau â'r gwaith ar ddrysau tân ar draws cartrefi gofal gwasanaethau cymdeithasol.

4.3 Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) a ragwelir ar 31 Mawrth 2025 yw £158.377m, sef y gofyn sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn cyllido ei Raglen Gyfalaf. Mae benthyca allanol yn £121.710m ar hyn o bryd, gan olygu, yn ei hanfod, fod angen i'r Awdurdod fenthyg £36.667m i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf bresennol. Os caiff y cyllid hwn ei fenthyca'n allanol, ni fydd yr Awdurdod yn mynd tu hwnt i'r terfynau benthyca a gymeradwywyd, yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26 (Atodiad 11).

5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

5.1 Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai'r cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2025/26 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth (fel y penderfynir gan LlC) ac amcangyfrif o werth unrhyw dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir. Disgwylir i raglen gyfalaf 2026/27 ddilyn yr un egwyddorion, gyda'r grant cyfalaf cyffredinol a benthyca digefnogaeth yn cael eu defnyddio i gyllido'r gwaith o adnewyddu cerbydau bob blwyddyn, buddsoddi mewn TGCh, adnewyddu asedau presennol a dyraniad blynyddol i dalu cost y grantiau statudol i ddarparu Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ail-wynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a byddant yn cael eu harfarnu fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu cyllido, bydd unrhyw gyllid dros ben yn cael ei ddefnyddio i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor, fel y cânt eu nodi yng Nghynllun y Cyngor 2022-2027, ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw neu gynhyrchu incwm ychwanegol yn y dyfodol.

Bydd y gyllideb gyfalaf arfaethedig yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar 24 Chwefror 2026, gyda'r gyllideb derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn i'w chymeradwyo ar 5 Mawrth 2026. Cyflwynwyd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2026 i 2031 i'r Pwyllgor hwn ar 27 Ionawr 2026, a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn ar 5 Mawrth 2026.

6. CASGLIAD

6.1 Mae'r canlyniadau ar ddiwedd chwarter 3, a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir yn dangos bod mwyafrif y prosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb. Er bod disgwyl i rai cynlluniau danwario ar hyn o bryd, rhaid nodi bod y cyllidebau wedi'u hymrwymo a bod gofyn amdanynt, a gofynnir i'r cynlluniau hyn lithro i 2026/27 i gael eu cwblhau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl derbyn £0.350m o dderbyniadau cyfalaf yn 2025/26 i gyfrannu tuag at gyllido'r Rhaglen Gyfalaf.

Crynodeb o wariant y prosiectau cyfalaf hyd yma yn erbyn y gyllideb gyfalaf a rhagolygon gwariant ar ddiwedd y flwyddyn

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol (£)	Gwariant Gwirioneddol (£)	Gwariant wedi'i Ymrwymo (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%)	Gwariant a Ragwelir (£)	(Tan) / Gorwariant a Ragwelir (£)	Amrywiant (%)
Cronfa Gyffredinol Tai								
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	870,000	525,787	344,213	870,000	100	870,000	0	0
Grant Galluogi	198,030	33,026	0	33,026	17	198,030	0	0
Tai Fforddiadwy	30,650	0	0	0	0	30,650	0	0
CYFANSWM	**1,098,680**	**558,813**	**344,213**	**903,026**	**82**	**1,098,680**	**0**	**0**
Tai - CRT								
Contract Gwres Canolog	200,000	89,190	0	89,190	45	104,000	(96,000)	(48)
Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd	3,000,000	1,233,082	0	1,233,082	41	1,300,000	(1,700,000)	(57)
Gwella Perfformiad Ynni	3,300,000	2,320,944	0	2,320,944	70	3,300,000	0	0
Gwaith Amgylcheddol	500,000	98,488	0	98,488	20	300,000	(200,000)	(40)
Prynu Eiddo Presennol a Datblygu Eiddo Newydd	10,737,814	5,531,712	0	5,531,712	52	10,449,902	(287,912)	(3)
Addasiadau'r Sector Cyhoeddus	500,000	325,215	0	325,215	65	500,000	0	0
Risg Tân	500,000	212,523	0	212,523	43	500,000	0	0
Fflyd	650,000	293,186	0	293,186	45	687,873	37,873	6
SATC	5,483,000	5,599,429	0	5,599,429	102	6,865,000	1,382,000	25
CYFANSWM	**24,870,814**	**15,703,771**	**0**	**15,703,771**	**63**	**24,006,775**	**(864,039)**	**(3)**
Dysgu Gydol Oes								
Mynediad i Adeiladau Addysg i'r Anabl	134,763	52,138	0	52,138	39	58,300	(76,463)	(57)
Adnewyddu Adeiladau Addysg	1,781,112	625,648	3,225	628,873	35	1,007,246	(773,866)	(43)
Diogelwch Ysgol	63,294	0	0	0	0	0	(63,294)	(100)
Adnewyddu Toiledau Ysgolion Uwchradd	345,000	259,984	595	260,579	76	302,100	(42,900)	(12)
Cynllun Grantiau Cyfalaf Gofal Plant	450,311	159,958	68,492	228,450	51	450,311	0	0
Mannau Chwarae	110,824	84,872	0	84,872	77	110,824	0	0
ADY 2025/26	476,154	386,131	2,496	388,627	82	476,154	0	0
CFS 2025/26	208,800	18,337	191,522	209,860	101	208,800	0	0
Uned Gofal Plant Llanfechell	90,165	50,247	2,811	53,058	59	90,165	0	0
Uned Gofal Plant Llangoed	46,336	25,833	549	26,382	57	46,336	0	0
Uned Gofal Plant y Fali	25,721	17,043	0	17,043	66	25,721	0	0
Gwaith Adeiladu Santes Fair	20,419	20,419	0	20,419	100	20,419	0	0
Dechrau Rhaglen Band B	152,000	2,937	1,686	4,623	3	152,000	0	0
CYFANSWM	**3,904,899**	**1,703,548**	**271,376**	**1,974,924**	**51**	**2,948,376**	**(956,523)**	**(24)**

ATODIAD C

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol (£)	Gwariant Gwirioneddol (£)	Gwariant wedi'i Ymrwymo (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%)	Gwariant a Ragwelir (£)	(Tan) / Gorwariant a Ragwelir (£)	Amrywiant (%)
Economaidd ac Adfywio								
Canolfan Hamdden Caergybi - Offer Ffitrwydd	140,000	116,920	0	116,920	84	140,000	0	0
Canolfan Hamdden Plas Arthur - Ffens	122,275	122,275	0	122,275	100	122,275	(0)	(0)
Canolfan Hamdden Plas Arthur - Lloriau	56,487	56,487	0	56,487	100	56,487	0	0
CCTV - Canolfannau Hamdden David Hughes ac Amlwch	50,000	7,273	9,535	16,808	34	50,000	0	0
Adfywio Caergybi (Cam II THI)	1,800,000	679,050	754,236	1,433,285	80	1,800,000	0	0
Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol	322,543	0	0	0	0	322,543	0	0
Llithrfa Porth y Wrach – Camerâu Gorfodi	30,000	0	0	0	0	30,000	0	0
Canolfan Gymunedol Newry	51,287	0	0	0	0	51,287	0	0
Isadeiledd Morol	177,514	0	0	0	0	177,514	0	0
Isadeiledd Ymwelwyr	605,464	548,069	7,395	555,464	92	605,464	0	0
Ailddatblygu Safle'r Goron	935,700	104,605	0	104,605	11	120,000	(815,700)	(87)
Plot Tregarnedd 2 Uned	21,465	500	20,965	21,465	100	21,465	0	0
Unedau Diwydiannol Amlwch – Cynllun Twf	253,387	241,187	12,200	253,387	100	253,387	0	0
Fan y Llyfrgell	24,680	24,680	0	24,680	100	24,680	0	0
Trawsnewid Trefi – Terfynfa Forol Amlwch	920,000	270,453	0	270,453	29	440,000	(480,000)	(52)
Trawsnewid Trefi - Grant Creu Lle	951,900	160,241	0	160,241	17	650,900	(301,000)	(32)
Y Gronfa Ffyniant Bro	8,500,455	5,063,635	0	5,063,635	60	6,000,000	(2,500,455)	(29)
CYFANSWM	**14,963,157**	**7,395,375**	**804,330**	**8,199,705**	**55**	**10,866,002**	**(4,097,155)**	**(27)**
Priffyrdd								
Cerbydau	306,511	294,350	0	294,350	96	294,350	(12,161)	(4)
Cerbydau Graeanu	467,108	354,250	0	354,250	76	354,250	(112,858)	(24)
Cerbyd AHNE	44,746	44,746	0	44,746	100	44,746	0	0
Arwynebu Priffyrdd	3,853,026	2,490,378	0	2,490,378	65	3,853,026	0	0
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol)	238,584	0	0	0	0	0	(238,584)	(100)
Buddsoddi i Arbed - Cerbydau	5,068	0	0	0	0	5,068	0	0
Gwaith grantiau ar raddfa fach	609,443	39,041	4,000	43,041	7	609,443	0	0
Teithio Llesol	2,908,979	741,960	647,650	1,389,610	48	2,517,979	(391,000)	(13)
Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd	165,750	79,578	0	79,578	48	165,750	0	0
Isadeiledd Bysiau	208,000	25,762	30,409	56,171	27	208,000	0	0
ULEV	166,600	55,308	52,924	108,232	65	166,600	0	0
Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan	219,577	49,588	18,807	68,395	31	219,577	0	0
CYFANSWM	**9,193,392**	**4,174,960**	**753,790**	**4,928,750**	**54**	**8,438,789**	**(754,603)**	**(8)**

ATODIAD C

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol (£)	Gwariant Gwirioneddol (£)	Gwariant wedi'i Ymrwymo (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%)	Gwariant a Ragwelir (£)	(Tan) / Gorwariant a Ragwelir (£)	Amrywiant(%)
Rheoli Gwastraff								
Prosiectau Gwastraff	1,445,000	144,829	438,288	583,117	40	629,117	(815,883)	(56)
Offer Ailgylchu	17,333	0	0	0	0	17,333	0	0
CYFANSWM	**1,462,333**	**144,829**	**438,288**	**583,117**	**40**	**646,450**	**(815,883)**	**(56)**
Eiddo								
Adnewyddu Asedau Presennol	222,946	32,341	0	32,341	15	52,228	(170,718)	(77)
Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Swyddfeydd y Cyngor	283,724	1,006	0	1,006	0	6,360	(277,364)	(98)
Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Canolfan Hamdden Amlwch	80,000	5,163	0	5,163	6	6,360	(73,640)	(92)
Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Canolfan Hamdden David Hughes	46,000	0	0	0	0	18,020	(27,980)	(61)
Adnewyddu a Gwaith Trwsio – Canolfan Hamdden Plas Arthur	850,000		167,000	167,000	20	167,000	(683,000)	(80)
Adnewyddu a Gwaith Trwsio – Llyfrgell Porthaethwy	17,000	0	0	0	0	0	(17,000)	(100)
Pwyntiau Gwefru Solar ar gyfer Ceir	844,711	385,469	0	385,469	46	844,711	0	0
Eiddo Buddsoddi i Arbed	15,596	0	0	0	0	0	(15,596)	(100)
Grant Gwres Carbon Isel – Swyddfeydd y Cyngor	23,900	0	0	0	0	0	(23,900)	(100)
Grant Gwres Carbon Isel - 231	734,350	86,453	0	86,453	12	734,350	0	0
Grant Gwres Carbon Isel - 249	1,358,609	575,167	0	575,167	42	1,358,609	0	0
Grant Gwres Carbon Isel - 250	2,821,918	1,461,729	0	1,461,729	52	2,821,918	0	0
Grant Gwres Carbon Isel - 251	1,071,273	435,038	0	435,038	41	1,071,273	0	0
Uwchraddio Toiledau	279,574	0	0	0	0	0	(279,574)	(100)
CYFANSWM	**8,649,601**	**2,982,366**	**167,000**	**3,149,366**	**36**	**7,080,829**	**(1,568,772)**	**(18)**
Trawsnewid								
TGCh	598,085	180,091	234,725	414,816	69	598,085	0	0
Hwb TG	155,000	0	0	0	0	0	(155,000)	(100)
Cynydd lled band ysgolion	62,000	41,051	20,172	61,223	99	62,000	0	0
CYFANSWM	**815,085**	**221,142**	**254,897**	**476,039**	**58**	**660,085**	**(155,000)**	**(19)**
Gwasanaethau Oedolion								
Canolfan Glanhwfa	599,644	367,710	0	367,710	61	599,644	0	0
ICF	118,275	3,093	770	3,863	3	118,275	0	0
Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Brwynog	69,000	30,098	0	30,098	44	57,240	(11,760)	(17)
Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Garreglwyd	514,000	137,524	0	137,524	27	159,000	(355,000)	(69)
Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Haulfre	81,000	1,200	0	1,200	1	81,000	0	0
Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Plas Crigyll	171,139	171,139	0	171,139	100	171,139	0	0
Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Plas Mona	83,520	37,583	0	37,583	45	63,600	(19,920)	(24)
Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Hen Reithordy	35,000	0	0	0	0	0	(35,000)	(100)
Adnewyddu a Gwaith Trwsio – Gors Felen	315,000	5,705	0	5,705	2	100,000	(215,000)	(68)
CYFANSWM	**1,986,578**	**754,052**	**770**	**754,822**	**38**	**1,349,898**	**(636,680)**	**(32)**
CYFANSWM	**66,944,539**	**33,638,855**	**3,034,664**	**36,673,520**	**55**	**57,095,884**	**(9,848,655)**	**(15)**

Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers gosod y gyllideb

Newidiadau / cynlluniau a ychwanegwyd yn Chwarter 3

Cynllun	Cyllideb £	CYLLID							
		Grant £	Cronfa wrth gefn Grant Cyfalaf Gyffredinol £	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £	Cronfa Wrth Gefn Cyfalaf £	Benthyca â Chefnogaeth £	Benthyca Digefnogaeth £	Cyfraniad Refeniw £	Benthyciad £
Pwyntiau Gwefru Solar ar gyfer Ceir	844,711								844,711
Grant Teithio Llesol 2025/26	2,908,979	2,908,979							
Grant Isadeiledd Bysiau 2025/26	208,000	208,000							
Grant Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd 2025/26	165,750	165,750							
ULEV	166,600	166,600							
Ysgolion Bro (CFS)	208,800	208,800							
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	476,154	476,154							
Grant Galluogi 2025/26	198,030	198,030							
Trwsio a Chynnal a Chadw Cyfalaf	571,384	571,384							
Grant Mannau Chwarae 2025/26	110,824	110,824							
Grantiau Gwaith ar Raddfa Fach	518,027	518,027							
Uned Gofal Plant Llanfechell	90,165	90,165							
Uned Gofal Plant Llangoed	46,336	46,336							
Ffens Plas Arthur	122,275	109,350			12,925				
THI Cam 2	205,000	205,000							
CCTV – David Hughes ac Amlwch	50,000	50,000							
SPF Plas Arthur	350,000	350,000							
Cyllid	0	(112,625)	112,625						
Cerbydau Trydan ac Isadeiledd Gwefru EV	53,764	53,764							
Cynllun grantiau cyfalaf gofal plant	380,000	380,000							
Trawsnewid Trefi – Terfynfa Forol Amlwch	920,000	920,000							
Trawsnewid Trefi - Grant Creu Lle 2025/26	293,740	293,740							
Gwaith Adeiladu y Santes Fair	20,419	20,419							
Offer Ffitrwydd Caergybi	140,000				140,000				
Grant Isadeiledd Ymwelwyr	182,578	182,578							
Priffyrdd LGBI (Menter Benthyca Llywodraeth Leol)	2,153,026					2,153,026			
Swyddfeydd y Cyngor	158,724				158,724				
Cyfalaf Ysgolion	379,346	380,923			(1,577)				
Plot Tregarnedd 2 Uned	21,465	21,465							
Unedau Diwydiannol Amlwch (Cynllun Twf)	253,387	253,387							
Isadeiledd Ymwelwyr	178,933	178,933							
Fan y Llyfrgell	24,680	24,680							
THI Cam 2	1,520,000	1,520,000							
Cerbydau - AHNE	44,746				44,746				
Teleffoni	(31,776)				(31,776)				
Lled band ysgolion	62,000				62,000				
Ailddatblygu Safle'r Goron	935,700	935,700							
Amrywiad Grant Gwres Carbon Isel	565,380	565,380							
Llawr Canolfan Hamdden Caergybi	(3,003)				(3,003)				
IVC (compostio caeedig)	(7,791)			(7,791)					
Trawsnewid Trefi - Grant Creu Lle 2025/26	658,160	658,160							
CRT - Gwelliant Ch3	350,000	(432,637)						782,627	
CRT - Gwelliant Ch2	1,492,000	2,182,291					(690,291)		
CRT - Gwelliant Ch1	2,134,814	2,506,892					(7,695,571)	7,323,493	
CYFANSWM	**20,121,327**	**16,916,449**	**112,625**	**(7,791)**	**382,039**	**2,153,026**	**(8,385,862)**	**8,106,130**	**844,711**

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn	
ADRODDIAD I:	**PWYLLGOR GWAITH**
DYDDIAD:	**24 CHWEFROR 2026**
PWNC:	**MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 3 2025/26**
DEILYDD(ION) PPORTFFOLIO:	**CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER** **CYNG CARWYN JONES - DEILYDD PORTFFOLIO TAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL**
PENNAETH GWASANAETH / CYFARWYDDWR:	**MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** (est. 2601)
AWDUR YR ADRODDIAD : Ffôn: E-bost:	**ŠÁRKA TIMAROVÁ** SarkaTimarova@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	**Amherthnasol**

A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

1. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-

(i) Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 3 2025/26.
(ii) Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2025/26.

2. Cefndir

(i) Gosodwyd y gyllideb refeniw gyda gwarged a gynlluniwyd o £6,291k.

(ii) Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2025/26 yw £24,871k. Mae cyllideb cyllid grant gwerth £8,740k yn gostwng y gyllideb net i £16,131k.

(iii) Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £9,840k. Bydd £6,820k yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT, a bydd y balans o £3,019k yn cael ei gyllido gan fenthyca allanol.

(iv) Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo cyllid o'i gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Rhagfyr 2025.

4. Trosolwg

4.1 Mae sefyllfa gwarged / diffyg refeniw y CRT ar ddiwedd chwarter 3 £715k yn well na'r gyllideb a broffiliwyd. Rhagwelir tanwariant o £546k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae mwy o fanylion wedi'u cynnwys yn adrannau 5 i 8 isod ac yn Atodiad A.

4.2 Ychwanegwyd £350k at y gyllideb gwariant cyfalaf, a'r cyfanswm bellach yw £24,871k. Rhagwelir tanwariant o £864k ar ddiwedd y flwyddyn, fel yr esbonnir yn adran 9 isod ac yn Atodiadau B a C. Mae incwm grantiau wedi gostwng i £8,740k, ac mae disgwyl i'r cyllid gael ei wario'n llawn.

4.3 Mae'r diffyg a ragwelir (trwy gyfuno refeniw a chyfalaf) bellach yn £8,436k, £1,403k yn llai na'r gyllideb.

5. Incwm

5.1 Ar ddiwedd chwarter 3, roedd incwm rhenti £132k yn llai na'r gyllideb a broffiliwyd. Y rheswm pennaf am y diffyg yn yr incwm rhenti yw nad oedd eiddo newydd wedi'u hychwanegu at y stoc tai y gellir eu gosod yn unol â'r amserlen. Rhagwelir y bydd incwm rhenti £56k yn llai na'r gyllideb oherwydd yr oedi. Ar yr un pryd, rhagwelir y bydd cynnydd mewn incwm ar gyfer rhai ffioedd, taliadau a chyfraniadau eraill yn gwrthbwyso'r diffyg hwn. Y canlyniad net fydd £18k o incwm ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn.

6. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

6.1 Ar ddiwedd chwarter 3, roedd tanwariant o £344k ar waith trwsio a chynnal a chadw. Gwariant ar dai gwag pan fydd tenantiaeth yn newid dwylo sydd i gyfrif am hyn yn bennaf. Roedd y gwariant wedi cyrraedd y trothwy cyfalafu a'i symud yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer SATC (Safon Ansawdd Tai Cymru). Bydd rhai o'r costau hyn yn cael eu hailasesu yn ystod y flwyddyn a'u symud yn erbyn cyllideb gyfalaf SATC. Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld gorwariant o £30k yn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd bod disgwyl i wariant ar isgontractwyr gynyddu, a bydd y gwariant hwn yn aros fel gwariant refeniw ar ddiwedd y flwyddyn.

6.2 Mae tanwariant o £47k ar wasanaethau a rennir a gwasanaethau yr ailgodir tâl amdanynt, sy'n cynnwys gwariant ar ardaloedd cymunol ac ardaloedd a rennir, torri glaswellt ac ati. Ar hyn o bryd, mae yna nifer o wahaniaethau amseru ddylai gael eu hunioni erbyn diwedd y flwyddyn, ac mae tanwariant o £24k yn cael ei ragweld.

6.3 Mae gwariant ar staff gweithredol £248k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 3, oherwydd cyfuniad o danwariant ar y gyllideb ar gyfer dyfarniadau cyflog a swyddi gweigion. Mae gorbenion a gwariant arall £52k yn uwch na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd costau llogi sgipiau, gwariant ar gyfarpar a gorbenion gweithredol.

7. Gwariant ar Oruchwylio a Rheoli

7.1 Ar ddiwedd chwarter 3, roedd gwariant ar oruchwylio a rheoli £215k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Rydym yn rhagweld y bydd swyddi gweigion ac addasiadau sylweddol yn y cyfraniadau pensiwn yn creu tanwariant o tua £410k yn erbyn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn

8.1 Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau gwariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sydd yn ffurfio rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar ddiwedd chwarter 3, rydym yn rhagweld gorwariant bychan o £7k ar ddiwedd y flwyddyn.

9. Gwariant Cyfalaf

9.1 Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2025/26 yw £24,871k, ac mae'r gyllideb cyllid grant yn £8,740k.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r rhagolygon mewn perthynas â chyllid grant:-

Ffynhonnell	Rhagolwg Chwarter 3 £
Cronfa Tai â Gofal (HCF)	568,648
Cronfa Gofal Integredig (ICF)	375,000
Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol	1,035,665
Grant Tai Cymdeithasol (SHG)	1,235,012
Lwfans Atgyweiriadau Mawr (MRA)	2,690,000
Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2025/26	2,775,712
Arall	60,000
Cyfanswm Cyllid Grant	**8,740,037**

9.2 Gwariant SATC – Roedd y gyllideb ddiwygiedig o £5,483k yn dyrannu swm o £1,483k i fynd i'r afael â gwaith SATC a wrthodwyd gan denantiaid ac elfennau cyfalaf sy'n cael eu huwchraddio pan fydd tenantiaeth yn newid dwylo, megis gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd ac ail-weirio systemau wrth iddynt ddod i ddiwedd eu hoes. Mae gwerth £1,056k o waith ar eiddo gwag a gwblhawyd gan yr Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) wedi cael ei gyfalafu hyd at ddiwedd chwarter 3, ac mae disgwyl i symiau pellach gael eu cyfalafu yn ystod chwarter 4. Roedd y gyllideb hefyd yn neilltuo £4,000k tuag at Flwyddyn 2 y rhaglen 5 mlynedd ar gyfer adnewyddu ceginau sydd bellach dros 15 oed. Yn ôl y Gwasanaethau Tai, roedd y ddau gontractwr a benodwyd wedi parhau i berfformio'n dda yn ystod chwarter 3, a gwariwyd swm o £3,795k. Mae'r ddau gontractwr hefyd yn gosod ceginau newydd ac yn gwneud gwaith yn gysylltiedig â SATC yn ôl y gofyn, pan fydd tenantiaeth yn newid dwylo. Mae'r ddau gontractwr wedi gwneud llawer iawn mwy o waith nad oedd wedi'i raglennu na'r disgwyl, ac mae'r Gwasanaethau Tai'n amcangyfrif gorwariant o £1,382k ar hyn o bryd.

9.3 Gwariant Risg Tân – Bwriedir gwario'r gyllideb o £500k ar sicrhau cydymffurfiaeth â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2005. Bydd y mesurau arfaethedig yn ymwneud yn bennaf â gosod drysau tân 1 awr (FD60) newydd mewn fflatiau ac uwchraddio systemau larymau tân a goleuadau argyfwng mewn blociau o fflatiau. Gwahoddwyd tendrau i adnewyddu drysau tân a dyfarnwyd y contract yn ystod 2024/25, ac roedd gwariant o £212k erbyn diwedd chwarter 3. Os yw'r drysau newydd yn cael eu cyflenwi ar amser, mae'r Gwasanaethau Tai yn rhagweld ar hyn o bryd y caiff y gyllideb hon ei defnyddio'n llawn.

9.4 Gwariant ar Addasiadau Sector Cyhoeddus - Mae'r Gwasanaethau Tai yn disgwyl i'r galw am addasiadau canolig a mawr aros yn gyson, a bydd y gyllideb a ddyrannwyd o £500k yn cyllido gwaith megis gosod lifftiau grisiau, cawodydd â mynediad gwastad, rampiau ac estyniadau. Y gwariant gwirioneddol ar ddiwedd chwarter 3 oedd £325k, ac mae ymrwymiad pellach o £178k wedi'i gadarnhau. Mae'r Gwasanaeth Tai'n rhagweld y bydd y gyllideb yn cael ei defnyddio'n llawn yn ystod 2025/26.

9.5 Gwariant Perfformiad Ynni - Fel yr adroddwyd yn flaenorol, dechreuodd y Gwasanaethau Tai weithio ar raglen 5 mlynedd ar gyfer darparu mesurau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio yn y tymor hwy yn ystod chwarter 4 2024/25. Yn ystod chwarter 3, gwelwyd cynnydd cadarnhaol ar y contract, sy'n cynnwys, yn bennaf, gosod systemau Solar PV a systemau Storio Batris ar draws y stoc dai, ac mae'r Gwasanaethau Tai wedi neilltuo cyllideb o £3,300k ar gyfer y gwelliannau effeithlonrwydd ynni hyn yn ystod 2025/26. Ar ddiwedd chwarter 3, roedd £2,321k wedi'i wario. Yn ystod 2025/26, mae'r rhaglen hon wedi denu cefnogaeth ariannol gwerth £2,776k trwy Raglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru (LlC). Mae'r Gwasanaeth Tai'n disgwyl i'r gyllideb gael ei defnyddio'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio cyllid y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn llawn, mae risg y gallai'r gwariant gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn fod yn uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd.

9.6 Gwariant Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd – Dyrannwyd cyllideb gwerth cyfanswm o £3,000k ar gyfer gwaith Cynnal a Chadw traddodiadol a gynlluniwyd, ac mae'n cynnwys ymrwymiad a ddygwyd ymlaen ar gyfer cynlluniau a ddyfarnwyd yn 2024/25 yr oedd gwaith arnynt wedi dechrau'n barod ar safle. Mae'r ymrwymiad a ddygwyd ymlaen yn ymwneud yn bennaf â pharhau â gwaith yn Nhan y Bryn, Fali, a Chilgaint Morrison, Caergybi, lle'r oedd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau'n ymarferol yn ystod chwarter 1. Roedd y gwaith yn y Fali wedi'i gwblhau'n ymarferol yn ystod chwarter 3, ac fe wnaeth y Gwasanaethau Tai roi contract arall ar dendr ar gyfer Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd ar gyfer 20 eiddo mewn gwahanol leoliadau yn ystod chwarter 3. Llwyddwyd i ddyfarnu'r contract ac, felly, mae'r gyllideb ar gyfer 2025/26 wedi'i hymrwymo'n llawn. Roedd £1,233k wedi'i wario erbyn diwedd chwarter 3. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaethau Tai yn amcangyfrif tanwariant o £1.7m yn y gyllideb.

9.7 Gwariant ar Waith Amgylcheddol – Mae cyllideb gwerth £500k wedi'i ddyrannu ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn ystod 2025/26. Bydd cyfran o'r gyllideb hon yn cael ei defnyddio i barhau â'r gwaith dymchwel rhai garejys a gynlluniwyd yn Llangefni, Moelfre ac Amlwch, sef garejys nad yw'n ymarferol eu cadw bellach. Mae'r Gwasanaethau Tai'n cadarnhau bod tendrau wedi cael eu cyflwyno a bod contract wedi'i ddyfarnu ar gyfer dymchwel y garejys hyn yn ystod chwarter 2. Paratoir tendr pellach yn ystod chwarter 4 ar gyfer garejys a glustnodwyd i'w dymchwel yn ardal Caergybi. Nid yw'r Gwasanaethau Tai'n disgwyl unrhyw wariant sylweddol ar uwchraddio gweithfeydd trin yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac mae'n rhagweld tanwariant o £200k.

9.8 Gwariant Contract Gwres Canolog - Yn ystod chwarter 1, roedd y gwaith ar gontract ar gyfer adnewyddu boeleri a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi'i gwblhau'n ymarferol. Mae'r Gwasanaethau Tai wedi dyrannu cyllideb gyfalaf o £200k ar gyfer 2025/26, a'r gwariant ar ddiwedd chwarter 3, yn cynnwys ymrwymiadau, oedd £104k. Nid oes unrhyw gynlluniau i ddyfarnu unrhyw gontractau mawr pellach yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac mae'r Gwasanaethau Tai'n disgwyl tanwariant o £96k yn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

9.9 Adnewyddu Fflyd – Mae'r gyllideb yn dyrannu swm o £650k ar gyfer rhaglen dreigl er mwyn adnewyddu fflyd gerbydau'r UCChA (Uned Cynnal a Chadw Adeiladau), yn bennaf y faniau a ddefnyddir gan weithwyr. Derbyniwyd 10 cerbyd newydd yn ystod chwarter 3, a chyfanswm y gwariant oedd £293k. Archebwyd 10 cerbyd arall, ac mae swm o £395k wedi cael ei ymrwymo i dalu amdanynt.

9.10 Prynu Eiddo a Datblygu Eiddo Newydd - Mae cyllideb o £10,738k wedi'i ddyrannu ar gyfer gweithgareddau sy'n cynyddu stoc rhentadwy y CRT.

- **Prosiectau a gwblhawyd neu sydd bron â'u cwblhau**

  Hyd at chwarter 3, roedd cyfanswm o 29 uned wedi'u hychwanegu at y stoc y gellir eu gosod. Tai newydd eu datblygu yn Stad y Bryn, Llanfaethlu oedd yr unedau hyn, yn ogystal ac eiddo oedd wedi cael eu prynu a'u hadnewyddu gan y CRT. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygiadau newydd yng Nghae Braenar, Caergybi a safle hen Ysgol Niwbwrch ac mae disgwyl iddynt ychwanegu 23 ac 14 uned, yn y drefn honno, at y stoc o dai y gellir eu gosod yn ystod 2026/27.

- **Datblygiadau Eraill**

  Mae dau dŷ newydd yn cael eu datblygu gan ddatblygwr allanol ym Mharc y Coed, Llangefni.

- **Cydweithio â Gwasanaethau Cymdeithasol**

  Mae'r CRT yn cydweithio â Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ar nifer o brosiect sydd ar waith. Mae'r gwaith o ddatblygu cyfleuster gofal ychwanegol ym Mhorthaethwy yn wynebu oedi ond mae disgwyl i rywfaint o waith gael ei wneud yn 2025/26. Yn ogystal, mae pedwar eiddo wedi cael eu prynu ac maent yn cael eu datblygu er mwyn diwallu anghenion Gwasanaethau Cymdeithasol.

- **Prynu ac Adnewyddu Eiddo**

  Mae gwaith yn 2025/26 yn canolbwyntio ar adnewyddu eiddo oedd wedi cael eu prynu'n barod, ac mae swm o £2,370k wedi'i ddyrannu er mwyn cyllido gwaith ar 15 uned fydd yn cael eu hychwanegu at y stoc o dai y gellir eu gosod yn ystod y flwyddyn. Er gwaetha'r oedi, mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ac mae disgwyl i'r swm llawn gael ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

  Derbyniwyd caniatâd i brynu pum eiddo yn ystod chwarter 1, ac mae 5 eiddo arall yn cael eu prynu, ar ôl derbyn dyraniad grant ychwanegol o dan y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol gan LIC (TACP). Gan fod disgwyl i'r rhaglen TACP barhau yn y dyfodol, mae'r tîm datblygu yn asesu cyfleoedd pellach ar hyd a lled Ynys Môn.

- **Prosiectau newydd y mae gwaith cychwynnol yn cael ei wneud arnynt neu brosiectau sydd ar y gweill nad ydynt wedi derbyn caniatâd cynllunio eto**

  Mae gwaith cychwynnol yn cael ei wneud ar nifer o brosiectau, sef datblygiadau ym Mhlas Penlan yn Llangefni, Maes Mona yn Amlwch a safle hen Ysgol Corn Hir yn Llangefni. Mae prosiectau sydd ar y gweill ond nad ydynt wedi derbyn caniatâd cynllunio eto yn cynnwys gwaith datblygu ac ailddatblygu ym Maes William Williams yn Amlwch, Tan y Foel yn Llannerch-y-medd, Ysgol y Parc yng Nghaergybi a Phencraig Mansions yn Llangefni. Dyrannwyd cyllideb o £300k yn 2025/26 ar gyfer gwaith yn gysylltiedig ag asesu potensial y safleoedd hyn ar gyfer prosiect datblygu yn y dyfodol; rhagwelir gwariant o thua £215k erbyn diwedd y flwyddyn.

  Bydd pob prosiect newydd yn cael ei asesu'n ariannol a'i gymeradwyo yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor.

10. Balans y CRT

10.1 Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £7,976k. Roedd y gyllideb yn caniatáu ar gyfer defnyddio £6,820k o'r balans hwn, gan adael balans o £1,155k yn y gronfa wrth gefn, sef yr isafswm balans fel y nodir yng Nghynllun Busnes y CRT. Mae hyn gyfystyr â 5% o'r gyllideb incwm rhenti anheddau ar gyfer 2025/26.

11. Benthyciadau'r CRT

11.1 Ar ôl addasu'r gyllideb gyfalaf a grantiau cyfalaf, y diffyg refeniw / cyfalaf net a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn yw £8,436k. Bydd hyn yn cael ei gyllido gan £6,820k o gronfa wrth gefn y CRT a £1,616k o fenthyciadau allanol.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

DD – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?	Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio, gydag adroddiadau eraill, i lunio cynllun busnes a chyllideb flynyddol y CRT. Bydd yr effaith ar anghenion hir dymor yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol.
2	A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Amherthnasol
3	A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy.	Amherthnasol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Mae'r Gwasanaethau Tai yn ymgynghori'n rheolaidd â'u tenantiaid ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yna i'r broses o osod y gyllideb flynyddol.

5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Amherthnasol
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Amherthnasol
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Amherthnasol
E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		**Beth oedd eu sylwadau?**
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad. Mae unrhyw sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried a'u hymgorffori yn yr adroddiad.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid yn derbyn adroddiad ar ganlyniadau adroddiadau monitro chwarterol y CRT.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol

F - Atodiadau:

- Atodiad A - Gwariant a rhagolygon refeniw hyd at ddiwedd chwarter 3 2025/26
- Atodiad B - Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd chwarter 3 2025/26
- Atodiad C - Cynlluniau cyfalaf adeiladu eiddo newydd a rhagolygon hyd at ddiwedd chwarter 3 2025/26

FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2025-2054 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2025)

CYLLIDEB CYFRIF REFENIW TAI 2025/26 **ATODIAD A**

CRT		Cyllideb Cyfredol 2025/26	Cyllideb a Broffilwyd	Gwariant / (Incwm) yn Ch3	Amrywiant yn Ch3	Rhagolwg Diwedd Blwyddyn yn Ch3	Amrywiant Diwedd Blwyddyn	Rhagolwg Amrywiant yn Ch2	Newid ers Rhagolwg Ch2
		£	£	£	£	£	£	£	£
Incwm									
Incwm Rhent		(23,398,090)	(17,829,345)	(17,696,858)	132,487	(23,341,356)	56,734	59,682	(2,949)
Taliadau Gwasanaeth		(247,090)	(188,283)	(195,444)	(7,161)	(254,251)	(7,161)	-	(7,161)
Incwm Arall		(270,950)	(232,889)	(271,074)	(38,185)	(338,315)	(67,365)	(59,626)	(8,339)
Cyfanswm Incwm		**(23,916,130)**	**(18,250,517)**	**(18,163,376)**	**87,141**	**(23,934,522)**	**(18,392)**	**56**	**(18,448)**
Gwariant									
Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw		4,237,650	3,178,252	2,834,500	(343,752)	4,267,302	29,652	55,464	(25,811)
	Gwaith Trwsio Ymatebol			1,470,303		3,075,330	-	-	-
	Gwaith Cynlluniedig a Chylchol			123,480		198,480	-	-	-
	Anheddau Gwâg			1,240,110		993,492	-	-	-
Gwasanaethau a Rennir a rhai yr ailgodir tâl amdanynt		361,950	822,558	775,059	(47,499)	937,523	(24,427)	(50,733)	26,307
Costau Gweithwyr Gweithredol		2,391,820	1,791,618	1,543,824	(247,794)	2,208,395	(182,825)	(187,351)	4,526
Gorbenion a Gwariant Arall		647,990	459,087	510,314	51,227	708,571	60,581	(8,899)	69,480
Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw		**8,239,410**	**6,251,515**	**5,664,297**	**(587,218)**	**8,122,391**	**(117,019)**	**(191,520)**	**74,502**
Goruchwylio a Rheoli									
	Gweinyddu Rhenti	501,530	375,631	346,302	(28,729)	460,297	(41,233)	(12,472)	(28,761)
	Cyfranogiad a Chefnogaeth Tenantiaid	914,300	688,283	622,858	(65,425)	844,860	(69,440)	(29,332)	(40,108)
	Rheolaeth Stadau	768,290	575,551	521,441	(54,110)	730,271	(38,019)	(37,362)	(658)
	Datblygiadau	260,190	194,982	201,485	6,503	270,475	10,285	35,019	(24,734)
	Staff Rheoli a Thechnegol	1,821,650	1,325,113	1,233,371	(91,742)	1,660,843	(160,807)	(112,537)	(48,269)
	Cefnogaeth Busnes	1,632,820	1,193,586	1,217,306	18,320	1,521,304	(111,516)	(62,808)	(48,708)
Cyfanswm Goruchwylio a Rheoli		**5,898,780**	**4,359,146**	**4,143,362**	**(215,184)**	**5,488,050**	**(410,730)**	**(219,492)**	**(191,238)**
Cyfanswm Gweithrediadau		**(9,777,940)**	**(7,639,856)**	**(8,355,117)**	**(715,261)**	**(10,324,081)**	**(546,141)**	**(410,957)**	**(135,184)**
Addasiadau Diwedd Blwyddyn									
Costau Cyllido a Darpariaeth Drwg Dyledion		2,618,800	-	7,080	7,080	2,625,880	7,080	7,080	-
Ailgodi Tâl o Wasanaethau Canolog		842,820	-	-	-	842,820	-	-	-
Ailgodi Tâl o Wasanaethau Tai		25,130	-	-	-	25,130	-	-	-
Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn		**3,486,750**	**-**	**7,080**	**7,080**	**3,493,830**	**7,080**	**7,080**	**-**
Cyfanswm (Gwarged) / Diffyg Refeniw		**(6,291,190)**	**(7,639,856)**	**(8,348,037)**	**(708,181)**	**(6,830,251)**	**(539,061)**	**(403,877)**	**(135,184)**
Cyfrif Gwariant Cyfalaf									
Gwariant Cyfalaf		24,870,814	-	15,703,769	-	24,006,775	(864,039)	(2,465,143)	1,601,104
Grantiau Cyfalaf Derbyniadwy		(8,740,037)	-	(8,740,037)	-	(8,740,037)	-	-	-
Cyfraniadau Eraill		-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm (Gwarged) / Diffyg Cyfalaf		**16,130,777**	**-**	**6,963,732**	**-**	**15,266,738**	**(864,039)**	**(2,465,143)**	**1,601,104**
Cyllidir Diffyg Cyfalaf Gan									
Gwarged Refeniw		(6,291,190)	-	-	-	(6,830,251)	(539,061)	(403,877)	(135,184)
Cronfa Wrth Gefn CRT		(6,820,303)	-	-	-	(6,820,303)	-	632,373	(632,373)
Benthyca Digefnogaeth		(3,019,284)	-	-	-	(1,616,184)	1,403,100	2,236,647	(833,547)
Cyfanswm Cyllido Gwariant Cyfalaf		**(16,130,777)**	**-**	**-**	**-**	**(15,266,738)**	**864,039**	**2,465,143**	**(1,601,104)**
Balans Agoriadol CRT		(7,375,679)	-	-	-	(7,375,679)	-	-	-
(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa wrth Gefn CRT		6,820,303	-	-	-	6,820,303	-	(632,373)	632,373
Balans Cau Cronfa wrth Gefn CRT		**(1,155,376)**	**-**	**-**	**-**	**(1,155,376)**	**-**	**(632,373)**	**632,373**

ATODIAD B

CYFRIF REFENIW TAI – CYLLIDEB CYFALAF 2025/26

	Cyllideb Flynyddol 2025/26	Gwariant Ch3	Rhagolwg Diwedd Blwyddyn	Amrywiant Diwedd Blwyddyn	Rhagolwg Amrywiant yn Ch2	Newid o Rhagolwg Ch2
	£	£	£	£	£	£
Contract Gwres Canolog	200,000	89,190	104,000	(96,000)	(96,000)	-
Contract Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd	3,000,000	1,233,082	1,300,000	(1,700,000)	(1,000,000)	(700,000)
Gwella Perfformiad Ynni	3,300,000	2,320,944	3,300,000	-	-	-
Gwaith Amgylcheddol	500,000	98,488	300,000	(200,000)	(200,000)	-
Prynu Eiddo a Datblygu Eiddo Newydd	10,737,814	5,531,712	10,449,902	(287,912)	(1,169,143)	881,231
Addasiadau'r Sector Cyhoeddus	500,000	325,215	500,000	-	-	-
Risg Tân	500,000	212,523	500,000	-	-	-
SATC	1,483,000	1,803,991	2,515,000	1,032,000	-	1,032,000
Rhaglen Amnewid Ceginau	4,000,000	3,795,438	4,350,000	350,000	-	350,000
Adnewyddu Fflyd	650,000	293,186	687,873	37,873	-	37,873
Cyfanswm	**24,870,814**	**15,703,769**	**24,006,775**	**(864,039)**	**(2,465,143)**	**1,601,104**

ATODIAD C

CYLLIDEB DATBLYGIAD NEWYDD 2025/26

Cynlluniau / Prosiectau	Nifer o Unedau Ychwanegol	Cyllideb 2025/26	Gwariant Ch3	Rhagolwg Diwedd Blwyddyn	Rhagolwg Amrywiant yn Ch2	Newid o Rhagolwg Ch2
		£	£	£	£	£
Anheddau Newydd eu hadeiladu						
Safle Hen Ysgol Niwbwrch	14	1,427,530	311,410	1,427,530	1,427,530	-
Cae Braenar, Caergybi	23	1,535,707	292,523	1,535,707	1,535,707	-
Parc y Coed, Llangefni, Cam 2	2	293,200	-	293,200	293,200	-
Stad y Bryn, Llanfaethlu	10	562,736	278,381	562,736	562,736	-
Plas Alltran, Caergybi	4	-	-	-	-	-
					-	-
Prynu Eiddo Cyfredol				-	-	-
Prynu	5	1,438,356	657,030	1,438,356	2,312,356	(874,000)
Adnewyddu	15	2,370,000	479,157	2,370,000	1,786,142	583,858
					-	-
Cydweithio â Gwasanaethau Cymdeithasol	4	600,648	222,983	600,648	701,000	(100,352)
Cynllun Gofal Ychwanegol Aethwy	73	867,637	26,719	867,637	500,000	367,637
					-	-
Prosiectau yn y Cyfnod cyn Datblygu		300,000	9,072	300,000	100,000	200,000
Cyfanswm	**150**	**9,395,814**	**2,277,275**	**9,395,814**	**9,218,671**	**177,143**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	**PWYLLGOR GWAITH**
Dyddiad:	**24 CHWEFROR 2026**
Pwnc / Testun:	**DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2026/27**
Deilydd Portffolio:	**Y CYNG ROBIN WILLIAMS, DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID & BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER**
Pennaeth Gwasanaeth:	**MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	**MARC JONES** 01248 752601 rmjfi@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	**Amherthnasol**

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

- Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) blynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Rheoliadau Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i Gôd Darbodus CIPFA a Chodau Rheoli'r Trysorlys CIPFA, y cyhoeddwyd y fersiynau diweddaraf ohonynt yn 2021.

- Mae'r DSRhT hwn yn cydymffurfio â'r gofynion yn y ddau gôd ac yn nodi'r holl ofynion y mae'n rhaid eu dilyn wrth gynnal gweithgareddau rheoli'r trysorlys Cyngor Sir Ynys Môn. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod buddsoddiadau'r Cyngor yn ddiogel ac yn ddigon hygyrch fel bod digon o arian parod ar gyfer taliadau o ddydd i ddydd wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae'r DSRhT, fel sy'n ofynnol gan y codau, hefyd yn darparu fframwaith i sicrhau bod lefelau benthyca'r Cyngor yn parhau'n ddarbodus a fforddiadwy.

- Cyflwynodd Côd Darbodus CIPFA, 2021 (A29), adroddiadau monitro yn amlach ar waith rheoli'r trysorlys. Mae'r Cyngor bellach yn cynhyrchu adroddiadau chwarterol ar reoli'r trysorlys, sy'n arwain at adroddiad alldro rheoli'r trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn.

- Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi gwybodaeth fonitro ar y dangosyddion darbodus sy'n edrych i'r dyfodol ac a nodir yn yr atodiadau yn y DSRhT. Mae'r adroddiadau chwarterol yn amlygu unrhyw amrywiadau sylweddol o'r dangosyddion cymeradwy ac yn cynnwys rhagolygon ar fenthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.

- **Argymhellion**
  - Adolygu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2026/27 a chyflwyno sylwadau i'r Cyngor llawn.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Nid oes opsiynau eraill ar gael, mae'n ofyniad i gymeradwyo DSRhT bob blwyddyn

C – Pam fo hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'n ofyniad o'r Côd fod y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydi		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Amherthnasol		
DD – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol)		
1	**Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys**	Mae Rheoli'r Trysorlys yn allweddol i hwyluso cynaliadwyedd ar gyfer anghenion tymor hir yr Ynys, gan fod cynlluniau benthyca yn helpu i gyllido gwariant cyfalaf i sicrhau bod asedau ar gael nawr ac yn y dyfodol. Rhaid i gynlluniau'r Trysorlys hefyd fod yn fforddiadwy i sicrhau nad yw cenedlaethau'r dyfodol dan anfantais oherwydd penderfyniadau Rheoli'r Trysorlys a wneir yn y tymor byr a'r tymor canolig.
2	**A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-**	Rhaid i strategaeth a gweithgaredd Rheoli'r Trysorlys fod yn fforddiadwy i liniaru'r effaith ar y dyfodol. Gall rhywfaint o wariant cyfalaf a gyllidir gan fenthyca, megis Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a chynlluniau buddsoddi i arbed eraill a gyllidir gan fenthyca, helpu i leihau costau yn y dyfodol.
3	**A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-**	Yn aml, mae gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys yn cyllido prosiectau cyfalaf mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis Llywodraeth Cymru. Mae ysgolion / estyniadau newydd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi'u cyllido / yn cael eu cyllido gyda chyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru.
4	**A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-**	Mae ymgynghori yn digwydd fel rhan o gynllunio prosiectau cyfalaf mawr, e.e. ysgolion newydd. Nid oes unrhyw ymgynghoriad arall gyda dinasyddion ar y DSRhT.
5	**Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.**	Bydd asedau newydd eu hadeiladu a gyllidir drwy fenthyca yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae rhaglenni ailwampio ac amnewid blynyddol hefyd yn helpu i gynyddu hygyrchedd a galluogi amrywiaeth.
6	**Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.**	Mae'r DSRhT yn ofynnol bob blwyddyn.
7	**Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**	Mae rhai o'r prosiectau a gyllidir trwy fenthyca yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr Iaith Gymraeg a chynnydd ynddi, megis yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a adeiladwyd yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	**Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol)	
2	**Cyllid / Swyddog Adran 151** (gorfodol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 ydi hwn.
3	**Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol)	
4	**Adnoddau Dynol (AD)**	
5	**Eiddo**	
6	**Technoleg Gwybodaeth (TG)**	
7	**Caffael**	
8	**Sgriwtini**	Ystyriwyd y datganiad strategaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 4 Chwefror 2026, ac argymhellodd y Pwyllgor y dylai dderbyn y datganiad strategaeth heb ei ddiwygio.
9	**Aelodau Lleol**	
10	**Eraill**	

F - Atodiadau:

1. Egwyddorion Allweddol Rheoli'r Trysorlys
2. Cefndir economaidd
3. Proffil benthyciadau'n aeddfedu PWLB
4. Proffil benthyciadau'n aeddfedu Salix
5. Datganiad Polisi DRI
6. Buddsoddiadau penodol ac amhenodol
7. Meini prawf gwrthbartïon
8. Gwledydd cymeradwy ar gyfer buddsoddiadau
9. Cynllun dirprwyo ar gyfer materion Rheoli'r Trysorlys a rôl y Swyddog Adran 151
10. Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys
11. Eglurhad o Ddangosyddion Darbodus a Thrysorlys
12. Geirfa o ddangosyddion Darbodus a Rheoli'r Trysorlys, a gwybodaeth amdanynt

FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda):

- Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2025
- Adolygiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2024/25, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 25 Medi 2025
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2024/25, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 17 Gorffennaf 2025
- Monitro Cyllideb Gyfalaf Chwarter 2 2025/26, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 25 Tachwedd 2025
- Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2025/26, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 16 Rhagfyr 2025
- Strategaeth Gyfalaf 2026/2031 – a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 27 Ionawr 2026

DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS

STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, DATGANIAD POLISI DARPARIAETH REFENIW ISAF A DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS 2026/27

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) 2026/27 yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli'r trysorlys o ddydd i ddydd ac yn y tymor canolig. Mae wedi'i gwblhau'n unol â Chod Darbodus CIPFA 2021 a Chod Trysorlys CIPFA 2021.

1.2 Mae'r DSRhT yn rhan allweddol o brosesau cynllunio strategol y Cyngor ac mae'n helpu i sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei amcanion a'i weledigaeth strategol. Mae cylch strategol y Cyngor, isod, yn dangos bod Cynllun y Cyngor yn ganolog i waith y Cyngor. Rhaid i holl gynlluniau strategol a gweithredol y Cyngor fod yn gyson â Chynllun y Cyngor i ddarparu'r gwasanaethau a'r blaenoriaethau sydd eu hangen i gyflawni amcanion strategol y Cynllun. Mae'r cylch yn dangos mai Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, ochr yn ochr â'r Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yw'r strategaethau ariannol allweddol i sicrhau bod adnoddau ariannol y Cyngor yn cael eu rheoli yn unol â deddfwriaeth allweddol a gofynion CIPFA a'u bod yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cyllid y Cyngor yn targedu'r swyddogaethau a'r gwasanaethau cywir i gyflawni nodau'r Cyngor.



2. CEFNDIR

2.1. Mae CIPFA yn diffinio rheoli'r trysorlys fel:-

"*Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny.*"

2.2. Mae rheoli'r trysorlys yn ymwneud â thasgau sy'n sicrhau bod digon o arian parod yng nghyfrif cyffredinol y Cyngor i dalu biliau o ddydd i ddydd a buddsoddi arian dros ben, dros yr hyn sydd ei angen yn y cyfrif cyffredinol. Rhaid i'r buddsoddiadau hyn fod mewn cyfrifon hynod ddiogel, megis banciau'r DU sydd â statws credyd uchel. Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu diogelwch ei gronfeydd, yn unol â'r Codau, ac yn sicrhau bod digon o arian parod ar gael ar unwaith fel bod y Cyngor yn gallu talu cyflenwyr, staff a budd-daliadau, ar y dyddiadau talu gofynnol. Yr ystyriaeth olaf yw elw. Mae'r Cyngor yn buddsoddi i gael y gyfradd llog uchaf posib o fewn y gronfa o sefydliadau sy'n ddiogel ac yn cwrdd â meini prawf y strategaeth hon. Elfen olaf Rheoli'r Trysorlys yw rheoli portffolio benthyciadau'r Cyngor, i sicrhau nad yw benthyca'r Cyngor yn rhy uchel a bod costau refeniw benthyca yn fforddiadwy.

2.3. Mae'r cyfraniad a wna'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys i'r Awdurdod yn hollbwysig, gan fod y cydbwysedd rhwng y gweithgareddau buddsoddi a'r dyledion yn sicrhau hylifedd neu'r gallu i gwrdd ag ymrwymiadau gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus, naill ai ar gyfer refeniw dydd i ddydd neu brosiectau cyfalaf mwy. Bydd gweithgareddau'r trysorlys yn gweld y cydbwysedd rhwng y costau llog ar ddyledion a'r incwm buddsoddi sy'n codi o adneuon ariannol yn cael effaith ar y gyllideb sydd ar gael. Gan fod balansau arian parod, fel rheol, yn codi o gronfeydd wrth gefn a balansau, mae'n hanfodol bwysig sicrhau diogelwch digonol ar gyfer y symiau sy'n cael eu buddsoddi oherwydd gall colli'r symiau gwreiddiol a fuddsoddwyd arwain at ostwng cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor.

3. DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS CYNGOR SIR YNYS MÔN

3.1 Yn ogystal â'r polisïau risg corfforaethol, y gofrestr, y camau gweithredu a'r monitro, mae'r Cyngor yn cymryd ei gyfrifoldeb am stiwardiaeth dda o gyllid cyhoeddus o ddifri, a bydd holl arferion rheoli'r trysorlys yn diogelu arian cyhoeddus. Mae'n amhosib dileu pob risg, ond bydd holl weithgareddau rheoli'r trysorlys yn cael eu rheoli i leihau'r risg y mae cyllid y Cyngor yn agored iddo, fel a ganlyn:-

3.1.1 Bydd penderfyniadau buddsoddi bob amser yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y buddsoddiad yn gyntaf. Hylifedd yw'r ail ystyriaeth, gan fod angen i'r Cyngor gael mynediad ar unwaith at ddigon o gyllid i dalu taliadau o ddydd i ddydd wrth iddynt ddod yn ddyledus. Yn olaf, ni fydd y Cyngor yn ceisio uchafu'r incwm a enillir ar fuddsoddiadau oni bai fod y buddsoddiadau'n hynod ddiogel a bod digon o fynediad ar unwaith i gronfeydd.

3.1.2 Dim ond mewn banciau a chymdeithasau adeiladu hynod ddiogel sydd â statws credyd uchel y bydd adneuon banc, neu fuddsoddiadau mewn banciau neu gymdeithasau adeiladu, yn cael eu rhoi, a hynny'n unol â'r meini prawf yn Atodiad 7.

3.1.3 Bydd benthyciadau i awdurdodau lleol yn cael eu hystyried ar ôl cwblhau gwiriadau diwydrwydd dyladwy.

3.1.4 Caniateir buddsoddiadau mewn cronfeydd marchnad arian cyfradd AAA.

3.1.5 Bydd y Cyngor yn anelu at gadw isafswm o £10m mewn cyfrifon mynediad ar unwaith, os oes digon ym malansau'r Cyngor.

3.1.6 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau gwerth am arian yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys, yng nghyd-destun gwarchod arian cyhoeddus.

3.1.7 Bydd y Cyngor yn benthyca'n fewnol os oes digon o falansau arian parod, er mwyn lleihau neu ohirio llog sy'n daladwy, yn enwedig pan fo cyfraddau llog yn codi.

3.1.8 Os oes angen benthyca at ddibenion cymwys, dylai unrhyw fenthyciadau ystyried a yw cyfraddau'n debygol o godi neu ostwng yn y tymor canolig. Dylai benthyciadau tymor byr liniaru'r llog sy'n daladwy os yw cyfraddau'n debygol o ostwng yn y tymor byr neu'r tymor canolig, a dylid ystyried benthyciadau tymor hwy os rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn cynyddu yn y tymor canolig i'r tymor hir.

3.1.9 Mae gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau allweddol y Cyngor a bydd yn cyd-fynd â'r Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i sicrhau bod buddsoddiadau'n ddiogel, yn hygyrch ac y gwneir y gorau o'r llog derbyniadwy o fewn buddsoddiadau diogel. Bydd benthyca yn seiliedig ar ofynion Strategaeth Gyfalaf 2026/30 a rhaglenni blynyddol, ond dim ond os yw'n fforddiadwy, gan gymryd i ystyriaeth y sefyllfa ariannol ar y pryd a gwybodaeth yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

3.1.10 Ni ellir gosod y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar ei ben ei hun, a rhaid ystyried y sefyllfa economaidd gan fod hyn yn effeithio ar gyfraddau llog buddsoddi, cost benthyca a chryfder ariannol gwrthbartïon.

4. Y CYD-DESTUN ALLANOL

4.1 Mae crynodeb llawn o'r rhagolwg economaidd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2. Mae Tabl 1, isod, yn dangos rhagolygon diweddar Banc Lloegr (BLl) ar gyfer y gyfradd sylfaen, chwyddiant a chyfraddau Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus (BBGC) a ddarparwyd gan MUFG Corporate Markets:-

Tabl 1 – Rhagolwg o Gyfradd Sylfaen y Banc a Chyfraddau BBGC Mawrth 2026 i Rhagfyr 2027

	Mawrth 2026	Mehefin 2026	Medi 2026	Rhagfyr 2026	Mawrth 2027	Mehefin 2027	Medi 2027	Rhagfyr 2027
Cyfradd y Banc (%)	3.75%	3.50%	3.50%	3.25%	3.25%	3.25%	3.25%	3.25%
Chwyddiant (BLl - Chwefror 2026)	3.10%	3.00%	2.70%	2.50%	2.20%	2.00%	2.00%	2.00%
Cyfradd 5ml BBGC (%)	4.60%	4.50%	4.30%	4.20%	4.10%	4.10%	4.10%	4.10%
Cyfradd 10ml BBGC (%)	5.20%	5.00%	4.90%	4.80%	4.80%	4.70%	4.70%	4.70%
Cyfradd 25ml BBGC (%)	5.80%	5.70%	5.60%	5.50%	5.50%	5.40%	5.30%	5.30%
Cyfradd 50ml BBGC (%)	5.60%	5.50%	5.40%	5.30%	5.30%	5.20%	5.10%	5.10%

4.2 Targed chwyddiant BLl, a osodwyd gan y Llywodraeth, yw 2%. Yn ystod 2025, cododd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) o'i lefel isaf o 2.7% ym Medi 2024, a chyrraedd 3.8% ar ei uchaf ym Medi 2025, cyn disgyn yn ôl i 3.2% ym mis Tachwedd 2025. Mae disgwyl i chwyddiant barhau i ostwng yn ystod 2026, a chyrraedd lefel targed BLl o 2% erbyn diwedd 2026.

4.3 Ar ddechrau'r pandemig, cafodd y gyfradd sylfaenol ei gostwng i 0.1% ar ei hisaf i gefnogi'r economi. Cynyddodd BLl y gyfradd i 0.25% yn Rhagfyr 2021, ac yna cynyddodd y gyfradd sylfaenol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC), rhwng 0.25% a 0.75% ar ei gynnydd uchaf. Yn Awst 2023, cynyddodd y MPC y gyfradd sylfaenol i 5.25%. Ni newidiodd y gyfradd o 5.25% tan 1 Awst 2024, pan gafodd y gyfradd sylfaen ei gostwng am y tro cyntaf ers 2020, i 5%, a dyma oedd y gyfradd ar 30 Medi 2024. Ers hynny, mae'r gyfradd wedi gostwng i 3.75%, ac mae disgwyl gostyngiadau pellach yn ystod 2026.

4.4 Mae'r Cyngor yn elwa o gyfradd sylfaenol uwch ar gyfer buddsoddi arian dros ben, a rhagwelir y bydd hyn yn cynhyrchu tua £900k o incwm buddsoddi yn 2025/26. Fodd bynnag, mae benthyciadau i'r Cyngor yn ddrytach, a strategaeth y Cyngor yw gohirio benthyca allanol cyn hired â phosib a defnyddio balansau'r Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf (benthyca mewnol). Fodd bynnag, gan fod y Cyngor wedi defnyddio ei gronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb refeniw a chyllido gwariant cyfalaf ar y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), mae lefel yr arian dros ben bellach yn agosáu at y pwynt lle na ellir parhau i fenthyca'n fewnol a bydd rhaid benthyca'n allanol.

5. SEFYLLFA FENTHYCA BRESENNOL Y CYNGOR

5.1 Mae'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â benthyca gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) i'w weld yn Nhabl 2 isod:-

Tabl 2
Benthyciadau BBGC sy'n Ddyledus

	Benthyciadau Aeddfedu	Benthyciadau EIP / Blwydd-dal	Cyfanswm
Balans ar 1 Ebrill 2025	£117.546m	£0.144m	£117.690m
Balans ar 31 Rhagfyr 2025	£117.546m	£0.128m	£117.674m
Amcangyfrif o'r Balans Benthyciadau ar 31 Mawrth 2026	£117.546m	£0.118m	£117.664m
Amser Cyfartalog cyn Ad-dalu ar 31 Mawrth 2026	18.2 mlynedd	4.4 mlynedd	14.4 mlynedd
Cyfartaledd Cyfradd Llog	5.1%	9.4%	6.3%

5.3 Benthyciadau Salix - sefydliad Llywodraeth Cymru (LlC) yw Salix sy'n rhoi benthyciadau di-log ac, yn fwy diweddar, grantiau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi'r amgylchedd ac i helpu cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i weithio tuag at gyflawni eu targed sero net erbyn 2030. Roedd gan y Cyngor £4.393m o fenthyciadau di-log gyda Salix ar 31 Rhagfyr 2024. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu dros gyfnod o 8 neu 10 mlynedd, yn dibynnu ar y cytundeb, gyda dau ad-daliad y flwyddyn fesul benthyciad. Mae'r benthyciadau hyn wedi cyllido goleuadau stryd LED, goleuadau LED mewn ysgolion a chanolfannau hamdden ac amrywiol brosiectau cynaliadwy eraill.

Tabl 3 - Benthyciadau Salix sy'n Ddyledus

	Benthyciadau Salix
Balans ar 1 Ebrill 2025	£4.393m
Balans ar 31 Rhagfyr 2025	£4.037m
Amcangyfrif o'r Balans Benthyciadau ar 31 Mawrth 2026	£3.702m
Amser Cyfartalog cyn Ad-dalu ar 31 Mawrth 2026	4.6 mlynedd
Cyfradd Llog Cyfartalog	0.00%

6. BALANSAU BUDDSODDIADAU'R CYNGOR AR 31 RHAGFYR 2025

6.1 Cyfanswm balans y buddsoddiadau ar 31 Rhagfyr 2025 oedd £20.993m, fel y gwelir yn Siart 1 a Siart 2 isod. Yr elw o'r buddsoddiadau hyn rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Rhagfyr 2025 oedd £0.770m, a'r disgwyl yw y bydd cyfanswm o £0.893m yn cael ei dderbyn ar y buddsoddiadau a restrir isod ar gyfer 2025/26. Bydd y llog a dderbynnir yn cael ei rannu'n briodol rhwng Cronfa'r Cyngor, y CRT, ysgolion a chyrff allanol y mae'r Cyngor yn dal cyllid ar eu rhan, yn cynnwys yr Ymddiriedolaethau.

Siart 1 - Buddsoddiad yn ôl Gwrthbarti



Siart 2 - Buddsoddiad yn ôl Math



7. EFFAITH CYNLLUNIAU'R DYFODOL AR FENTHYCA

7.1 Cyllidir gwariant cyfalaf yn rhannol trwy fenthyca, felly, mae cysylltiad agos rhwng y Strategaeth Gyfalaf a'r strategaeth hon. Mae crynodeb gwariant cyfalaf 2025/26 i 2027/28 yn cyflwyno tri opsiwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae pob un o'r tri senario yn ystyried y gwaith sydd angen ei wneud ar asedau'r Cyngor, neu a fydd angen amnewid asedau. Cyflwynir y tri opsiwn fel a ganlyn:

Yr achos sylfaenol - mae hyn yn seiliedig ar y cyllid sydd eisoes ar gael ac nid os angen fawr o fenthyca digefnogaeth, os o gwbl, heblaw am yr hyn sydd ei angen ar gyfer y cynlluniau ymrwymiedig.

Uchelgeisiol - swm yn seiliedig ar yr achos sylfaenol ynghyd ag elfen o fenthyca digefnogaeth, sy'n cael ei ystyried yn rhesymol a fforddiadwy, ac mae'n golygu y gellir cynnal asedau cyfredolo ar lefel dderbyniol er mwyn gwarantu y gellir parhau i'w defnyddio yn y dyfodol a chaniatáu i Gynllun y Cyngor gael ei weithredu.

Delfrydol - dyma'r swm sydd ei angen i uwchraddio asedau'r Cyngor i'r safon uchaf ac mae'n caniatáu i holl elfennau Cynllun y Cyngor gael eu gweithredu. Mae hyn yn gofyn am gynnydd sylweddol mewn benthyca, ac efallai na fyddai'n fforddiadwy i'r Cyngor.

7.2 Mae Tablau 4a - 4ch, isod, yn dangos amcangyfrif o wariant a chyllid ar gyfer y cyfnod 2024/25 i 2029/30 ar gyfer y 3 senario:-

Tabl 4a - Gwariant a Chyllid Cyfalaf Gwirioneddol 2024/25 ac Amcangyfrif 2025/26

	Gwirioneddol 2024/25 £'m	Amcangyfrif 2025/26 £'m
Cronfa'r Cyngor - heb gynnwys Eiddo Buddsoddi	37.258	24.171
CRT	27.468	22.056
Eiddo Buddsoddi	0.000	8.940
Cyfanswm Gwariant	**64.726**	**55.167**
Grantiau Cyfalaf	45.883	34.692
Derbyniadau Cyfalaf	1.173	0.497
Cronfeydd wrth Gefn a Chyfraniadau Refeniw	10.817	13.876
Benthyca â Chefnogaeth	4.243	3.797
Benthyca Digefnogaeth	2.491	1.445
Benthyciadau Salix	0.119	0.860
Cyfanswm Cyllid	**64.726**	**55.167**

Tabl 4b Gwariant a Chyllido Achos Sylfaenol 2026/27 - 2030/31

	2026/27 £'m	2027/28 £'m	2028/29 £'m	2029/30 £'m	2030/31 £'m
Cronfa'r Cyngor - heb gynnwys Eiddo Buddsoddi	14.122	8.845	7.965	7.920	6.547
CRT	41.555	30.337	10.259	9.328	9.792
Eiddo Buddsoddi	10.652	2.000	0.000	0.000	0.000
Cyfanswm Gwariant	**66.329**	**41.182**	**18.224**	**17.248**	**16.339**
Grantiau Cyfalaf	34.839	14.847	5.481	5.481	5.481
Derbyniadau Cyfalaf	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000
Cronfeydd wrth Gefn a Chyfraniadau Refeniw	15.268	10.121	9.588	9.416	8.404
Benthyca â Chefnogaeth	3.603	2.151	2.151	2.151	2.151
Benthyca Digefnogaeth	12.619	14.063	1.004	0.200	0.303
Benthyciad Salix	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000
Cyfanswm Cyllid	**66.329**	**41.182**	**18.224**	**17.248**	**16.339**

Tabl 4c Gwariant a Chyllido Achos Uchelgeisiol 2026/27 - 2030/31

	2026/27 £'m	2027/28 £'m	2028/29 £'m	2029/30 £'m	2030/31 £'m
Cronfa'r Cyngor - heb gynnwys Eiddo Buddsoddi	16.689	16.351	52.016	55.102	41.431
CRT	45.950	35.819	27.569	26.893	23.294
Eiddo Buddsoddi	10.652	2.200	0.200	0.200	0.200
Cyfanswm Gwariant	**73.291**	**54.370**	**79.785**	**82.195**	**64.925**
Grantiau Cyfalaf	34.865	18.178	22.413	20.271	16.239
Derbyniadau Cyfalaf	0.000	0.200	0.200	0.200	0.200
Cronfeydd wrth Gefn a Chyfraniadau Refeniw	14.107	8.929	34.696	34.404	31.222
Benthyca â Chefnogaeth	3.603	3.372	4.764	4.329	4.329
Benthyca Digefnogaeth	20.716	23.691	17.712	22.992	12.936
Benthyciad Salix	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000
Cyfanswm Cyllid	**73.291**	**54.370**	**79.785**	**82.195**	**64.925**

Tabl 4ch Gwariant a Chyllido Achos Ddelfrydol 2026/27 - 2030/31

	2026/27 £'m	2027/28 £'m	2028/29 £'m	2029/30 £'m	2030/31 £'m
Cronfa'r Cyngor - heb gynnwys Eiddo Buddsoddi	22.357	34.470	62.904	77.873	44.776
CRT	45.369	40.040	28.173	27.363	23.647
Eiddo Buddsoddi	10.882	2.330	2.330	2.330	2.330
Cyfanswm Gwariant	**78.608**	**76.840**	**93.407**	**107.567**	**70.753**
Grantiau Cyfalaf	38.665	31.490	28.507	35.878	16.189
Derbyniadau Cyfalaf	0.000	0.200	0.200	0.200	0.200
Cronfeydd wrth Gefn a Chyfraniadau Refeniw	14.015	9.406	34.704	34.985	30.890
Benthyca â Chefnogaeth	3.603	3.372	4.764	4.329	4.329
Benthyca Digefnogaeth	22.325	32.372	25.232	32.176	19.145
Benthyciadau Salix	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000
Cyfanswm Cyllid	**78.608**	**76.840**	**93.407**	**107.567**	**70.753**

7.3 Mae effaith benthyca ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) y Cyngor yn ffactor bwysig sydd angen ei ystyried. Y GCC yw'r mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca. Nid yw benthyca wedi'i gyfyngu i fenthyciadau allanol gan y BBGC gan ei fod, hefyd, yn cynnwys y gallu i ddefnyddio balansau ariannol y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) sydd wedi cael eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf. Er bod benthyca mewnol yn arbed costau llog i'r Cyngor, mae tâl yn cael ei godi ar gyfer y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) ar sail yr angen sylfaenol i fenthyca (y GCC), nid y benthyciad gwirioneddol. Mae Tabl 5, isod, yn dangos y GCC ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r CRT o dan y 3 senario:-

Tabl 5 - Gofyniad Cyllido Cyfalaf

Achos Sylfaenol	**Gwir 2024/25 £'m**	**Amcan 2025/26 £'m**	**Amcan 2026/27 £'m**	**Amcan 2027/28 £'m**	**Amcan 2028/29 £'m**	**Amcan 2029/30 £'m**	**Amcan 2030/31 £'m**
GCC - Cronfa'r Cyngor	114.391	119.486	125.567	127.905	128.727	128.613	129.573
GCC - CRT	37.998	36.895	35.744	47.116	59.834	59.332	57.863
Cyfanswm GCC	**152.389**	**156.381**	**161.311**	**175.021**	**188.561**	**187.945**	**187.436**
Symudiad net yn y GCC		**+ 5.992**	**+ 4.930**	**+ 13.710**	**+ 13.540**	**-0.616**	**-0.509**
Achos Uchelgeisiol	**Gwir 2024/25 £'m**	**Amcan 2025/26 £'m**	**Amcan 2026/27 £'m**	**Amcan 2027/28 £'m**	**Amcan 2028/29 £'m**	**Amcan 2029/30 £'m**	**Amcan 2030/31 £'m**
GCC - Cronfa'r Cyngor	114.391	119.486	125.567	130.114	134.741	142.620	155.016
GCC - CRT	37.998	36.895	35.744	52.784	72.145	82.313	93.340
Cyfanswm GCC	**152.389**	**156.381**	**161.311**	**182.898**	**206.886**	**224.934**	**248.356**
Symudiad net yn y GCC		**+ 5.992**	**+ 4.930**	**+ 21.587**	**+ 23.988**	**+18.048**	**+23.422**
Achos Delfrydol	**Gwir 2024/25 £'000**	**Amcan 2025/26 £'000**	**Amcan 2026/27 £'000**	**Amcan 2027/28 £'000**	**Amcan 2028/29 £'000**	**Amcan 2029/30 £'000**	**Amcan 2030/31 £'000**
GCC - Cronfa'r Cyngor	114.391	119.486	125.567	132.033	142.649	157.143	177.766
GCC - CRT	37.998	36.895	35.744	52.441	74.331	85.096	96.583
Cyfanswm GCC	**152.389**	**156.381**	**161.311**	**184.473**	**216.980**	**242.239**	**274.349**
Symudiad net yn y GCC		**+ 5.992**	**+ 4.930**	**+23.162**	**+32.507**	**+25.259**	**+32.110**

7.4 Bydd y 3 senario a nodir uchod yn golygu bod benthyciadau'r Cyngor yn cynyddu a bydd rhyw gymaint o fenthyca mewnol yn parhau, ond bydd y rhan fwyaf o'r benthyciadau ychwanegol yn rhai allanol, trwy'r BBGC. Mae amcangyfrif o'r gofyniad benthyca'n cael ei ddangos yn Nhabl 6, isod:-

Tabl 6
Benthyca Allanol 2024/25 - 2030/31

	Achos Sylfaenol £'m	Achos Uchelgeisiol £'m	Achos Delfrydol £'m
2024/25 Gwirioneddol	122.082	122.082	122.082
Amcangyfrif 2025/26	131.710	131.710	131.710
Amcangyfrif 2026/27	134.235	134.235	134.235
Amcangyfrif 2027/28	149.075	157.173	158.781
Amcangyfrif 2028/29	163.125	182.070	192.360
Amcangyfrif 2029/30	166.003	204.268	222.078
Amcangyfrif 2030/31	166.785	230.019	257.013

7.5 Bydd benthyca ychwanegol yn creu gwariant ychwanegol ar y cyfrif refeniw, sef costau Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) ychwanegol a chostau llog ychwanegol. Mae'n bwysig, felly, asesu effaith benthyca ychwanegol ar y cyfrif refeniw er mwyn sicrhau fod y costau refeniw yn parhau'n fforddiadwy. Y mesur gorau o fforddiadwyedd yw mynegi'r costau cyllido cyfalaf fel canran o'r gyllideb refeniw net. Maent i'w gweld yn Nhablau 7a a 7b, isod:-

Tabl 7a
Goblygiadau Refeniw Gwariant a Benthyca Cyfalaf - Cronfa Gyffredinol

		Achos Sylfaenol		Achos Uchelgeisiol		Achos Delfrydol	
	Gwariant Refeniw Net (GRN) £'m	Amcangyfrif o DRI a Llog £'m	DRI a Llog yn erbyn GRN %	Amcangyfrif o DRI a Llog £'m	DRI a Llog yn erbyn GRN %	Amcangyfrif o DRI a Llog £'m	DRI a Llog yn erbyn GRN %
2026/27	207.02	6.55	3.17	6.55	3.17	6.55	3.17
2027/28	212.20	6.74	3.18	6.90	3.25	7.04	3.32
2028/29	216.44	6.89	3.18	7.30	3.37	7.85	3.63
2029/30	220.77	6.95	3.15	7.87	3.56	8.87	4.02
2030/31	225.19	7.09	3.15	8.69	3.86	10.23	4.54

Tabl 7b
Goblygiadau Refeniw Gwariant Cyfalaf a Benthyca - CRT

		Achos Sylfaenol		Achos Uchelgeisiol		Achos Delfrydol	
	Incwm Rhent Net (IRhN) £'m	Amcangyfrif o DRI a Llog £'m	DRI a Llog yn erbyn IRhN %	Amcangyfrif o DRI a Llog £'m	DRI a Llog yn erbyn IRhN %	Amcangyfrif o DRI a Llog £'m	DRI a Llog yn erbyn IRhN %
2026/27	24.06	2.38	9.88	2.38	9.88	2.38	9.88
2027/28	25.22	3.10	12.28	3.58	14.17	3.55	14.04
2028/29	26.75	3.85	14.40	4.78	17.68	4.88	18.00
2029/30	27.31	3.94	14.42	5.49	19.70	5.63	20.12
2030/31	28.41	3.99	14.03	6.23	21.28	6.38	21.74

8. STRATEGAETH FENTHYCA

8.1 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthyca. Mae hyn yn golygu nad yw'r angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y GCC) wedi'i gyllido'n llawn gan ddyledion benthyca gan fod arian wedi cael ei ddefnyddio fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae hon yn strategaeth ddarbodus, gan fod disgwyl i gyfraddau benthyca tymor canolig a thymor hwy ddisgyn o'u lefelau presennol unwaith y rhoddir sylw i bryder cyffredinol am chwyddiant trwy bolisi ariannol tynn yn y tymor byr.

Yn erbyn y cefndir hwn a'r risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull darbodus o ran gweithgareddau trysorlys yn ystod 2026/27. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig i ymateb i amgylchiadau sy'n newid:-

- os teimlir bod risg sylweddol o GWYMP sydyn mewn cyfraddau benthyca, yna bydd benthyciadau'n cael eu gohirio.

- os teimlir bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer uwch mewn cyfraddau benthyca nag a ragwelir ar hyn o bryd, bydd cyllid ar raddfa sefydlog yn cael ei fenthyca tra bod cyfraddau llog yn is nag y rhagwelir iddynt fod yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

- Rhagolwg tymor hir (mwy na 10 mlynedd) MUFG yw 3%. Mae holl gyfraddau sicrwydd BBGC yn sylweddol uwch na'r gyfradd hon ar hyn o bryd. Felly, gellir cael gwell gwerth o fuddsoddiadau tymor byr nes bod y cyfraddau banc yn gostwng.

8.2 Benthyca Allanol yn erbyn Benthyca Mewnol

8.2.1 Mae'r amodau presennol yn dangos bod angen bod yn hyblyg wrth ddewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Fodd bynnag, mae'n parhau fod rhai cyfyngiadau i allanoli benthyca. Mae angen rhoi ystyriaeth gofalus barhaus i'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau benthyca a chyfraddau buddsoddi er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y ceir lefel briodol o reoli risg er mwyn sicrhau diogelwch ei fuddsoddiadau.

8.2.2 O blaid mewnoli, dros y tymor canol, y disgwyl yw y bydd cyfraddau buddsoddi yn parhau i fod yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hynny'n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthyciadau allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy'n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthyca mewnol). Byddai hynny'n gwneud y gorau o arbedion tymor byr.

8.2.3 Fodd bynnag, rhaid pwyso a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthyciadau allanol tymor hir yn 2026/27, yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen, gan fod cyfraddau tymor hir y BBGC yn uwch erbyn hyn.

8.2.4 Yn ychwanegol at hyn, bydd angen parhau i adolygu'n rheolaidd oblygiadau benthyciadau mewnol i lif arian a bydd yn cyfyngu ar lefel bosib y benthyciadau mewnol. Mae arian wrth gefn y Cyngor wedi gostwng yn ystod 2025/26, gan fod arian wrth gefn gronfa gyffredinol a balansau ysgolion wedi cael ei ddefnyddio i gyllido cyllidebau refeniw, a defnyddiwyd cronfa wrth gefn y CRT i gyllido gwariant cyfalaf. Mae llai o gyfle i gynnal lefel uchel o fenthyca mewnol ac mae'n debygol o leihau yn y dyfodol.

8.3 Benthyca cyn bod Angen

8.3.1 Ni fydd y Cyngor yn benthyca mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, a hynny er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca ymlaen llaw yn unol ag amcangyfrifon GCC a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am arian a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch cyllid o'r fath.

8.4 Aildrefnu Dyledion

8.4.1 Efallai y byddir yn ystyried aildrefnu benthyciadau cyfredol yn ein portffolio dyledion tra bod cyfraddau ad-dalu dyled yn gynnar yn parhau i fod yn uchel, ond dim ond os oes arian dros ben ar gael i hwyluso unrhyw ad-daliad, neu os ystyrir bod ail-gydbwyso'r portffolio i roi mwy o sicrwydd yn briodol.

8.4.2 Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am yr holl weithgareddau ad-drefnu dyledion yn y cyfarfod cyntaf, lle bo'n ymarferol, ar ôl gweithredu.

8.5 Benthyca gan Sefydliadau Ariannol eraill

Y BBGC yw prif ffynhonnell benthyca'r Cyngor, ac mae ganddo rai benthyciadau gan Salix, sef y sefydliad sy'n eiddo i LIC, ar gyfer cyllido prosiectau effeithlonrwydd ynni a charbon isel. Cyfradd sicrwydd y BBGC yw giltiau ac 80 pwynt sail (0.8%). Gellid ystyried benthyca gan yr isod:-

- Awdurdodau Lleol;
- Asiantaeth UK Municipal Bond – benthyciadau cyfun;
- Bondiau Corfforaethol;
- Cronfeydd Marchnad Arian.

9. PROFFIL DYLEDION

9.1 Mae Atodiad 4 yn dangos gwybodaeth am aeddfedrwydd benthyciadau'r Cyngor, a bydd benthyciadau cyfredol yn cael eu had-dalu mewn gwahanol flynyddoedd hyd at 2068/69. Mae'r Cyngor yn anelu at sicrhau bod y dyddiad ad-dalu'n cael ei drefnu er mwyn gwastatau'r ad-daliadau i'r graddau y mae hynny'n bosibl, ond rhoddir blaenoriaeth i'r gyfradd llog sy'n daladwy pan benderfynir ar y math o fenthyciad (aeddfedrwydd neu flwydd-dal) a chyfnod y benthyciad.

9.2 Mae Tabl 8, isod, yn dangos gwerth presennol ad-daliadau benthyciadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio yn ôl gwerth cyfraddau llog tymor hir yn y dyfodol o 3%.

Tabl 8 - Proffil Aeddfedrwydd Benthyciadau BBGC, 31 Rhagfyr 2025

Nifer o Flynyddoedd tan fydd y Benthyciad yn Aeddfedu	Prifswm £'m	Gwerth Presennol y Prifswm £'m	Cronnus %
<1	0.00	0.00	0.00
1 i 3	4.01	3.81	3.29
4 i 6	5.41	4.66	7.74
7 i 10	4.67	3.60	11.58
11 i 14	6.41	4.30	16.84
15 i 22	17.99	10.37	31.62
23 i 33	50.25	21.69	72.91
34 i 50	32.96	9.86	100.00
CYFANSWM	**121.71**	**58.29**	

10. STRATEGAETH FUDDSODDI A PHOLISI TEILYNGDOD CREDYD

10.1 Bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gan gyfeirio at y balans craidd a'r gofynion llif arian a'r rhagolygon o ran cyfraddau llog tymor byr (h.y. graddfeydd ar gyfer buddsoddi am hyd at 12 mis). Fel arfer, mae modd cael enillion uwch drwy fuddsoddi am gyfnodau hwy. Mae'r Cyngor yn anelu at gael strategaeth fuddsoddi hyblyg i wneud y gorau o enillion. Yn yr un modd, er bod angen y rhan fwyaf o falansau arian i reoli cynnydd a gostyngiad mewn llif arian, lle gellir dod o hyd i symiau ariannol y gellid eu buddsoddi am gyfnodau hirach, bydd y gwerth a geir o fuddsoddiadau tymor hwy yn cael ei asesu'n ofalus.

10.2 Rheoli Risgiau

Cyngor Sir Ynys Môn yw un o'r awdurdodau lleol lleiaf yng Nghymru. Nid oes gan y Cyngor falansau mawr fel sydd gan rai o'r awdurdodau mwy, er bod yna gynghorau mwy sydd â balansau tebyg neu lai. Rheoli risg yw'r brif ystyriaeth ar gyfer holl fuddsoddiadau'r Cyngor.

10.2.1 Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch yn gyntaf, hylifedd y portffolio yn ail ac yna'r elw (enillion). Nod y Cyngor yw ceisio sicrhau cymaint o elw â phosib ar ei fuddsoddiadau sy'n gyson â'r lefel briodol o ddiogelwch a hylifedd, gydag archwaeth risg y Cyngor am fuddsoddiadau risg isel yn unig.

10.2.2 Defnyddir meini prawf sylfaenol o ran **statws credyd** (Atodiad 7) er mwyn cynhyrchu rhestr o wrthbartïon sydd â Theilyngdod Credyd uchel. Mae hyn hefyd yn caniatáu arallgyfeirio ac yn osgoi'r risg sy'n gysylltiedig â chanolbwyntio ar un gwrthbarti. Y graddfeydd allweddol a ddefnyddir i fonitro gwrthbartïon yw'r graddfeydd tymor byr a thymor hir.

10.2.3 **Gwybodaeth Arall:** nid statws credyd yn unig fydd yn penderfynu ar ansawdd sefydliad. Mae'n bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus, a hynny ar sail micro a macro ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau'n gweithredu ynddynt.

10.2.4 Gall buddsoddiadau fod yn rhai penodol neu amhenodol (mae Atodiad 7 yn diffinio'r rhain ac yn rhoi rhagor o wybodaeth). Yn unol â'i ofyniad i fuddsoddi mewn buddsoddiadau risg isel, ni fydd y Cyngor ond yn buddsoddi mewn buddsoddiadau penodol:-

- **Buddsoddiadau penodol** yw'r rheini sydd â lefel uchel o ansawdd credyd ac a fydd yn aeddfedu o fewn blwyddyn, neu fod llai na blwyddyn ar ôl cyn aeddfedu petaent, yn wreiddiol, wedi eu dosbarthu'n fuddsoddiadau amhenodol dim ond oherwydd bod y cyfnod aeddfedu'n fwy na blwyddyn.
- **Buddsoddiadau amhenodol** yw'r rheini â lefel is o ansawdd credyd. Gallant fod am gyfnodau sydd dros flwyddyn ac / neu maent yn offerynnau mwy cymhleth y bydd angen i'r Aelodau a'r swyddogion roddi mwy o ystyriaeth iddynt cyn eu hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio.

10.2.5 Bydd cyfyngiadau benthyca (symiau ac aeddfedrwydd) i bob gwrthbarti yn cael eu gosod drwy ddefnyddio'r tabl matrics, fel y'i nodir yn adran Teilyngdod Credyd y strategaeth hon.

10.2.6 Bydd y Cyngor hwn yn gosod cyfyngiad ar swm y buddsoddiadau y mae'n eu buddsoddi am fwy na 365 diwrnod (gweler Atodiad 10).

10.2.7 Ni fydd y Cyngor yn buddsoddi mewn gwrthbartïon y tu allan i'r DU oni bai fod y statws credyd yn AAA neu'n uwch ac oni bai bod amgylchiadau eithriadol, megis bod teilyngdod credyd buddsoddiadau'r DU wedi'u peryglu. Dim ond gyda gwrthbartïon o wledydd sydd â **graddfa sofraniaeth** sylfaenol penodedig y byddir yn buddsoddi (gweler Atodiad 9).

10.2.8 Mae'r Cyngor hwn wedi penodi **ymgynghorwyr allanol** i roi cyngor arbenigol ynghylch sut i sicrhau'r cydbwysedd priodol gorau rhwng diogelwch, hylifedd ac elw, o gofio archwaeth risg y Cyngor hwn yng nghyd-destun lefel disgwyliedig y balansau ariannol a bod angen hylifedd trwy gydol y flwyddyn.

10.2.9 Bydd yr holl fuddsoddiadau'n cael eu dynodi mewn **sterling**.

10.3 Polisi Teilyngdod Credyd

10.3.1 Y brif egwyddor sy'n rheoli meini prawf buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch ei fuddsoddiadau. Wedi rhoi sylw i'r brif egwyddor hon, bydd y Cyngor yn sicrhau:-

- Bod ganddo hylifedd digonol yn ei fuddsoddiadau. I'r perwyl hwn, bydd yn amlinellu gweithdrefnau ar gyfer penderfynu'r hyd mwyaf y byddai'n ddoeth ymrwymo cyllid. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn berthnasol i ddangosyddion darbodus y Cyngor sy'n ymwneud â'r uchafsymiau y gellir eu buddsoddi.
- Ni fydd yn buddsoddi mewn gwrthbartïon onid oes ganddynt sgôr credyd fel y'i hamlinellir yn Atodiad 7.

10.3.2 Fel haen ddiogelwch ychwanegol i'r meini prawf statws credyd sylfaenol a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor hwn hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth teilyngdod credyd a ddarperir gan MUFG.

10.3.3 Mae gwasanaeth teilyngdod credyd MUFG yn defnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth na'r graddfeydd sylfaenol yn unig a, thrwy ddefnyddio system sgorio pwysoliad risg, nid yw'n dibynnu'n ormodol ar raddfeydd un asiantaeth yn unig.

- Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Caiff y Cyngor wybod am unrhyw newidiadau i raddfeydd y tair asiantaeth drwy ei ddefnydd o wasanaeth teilyngdod credyd MUFG. Os bydd cwymp yn y raddfa'n golygu na fydd y gwrthbarti / cynllun buddsoddi'n cwrdd bellach â meini prawf sylfaenol y Cyngor, ni fyddant yn cael eu defnyddio eto ar gyfer buddsoddiadau newydd a bydd hynny'n dod i rym yn syth.

10.3.4 Ni welwyd lefelau sylweddol o raddfeydd credyd tymor byr a hir yn cael eu hisraddio ers yr argyfwng ym mis Mawrth 2020. Ar y cyfan, lle bu newidiadau, roeddent yn gyfyngedig i Ragolygon. Yn yr un modd, wrth osod isafswm ar gyfer graddfeydd dyled sofran, ni fydd y Cyngor yn gosod isafswm graddfa ar gyfer y DU.

10.4 Cyfyngiadau Gwledydd

Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd ond yn defnyddio gwrthbartïon cymeradwy o wledydd, ac eithrio'r DU, â graddfa credyd sofran sydd o leiaf yn AAA yn ôl Graddfeydd Fitch (neu raddfa gyfatebol arall gan asiantaethau eraill os na fydd Fitch yn eu darparu). Fe welir rhestr o'r gwledydd sy'n gymwys trwy ddefnyddio'r meini prawf credyd hyn, ar ddyddiad yr adroddiad hwn, yn Atodiad 8. Bydd swyddogion yn ychwanegu gwledydd at y rhestr neu'n eu tynnu oddi arni pe bai'r graddfeydd yn newid, yn unol â'r polisi hwn. Yn ymarferol, mae buddsoddiadau'n dueddol o gael eu rhoi ym manciau'r DU am resymau diogelwch. Mae'r rhestr wedi'i chynnwys ar gyfer y digwyddiad annhebygol y bydd angen eithriadol i fuddsoddi mewn gwrthbartïon hynod ddiogel mewn gwledydd eraill. Er enghraifft, os bydd banciau'r DU yn digwydd colli teilyngdod eu credyd ac yn methu meini prawf penodol y Cyngor ar wrthbartïon.

11. LLYWODRAETHU A RHEOLI

11.1 Mae'r Côd Darbodus yn adlewyrchu symudiad tuag at awdurdodau lleol yn hunanreoleiddio, ac mae llywodraethu corfforaethol effeithiol yn un o'r elfennau allweddol gweithrediad llwyddiannus y Côd.

11.2 Mae Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau isod:-

- Rôl ffurfiol ar gyfer y Swyddog Adran 151;
- Gosod a monitro Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys;
- Cynllun dirprwyo a phroses gymeradwyo ffurfiol;
- Adrodd ar faterion Rheoli'r Trysorlys i Aelodau.

11.3 Rôl y Swyddog Adran 151 ac Aelodau

11.3.1 Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am sicrhau bod materion sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys a Chyllido Cyfalaf yn cael eu cymryd i ystyriaeth a'u hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith / Cyngor llawn i'w hystyried, a bod gweithdrefnau'n cael eu sefydlu i fonitro perfformiad.

11.3.2 Rhaid i'r Swyddog Adran 151 sicrhau bod dangosyddion darbodus yn cael eu gosod a'u monitro er mwyn dangos y cydymffurfir â'r gofyn deddfwriaethol i sicrhau bod cynlluniau ariannol y Cyngor yn fforddiadwy.

11.3.3 Mae Aelodau hefyd yn chwarae rôl bwysig, nid yn unig o ran awdurdodi'r penderfyniadau perthnasol ond hefyd wrth graffu ar brosesau, penderfyniadau a pherfformiad rheoli'r trysorlys. Er mwyn ymgymryd â'r rôl hon, rhaid i'r swyddog cyfrifol, yn unol â Chôd Rheoli'r Trysorlys CIPFA, sicrhau bod Aelodau sydd â chyfrifoldeb am faterion reoli'r trysorlys yn cael hyfforddiant digonol ar y cyfryw faterion. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am graffu. Er mwyn cefnogi rôl craffu aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cafodd aelodau'r Pwyllgor hyfforddiant ar reoli'r trysorlys gan yr ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys ar 14 Medi 2022. Trefnir rhagor o hyfforddiant yn ôl yr angen. Mae anghenion hyfforddiant swyddogion rheoli'r trysorlys yn cael sylw rheolaidd a'u hadolygu'n rheolaidd.

11.3.4 Mae gan swyddogion y Cyngor sy'n ymwneud â gweithgareddau rheoli'r trysorlys wybodaeth a sgiliau cynhwysfawr ar gyfer rheoli swyddogaeth rheoli'r trysorlys. Mae'r Swyddog Adran 151 yn chwarae rhan allweddol mewn Rheoli'r Trysorlys ac mae'n cymeradwyo neu'n gwrthod unrhyw fuddsoddiadau a gynigir gan y tîm. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu hyfforddiant i gynyddu gwybodaeth a sgiliau'r rhai sy'n gyfrifol am reoli, darparu, llywodraethu a gwneud penderfyniadau.

11.3.5 Bydd y Tîm Adnoddau Dynol yn cadw cofnod ffurfiol o'r hyfforddiant a dderbynnir gan swyddogion sy'n ganolog i swyddogaeth y Trysorlys. Yn yr un modd, bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cadw cofnod ffurfiol o hyfforddiant rheoli'r trysorlys / cyllid cyfalaf a dderbynnir gan Aelodau.

11.3.6 Mae Cynllun Dirprwyo Rheoli'r Trysorlys ac esboniad llawnach o rôl y Swyddog Adran 151 i'w gweld yn Atodiad 9.

12. CYNGOR RHEOLI'R TRYSORLYS

12.1 Mae'r Cyngor yn defnyddio MUFG Corporate Markets (Link Group gynt) fel ymgynghorwyr allanol iddo ar reoli'r trysorlys. Yn unol â rheoliadau caffael, fe wnaeth y Cyngor ail-dendro'r gwasanaeth hwn yn gynnar yn 2021, am y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2025, gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd.

12.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli'r trysorlys yn aros gyda'r sefydliad bob amser, a bydd yn sicrhau na fydd yn dibynnu gormod ar ein darparwyr gwasanaeth allanol. Bydd yr holl benderfyniadau'n cael eu gwneud gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, yn cynnwys gwybodaeth gan ein hymgynghorwyr trysorlys, ond ni ddibynnir arnyn nhw'n unig. Y Cyngor sy'n parhau i fod â'r cyfrifoldeb terfynol am unrhyw benderfyniadau rheoli'r trysorlys.

13. DANGOSYDDION DARBODUS A THRYSORLYS

13.1 Mae'r Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys a nodir yn Atodiad 10 yn ymwneud â fforddiadwyedd, bod yn ddarbodus ac maent yn gosod cyfyngiadau ar gyfer gwariant cyfalaf, dyledion allanol, y meincnod rhwymedigaethau a strwythur aeddfedu dyledion. Mater i'r Cyngor yw gosod y Dangosyddion Darbodus, ac mae'n bwysig ystyried y dangosyddion nid yn unig ar gyfer pob blwyddyn unigol ar wahân ond, hefyd, ystyried perfformiad yn y gorffennol a rhagolygon i'r dyfodol. Ceir eglurhad llawnach o bwrpas pob dangosydd yn Atodiad 10.

14. ADRODD

14.1 Mae angen i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf bum prif adroddiad bob blwyddyn, sy'n cynnwys amrywiaeth o bolisïau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol:-

1. Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys - mae'r adroddiad cyntaf a'r pwysicaf (yr adroddiad hwn) yn edrych ymlaen ac mae'n rhoi sylw i:-

- y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (y modd y bydd buddsoddiadau a benthyciadau'n cael eu trefnu), gan gynnwys dangosyddion rheoli'r trysorlys;
- Strategaeth Fuddsoddi (y cyfyngiadau o ran rheoli buddsoddiadau);
- Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) (y modd y mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei roi yn erbyn refeniw dros gyfnod o amser);
- Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys (diffiniad o bolisïau ac amcanion y swyddogaeth rheoli'r trysorlys); a
- cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion darbodus cysylltiedig).

2. Strategaeth Gyfalaf - mae'n nodi'r strategaeth a gynlluniwyd ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn ystod y 5 mlynedd nesaf ac mae'n amlygu'r allbynnau a gynlluniwyd, y gwariant a gynlluniwyd a sut y bwriedir cyllido'r gwariant.

3. Adroddiadau monitro rheoli'r trysorlys chwarter 1 a 3 - bydd yr adroddiadau hyn yn rhoi diweddariad i Aelodau ar gynnydd y sefyllfa gyfalaf, gan ddiwygio dangosyddion darbodus fel y bydd angen, ac yn nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cyflawni ei hamcanion ynteu oes angen adolygu unrhyw bolisïau. Y Deilydd Portffolio Cyllid sy'n derbyn yr adroddiadau hyn, o dan awdurdod a ddirprwywyd gan y Pwyllgor Gwaith.

4. Adroddiad monitro canol blwyddyn ar reoli'r trysorlys - mae'n debyg i'r ddau adroddiad chwarterol ond mae'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith, cyn cael ei dderbyn gan y Cyngor llawn.

5. Adroddiad rheoli'r trysorlys blynyddol diwedd blwyddyn - dogfen adolygu sy'n edrych yn ôl ar y flwyddyn yw hon ac mae'n cynnwys manylion detholiad o ddangosyddion darbodus a thrysorlys a gweithredoedd trysorlys gwirioneddol o gymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith hefyd yn ystyried yr adroddiad hwn cyn i'r Cyngor llawn ei dderbyn.

15. CASGLIAD

15.1 I grynhoi, mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2026/27 yn parhau'r strategaeth o ddull darbodus o fenthyca er mwyn cyfyngu'r goblygiadau refeniw, a defnyddio benthyca mewnol pan fo balansau arian parod yn caniatáu. Mae'r strategaeth fuddsoddi'n parhau'r polisi o sicrhau diogelwch a hylifedd adneuon dros elw.

15.2 Dros oes y strategaeth, rhagwelir y byddai parhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gyfrannu at gyllido'r gyllideb refeniw a defnyddio'r CRT i gyllido gwariant cyfalaf yn golygu fod balansau arian parod yn lleihau'n sylweddol. Bydd rhaid benthyca mwy er mwyn cyllido rhaglen gyfalaf y Cyngor, tra'n parhau i gynnal balansau arian parod digonol i gyllido rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

ATODIAD 1

Côd Ymarfer CIPFA: Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus – darparwyd gan MUFG Corporate Markets (Link Group gynt)

Egwyddorion allweddol Côd Ymarfer CIPFA, ***Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Côd Ymarfer (Cyfrol 2021),*** *fel y disgrifir yn Adran 4 o'r* Côd *hwnnw yw:-*

Egwyddor Allweddol 1:
Dylai cyrff gwasanaethau cyhoeddus sefydlu amcanion, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ffurfiol a chynhwysfawr i reoli eu gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn effeithiol.

Egwyddor Allweddol 2:
Dylai eu polisïau a'u harferion ei gwneud yn glir mai rheoli risgiau mewn modd effeithiol yw'r prif amcan yn eu gweithgareddau rheoli'r trysorlys a bod cyfrifoldeb am y rhain yn disgyn yn ddiamwys ar y sefydliadau eu hunain. Dylai eu harchwaeth risg ffurfio rhan o'u strategaeth flynyddol, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o offerynnau ariannol ar gyfer rheolaeth ddarbodus o'r risgiau hynny, a dylid sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd y portffolio wrth fuddsoddi cyllid rheoli'r trysorlys.

Egwyddor Allweddol 3:
Dylent gydnabod bod ceisio gwerth am arian yn y maes rheoli'r trysorlys a'r defnydd o fesurau perfformiad addas yn ystyriaethau dilys a phwysig i sefydliadau cyfrifol eu defnyddio i gynorthwyo i gwrdd ag amcanion eu busnes a'u gwasanaethau; ac, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol, dylai eu polisïau a'u harferion rheoli'r trysorlys adlewyrchu hyn.

Aiff y Côd ymlaen i ddweud:-

"Wrth lunio'r argymhellion hyn, mae CIPFA yn cydnabod yr anawsterau o ran ymdrechu i reoli risg yn effeithiol, wrth anelu at sicrhau gwerth am arian ar yr un pryd. Nid yw'r Côd yn ceisio bod yn or-benodol ynghylch sut y dylai'r mater hwn gael ei drin, yn enwedig gan ei fod yn cynnwys amrywiaeth mor eang o sefydliadau. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol, mae nodiadau cyfarwyddo i sectorau penodol yn rhoi cyngor addas. Mae CIPFA yn cydnabod nad oes unrhyw ddau sefydliad yn y gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o fynd i'r afael â'r mater hwn yn union yr un modd, ond mae llwyddiant yn y maes rheoli'r trysorlys yn debygol o gael ei weld, yn enwedig yn nhermau gwerth am arian, fel arwydd o swyddogaeth rheoli'r trysorlys sy'n perfformio'n gryf".

"Barn CIPFA, trwy'r holl wasanaethau cyhoeddus, yw mai'r flaenoriaeth yw diogelu cyfalaf yn hytrach na gwneud yr elw mwyaf. Nid yw osgoi pob risg yn briodol nac yn bosib. Fodd bynnag, mae'n rhaid cael cydbwysedd a chyfrifoldeb llym am arian cyhoeddus."

Felly, bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r pedwar cymal canlynol fel rhan o'r rheolau sefydlog:-

1. Bydd yr Awdurdod yn creu ac yn cynnal, fel conglfeini ar gyfer rheolaeth effeithiol o'r trysorlys:-

- datganiad polisi rheoli'r trysorlys, sy'n datgan y polisïau, yr amcanion a'r dull o reoli risg yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys; ac

- arferion rheoli'r trysorlys addas (ARhT) yn nodi'r modd y bydd yr Awdurdod yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny, ac yn nodi sut y bydd yn trin ac yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Bydd cynnwys y Datganiad Polisi a'r ARhT yn dilyn yr argymhellion a gynhwysir yn Adrannau 6 a 7 o'r Côd, yn amodol yn unig ar newid lle bo angen i adlewyrchu amgylchiadau penodol yr Awdurdod. Ni fydd newidiadau o'r fath yn golygu y bydd yr Awdurdod yn gwyro'n sylweddol oddi wrth egwyddorion allweddol y Côd.

2. Bydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiadau ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys yr Awdurdod, yn cynnwys: strategaeth a chynllun blynyddol cyn i'r flwyddyn ddechrau, adroddiad adolygu canol blwyddyn ac adroddiad blynyddol ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, mewn ffurf sydd wedi ei ragnodi gan yr ARhT.

3. Y Cyngor Sir / Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am weithredu polisïau ac arferion rheoli'r trysorlys yr Awdurdod, yn unol â'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am weithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli'r trysorlys, a bydd yn gweithredu yn unol â datganiad polisi'r Awdurdod a'r ARhT ac, os yw'n aelod o CIPFA, yn unol â Safon Arferion Proffesiynol CIPFA ar faterion Rheoli'r Trysorlys.

4. Mae'r Awdurdod yn enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y strategaeth a pholisïau rheoli'r trysorlys yn destun craffu effeithiol.

Diweddariad ar yr Economi a Chyfraddau Llog - cynhyrchwyd gan MUFG Corporate Markets (Link Group gynt)

1. Diweddariad ar yr Economi

- Yn ystod trydydd chwarter 2025/26 gwelwyd:-
  - Newid o -0.1% fis ar fis (m/m) yn y cynnyrch domestig gros (GDP) gwirioneddol ym mis Hydref, felly, nid oedd yr economi ddim mwy nag yr oedd ym mis Ebrill.
  - Disgynnodd y gyfradd 3 mis flwyddyn ar flwyddyn (3myy) ar gyfer twf enillion cyfartalog heb gynnwys bonwsau i 4.6% ym mis Hydref, ar ôl bod cyn uched â 5.5% yn gynharach yn ystod y flwyddyn ariannol.
  - Disgynnodd Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn gyflym o 3.6% i 3.2% ym mis Tachwedd, a llaciodd chwyddiant CPI craidd i 3.2%.
  - Torrodd Banc Lloegr gyfraddau llog o 4.00% i 3.75% ym mis Rhagfyr, ar ôl cadw'r gyfradd fel ag yr oedd ym mis Tachwedd.
  - Amrywiodd enillion giltiau 10 mlynedd rhwng 4.4% a 4.7%, cyn gorffen y chwarter ar 4.5%.
- O safbwynt GDP, cafwyd dechrau ansefydlog i'r flwyddyn ariannol, gyda gostyngiad o 0.3% m/m mewn GDP gwirioneddol yn Ebrill, gan fod camau a gymerwyd gan fusnesau cyn i'r UDA gyflwyno tollau yn Ch1 (pan welwyd twf o 0.7% yn y GDP o gymharu â'r chwarter blaenorol) wedi pwyso ar weithgarwch. Er gwaetha'r rhesymau sylfaenol dros y gostyngiad, dyma'r gostyngiad cyntaf ers Hydref 2024 a'r gostyngiad mwyaf ers Hydref 2023. Er hynny, fe wnaeth yr economi wella ym mis Mai a Mehefin, felly, gwelwyd twf o 0.3% o un chwarter i'r llall (ch/ch) ar ddiwedd y chwarter (ond cafodd ei adolygu a'i ostwng i 0.2% ch/ch yn ddiweddarach). Serch hynny, bydd y 0.0% newid m/m yn y GDP gwirioneddol ym mis Gorffennaf, ac yna cynnydd o 0.1% m/m ym mis Awst a gostyngiad o 0.1% ym Medi wedi achosi rhywfaint o bryder (0.1% ch/ch). Mae'r newid siomedig o -0.1% m/m yn y GDP gwirioneddol ym mis Hydref yn awgrymu fod twf wedi arafu i tua 1.4% yn 2025 dros y flwyddyn gyfan.
- Gan aros gyda barn am hynt yr economi yn y dyfodol, cododd y Mynegai Rheolwyr Prynu (PMI) cyfansawdd ar gyfer y DU o 51.2 ym mis Tachwedd i 52.1 yn Rhagfyr, gan awgrymu efallai fod yr ansicrwydd cyn y gyllideb yn dechrau cilio a bod yr economi'n elwa ar hynny i raddau. Gallai hyn hefyd adlewyrchu fod y llusgiad oherwydd galw gwan o dramor yn gwanhau hefyd. Er bod y PMI gwasanaethau wedi codi o 51.3 i 52.1, roedd mwy o gynnydd yn y balans allbwn gweithgynhyrchu a gododd o 50.3 i 51.8. Yn wir, mae'r sector gweithgynhyrchu wedi bod yn fwy agored i'r galw allanol gwan a welwyd yn ddiweddar ac mae wedi bod ar ei hôl hi o gymharu â'r sector gwasanaethau ers diwedd y flwyddyn ddiwethaf.
- Gan droi yn awr at werthiant manwerthu, a'r cynnydd o 1.5% flwyddyn ar flwyddyn ym Medi, oedd yn llawer uwch na'r cynnydd o 0.7% yn Awst, a dyma'r cynnydd uchaf ers Ebrill. Serch hynny, roedd y gostyngiad o 0.1% m/m mewn gwerthiant manwerthu ym mis Tachwedd yn adeiladu ar y gostyngiad o 0.9% m/m ym mis Hydref, gan awgrymu fod effeithiau mwy hirhoedlog cyflogaeth gwan a'r ffaith fod twf cyflogau'n arafu yn cael effaith. Yn ogystal, mae dirywiad yn y mesur GfK o hyder defnyddwyr o -17 ym mis Hydref i -19 ym mis Tachwedd yn awgrymu nad yw defnyddwyr yn teimlo'n optimistaidd ar hyn o bryd.
- Cyn y Gyllideb ym mis Tachwedd, roedd sefyllfa arian cyhoeddus yn ymddangos yn wan. Roedd y £20.2 biliwn a fenthycwyd ym Medi ychydig yn uwch na rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) o 20.1 biliwn. Ar gyfer y flwyddyn hyd yma, benthycwyd £99.8 biliwn rhwng Ebrill a Medi a dyma'r ail ffigwr uchaf ar gyfer y cyfnod hwn ers dechrau cadw cofnodion yn 1993, a dim ond benthyca yn ystod y pandemig COVID-19 oedd yn uwch na hyn. Prif yrwyr y cynnydd mewn benthyca oedd costau llog uwch ar ddyledion, costau gweithredu'r llywodraeth yn cynyddu, a thaliadau budd-daliadau a gyplysir â chwyddiant uwch, ac roedd y cynnydd hwn mewn costau yn uwch na'r cynnydd yn y cyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol.
- Yn dilyn y Gyllideb ar 26 Tachwedd, cyfrifodd yr OBR fod y tynhau net mewn polisi ariannol yn £11.7bn (0.3% o GDP) yn 2029/30, llai na'r rhagolwg o £25bn. Fe wnaeth yr OBR israddio twf mewn cynhyrchiant gan 0.3%, o 1.3% i 1.0%, ond roedd llawer o'r dylanwad hwnnw'n cael ei wrthbwyso gan gynnydd yn y rhagolygon tymor byr ar gyfer cyflogau a chwyddiant. Ar sail hynny, barnodd yr OBR y byddai'r Canghellor yn cyflawni ei hamcanion, gyda £4.2bn yn weddill. Yna, dewisodd y Canghellor ymestyn yr hyblygrwydd cyllidol i £21.7bn, ac mae hyn yn uwch na'r ffigwr blaenorol o £9.9bn.
- Dewisodd y Canghellor hefyd gynyddu gwariant gan swm net o £11.3bn yn 2029/30. Er mwyn talu am hynny a'r cynnydd yn yr hyblygrwydd cyllidol, codwyd trethi gan £26.1bn yn 2029/30. Yr elfennau oedd yn codi'r mwyaf o refeniw oedd rhewi'r trothwyon treth incwm o 2028/29 (+£7.8bn) a chodi'r cyfraniadau yswiriant gwladol (NIC) ar gyfraniadau pensiwn trwy gynllun aberthu cyflog (+£4.8bn). Bydd cynyddu'r dreth gyngor ar eiddo sydd werth mwy na £2.0m yn cynhyrchu £0.4bn.

- Yn dilyn y Gyllideb, roedd benthyciadau net y sector cyhoeddus o £11.7bn ym mis Tachwedd yn llawer is na'r ffigwr o £13.6bn ym mis Tachwedd 2024, a dyma'r ffigwr benthyca isaf ym mis Tachwedd ers 2021, yn bennaf oherwydd bod derbyniadau treth £5.4bn yn uwch, a hynny'n bennaf oherwydd y cynnydd yn NIC y cyflogwr yn Ebrill 2025. Yn ystod wyth mis gyntaf 2025/26, roedd benthyca cronnus yn parhau i fod £10bn yn uwch na chyfanswm y llynedd. Fodd bynnag, dylai chwyddiant is a chael gwared ar asedau cyn y Gyllideb olygu bod benthyca yn 2025/26 yn is na chyfanswm y llynedd.

- Roedd yn amlwg yn y gwanwyn bod y farchnad swyddi'n gwanhau. Y gostyngiad o 109,000 m/m yn y mesur cyflogaeth PAYE oedd y gostyngiad mwyaf (ac eithrio'r pandemig) ers dechrau cadw cofnodion, a'r seithfed gostyngiad mewn saith mis. Adolygwyd y newid misol, a'i ostwng, mewn pump o'r saith mis blaenorol hefyd, gyda gostyngiad o 33,000 yn Ebrill yn cael ei leihau yn dilyn adolygiad i ostyngiad o 55,000. Yn fwy diweddar, y gostyngiad o 38,000 mewn gweithwyr cyflogedig ym mis Tachwedd oedd y degfed gostyngiad misol yn ystod yr 13 mis diwethaf, gan arafu'r gyfradd dwf flynyddol ymhellach o -0.5% i -0.6%. Roedd nifer y swyddi gweigion yn ystod y tri mis hyd at fis Tachwedd 2025 yn 729,000 (roedd ar ei uchaf yng ngwanwyn 2022 gyda ffigwr o 1.3 miliwn) ond roedd Arolwg y Gweithlu Llafur, sydd yn llai dibynadwy, yn dangos gostyngiad o 16,000 mewn swyddi yn y tri mis hyd at Hydref, a bod y gyfradd ddiweithdra wedi codi ymhellach, o 5.0% i 5.1%. Mae hyn oll yn awgrymu bod y farchnad lafur yn parhau i lacio, ond yn araf.

- Mae marchnad lafur lacach yn gyrru pwysau mwy meddal ar gyflogau. Fe wnaeth cyfradd dwf 3myy enillion cyfartalog, yn cynnwys bonwsau, lacio o 4.9% ym Medi i 4.7% ym mis Hydref. Arafodd y gyfradd 3myy, heb gynnwys bonwsau, o 4.7% i 4.6%. Fe wnaeth twf cyflogau sector preifat rheolaidd barhau i arafu o 4.2% i 3.9%. Yn sgil hynny roedd ar darged, ar y cyfan, i fod yn unol â rhagolwg y Banc o 3.5% ar ddiwedd Rhagfyr.
- Disgynnodd chwyddiant CPI yn gyflym ym mis Tachwedd, gan lacio o 3.6% yn Hydref i 3.2%. Dyma'r trydydd canlyniad chwyddiant is na'r disgwyl yn olynol ac mae'n awgrymu fod cyfnod lle mae lefel chwyddiant yn gostwng wedi hen gychwyn. Gwelwyd pwysau ar brisiau'n llacio'n gyffredinol, gan arafu mewn 10 o'r 12 prif gategori. Disgynnodd chwyddiant craidd o 3.4% i 3.2% a disgynnodd chwyddiant gwasanaethau o 4.5% i 4.4%. Fodd bynnag, bydd llawer iawn yn dibynnu ar yr addasiadau arfaethedig i brisiau a reoleiddir a phrisiau mynegai fis Ebrill nesaf. Mae Capital Economics yn rhagweld y bydd chwyddiant CPI yn gostwng o 3.2% ym Mawrth i 2.0% yn Ebrill, gan olygu ei fod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o 2.0%, neu is, erbyn diwedd 2026.
- Problem hollbresennol yn ystod y misoedd diwethaf oedd y pwysau a roddwyd ar enillion giltiau sydd â dyddiadau ad-dalu yn y tymor canol a'r tymor hwy. Symudodd enillion ar giltiau 10 mlynedd i'r ochr yn ystod ail chwarter 2025, gan godi o 4.4% ddechrau Ebrill i tua 4.8% ar ei uchaf, cyn gorffen ar 4.50% erbyn diwedd Mehefin.
- Yn fwy diweddar, cododd enillion ar giltiau 10 mlynedd o 4.46% i 4.60% ddechrau Gorffennaf, wrth i doriadau mewn gwariant gael eu gwrthdroi ac ansicrwydd ynghylch dyfodol Canghellor Reeves gynyddu pryderon ariannol. Er mai am gyfnod byr yn unig y gwelwyd y cynnydd, roedd yn tynnu sylw at sefyllfa ariannol fregus y DU. Mewn oes o ddyledion uchel, cyfraddau llog uchel a thwf GDP isel, mae'r farchnad bellach yn fwy sensitif i risgiau ariannol nag yr oedd cyn y pandemig. Yn ystod Awst, gwelwyd cynnydd mawr yn y giltiau â dyddiadau ad-dalu hir oedd yn cael eu gwerthu, gyda chynnydd o 22 pwynt sylfaen (bps) ac, erbyn diwedd y mis, roedd y gyfradd yn uwch nag y bu ers 27 o flynyddoedd, sef 5.6%. Er bod enillion wedi llacio ers hynny, roedd y gwerthiant ar y marchnadoedd wedi'i yrru gan bryderon buddsoddwyr ynghylch twf yn yr anghydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw, yn deillio o anesmwythyd ynghylch diffyg cyfnerthiad ariannol a gostyngiad yn y galw gan brynwyr traddodiadol sy'n prynu bondiau â dyddiadau ad-dalu hir, megis cronfeydd pensiwn. Ar gyfer giltiau 10 mlynedd, erbyn diwedd Medi roedd ystyfnigrwydd chwyddiant i ostwng, data gweithgarwch gwydn a phenderfyniad Banc Lloegr i reoli chwyddiant yn golygu fod enillion wedi aros yn uchel, dros 4.70%, er bod enillion giltiau wedi gostwng ar ôl y Gyllideb, wedi'i gefnogi gan gynllun ariannol tynnach, dim galw am gymaint o godiad mewn trethi gan fod rhagolwg ariannol yr OBR wedi gostwng llai na'r disgwyl, a symudiad ffafriol o ran cyhoeddi bondiau, gan symud oddi wrth ddyled hir dymor. Roedd enillion giltiau o gwmpas 4.5% ar ddiwedd y chwarter.
- Gwelwyd cwymp sylweddol yn yr FTSE 100 yn dilyn cyhoeddiad yr UD ar "Ddiwrnod Rhyddid" y byddai'n cynyddu tollau, gyda gostyngiad o fwy na 10% yn ystod wythnos gyntaf Ebrill - o 8,634 ar 1 Ebrill i 7,702 ar 7 Ebrill. Fodd bynnag, gan fod y rhyfel masnach wedi tawelu ac yn sgil enillion corfforaethol cryf, dechreuodd y sefyllfa adfer yn gyflym ddiwedd Ebrill. O ganlyniad, roedd yr FTSE 100 ar 8,761 ar ddiwedd Mehefin, tua 2% yn uwch na'i werth ar ddiwedd Mawrth, a dros 7% yn uwch na'i lefel ar ddechrau 2025. Ers hynny, mae'r FTSE 100 wedi gweld cynnydd sylweddol pellach yn ei werth. Cyrhaeddodd y farchnad stoc ei lefel uchaf erioed, dros 9,900, ganol Tachwedd, wedi'i yrru gan adferiad byd-eang yn sgil gobeithion y byddai'r cau lawr a brofodd llywodraeth yr UD yn cael ei ddatrys, disgwyliad y byddai'r gyfradd llog yn cael ei thorri yn Rhagfyr, ac enillion corfforaethol cryf. Er gwaethaf ychydig o nerfusrwydd adeg y Gyllideb, roedd yr FTSE 100 ar 9,931 ar ddiwedd Ch4, 5% yn uwch na diwedd Medi a 22% yn uwch nag ar ddechrau 2025.

Cyfarfodydd y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC): 8 Mai, 19 Mehefin, 7 Awst, 18 Medi, 6 Tachwedd, 18 Rhagfyr 2025

- Cynhaliwyd chwe chyfarfod o'r MPC rhwng Ebrill a Rhagfyr. Ym mis Mai, penderfynodd y Pwyllgor dorri'r Gyfradd Banc o 4.50% i 4.25% ac ni newidiodd y polisi ym mis Mehefin. Yn y bleidlais ym mis Mehefin, pleidleisiodd tri aelod o'r Pwyllgor (Dhingra, Ramsden a Taylor) o blaid torri'r gyfradd i 4.00% ar unwaith, oherwydd llacio yn amodau'r farchnad lafur. Roedd y chwe aelod arall yn fwy gofalus, gan eu bod wedi amlygu'r angen i gadw llygaid am "arwyddion o alw gwan", "cyfyngiadau cyflenwi" a "disgwyliadau chwyddiant" uwch, yn bennaf oherwydd bod prisiau bwyd yn codi. Trwy ailadrodd y dywediad a ddefnyddir yn gyson, "graddol a gofalus", roedd y MPC yn parhau i awgrymu y byddai cyfraddau yn disgyn ymhellach.
- Cafodd y gyfradd ei thorri unwaith eto yn Awst. Fodd bynnag, roedd y bleidlais 5 i 4 o blaid torri'r gyfradd i 4% yn amlygu'r gwahanol safbwyntiau o fewn y MPC, ac roedd y sylwebaeth i gyd-fynd â'r penderfyniad yn nodi fod y penderfyniad yn un "agos iawn", ac yn ategu y byddai unrhyw doriad yn y cyfraddau yn y dyfodol yn cael eu gwneud yn "raddol a gofalus". Yn y pendraw, defnyddiodd y Llywodraethwr Bailey ei bleidlais fwrw o blaid torri'r gyfradd ond, gan fod disgwyl i fesur chwyddiant y CPI gyrraedd o leiaf 4% yn ddiweddarach eleni, roedd y MPC yn wyliadwrus rhag torri cyfraddau eto cyn i chwyddiant ddechrau gostwng yn araf tuag at 2%.
- Gyda chyflogau'n dal i godi gan ychydig llai na 5%, nid oedd yn syndod fod cyfarfod y MPC ym mis Medi wedi pleidleisio 7-2 o blaid cadw'r gyfradd ar 4% (pleidleisiodd Dhingra a Taylor o blaid gostyngiad pellach o 25 bps). Manteisiodd y Banc hefyd ar y cyfle i gyhoeddi y byddai ond yn lleihau ei fantolen gan £70bn yn ystod y 12 mis nesaf, yn hytrach na £100bn. Roedd ailadrodd ei bod yn briodol defnyddio dull "graddol a gofalus" ar gyfer torri cyfraddau yn awgrymu bod y Banc yn dal i gredu y byddai cyfraddau llog yn parhau i ostwng.
- Yn y cyfarfod ar 6 Tachwedd, defnyddiodd Llywodraethwr Bailey ei bleidlais fwrw unwaith eto, a chadw Cyfradd y Banc ar 4%, ond gan awgrymu'n gryf bod toriad pellach yn y gyfradd ar y gweill os byddai data'n cefnogi symudiad o'r fath. Erbyn 18 Rhagfyr, gyda chwyddiant CPI Tachwedd wedi gostwng i 3.2%, a GDP ar gyfer Ch2 wedi'i ostwng o 0.3% ch/ch i ddim ond 0.2% ch/ch yn dilyn adolygiad, a bod GDP wedi arafu eto i 0.1% yn Ch3, pleidleisiodd y MPC 5 i 4 o blaid torri cyfraddau llog eto, i 3.75%. Fodd bynnag, mynegodd Llywodraethwr Bailey yn glir y byddai angen data cryf i gefnogi unrhyw doriadau pellach, ac y byddai cyflymder unrhyw doriadau pellach yn araf o gymharu â'r misoedd diwethaf. Mae'r marchnadoedd yn disgwyl i Gyfradd y Banc gael ei dorri nesaf yn Ebrill.

2. **Rhagolygon ar gyfer y gyfradd llog**

Mae'r Awdurdod wedi penodi MUFG Corporate Markets fel ei ymgynghorydd trysorlys ac, fel rhan o'r gwasanaeth, maent yn cynorthwyo'r Awdurdod i lunio barn ar gyfraddau llog. Darparodd MUFG Corporate Markets y rhagolygon a'r sylwebaeth ganlynol ar 22 Rhagfyr 2025. Rhagolygon ydynt ar gyfer Cyfradd y Banc, enillion cyfartalog a chyfraddau sicrwydd y BBGC, enillion giltiau +80 bps.

MUFG Corporate Markets Interest Rate View 22.12.25													
	Mar-26	Jun-26	Sep-26	Dec-26	Mar-27	Jun-27	Sep-27	Dec-27	Mar-28	Jun-28	Sep-28	Dec-28	Mar-29
BANK RATE	3.75	3.50	3.50	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25
3 month ave earnings	3.80	3.50	3.50	3.30	3.30	3.30	3.30	3.30	3.30	3.30	3.30	3.30	3.30
6 month ave earnings	3.80	3.50	3.50	3.40	3.30	3.30	3.30	3.40	3.40	3.40	3.40	3.40	3.40
12 month ave earnings	3.90	3.60	3.60	3.50	3.40	3.50	3.50	3.50	3.50	3.50	3.60	3.60	3.60
5 yr PWLB	4.60	4.50	4.30	4.20	4.10	4.10	4.10	4.10	4.10	4.10	4.10	4.10	4.10
10 yr PWLB	5.20	5.00	4.90	4.80	4.80	4.70	4.70	4.70	4.70	4.60	4.60	4.60	4.70
25 yr PWLB	5.80	5.70	5.60	5.50	5.50	5.40	5.30	5.30	5.30	5.20	5.20	5.20	5.20
50 yr PWLB	5.60	5.50	5.40	5.30	5.30	5.20	5.10	5.10	5.10	5.00	5.10	5.00	5.00

- *Fe wnaethom ddiweddaru ein rhagolygon cyfraddau llog ddiwethaf ar 11 Awst. Ers hynny, mae cyfuniad o dwf gwan (0.2% ch/ch GDP ar gyfer Ch2 a 0.1% ch/ch GDP ar gyfer Ch3), gostyngiad mewn chwyddiant (mae CPI yn 3.2% ar hyn o bryd), a Chyllideb Tachwedd fydd yn rhoi mwy o bwysau ar incwm y rhan fwyaf o deuluoedd, wedi rhoi cyfle i MPC Banc Lloegr ostwng y Gyfradd Banc eto, o 4% i 3.75% ar 18 Rhagfyr.*
- *Er syndod i'r rhan fwyaf o sylwebwyr ar y marchnadoedd, ni wnaeth gostyngiad sylweddol y CPI mewn mis, o 3.6% i 3.2%, berswadio'r aelodau a bleidleisiodd yn erbyn torri'r gyfradd banc ym mis Tachwedd (Lombardelli, Green, Mann a Phil) i ymuno â'r aelodau oedd yn pleidleisio o blaid torri'r gyfradd. Yn hytrach, roedd rhaid i Lywodraethwr y Banc, Andrew Bailey, ddefnyddio ei bleidlais fwrw i sicrhau fod y bleidlais o blaid torri'r gyfradd yn ennill, ond gyda mwyafrif bychan iawn, sef 5 i 4.*
- *Oherwydd bod mwyafrif mor fychan o blaid torri'r gyfradd, nid oedd yn annisgwyl clywed, er y byddai cyfraddau'n parhau i ostwng yn raddol, oedd yn awgrymu bod toriad neu doriadau pellach ar y gweill, mae aelodau'r MPC eisiau asesu tystiolaeth ynglŷn â'r gweithgarwch yn y farchnad lafur a thwf cyflogau. Yn wir, gyda thwf cyflogau blynyddol yn parhau i fod dros 4.5%, ailadroddodd y MPC y byddai'r achos dros doriadau pellach yng nghyfradd y banc yn dynn iawn, a nododd Llywodraethwr Bailey nad oes fawr o le i symud wrth i'r Gyfradd Banc agosáu at lefel niwtral.*

- *Yn sgil hynny, adolygwyd rhagolwg MUFG Corporate Markets er mwyn cynnwys toriad yn y gyfradd i 3.5% yn Ch2 2026, sy'n debygol gan fod darogan gostyngiad sylweddol mewn chwyddiant CPI o 3% ym Mawrth i 2% yn Ebrill (yn unol â rhagolwg Capital Economics), wedi'i ddilyn gan osteg byr trwy'r haf tra bod rhagor o ddata'n cael ei gasglu, ac yna toriad pellach yn y gyfradd i 3.25% yn Ch4.*

- *Fel yn Awst, serch hynny, mae bygythiadau i'r sefyllfa ganolog honno. Beth os fydd cynnydd mewn cyflogau'n aros yn uchel? Wedi'r cyfan, mae prinder staff yn parhau'n broblem ddifrifol mewn sawl sector yn yr economi gartref, gan gynnwys darpariaeth gofal cymdeithasol a'r diwydiannau adeiladu. Yn ogystal, erbyn Mai 2026, yn dilyn yr etholiadau lleol, bydd gennym well syniad o ph'un a fydd y tîm Starmer / Reeves yn parhau hyd ddiwedd y Senedd bresennol neu a fyddant yn wynebu her i'r Arweinyddiaeth o fewn eu plaid eu hunain. Os felly, sut fydd y marchnadoedd giltiau'n ymateb i'r amrywolion hyn…ac a fydd rhaid cynnwys ffactorau geo-wleidyddol ychwanegol hefyd, yn enwedig penderfyniadau polisi ariannol y Banc Ffederal yn yr UD yn 2026 a'r frwydr barhaus i dorri cyfraddau tra bod chwyddiant yn parhau i fod yn agos at 3%.*

- *O'r herwydd, mae ein rhagolwg canolog a ddiweddarwyd yn cynnwys sawl rhybudd sylweddol. Rydym yn hyderus, fel y buom ers tro, fod ein rhagolwg ar gyfer y Gyfradd Banc a Chyfradd Sicrwydd 5 mlynedd y BBGC yn gadarn, ac rydym wedi dwyn ymlaen amseriad y toriad(au) nesaf yn y gyfradd fymryn. Ond, ar gyfer rhannau o'r gromlin sy'n edrych ar y sefyllfa mewn 10-, 25- a 50 mlynedd, bydd lefel cyhoeddi giltiau, a'r amseru, yn hanfodol er mwyn sicrhau amgylchedd fasnachu dawel. Nid oes gwarant o hynny ac, yn ychwanegol, mae'r rhagolygon ar gyfer chwyddiant a ffactorau gwleidyddol gartref ac, yn holl bwysig, yn yr UD, yn debygol o fod yn ddylanwadol. Dylai materion fod yn fwy eglur erbyn Mehefin yn y DU, ond cynhelir etholiadau canol tymor yr UD ym mis Tachwedd.*

- *Mae ein rhagolygon diwygiedig ar gyfer cyfraddau'r BBGC yn seiliedig ar y Gyfradd Sicrwydd (y gyfradd safonol llai 20 bps), sef y gyfradd fu ar gael i'r rhan fwyaf o awdurdodau ers 1 Tachwedd 2012. Noder bod y gyfradd BBGC is ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) wedi cychwyn ar 15 Mehefin 2023 ar gyfer yr awdurdodau hynny sydd â CRT (cyfradd safonol llai 60 bps) ac mae disgwyl i'r gyfradd barhau tan ddiwedd Mawrth 2026 o leiaf. Gyda gobaith, bydd estyniad pellach i'r gyfradd ostyngol hon yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr.*

- *Mae rhagolygon enillion y farchnad ariannol yn seiliedig ar enillion cyfartalog y gall awdurdodau lleol eu disgwyl am gyfnod o rhwng 3 a 12 mis.*

Enillion giltiau a chyfraddau'r BBGC

Y duedd gyffredinol yn y tymor hwy yw y bydd enillion giltiau a chyfraddau'r BBGC yn gostwng yn ystod cyfnod ein rhagolygon, ond mae risg y gallai cyfraddau fod yn uwch na'r rhagolygon. Mae ein targedau ar gyfer cyfraddau benthyg yn cael eu gosod ***dwy flynedd ymlaen llaw*** *(gan ein bod yn disgwyl i gyfraddau ostwng) ac mae'r cyfraddau benthyca (sicrwydd) BBGC cyfredol wedi'u nodi isod:-*

Benthyciadau BBGC	Cyfraddau benthyca cyfredol ar 22.12.25 p.m. %	Y gyfradd fenthyca - targed presennol (diwedd Ch4 2027) %	Y gyfradd fenthyca - targed blaenorol (diwedd Ch4 2027) %
5 mlynedd	4.81	4.10	4.20
10 mlynedd	5.39	4.70	4.70
25 mlynedd	6.01	5.30	5.30
50 mlynedd	5.78	5.10	5.10

Cyngor ynghylch benthyca: *Mae ein rhagolwg tymor hir (dros 10 mlynedd) ar gyfer lefel niwtral y Gyfradd Banc yn parhau ar 3.5%. Gan fod holl gyfraddau sicrwydd y BBGC yn parhau i fod yn uwch na'r lefel hon, bydd angen adolygu strategaethau benthyca yn y cyd-destun hwnnw. Yn gyffredinol, gellir cael gwell gwerth am arian ar ben byrrach y gromlin (aeddfedrwydd BBGC <5 mlynedd / EIP BBGC <10 mlynedd) a dylid ystyried benthyciadau cyfnod sefydlog tymor byr rhwng Awdurdodau Lleol hefyd. Yn gyffredinol, bydd cyfraddau benthyca dros dro yn gostwng yn unol ag unrhyw doriad yn y Gyfradd Banc.*

Mae ein hawgrym o ***gyfraddau enillion cyllidebol ar gyfer buddsoddiadau*** *hyd at gyfnod o tua 3 mis ym mhob blwyddyn ariannol wedi'u nodi isod:-*

Enillion cyfartalog ym mhob blwyddyn	*Yn awr* *%*	*Yn flaenorol* *%*
2025/26 (gweddilliol)	*3.80*	*3.90*
2026/27	*3.40*	*3.60*
2027/28	*3.30*	*3.30*
2028/29	*3.30*	*3.50*
2029/30	*3.50*	*3.50*
Blynyddoedd 6-10	*3.50*	*3.50*
Blynyddoedd 10+	*3.50*	*3.50*

Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn yr economi a'r marchnadoedd wrth iddynt ymddangos. Fel arfer, rydym yn adolygu ein rhagolygon ar ôl i Fanc Lloegr gyhoeddi ei Adroddiad Polisi Ariannol bob chwarter, ond byddwn yn ystyried ein sefyllfa yn ôl y gofyn hefyd.

Mae ein rhagolygon llog ar gyfer y Gyfradd Banc mewn camau o 25 bps, tra bod rhagolygon BBGC yn cael eu talgrynnu i'r 10 bps agosaf ac maent yn rhagolygon canolog mewn bandiau o + / - 25 bps. Yn naturiol, rydym yn parhau i gadw llygaid ar ddigwyddiadau a byddwn yn diweddaru ein rhagolygon pan fydd hynny'n briodol.

ATODIAD 3

Dyddiadau Ad-dalu Benthyciadau BBGC ar 31 Rhagfyr 2025

Blwyddyn Ariannol	Aeddfedu	Cyfradd	Cyfanswm
2026/27	01/04/2026	3.67	527,601
	30/09/2026	8.63	853,800
Cyfanswm 2026/27			**1,381,401**
2027/28	01/04/2027	3.73	490,601
	19/08/2027	5.20	1,000,000
	30/09/2027	7.00	674,502
Cyfanswm 2027/28			**2,165,103**
2028/29	01/03/2029	9.50	13,920
	01/04/2028	3.80	262,440
Cyfanswm 2028/29			**276,360**
2029/30	01/04/2029	3.85	684,697
	01/09/2029	9.25	5,182
	06/06/2029	9.13	800
		9.25	4,087
		9.38	4,132
	06/12/2029	9.25	9,126
	09/05/2029	9.25	2,724
	30/09/2029	8.63	853,800
Cyfanswm 2029/30			**1,564,547**
2030/31	01/03/2031	9.25	6,295
	01/04/2030	3.91	450,706
	01/09/2030	9.25	4,382
		9.75	6,838
	06/12/2030	9.63	1,675
		9.75	6,222
	09/05/2030	9.38	6,755
	09/11/2030	9.75	3,799
Cyfanswm 2030/31			**486,672**
2031/32	01/04/2031	3.96	660,449
	30/09/2031	8.63	1,280,700
Cyfanswm 2031/32			**1,941,149**
2032/33	01/03/2033	9.88	1,074
	01/04/2032	4.01	314,886
	06/06/2032	9.25	22,319
	06/12/2032	9.50	28,420
Cyfanswm 2032/33			**366,700**
2033/34	01/04/2033	4.05	636,565
Cyfanswm 2033/34			**636,565**
2034/35	01/04/2034	4.09	623,834
Cyfanswm 2034/35			**623,834**
2035/36	01/04/2035	4.13	611,357
Cyfanswm 2035/36			**611,357**
2036/37	01/04/2036	4.16	599,130

Blwyddyn Ariannol	Aeddfedu	Cyfradd	Cyfanswm
Cyfanswm 2036/37			**599,130**
2037/38	01/04/2037	4.18	587,147
Cyfanswm 2037/38			**587,147**
2038/39	01/04/2038	4.20	225,467
Cyfanswm 2038/39			**225,467**
2039/40	15/04/2039	4.95	5,000,000
Cyfanswm 2039/40			**5,000,000**
2040/41	15/04/2040	4.95	3,500,000
Cyfanswm 2040/41			**3,500,000**
2042/43	01/04/2042	4.25	999,781
Cyfanswm 2042/43			**999,781**
2043/44	01/04/2043	4.25	1,020,120
Cyfanswm 2043/44			**1,020,120**
2044/45	01/04/2044	4.25	1,009,718
Cyfanswm 2044/45			**1,009,718**
2045/46	01/04/2045	4.25	11,464,215
Cyfanswm 2045/46			**11,464,215**
2050/51	16/01/2051	4.15	2,000,000
Cyfanswm 2050/51			**2,000,000**
2052/53	09/11/2052	4.55	6,138,400
	11/12/2052	4.25	6,000,000
	12/10/2052	4.55	4,300,000
	19/05/2052	4.05	5,000,000
	20/11/2052	4.20	6,800,000
Cyfanswm 2052/53			**28,238,400**
2054/55	06/05/2054	8.38	3,000,000
Cyfanswm 2054/55			**3,000,000**
2055/56	15/11/2055	8.00	1,500,000
	15/12/2055	7.88	2,000,000
Cyfanswm 2055/56			**3,500,000**
2056/57	10/10/2056	7.88	2,000,000
	15/04/2056	7.13	3,000,000
Cyfanswm 2056/57			**5,000,000**
2057/58	15/04/2057	6.88	3,000,000
		7.13	3,000,000
	15/10/2057	6.50	2,512,854
Cyfanswm 2057/58			**8,512,854**
2059/60	22/06/2059	4.25	1,763,308
Cyfanswm 2059/60			**1,763,308**
2064/65	25/03/2065	2.24	10,000,000
Cyfanswm 2064/65			**10,000,000**
2066/67	30/03/2067	2.20	6,200,000
Cyfanswm 2066/67			**6,200,000**
2068/69	16/01/2069	2.49	15,000,000
Cyfanswm 2068/69			**15,000,000**
Cyfanswm			**117,673,828**

Dyddiadau Ad-dalu Benthyciadau Salix

Blwyddyn Ariannol	Ad-daliadau Benthyciadau Salix £000
2026/27	658
2027/28	658
2028/29	658
2029/30	580
2030/31	568
2031/32	568
2032/33	347
Cyfanswm	**4,037**

Datganiad Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) 2026/27

Rhaid i'r Cyngor dalu elfen o wariant cyfalaf Cronfa'r Cyngor a'r CRT sydd wedi ei gyllido drwy fenthyca bob blwyddyn (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf - GCC) drwy dâl refeniw (y Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI)).

Yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru (LlC), rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DRI cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi "os cynigir amrywio telerau'r datganiad gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor bryd hynny". Rhoddir nifer o opsiynau i gynghorau, ar yr amod bod darpariaeth ddarbodus yn cael ei gwneud. Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Polisi DRI isod:-

O 1 Ebrill 2022, ar gyfer holl wariant cyfalaf Cronfa'r Cyngor a'r CRT sydd wedi ei gyllido drwy fenthyca â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth (GCC), codir DRI drwy ddefnyddio'r dull blwydd-dal oes ased ar sail y gyfradd llog a godir ar y Cyngor ar gyfartaledd ar ei holl fenthyciadau ar ddiwedd pob blwyddyn berthnasol.

Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir bob blwyddyn yn ddarostyngedig i dâl DRI tan y flwyddyn ariannol ganlynol, neu mewn rhai achosion, a gyda disgresiwn y Swyddog Adran 151, tan y flwyddyn wedi i'r ased ddod yn weithredoled lle bo'r costau'n gysylltiedig â'r ased yn £5m neu uwch.

Bydd amcangyfrif o oes yr ased yn cael ei benderfynu yn y flwyddyn y bydd y DRI yn dechrau ac ni fydd yn newid yn ystod oes yr ased. Y Swyddog Adran 151 fydd yn amcangyfrif oes yr ased, yn seiliedig ar gyngor a dderbynnir gan y swyddogion perthnasol, gan ystyried y gofynion statudol a chanllawiau LlC mewn perthynas â'r DRI ac oes asedau. Pan fo tir yn cael ei brynu, bydd oes yr ased yn seiliedig ar oes yr ased a roddir ar y tir, sef 50 mlynedd yn y rhan fwyaf o achosion, a hynny'n unol â hyd oes adeiladau fel asedau.

Oherwydd nad oes modd cysylltu rhai mathau o wariant cyfalaf a wneir gan y Cyngor ag ased unigol, bydd oes ased yn cael ei hasesu ar sail sydd yn adlewyrchu'n fwyaf rhesymol am ba hyd y rhagwelir y ceir budd o'r gwariant. Hefyd, pa fath bynnag o wariant ydyw, bydd yn cael ei grwpio gyda'i gilydd mewn dull sy'n adlewyrchu natur prif elfen y gwariant ac ni fydd ond yn cael ei rannu mewn achosion lle mae dwy neu ragor o brif elfennau ac iddynt oes economaidd ddefnyddiol sylweddol wahanol i'w gilydd.

Gordaliadau DRI – O dan y canllawiau DRI, gellir gwneud taliadau sy'n uwch na'r DRI statudol, sef darpariaeth refeniw gwirfoddol (DRG).

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wneud DRG ychwanegol i leihau dyled os ystyrir ei bod yn ddarbodus gwneud hynny ar gyfer Cronfa'r Cyngor a / neu'r CRT.

Gellir hawlio DRG yn ôl yn ddiweddarach os credir bod hynny'n angenrheidiol neu'n ddarbodus. Er mwyn gallu adennill y symiau hyn i'w defnyddio yn y gyllideb, mae'n rhaid i'r polisi hwn ddatgelu'r gordaliadau cronnus a wneir bob blwyddyn.

Mae'r gordaliadau DRG cronnus hyd yma yn £0.216m a £12.386m yn sgil gor-ddarparu ar gyfer DRI yn dilyn newid y polisi DRI yn 2018, llai £1.402m ar gyfer y tan-ddarpariaeth yn 2025/26.

Asedau ar Brydles i'r Awdurdod

O 1 Ebrill 2024, bydd y DRI a godir mewn perthynas ag asedau hawl i'w defnyddio ar brydles i'r Cyngor neu MCP (Menter Cyllid Preifat) yn gyfartal i brif elfen yr ad-daliad blynyddol.

Cyfarwyddyd Cyfalafu

Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r dull oes ased ar gyfer unrhyw wariant a gyfalafir o dan y Cyfarwyddyd Cyfalafu.

Benthyciadau i Drydydd Parti

Digwyddiad eithriadol o brin lle bydd y Cyngor ddarparu benthyciad i drydydd parti. Ar gyfer gwariant cyfalaf ar fenthyciadau i drydydd parti lle mae prifswm y benthyciad yn cael ei ad-dalu mewn rhandaliadau blynyddol. Defnyddir y derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o ad-dalu prifswm y benthyciad i leihau'r GCC yn lle DRI. Lle na wneir unrhyw ad-daliad o'r prifswm mewn blwyddyn benodol, codir DRI ar gyfradd yn unol ag oes yr asedau a gyllidir gan y benthyciad.

Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol

Mae 'Canllawiau ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol' Llywodraeth Cymru (y Canllawiau) (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2010) yn rhoi diffiniad o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol.

Mae paragraff 5.1 y Canllawiau yn dweud bod buddsoddiad yn un penodol os yw'n cwrdd â phob un o'r isod:-

(a) bod y buddsoddiad yn cael ei wneud mewn sterling ac mae unrhyw daliadau neu ad-daliadau mewn perthynas â'r buddsoddiad yn daladwy mewn sterling yn unig; a

(b) nid yw'r buddsoddiad yn un tymor hir (*); a

(c) nid yw gwneud y buddsoddiad yn cael ei ddiffinio'n wariant cyfalaf yn rhinwedd rheoliad 20(1)(d) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 [OS 3239 fel y'i diwygiwyd]; a

ch) gwneir y buddsoddiad gyda chorff neu mewn cynllun buddsoddi o ansawdd credyd uchel (**); neu gydag un o'r cyrff sector cyhoeddus canlynol:-

(i) Llywodraeth y Deyrnas Unedig;
(ii) awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr (fel y diffinnir yn Adran 23 o Ddeddf 2003) neu gorff tebyg yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon;
(iii) cyngor plwyf neu gymuned.

Mae'r Canllawiau hefyd yn dweud bod unrhyw fuddsoddiad nad yw'n cwrdd â'r diffiniad ym mharagraff 5.1 yn cael ei gyfrif fel buddsoddiad amhenodol.

Yn ystod 2025/26, nid yw'r Cyngor yn bwriadu buddsoddi mewn arian gwledydd tramor, na gyda chyrff ansawdd credyd isel, nac unrhyw fuddsoddiadau a ddiffinnir fel gwariant cyfalaf gan y ddeddfwriaeth (megis cyfranddaliadau mewn cwmnïau). Bydd buddsoddiadau amhenodol felly yn cael eu cyfyngu i (i) buddsoddiadau tymor hir; a (ii) adneuon gyda banciwr y Cyngor i ddibenion gwneud trafodion os yw'n methu a chwrdd â'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y credyd; yn yr achos hwn, caiff balansau eu cyfyngu i'r eithaf lle mae hynny'n bosib.

Mae'r tabl yn Atodiad 7 yn nodi'r meini prawf a'r cyfyngiadau buddsoddi ar gyfer y gwahanol gategorïau o fuddsoddiadau y bwriedir eu defnyddio yn ystod 2025/26 ac sydd, felly, yn sail ar gyfer y rhestr fenthyca a gymeradwyir.

Bydd raid i'r Cyngor Sir gymeradwyo ymlaen llaw unrhyw ddiwygiadau neu welliannau arfaethedig yn ystod y flwyddyn i gategorïau o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol a ddefnyddir ac / neu i'r meini prawf graddfeydd credyd / cyfyngiadau buddsoddi.

* Mae Adran 2.4 y Canllawiau'n diffinio buddsoddiad tymor hir fel "Unrhyw fuddsoddiad heblaw (a) un y mae disgwyl iddo gael ei ad[1]dalu cyn pen 12 mis i'r dyddiad y gwnaed y buddsoddiad neu (b) un y gallai'r awdurdod lleol fynnu ei fod yn cael ei ad-dalu o fewn y cyfnod hwnnw.''

** I ddibenion ansawdd credyd uchel dywed y Canllawiau "At ddibenion paragraff 5.1 (d), mae gweinidogion Cymru yn argymell y dylai'r Strategaeth ddiffinio ansawdd credyd uchel (a lle mae'r diffiniad hwn yn cyfeirio at statws credyd, mae paragraff 6.1 (***) yn berthnasol)."

*** Mae paragraff 6.1 y Canllawiau'n argymell "Dylai'r Strategaeth nodi dull yr awdurdod o asesu'r risg o golli buddsoddiadau, gan egluro'n benodol : (a) i ba raddau, os o gwbl, mae asesiad risg yn seiliedig ar statws credyd a gyhoeddwyd gan un neu fwy o asiantaethau statws credyd; (b) pan ddefnyddir statws credyd, pa mor aml y mae statws credyd yn cael ei fonitro a pha gamau sydd i'w cymryd pan fydd graddfeydd yn newid; a (c) pa ffynonellau gwybodaeth eraill ar risg credyd a ddefnyddir, yn ychwanegol at neu yn lle statws credyd."

Meini Prawf Gwrthbartïon - Buddsoddiadau

Categori	Graddfa Credyd Tymor Byr (Fitch)	Graddfa Credyd Tymor Byr (Moody's)	Graddfa Credyd Tymor Byr (Standard & Poor's)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Fitch)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Moody's)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Standard & Poor's)	Terfyn Arian	Terfyn Amser
Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (heb eu gwladoli neu wedi'u gwladoli'n rhannol)	**F1+**	**P-1**	**A-1+**	**AAA**	**AAA**	**AAA**	**£10m**	**5 mlynedd**
	F1+	**P-1**	**A-1+**	**AA**	**AA2**	**AA**	**£10m**	**3 blynedd**
	F1+	**P-1**	**A-1+**	**AA**	**AA3**	**AA**	**£10m**	**364 diwrnod**
	F1+	**P-1**	**A-1+**	**A**	**A2**	**A**	**£7.5m**	**6 mis**
Banciau'r DU sydd wedi eu Gwladoli / eu Gwladoli'n Rhannol	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**£10m**	**364 diwrnod**
Cyfrif busnes a rheolwr arian banc NatWest - pan gedwir symiau yn NatWest fel rhan o drefniadau bancio gweithredol. Bydd y symiau a'r terfynau dilynol yn berthnasol er mwyn sicrhau fod digon o arian ar gael i dalu biliau pan fyddant yn ddyledus.	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**£20m i £25m** **£15m i £20m** **£10m i £15m** **Hyd at £10m**	**5 diwrnod gwaith** **2 fis** **364 diwrnod** **Dim terfyn**
Llywodraeth Ganolog y DU (beth bynnag yw'r raddfa credyd)	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**Dim Uchaf-swm**	**Dim terfyn**
Awdurdodau Lleol y DU*	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**£10m**	**364 diwrnod**
Cronfeydd Marchnad Arian	**d/b**	**d/b**	**d/b**	**AAA**	**AAA**	**AAA**	**£5m**	**6 mis**

*****_fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003_

Nodiadau ac Eglurhad

(1) Terfyn Arian

(i) Mae'r terfynau arian yn berthnasol i'r gwrthbarti unigol ac i'r grŵp cyffredinol y mae'n perthyn iddo (e.e. ar gyfer y banciau o fewn Grŵp Bancio Lloyds plc (sef Bank of Scotland plc a Lloyds Bank plc), mae'r terfyn buddsoddi yn berthnasol i'r banciau hynny'n unigol a'r grŵp bancio yn ei gyfanrwydd);

(ii) Y terfyn arian cyffredinol ar gyfer adneuon dros 364 diwrnod yw £15m.

(2) Terfyn Amser

(i) I fyny at, a chan gynnwys, y cyfnod a nodwyd.

(3) Gwledydd Tramor

(i) Bydd buddsoddiadau mewn gwledydd tramor wedi eu cyfyngu i'r rheini a chanddynt raddfa credyd sofran AA- (Fitch) neu gyfatebol (o'r asiantaethau y cyfeiriwyd atynt yn adran 4.3 o'r strategaeth hon) (yn seiliedig ar yr enwadur lleiaf), a hyd at uchafswm o £10m fesul gwlad dramor.

(ii) Ni chaniateir buddsoddi mewn gwledydd nad yw'r raddfa sofran isaf yn AA- neu'n uwch. Ni fydd cyfyngiad gwlad yn berthnasol i fuddsoddiadau yn y DU, waeth beth fo'r raddfa credyd sofran.

(iii) Bydd is-gwmnïau o grwpiau banciau tramor fel arfer yn cael eu hasesu yn unol â mamwlad y rhiant-sefydliad. Fodd bynnag, bydd Santander UK plc (is-gwmni Banco Santander yn Sbaen) yn cael ei gyfrif fel banc yn y DU oherwydd ei fasnachfreintiau sylweddol yn y DU a natur hyd braich y berthynas rhwng y rhiant gwmni a'r is-gwmni.

(4) <u>Graddfa Credyd yn Gostwng</u>

Os bydd graddfa credyd yn gostwng ac yn golygu bod y gwrthbarti yn is na'r meini prawf y mae'n rhaid cwrdd â nhw ar gyfer buddsoddi, rhoddir y gorau i ddefnyddio'r gwrthbarti cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Os bydd y Swyddog Adran 151 yn dymuno parhau i fuddsoddi gyda'r gwrthbarti hwnnw, gofynnir am ganiatâd gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac un aelod arall o ddewis y Cadeirydd, a bydd raid i'r ddau ohonynt gymeradwyo. Adroddir ar hynny fel sy'n briodol cyn gynted ag y gellir.

Gwledydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer buddsoddi [gwybodaeth yn gywir ar 25 Tachwedd 2025]

Mae'r rhestr hon yn seiliedig ar y gwledydd hynny sydd â graddfa sofran o AA- neu uwch (rydym yn dangos y raddfa isaf gan Fitch, Moody's a S&P) a hefyd (ac eithrio - ar adeg ysgrifennu - ar gyfer Hong Kong a Lwcsembwrg) a chanddynt fanciau sy'n gweithredu mewn marchnadoedd sterling sydd â statws credyd gwyrdd neu uwch yng ngwasanaeth teilyngdod credyd MUFG Corporate Markets.

Yn seiliedig ar y raddfa isaf sydd ar gael

AAA

- Awstralia
- Denmarc
- Yr Almaen
- Yr Iseldiroedd
- Norwy
- Singapore
- Sweden
- Y Swistir

AA-

- **Y Deyrnas Unedig**

Cynllun dirprwyo ar gyfer materion Rheoli'r Trysorlys

(i) Y Cyngor Sir

- cymeradwyo'r gyllideb;
- cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys blynyddol, Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI), Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys blynyddol a newidiadau iddynt;
- cymeradwyo newidiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd gan y Cyngor;
- derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisïau, arferion a gweithgareddau rheoli'r trysorlys; a
- gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a / neu'r Pwyllgor Gwaith.

(ii) Y Pwyllgor Gwaith

- ystyried y gyllideb;
- cymeradwyo rhannu cyfrifoldebau;
- cymeradwyo dewis o ddarparwyr gwasanaeth allanol a chytuno ar delerau penodi;
- derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisïau, arferion a gweithgareddau rheoli'r trysorlys a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir fel sy'n briodol; a
- gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

(iii) Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Craffu ar faterion Rheoli'r Trysorlys, fel sy'n ofynnol o dan y Côd Ymarfer gan CIPFA ar Reoli'r Trysorlys a Pholisi Rheoli'r Trysorlys y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys:

  - craffu ar y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys flynyddol, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) Blynyddol, y Polisi Rheoli'r Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli'r Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
  - craffu ar y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys flynyddol, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) Blynyddol, y Polisi Rheoli'r Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli'r Trysorlys ac i'r cymalau a fabwysiadwyd a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
  - derbyn a chraffu ar unrhyw gynigion arall sy'n ymwneud â rheoli'r trysorlys ac sydd angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Sir; a
  - derbyn a chraffu ar yr adroddiad Rheoli'r Trysorlys canol blwyddyn a'r adroddiad Alldro Trysorlys, adroddiadau monitro ar bolisïau, arferion a gweithgareddau rheoli'r trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol.

Rôl Rheoli'r Trysorlys y Swyddog Adran 151

Mae rôl y Swyddog Adran 151 (y Swyddog Cyfrifol) yn cynnwys:-

- argymell cymalau, polisi / arferion rheoli'r trysorlys i'w cymeradwyo, gan eu hadolygu'n rheolaidd, a monitro cydymffurfiaeth;
- cyflwyno adroddiadau polisi rheoli'r trysorlys rheolaidd;
- cyflwyno cyllidebau ac amrywiadau i'r gyllideb;
- derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth rheoli;
- adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli'r trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd adnoddau a sgiliau rheoli'r trysorlys, a rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol o fewn y swyddogaeth rheoli'r trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd y gwaith archwilio mewnol, ac ymwneud ag archwilwyr allanol;
- argymell penodi darparwyr gwasanaeth allanol;

- mae cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu'r penderfyniadau trysorlys, yn cynnwys y penderfyniadau ar fenthyca, buddsoddi a chyllido, wedi eu dirprwyo i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiadau polisi'r Cyngor ac Arferion Rheoli'r Trysorlys (ARhT);
- paratoi strategaeth gyfalaf i gynnwys gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf, buddsoddiadau anariannol a rheoli'r trysorlys o fewn amserlen tymor hir;
- sicrhau bod y strategaeth gyfalaf yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn y tymor hir a'i bod yn darparu gwerth am arian;
- sicrhau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r holl fuddsoddiadau trysorlys ac anariannol a'u bod yn unol ag archwaeth risg yr Awdurdod;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod y pwerau cyfreithiol priodol i wario ar asedau anariannol a'u cyllido;
- sicrhau cymesuredd yr holl fuddsoddiadau fel nad yw'r Awdurdod yn buddsoddi ar lefel sy'n golygu bod yr Awdurdod yn agored i lefel ormodol o risg o gymharu â'i adnoddau ariannol;
- sicrhau bod proses lywodraethu ddigonol yn ei lle ar gyfer cymeradwyo, monitro a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddsoddiadau anariannol a rhwymedigaethau tymor hir;
- rhoi i Aelodau restr o'r holl fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys, gan gynnwys buddsoddiadau sylweddol mewn is-gwmnïau, mentrau ar y cyd, benthyciadau a gwarantau ariannol;
- sicrhau bod Aelodau'n cael gwybodaeth ddigonol a'u bod yn deall y risgiau y mae'r Awdurdod yn agored iddynt;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod yr arbenigedd digonol, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i wneud yr uchod;
- creu Arferion Rheoli'r Trysorlys (ARhT) sy'n delio'n benodol â'r modd y bydd buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trin a'u rheoli, gan gynnwys yr isod:-
    - Rheoli risg (ARhT1 a'r atodlenni), gan gynnwys meini prawf buddsoddi a rheoli risg ar gyfer unrhyw bortffolios buddsoddi sylweddol nad ydynt yn ymwneud â'r trysorlys;
    - Mesur a rheoli perfformiad (ARhT2 a'r atodlenni), gan gynnwys methodoleg a meini prawf ar gyfer asesu perfformiad a llwyddiant buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys;
    - Gwneud penderfyniadau, llywodraethu a threfniadaeth (ARhT5 a'r atodlenni), gan gynnwys datganiad ar ofynion llywodraethu ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys; a threfniadau i sicrhau diwydrwydd dyladwy er mwyn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau;
    - Gwybodaeth reoli ac adrodd (ARhT6 a'r atodlenni), gan gynnwys ble a pha mor aml y cynhyrchir adroddiadau monitro;
    - Hyfforddiant a chymwysterau (ARhT10 a'r atodlenni), gan gynnwys y modd y bydd gwybodaeth a sgiliau perthnasol mewn perthynas â buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trefnu.

DANGOSYDDION DARBODUS AR GYFER 2026/27 - 2030/31

	Fforddiadwyedd - Yn seiliedig ar y Senario Uchelgeisiol	2025/26 Amcangyfrif	2026/27 Amcangyfrif	2027/28 Amcangyfrif	2028/29 Amcangyfrif	2029/30 Amcangyfrif	2030/31 Amcangyfrif
	Cronfa'r Cyngor	1.52%	3.17%	3.25%	3.37%	3.56%	3.86%
	Cyfrif Refeniw Tai (yn cynnwys y setliad)	12.61%	9.88%	14.17%	17.68%	19.70%	21.28%
	Cyfanswm	2.70%	3.86%	4.41%	4.96%	5.37%	5.87%
Ymddwyn yn Ddarbodus							
3	**Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)**						
	Ydy dyled allanol gros yn llai na'r GCC am y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw GCC ychwanegol am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol?	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Gwariant Cyfalaf - yn seiliedig ar y Senario Uchelgeisiol							
4,5	**Amcangyfrif o wariant cyfalaf [neu wariant gwirioneddol]**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
	Cronfa'r Cyngor	35,268	27,341	18,551	52,216	55,302	41,631
	Cyfrif Refeniw Tai	22,056	45,950	35,819	27,569	26,893	23,294
	Cyfanswm	**57,324**	**73,291**	**54,370**	**79,785**	**82,195**	**64,925**
6,7	**Amcangyfrif o'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf [neu'r Gofyniad Gwirioneddol]**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
	Cronfa'r Cyngor	119,486	125,567	130,114	134,741	142,620	155,016
	Cyfrif Refeniw Tai	36,895	35,744	52,784	72,145	82,313	93,340
	Cyfanswm	**156,381**	**161,311**	**182,898**	**206,886**	**224,934**	**248,356**
8	**Terfyn Awdurdodedig**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
	Benthyca Cyffredinol	141,710	144,235	167,173	192,070	214,268	240,019
	Rhwymedigaethau tymor hir eraill	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000
	Cyfanswm	**146,710**	**149,235**	**172,173**	**197,070**	**219,268**	**245,019**
9	**Terfyn Gweithredol**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
	Benthyca Cyffredinol	131,710	134,235	157,173	182,070	204,268	230,019
	Rhwymedigaethau tymor hir eraill	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000
	Cyfanswm	**136,710**	**139,235**	**162,173**	**187,070**	**209,268**	**235,019**

		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
10	**Dyled Allanol Gwirioneddol**	**131,710**	**124,235**	**147,173**	**172,119**	**194,367**	**220,168**
Rheoli'r Trysorlys		**2025/26 Amcangyfrif**	**2026/27 Amcangyfrif**	**2027/28 Amcangyfrif**	**2028/29 Amcangyfrif**	**2029/30 Amcangyfrif**	**2030/31 Amcangyfrif**
11	**Y terfyn ar gyfer cyfanswm y prifsymiau a fuddsoddir am gyfnodau o fwy na 364 diwrnod**	15,000	15,000	15,000	15,000	15,000	15,000
12	**Y terfynau uchaf ar gyfer strwythur aeddfedrwydd benthyciadau ar gyfraddau sefydlog**						
	o dan 12 mis	<20%					
	12 mis ac o fewn 24 mis	<20%					
	24 mis ac o fewn 5 mlynedd	<20%					
	5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	<30%					
	10 mlynedd a mwy	Dim terfyn uchaf					

Gwybodaeth am Ddangosyddion Darbodus a Rheoli'r Trysorlys

DANGOSYDDION DARBODUS

A) Fforddiadwyedd

1 a 2 Cymhareb costau cyllido yn erbyn y ffrwd refeniw net

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad o ran cost cyfalaf (costau benthyca a chostau rhwymedigaethau tymor hir eraill net o'r incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

Mae'r amcangyfrifon ynghylch costau cyllido yn cynnwys ymrwymiadau cyfredol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

B) Ymddwyn yn Ddarbodus

3 Dyled Gros a'r GCC

Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled gros, heblaw yn y tymor byr, yn mynd yn uwch na'r GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon am unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2025/26 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Mae hyn yn rhoi peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca cynnar cyfyngedig ar gyfer blynyddoedd i ddod, ond yn sicrhau na fyddir yn benthyca at ddibenion refeniw.

C) Gwariant Cyfalaf

Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yw'r gyrwyr allweddol o ran gweithgareddau rheoli'r trysorlys. Adlewyrchir allbwn y cynlluniau gwariant cyfalaf yn y dangosyddion darbodus, sydd wedi'u dylunio i gynorthwyo Aelodau i gael trosolwg o'r sefyllfa gyfalaf a chadarnhau cynlluniau gwariant cyfalaf.

Mae'n darparu crynodeb o wariant cyfalaf y Cyngor. Mae'n adlewyrchu materion y cytunwyd arnynt eisoes a chynlluniau arfaethedig ar gyfer cyfnodau ariannol yn y dyfodol, fel y cânt eu nodi yn y Senario Uchelgeisiol o'r Strategaeth Cyfalaf.

Bydd lefel cyllido gwariant o'r fath yn dylanwadu ar y newid yn y dangosydd ar gyfer Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor.

4 a 5 Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf

Dyma'r rhagolwg o'r Gwariant Cyfalaf rhwng 2026/27 a 2030/31, ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2026/27 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

6 a 7 Angen y Cyngor i fenthyca (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)

Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol gweddilliol nad ydyw hyd yma wedi cael ei dalu amdano o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca yw'r GCC. Bydd unrhyw wariant cyfalaf nad ydyw wedi talu amdano ar unwaith o ffynhonnell refeniw neu gyfalaf, yn cynyddu lefel y GCC.

Nid yw'r GCC yn cynyddu i lefel amhenodol, oherwydd mae'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn gyffredinol, yn gostwng yr angen benthyca yn unol ag oes pob ased ac, felly, mae'n dâl ar y defnydd economaidd o asedau cyfalaf wrth iddynt gael eu defnyddio.

Mae'r GCC yn cynnwys unrhyw ymrwymiadau tymor hir eraill (e.e. cynlluniau PFI, prydlesau ariannol). Er bod y rhain yn cynyddu'r GCC ac, felly, yn cynyddu angen y Cyngor i fenthyca, mae'r mathau hyn o gynlluniau'n cynnwys cyfleuster benthyca ac felly, nid oes raid i'r Cyngor fenthyca ar wahân ar gyfer y cynlluniau hyn. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor unrhyw arian mewn cynlluniau o'r fath yn y GCC.

CH) Dyledion Allanol

8. **Y terfyn a awdurdodir ar gyfer dyledion allanol.** Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn rheoli'r uchafswm benthyca. Gwaherddir dyledion allanol y tu hwnt i'r terfyn hwn ac mae angen i'r Cyngor llawn osod neu ddiwygio'r terfyn. Mae'n adlewyrchu'r lefel o ddyled allanol y gellid, er nad yw hynny'n ddymunol, ei fforddio yn y tymor byr ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r terfyn statudol y penderfynir arno o dan Adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai'r cyfan o gynlluniau'r holl gynghorau, neu gynlluniau cyngor penodol, er nad ydyw hyd yma wedi defnyddio'r pŵer hwnnw.

   Dywed y Swyddog Adran 151 bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd darbodus hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n rhagweld anawsterau yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth yr ymrwymiadau cyfredol, y cynlluniau presennol a'r cynigion sydd yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

9. **Y terfyn gweithredol.** Terfyn yw hwn na fyddir fel arfer yn disgwyl i ddyled allanol fynd yn uwch nag o. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n ffigwr tebyg i'r GCC, ond gall fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r ddyled wirioneddol a'r gallu i gyllido tan-fenthyca trwy ddefnyddio adnoddau arian parod eraill.

10. **Gwir ddyledion allanol.** Mae'n rhaid i'r Cyngor ddatgelu'r balans cau ar gyfer gwir fenthyca gros mewn perthynas â'r cyfnod ariannol sydd newydd ddod i ben, ynghyd â lefel ymrwymiadau tymor hir eraill ac, felly, gwir lefel dyledion allanol yn eu crynswth ar ddyddiad y Fantolen.

DANGOSYDDION TRYSORLYS

11. **Terfynau ar gyfer Buddsoddiadau Rheoli'r Trysorlys Tymor Hir.** Mae'r Dangosydd hwn yn ceisio cynorthwyo rheoli risg hylifedd. Dylid gosod y terfynau gyda golwg ar anghenion hylifedd y Cyngor a hefyd lleihau'r angen posib i orfod gadael y buddsoddiad yn gynnar er mwyn adennill cyllid. Mae'r dangosydd yn ymwneud â buddsoddiadau'r Cyngor i ddibenion rheoli'r trysorlys yn unig.

12. **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor osod terfynau gros ar aeddfedrwydd ar gyfer y cyfnodau a ddangosir ac mae'n ymwneud â benthyciadau ar gyfraddau sefydlog a chyfraddau sy'n amrywio. Y rheswm yw ceisio rheoli'r posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu symiau mawr sydd angen eu hailgyllido.

Rhestr Termau

GWARIANT CYFALAF
Gwariant ar brynu ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased presennol nad yw'n gyfredol, yn hytrach na dim ond cynnal gwerth yr ased. Mae enghreifftiau'n cynnwys: adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, gwaith adnewyddu sylweddol ar gartref gofal.

CYLLIDO CYFALAF
Cyllid sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf, gan gynnwys benthyca, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf y mae modd eu defnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn refeniw a chronfeydd wrth gefn clustnodedig.

GOFYNIAD CYLLIDO CYFALAF (GCC)
Y cyfanswm gwariant cyfalaf hanesyddol sydd heb ei dalu'n barod naill ai o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n adlewyrchiad o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca.

RHAGLEN GYFALAF
Y cynlluniau cyfalaf y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gweithredu dros gyfnod penodol o amser.

DERBYNIADAU CYFALAF
Derbyniadau cyfalaf yw'r elw o waredu tir neu asedau eraill nad ydynt yn asedau cyfredol. Gellir defnyddio cyfran o'r derbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir gan y Llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

CIPFA
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

CYFRIF REFENIW TAI (CRT)
Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor yw'r CRT ac mae'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â darpariaeth tai'r Cyngor.

LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR
Defnyddir y dull cyfradd llog gwirioneddol i fesur beth yw gwerth ased ariannol neu rwymedigaeth a fesurir yn ôl y gost llai amorteiddiad cronedig, ac i neilltuo incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd llog wirioneddol yw honno sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau yr amcangyfrifir y'u derbynnir yn y dyfodol dros oes ddisgwyliedig yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo yn y lle cyntaf. Mae'r gyfradd llog wirioneddol yn cael ei haddasu yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor. Yn achos asedau a rhwymedigaethau ariannol sy'n cael eu cario yn ôl y gost, gan fod y llog gwirioneddol yr un faint â'r llog cario, mae'r gwerth cario'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronnus.

DARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI)
Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

DYLED NET
Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

BWRDD BENTHYCIADAU GWAITH CYHOEDDUS (BBGC)
Cyfarwyddwr Swyddogaeth, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyfreithwyr	Codir TAW ychwanegol yn gyson â'r ymholiad mae'n ymwneud â hi		£217.33	£0.00	£217.33
Pob staff arall sy'n ennill ffi			£130.81	£0.00	£130.81
SYLWER - bydd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth neu Reolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, yn ôl ei ddoethineb, y pŵer i hepgor y ffi mewn rhai achosion o galedi ariannol profedig.					

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	**PWYLLGOR GWAITH**
DYDDIAD:	**24 CHWEFROR 2026**
PWNC:	**CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2026/27**
DEILYDD PORTFFOLIO:	**CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER**
PENNAETH GWASANAETH:	**MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**
AWDUR YR ADRODDIAD: FFÔN: E-BOST:	**MARC JONES** 01248 752601 rmjfi@ynysmon.llyw.cymru
AELODAU LLEOL:	**Amherthnasol**

A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

1. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2026/27

1.1 Pwrpas

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar nifer o faterion allweddol mewn perthynas â chyllideb 2026/27. Yn dilyn hynny, gellir cyflwyno'r argymhellion terfynol i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2026. Dyma'r materion y mae angen cytuno arnynt:-

- Cyllideb Refeniw'r Cyngor a'r Dreth Gyngor sy'n deillio o hynny ar gyfer 2026/27;
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a ddiweddarwyd;
- Defnyddio unrhyw gyllid unwaith ac am byth i gefnogi'r gyllideb.

1.2 Crynodeb

Dengys y papur hwn gynigion manwl y gyllideb refeniw ar gyfer 2026/27 y mae angen eu hystyried a chytuno'n derfynol arnynt, a'r effaith ddilynol ar gyllideb refeniw Cyngor Sir Ynys Môn. Materion i'r Cyngor gytuno arnynt yw'r rhain, a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion terfynol yn eu cylch i'r Cyngor.

Mae'r papur hefyd yn diweddaru'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac mae'n gosod cyd-destun ar gyfer gwaith ar gyllidebau'r Cyngor mewn blynyddoedd i ddod. Serch hynny, dylid nodi y caiff adroddiad pellach ar Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn, ac efallai y bydd gwybodaeth ychwanegol am yr economi a'r setliad arfaethedig i lywodraeth leol yn y dyfodol yn fwy eglur bryd hynny.

2. ARGYMHELLION AR GYFER CYLLIDEB REFENIW 2026/27 A'R DRETH GYNGOR

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith :-

- Argymell bod y Cyngor llawn yn derbyn y gyllideb refeniw ddrafft arfaethedig, a chynnydd o 5.1% yn y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D, gan olygu fod y gost yn 2026/27 yn £1,792.98, gan nodi y cyflwynir cynnig ffurfiol, fydd yn cynnwys praeseptau Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Tref / Cymuned, i'r Cyngor ar 5 Mawrth 2026;
- Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor gadw o leiaf £10.4m o falansau cyffredinol;
- Nodi sylwadau'r Swyddog Adran 151 ynglŷn â chadernid yr amcangyfrifon, fel y nodir yn Adran 5 o Atodiad 1;
- Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor;
- Cytuno y gellir defnyddio cyllid o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol i gwrdd ag unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau seiliedig ar alw yn ystod y flwyddyn ariannol;

- Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb wrth gefn gyffredinol yn cael ei hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn;
- Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 yr hawl i ryddhau cyllid o hyd at £50k o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni ddylid caniatáu unrhyw eitem gwerth dros £50k oni bai bod y Pwyllgor Gwaith wedi rhoi ei ganiatâd ymlaen llaw;
- Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi a thai gwag yn aros ar 100%.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriwyd nifer o opsiynau yn dilyn cyhoeddi'r gyllideb arfaethedig cychwynnol. Mae'r gyllideb arfaethedig derfynol yn ystyried y setliad terfynol i lywodraeth leol, safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori a barn y Pwyllgor Sgriwtini.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gyllideb arfaethedig derfynol cyn i'r Cyngor ei ystyried.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi. Bydd y Cyngor llawn yn penderfynu'n derfynol ar y gyllideb refeniw ar gyfer 2026/27 yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2026.

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol

DD – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?	Wrth lunio'r gyllideb arfaethedig, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol a'r amcanion a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol.
2	A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Mae manylion unrhyw gynigion i wneud arbedion yn cael eu nodi yn yr adroddiad.
3	A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy.	Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda chynghorau eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i bwyso ar Lywodraeth Cymru am y setliad ariannol gorau posibl.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Cynhaliwyd trafodaethau ar y gyllideb arfaethedig yn y fforymau a ganlyn hefyd:- Fforwm Cyllid Ysgolion; Fforwm Pobl Hŷn; Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Bydd unrhyw gynigion a gynhwysir yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2026/27 yn ystyried yr effaith ar unrhyw grwpiau a warchodir.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Bydd y gyllideb yn golygu bod trethdalwyr Ynys Môn yn talu mwy o Dreth Gyngor. Mae'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gymwys am gymorth trwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) a dylai hynny olygu na fydd unrhyw effaith ariannol ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, neu bydd yr effaith ariannol yn fychan iawn.

7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Ni nodwyd unrhyw effaith.
E -	**Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?**	**Beth oedd eu sylwadau?**
1	**Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol)	Mae'r Prif Weithredwr a'r TA wedi bod yn rhan o'r broses gosod y gyllideb o'r cychwyn cyntaf, ac maent yn cytuno â'r adroddiad ac yn cefnogi'r gyllideb arfaethedig derfynol.
2	**Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol)	Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	**Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA ac, yn sgil hynny, mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried.
4	**Adnoddau Dynol (AD)**	-
5	**Eiddo**	-
6	**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**	-
7	**Sgriwtini**	Cafodd y gyllideb arfaethedig derfynol ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod 18 Chwefror 2026. Cyflwynir adroddiad llafar ar ganlyniadau'r cyfarfod hwn i'r Pwyllgor Gwaith.
8	**Aelodau Lleol**	Mae cyllideb y Cyngor yn berthnasol i bob Aelod ac ymgynghorwyd â nhw trwy gydol y broses gosod y gyllideb.
9	**Unrhyw gyrff allanol / eraill**	Gweler Adran 2 yn yr adroddiad.

F - Atodiadau

- Atodiad 1 – Adroddiad manwl ar y Gyllideb Arfaethedig
- Atodiad 2 – Crynodeb o'r Gyllideb Refeniw Arfaethedig 2026/27 fesul Gwasanaeth

FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

- Cyllideb Arfaethedig Cychwynnol 2026/27 – Pwyllgor Gwaith – 27 Ionawr 2026
- Cyllideb Arfaethedig Cychwynnol 2026/27 – Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 21 Ionawr 2026
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2026/27 – 2028/29 – Pwyllgor Gwaith – 23 Medi 2025

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gyllideb refeniw arfaethedig 2026/27. Mae'n un o gyfres o adroddiadau sy'n cyflwyno darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac mae'n sicrhau fod cyllid y Cyngor yn cael ei ddyrannu i gwrdd â'i flaenoriaethau. Mae'r adroddiadau eraill yn y gyfres yn ymwneud â Rhaglen Gyfalaf y Cyngor a'r Strategaeth Gyfalaf, Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor a Ffioedd a Thaliadau.

1.2. Mae'r gyllideb refeniw a'r angen parhaus i ganfod arbedion refeniw yn cael eu llywio gan y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC), a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2024, a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:-

Tabl 1
Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2026/27 - 2028/29

	2026/27 £'m	2027/28 £'m	2028/29 £'m
Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen	195.443	208.076	205.961
Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant	12.634	5.138	4.263
Arbedion a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol	0.000	(7.253)	(1.295)
Cyllideb Ddisymyd Ddiwygiedig	**208.076**	**205.961**	**208.929**
Cyllid Allanol Cyfun (CAC)(gan dybio cynnydd o 3.7% yn 2026/27 a 0.6% yn 2027/28 a 2028/29)	(140.867)	(141.712)	(142.576)
Y Dreth Gyngor (gan dybio cynnydd o 5% yn 2026/27 a 2027/28 a 3% yn 2028/29)	(59.956)	(62.954)	(64.843)
Cyfanswm Cyllid	**(200.823)**	**(204.666)**	**(207.419)**
Gofynion Cyllido Ychwanegol / Arbedion sydd angen eu gwneud	**7.253**	**1.295**	**1.510**
Prif Ragdybiaethau			
Dyfarniadau Cyflog - Staff nad ydynt yn Athrawon	3.6%	2.0%	2.0%
Dyfarniadau Cyflog - Athrawon (o fis Medi 2026)	4.8%	2.5%	2.0%
Chwyddiant Cyffredinol	3.6%	2.0%	2.0%

1.3. Roedd y ffigyrau a nodwyd yn y CATC yn seiliedig ar ragdybiaethau a gwybodaeth oedd ar gael pan luniwyd y CATC. Yn hytrach na darparu asesiad manwl gywir o'r gofyn cyllidebol, pwrpas y CATC yw darparu asesiad lefel uchel o'r bwlch posib yn y gyllideb.

1.4. Cwblhawyd nifer o elfennau ar ôl cyhoeddi'r CATC ac mae hynny wedi caniatáu mwy o sicrwydd wrth gyfrifo'r gyllideb ddisymyd. Nid yw chwyddiant yn cael gymaint o effaith gan ei fod wedi gostwng, ac mae'n haws amcangyfrif lefel chwyddiant ar gyfer y flwyddyn i ddod.

1.5. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) ei setliad dros dro ym mis Tachwedd 2025, a derbyniodd Ynys Môn gynnydd o 2.3% yn y CAC (ar ôl caniatáu am grantiau a drosglwyddwyd i mewn i'r setliad). Ychwanegwyd swm pellach o £112.8m at y cyllid ar gyfer llywodraeth leol ym mis Rhagfyr 2025, ac roedd cynnydd o 4.16% yn y CAC wedi'i addasu ar gyfer Ynys Môn. Mae hyn yn uwch na'r amcangyfrif oedd wedi'i gynnwys yn y CATC.

1.6. Er hynny, er gwaetha'r newidiadau hyn a'r ffaith fod y bwlch cyllido'n is na'r rhagolwg yn y CATC, mae'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn heriol yn 2026/27 a'r ddwy flynedd ddilynol, ac mae disgwyl i gostau gynyddu oherwydd chwyddiant a chynnydd yn y galw, ond mae'n annhebygol iawn y bydd y cyllid gan LlC yn ddigon i gwrdd â chynnydd yn yr holl gostau.

2.1. **Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG GYCHWYNNOL**Yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2026, trafododd y Pwyllgor Gwaith ei gyllideb arfaethedig gwreiddiol a'r setliad terfynol a gyhoeddwyd gan LIC ar 20 Ionawr 2026.

2.2. Roedd y setliad terfynol yn uwch na'r rhagolygon yn y CATC, gyda'r Cyngor yn derbyn £144.584m, sef cynnydd o £8.698m (6.40%) mewn termau ariannol. Er hynny, ar ôl caniatáu ar gyfer grantiau sy'n trosglwyddo i'r setliad ac effaith newid yn sylfaen Dreth y Cyngor, y cynnydd wedi'i addasu oedd £5.777m (4.16%).

2.3. Argymhellodd y Pwyllgor Gwaith gyllideb o £207.029m ar gyfer 2026/27 ac, ar sail CAC Allanol Cyfun terfynol o £144.584m, byddai angen cynnydd o 5.1% yn y Dreth Gyngor, yn ogystal â defnyddio £1.685m o falansau cyffredinol y Cyngor, i gydbwyso'r gyllideb.

2.4. Wrth osod y gyllideb arfaethedig, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod bod angen gwarchod gwasanaethau rheng flaen a chynyddu cyllidebau er mwyn darparu ar gyfer cynnydd yn y galw am wasanaethau Oedolion a Phlant, yn ogystal â sicrhau fod ysgolion yn derbyn y cyllid sydd ei angen arnynt i gwrdd â chynnydd mewn costau oherwydd chwyddiant. Roedd y cynnig hefyd yn buddsoddi £1.226m mewn gwasanaethau llai sy'n profi anawsterau wrth gynnal y gofynion statudol, yn ogystal â mynd i'r afael ag unrhyw risgiau i'r Cyngor sy'n dod i'r amlwg.

2.5. Er nad yw'r Asesiad Gwario Safonol (AGS) wedi'i fwriadu fel mesur o lefel ddisgwyliedig cyllideb refeniw net y Cyngor, mae'n rhoi rhyw syniad p'un a yw lefel cyllideb y Cyngor yn rhesymol i'r Cyngor. Mae'r AGS ar gyfer 2026/27 yn £201.479m ac mae'r gyllideb arfaethedig, felly, yn 102.8% o'r AGS, sef yr un lefel â chyllideb 2025/26.

3.1. **PWYLLGOR SGRIWTINI**Oherwydd yr oedi cyn derbyn y setliad dros dro a'r setliad terfynol, bu'n rhaid cwtogi amserlen y gyllideb ar gyfer 2026/27 er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu gosod y Dreth Gyngor o fewn yr amserlen a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1992 (Adran 30(6)). Bu i'r Panel Sgriwtini Cyllid hefyd archwilio cynigion buddsoddi gwasanaethau yn fanwl yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr 2026, a chyflwynwyd sylwadau'r Panel i gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 21 Ionawr 2026. Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynodd y Pwyllgor gefnogi cyllideb arfaethedig cychwynnol y Pwyllgor Gwaith.

3.2. Yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror 2026, bu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y gyllideb arfaethedig terfynol ymhellach, a chyflwynir adroddiad llafar ar drafodaethau'r Pwyllgor i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith.

Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG TERFYNOL

4.1. Nid oes unrhyw faterion wedi dod i'r amlwg ers cyhoeddi'r gyllideb arfaethedig cychwynnol sy'n golygu bod rhaid addasu'r gyllideb wariant net, ac mae cyfanswm yn parhau i fod yn £207.029m.

4.2. Roedd y setliad terfynol yn cynnwys swm cychwynnol o £5,962 yn uwch na lefel y setliad dros dro, yn ogystal â'r cyllid ychwanegol. Gan mai swm bychan yn unig yw hwn, mae'r un swm wedi'i ychwanegu at y gyllideb wrth gefn gyffredinol er mwyn sicrhau fod y gyllideb yn parhau i gydbwyso.

4.3. Bydd arian wrth gefn sylweddol yn cael ei ddefnyddio i gydbwyso cyllideb 2026/27, ac mae cyfanswm o £12.35m wedi cael ei ddefnyddio i gydbwyso'r gyllideb yn ystod y 3 blynedd ariannol diwethaf. Yn seiliedig ar y rhagolygon presennol, efallai y bydd yn bosib defnyddio arian wrth gefn eto yn 2027/28 i gyfrannu at y cyllid cyffredinol. Dim ond gohirio'r angen i ostwng cyllideb refeniw net y Cyngor mae defnyddio arian wrth gefn yn ei wneud, ac nid yw defnyddio arian wrth gefn yn ateb parhaol i'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

5.1. **CADERNID YR AMCANGYFRIFON**O dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid amcangyfrifon y gyllideb a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn ariannol arfaethedig.

5.2. Mae amcangyfrifon yn y gyllideb yn seiliedig ar ragdybiaethau ynglŷn â gwariant ac incwm yn y dyfodol ac mae'r rhagdybiaethau'n cynnwys elfen o risg. Gellir lliniaru effaith y risg hwn drwy lunio cynlluniau a chyllidebau wrth gefn a chreu cronfeydd wrth gefn ariannol.

5.3. Nid yw cadernid yr amcangyfrifon yn y gyllideb yn cyfeirio'n unig at p'un a ydynt wedi cael eu cyfrifo'n gywir. Mewn gwirionedd, mae nifer o gyllidebau yn seiliedig ar amcangyfrifon neu ragolygon, ac efallai bod elfen o risg ynghylch a fydd cynlluniau'n cael eu cyflawni neu

dargedau'n cael eu cyrraedd. Mae gwahanol risgiau allai effeithio ar y gyllideb yn cael eu hystyried yn eu tro isod:-

- **Risg Chwyddiant Tâl** – Mae risg chwyddiant yn isel pan fydd lefelau chwyddiant yn isel a'r newid cyffredinol yn y raddfa chwyddiant yn fychan, a dyna fu'r achos ers nifer o flynyddoedd. Nid oes cynnig tâl wedi cael ei wneud ar gyfer staff NJC ar gyfer 2026/27, ac nid yw LIC wedi dweud eto beth fydd y dyfarniad cyflog ar gyfer Athrawon o Fedi 2026, felly, mae cryn ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chwyddiant tâl a, chan fod y bil cyflogau yn fwy na £100m, gallai camgymeriad o 1% yn y rhagdybiaeth ar gyfer chwyddiant tâl arwain at ddiffyg o £1m yn 2026/27. Mae'r risg yn cael ei liniaru gan fod y Cyngor yn dal cronfa wrth gefn glustnodedig i gyllido unrhyw bwysau oherwydd chwyddiant. Byddai'r arian yn cael ei ryddhau i gyllido unrhyw anghenion ychwanegol yn y gyllideb gyflogau, a byddai'r gyllideb hirdymor yn cael ei chywiro yn 2027/28.
- **Risg Chwyddiant Prisiau –** Mae'r mesur chwyddiant cyffredinol (y Mynegai Prisiau Defnyddwyr - MPD) wedi gostwng yn ôl i lefelau mwy arferol o thua 3%, ac mae disgwyl iddo ostwng yn ystod 2026, i gyfradd targed Banc Lloegr, sef 2%. Er hynny, gallai perfformiad yr economi yn ystod y misoedd nesaf effeithio ar y rhagolygon p'un a welir cynnydd pellach mewn trethi neu dorri gwariant cyhoeddus, a ph'un a fydd prisiau ynni byd-eang yn codi. Gallai'r rhagolygon fod Banc Lloegr am dorri'r gyfradd sylfaenol hefyd arwain at gynnydd mewn chwyddiant.

  Mae'r MPD yn fesur cyffredinol o chwyddiant, a gallai meysydd gwariant penodol brofi chwyddiant uwch neu is na'r MPD. Beth bynnag fydd yn digwydd i chwyddiant, nid oes disgwyl iddo godi'n sylweddol, a ni ddylai amrywio mwy nag 1% o gymharu â'r ffigwr a ddefnyddiwyd wrth lunio'r gyllideb. Oherwydd hyn, dim ond bychan fydd yr effaith ariannol yn 2026/27 a gellir ei gyllido o Gronfa Wrth Gefn Chwyddiant y Cyngor.
- **Risg Cyfraddau Llog** – Mae cyfraddau llog yn effeithio ar gyllideb refeniw un flwyddyn unigol yn sgil y llog a enillir – h.y. mae cynnydd yn y gyfradd log yn fuddiol. Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yr Awdurdod yn nodi bod rhaid buddsoddi ar sail diogelwch a hylifedd y buddsoddiad yn y lle cyntaf, ac nid yw enillion ar fuddsoddiadau'n gymaint o flaenoriaeth. Nid yw'r gyllideb, felly, yn ddibynnol ar enillion uchel ar fuddsoddiadau. Mae cyfraddau llog wedi aros yn uchel, ac mae'r Cyngor wedi derbyn enillion o dros 4% ar fuddsoddiadau. Wrth osod y gyllideb, mae amcangyfrif o'r llog y mae'r Cyngor yn ei dderbyn wedi'i gynnwys yn y gyllideb, ond mae risg na fydd y gyllideb yn cael ei gwireddu os yw cyfraddau llog yn dechrau gostwng yn gyflym, neu os yw'r cyllid sydd ar gael i'w fuddsoddi yn is na'r disgwyl. Mae'r mwyafrif o'r llog sy'n cael ei dalu gan y Cyngor yn gysylltiedig â benthyciadau cyfradd sefydlog ac ni fyddant yn newid os bydd cyfraddau llog yn codi. Ystyrir, felly, bod y risg cyfraddau llog yn isel ac, fel yn y gorffennol, mae hwn yn risg sy'n digolledu am risg chwyddiant, oherwydd os yw un yn cynyddu, mae'r llall yn debygol o gynyddu hefyd.

- **Risg Grantiau –** Dyma risgiau sy'n gysylltiedig â nifer fawr o grantiau penodol a ddyfernir gan LIC, neu gyrff eraill, sy'n darparu dros £30m o gyllid ychwanegol. Mae'r setliad terfynol yn dangos cynnydd o 2%, mewn termau cyffredinol, yn y cyllid grant ar gyfer Cymru gyfan, ond gallai grantiau unigol weld cynnydd mwy neu lai na'r ffigwr hwn. Nid yw lefel penodol y cyllid ar gyfer Ynys Môn yn eglur eto ar gyfer yr holl grantiau. Er mai'r ymateb cyntaf yw dweud bod rhaid i'r gwariant cysylltiedig ddod i ben hefyd pan fydd grant yn dod i ben, mae risg na fydd hyn bob amser yn bosib. Efallai na fydd hyn

yn bosib pan fydd telerau contractau'n golygu na ellir torri gwariant mor gyflym â'r incwm, neu gallai olygu talu costau diswyddo nad ydynt yn cael eu cyllido. Efallai na fydd yn bosib os yw'r Cyngor yn penderfynu bod rhaid parhau â'r gwariant gan fod y gweithgaredd a gyllidir o bwys mawr er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn meddu ar y wybodaeth orau ar gyfer bob grant, ond ni ellir diystyru'n llwyr newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn.

- **Risgiau Incwm –** Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 3% mewn ffioedd, ac mae nifer o wasanaethau wedi rhagdybio cynnydd o hyd at 3%. Mae rhai cyllidebau wedi cael eu hail-ddatgan hefyd er mwyn adlewyrchu lefelau casglu incwm hanesyddol. Os yw elastigedd y galw am Wasanaethau'r Cyngor yn golygu bod y galw'n gostwng, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gallai hynny olygu bod cyllidebau net yn gorwario. Gallai'r argyfwng costau byw gael effaith ar yr incwm a gynhyrchir gan wasanaethau megis hamdden, meysydd parcio, cynllunio a rheoliadau adeiladu, oherwydd gallai defnyddwyr ddewis gwario llai ar y gwasanaethau hyn nad ydynt yn hanfodol. Bydd angen monitro'r cyllidebau net yn ofalus ac, os bydd rhaid, cwtogi gwariant i gyd-fynd â'r gostyngiad mewn incwm.
- **Risg yn gysylltiedig â'r Galw –** Gall nifer o wasanaethau weld newid yn y galw am eu gwasanaethau. Gellir rhagdybio rhai a'u cynnwys wrth osod y gyllideb, e.e. newid mewn niferoedd disgyblion. Mae eraill yn anoddach eu darogan, a gall cynnydd bychan mewn niferoedd gael effaith sylweddol ar gostau. Mae cyllideb 2026/27 yn seiliedig ar y galw presennol am wasanaethau ym maes gofal cymdeithasol, anghenion dysgu ychwanegol ac atal digartrefedd, er bod risg y gallai'r galw barhau i gynyddu yn 2026/27 a'i fod yn uwch na'r ddarpariaeth yn y gyllideb. Byddai hyn yn golygu fod y gwasanaethau hynny sy'n cael eu heffeithio yn gorwario, a byddai'n rhaid cyllido'r gorwariant o arian wrth gefn a balansau cyffredinol y Cyngor.
- **Risg Optimistiaeth –** Yn y gorffennol, mae'n debyg na'r risg mwyaf o dan yr amgylchiadau presennol yw bod yr Awdurdod, Aelodau a Swyddogion yn rhy optimistaidd ynglŷn â'r arbedion a wneir, neu na fydd y galw am wasanaethau, a gofal cymdeithasol yn benodol, yn cynyddu'n sylweddol. Mae'r gyllideb ar gyfer 2026/27 yn cynnwys dros £0.9m o addasiadau er mwyn adlewyrchu patrymau gwariant neu incwm hanesyddol. Mae risg na fydd y newidiadau sy'n cael eu gwneud yn cael eu hadlewyrchu yn yr incwm a gwariant gwirioneddol yn 2026/27 ond, unwaith eto, mae'r risg yn isel a byddai'n cael ei gyllido o'r balansau cyffredinol pe byddai'r risg yn cael ei wireddu.
- **Y risg o fod yn rhy ofalus –** Mae'r risg hwn yn cyferbynnu â'r risg optimistiaeth: y perygl ein bod yn rhy ofalus wrth lunio ein cyllidebau a'u bod felly'n uwch na'r gofyn, a byddai hynny'n arwain at osod Dreth Gyngor sy'n uwch na'r gofyn, rhywbeth y mae Aelodau'n awyddus ei osgoi. Mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon â'r broses gosod cyllideb a bod y gyllideb a osodwyd yn asesiad teg o'r adnoddau sydd eu hangen ar bob gwasanaeth, ar sail y ffactorau perthnasol sy'n bodoli ar hyn o bryd.
- **Premiwm y Dreth Gyngor –** Pan osodir sylfaen y dreth, cydnabyddir y gall nifer y tai gwag ac ail gartrefi newid yn ystod y flwyddyn ac, o ganlyniad, dim ond 80% o'r eiddo cymwys sy'n cael eu cynnwys yn sylfaen y dreth. Mae hyn yn gwarchod cyllideb y Cyngor petai'r niferoedd yn gostwng yn sylweddol. Er hynny, dylid nodi bod nifer y tai gwag a ddefnyddiwyd i gyfrifo sylfaen y dreth wedi codi o 544 eiddo ym mis Hydref 2024 i 568 eiddo ym mis Hydref 2025. Roedd nifer yr ail gartrefi wedi codi o 2,443 eiddo i 2,616 eiddo yn ystod yr un cyfnod.

Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar nifer yr ail gartrefi, ac mae'r niferoedd wedi cynyddu yn ystod 2025 wrth i'r Swyddfa Brisio drosglwyddo eiddo hunanarlwyo o'r gofrestr Trethi Annomestig yn ôl i'r gofrestr Dreth Gyngor, a hynny oherwydd nad yw'r eiddo wedi cael ei osod am ddigon o nosweithiau i gwrdd â gofynion y trothwy uwch. Mae risg sylweddol y gallai eiddo ddychwelyd i'r gofrestr Trethi Annomestig yn 2026/27 wrth i berchnogion gyflwyno apeliadau llwyddiannus yn erbyn y penderfyniad gwreiddiol, neu eu bod bellach yn gosod yr eiddo am y nifer penodedig o nosweithiau. Er mwyn

lliniaru'r risg, mae £900k yn cael ei gadw mewn cronfa wrth gefn glustnodedig er mwyn cyllido costau unrhyw ad-daliadau ac fel mesur lliniaru os bydd yr incwm yn gostwng yn 2026/27.

Dyluniwyd y premiwm i annog perchnogion ail gartrefi i werthu neu osod eu heiddo, ond gallai hefyd annog mwy o berchnogion i beidio â thalu neu osgoi talu trwy drosglwyddo i drethi busnes neu ddefnyddio dulliau eraill i osgoi talu. Er mwyn lliniaru'r risg, cyflogir staff ychwanegol i adnabod achosion o osgoi talu trethi ac, yn sgil hynny, sicrhau fod llai o bremiwm yn cael ei golli. Gan fod y Pwyllgor Gwaith wedi ymrwymo i ddefnyddio'r cyfan o'r premiwm ychwanegol i fynd i'r afael â phroblemau a achosir gan niferoedd uchel o ail gartrefi ar Ynys Môn, byddai unrhyw ostyngiad sylweddol yn yr incwm yn arwain at gwtogi'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y cynlluniau hyn yn y dyfodol.

Incwm y Dreth Gyngor – Mae incwm y Dreth Gyngor yn seiliedig ar gyfrifiad sail y dreth ym mis Tachwedd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae sail y dreth yn newid yn gyson yn ystod y flwyddyn, wrth i eiddo newydd gael eu hychwanegu ac wrth ganiatáu eithriadau a disgowntiau person sengl. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng y swm gwirioneddol a gesglir a'r gyllideb.

Gallai'r argyfwng costau byw effeithio ar raddfa gasglu'r Cyngor hefyd, wrth i fwy o deuluoedd wynebu problemau ariannol oherwydd bod prisiau'n codi. Gallai'r cynnydd arfaethedig yn lefel y Dreth Gyngor hefyd effeithio ar y cyfraddau casglu. Gallai hyn arwain at golled ariannol yn 2026/27, neu yn y dyfodol, pan fydd rhaid, yn y pendraw, ddileu dyledion nad oes modd eu casglu.

5.4. Ar ôl ystyried yr holl risgiau a nodir uchod, a'r camau lliniaru, barn y Swyddog Adran 151 yw bod y cyllidebau'n gadarn a chyraeddadwy, ac mae lefel iach balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig presennol y Cyngor yn ddigonol i liniaru'r risgiau a nodwyd.

6. CRONFEYDD CYFFREDINOL A PHENODOL

6.1. Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o ragdybiaethau ynglŷn â lefelau incwm a gwariant tebygol yn ystod y blynyddoedd nesaf. Yn ddieithriad, felly, mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o risgiau ariannol. Cyfeirir atynt ym mharagraff 5, uchod.

6.2. Mae'n rhaid i'r Swyddog Adran 151 adolygu unrhyw gyllidebau neu gronfeydd wrth gefn yn eu cyfanrwydd, ar y cyd â'r gyllideb sylfaenol a'r risgiau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried y tymor canol, lle bo angen, ac ystyried datblygiadau allweddol a allai gael effaith ar yr angen a'r defnydd a wneir o adnoddau unwaith ac am byth.

6.3. Mae'r agwedd mewn perthynas â rheoli risgiau cyllidebol a diogelu iechyd ariannol y Cyngor yn gadarn ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd angen diogelu cyllid unwaith ac am byth yn ddigonol er mwyn cyllido newidiadau strategol / trawsnewidiol yn y dyfodol, yn hytrach na chyllido gorwariant sylweddol ar y gyllideb sylfaenol.

6.4. Ystyriwyd yr angen i gadw'r gostyngiad uniongyrchol mewn gwariant, a'r effaith yn sgil hynny ar wasanaethau, cyn ised â phosib. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn y tymor canol a'r tymor hir, a dylid gwneud arbedion yn raddol ac mewn ffordd strwythuredig yn y blynyddoedd nesaf. Mae rhywfaint o risg bob amser hefyd y ceir gwariant neu orwariant annisgwyl, oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllidebau gwasanaeth, ac mae'n rhaid i'r cronfeydd wrth gefn hefyd fod yn ddigon i ymdopi â'r pwysau hwn.

6.5. Ar 1 Ebrill 2025, roedd gan y Cyngor £15.71m yn ei gronfeydd wrth gefn cyffredinol (ar ôl caniatáu am y £2.46m a ddefnyddiwyd i gydbwyso cyllideb 2025/26), ac mae hyn yn cyfateb i 8.0% o gyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2025/26, neu 9.1% o beidio â chynnwys cyllideb datganoledig i ysgolion. Ni wnaed unrhyw ddyraniadau o'r gronfa wrth gefn gyffredinol yn ystod y flwyddyn a rhagwelir tanwariant o £3.23m yn y gyllideb ar gyfer 2025/26. Mae'r amcangyfrif o'r balans diwygiedig felly yn £18.94m, neu 9.7% o gyllideb refeniw net 2025/26.

6.6. Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2025/26, roedd gan ysgolion falansau gwerth £5.07m, ond rhagwelir iddynt ostwng i £2.82m erbyn diwedd 2025/26. Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r rhan fwyaf o'u balansau i gyllido cyllideb 2026/27.

6.7. Mater i'r Cyngor ei benderfynu yw lefel y balansau cyffredinol, yn seiliedig ar argymhelliad Swyddog Adran 151 y Cyngor, ond, fel rheol gyffredinol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel dderbyniol. Mae barn yn amrywio ynglŷn â p'un a ddylai'r gyllideb refeniw net eithrio'r gyllideb datganoledig ysgolion, gan fod ysgolion yn dal eu balansau eu hunain i gwrdd â chostau annisgwyl. Ar sail y sefyllfa ariannol bresennol, mae cryn hyder y bydd lefel y balansau cyffredinol yn fwy na 5% o'r gyllideb refeniw net ar ddechrau blwyddyn ariannol 2026/27.

6.8. Ar ôl ystyried lefel balansau cyffredinol y Cyngor, balansau ysgolion, cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyllidebau wrth gefn, mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i wrthsefyll unrhyw anawsterau a all godi yn ystod 2026/27 os na fydd digon o gyllid yn y gyllideb refeniw arfaethedig i gwrdd â chostau gwirioneddol y Cyngor yn 2026/27.

7. Y DRETH GYNGOR

7.1. Yn 2025/26, roedd y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D yn £1,705.95, ac yn yr 16eg safle o blith yr 22 Awdurdod yng Nghymru. Mae'n is na chyfartaledd Cymru, sef £1,784. Yr hyn sy'n bwysicach i Ynys Môn yw'r gymhariaeth â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Dangosir hyn yn Nhabl 2, isod:-

Tabl 2
Cymhariaeth o Daliadau Dreth Gyngor ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru

Awdurdod	Tâl Band D 2025/26 £	Swm Uwch na / o Dan Ynys Môn £	Canran Uwch na / o Dan Ynys Môn %
Ynys Môn	1,705		
Gwynedd	1,907	202	11.86%
Conwy	1,888	183	10.73%
Sir Ddinbych	1,780	74	4.37%
Sir y Fflint	1,816	110	6.46%
Wrecsam	1,746	41	2.40%

7.2. Y gyllideb Dreth Gyngor ar gyfer 2026/27 (cyn cynyddu'r Dreth Gyngor ond ar ôl addasu ar gyfer y newid yn Sylfaen y Dreth Gyngor a'r premiwm) yw £57.81m. Felly, mae pob 1% o gynnydd yn cynhyrchu £578k ychwanegol (ond bydd rhaid tynnu'r cynnydd fyddai ei angen yn y gyllideb ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor).

7.3. Ar ôl ystyried cyfanswm y setliad terfynol, sef £144.584m, y gofyn cyllidebol diwygiedig o £207.029m (gweler Atodiad 2) a defnyddio £1.685m o arian wrth gefn, byddai angen £60.760m o gyllid Dreth Gyngor. I gyllido'r gofyn cyllidebol diwygiedig, byddai angen cynnydd o 5.1% yn y Dreth Gyngor, gan olygu fod y tâl ar gyfer eiddo Band D yn codi i £1,792.98, sef cynnydd o £87.03, neu £1.67 yr wythnos.

8. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

8.1. Wrth ddarparu ei wasanaethau, mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i asesu effaith penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau gwarchodedig, a rhoi sylw dyledus i ganlyniad asesiadau o'r fath.

8.2. Ni fydd y gyllideb arfaethedig yn cael effaith ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig a nodir yn y Rheoliadau ac, o ganlyniad, ni ystyrir bod angen unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

9. DIWEDDARU'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

9.1. Fel y nodwyd ym mharagraff 1, uchod, mae'r sefyllfa cyllido a chostau staffio wedi newid yn sylweddol ers i'r Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) ym mis Medi 2025.

9.2. Y prif faes sy'n creu ansicrwydd o ran y CATC yn y dyfodol yw chwyddiant a'i effaith ar ddyfarniadau cyflog yn y dyfodol, ac mae'r argyfwng costau byw a'i effaith ar y galw am wasanaethau'r Cyngor yn ffactor sylweddol hefyd.

9.3. Mae'r CATC a ddiweddarwyd ar gyfer 2027/28 a 2028/29 i'w weld yn Nhabl 3 isod:-

Tabl 3
Crynodeb o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2027/28 a 2028/29

	2027/28 £'m	**2028/29 £'m**
Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen	207.029	212.141
Pwysau ar y gyllideb a chwyddiant	5.112	4.242
Arbedion a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol	0.000	(2.892)
Cyllideb Ddisymyd Ddiwygiedig	**212.141**	**213.491**
Cyllid Allanol Cyfun (CAC) (gan dybio cynnydd o 0.6% yn 2027/28 a 2028/29)	(145.451)	(146,324)
Y Dreth Gyngor (gan dybio cynnydd o 5% yn 2027/28 a 3% yn 2028/29)	(63.798)	(65.712)
Cyfanswm Cyllid	**(209.249)**	**(212.036)**
Gofynion Cyllido / Arbedion Ychwanegol	**2.892**	**1.455**
Prif Ragdybiaethau		
Dyfarniadau Cyflog - Staff nad ydynt yn Athrawon	2.0%	2.0%
Dyfarniadau Cyflog - Athrawon	2.5%	2.0%
Chwyddiant Cyffredinol	2.0%	2.0%

Mae amcangyfrif y CATC uchod yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau a gallant newid wrth i ni symud tuag at 2027/28, ond mae'r cynllun yn dangos y bydd angen torri gwariant y gyllideb refeniw net yn sylweddol yn 2027/28, a bydd angen cynnydd uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor hefyd. Gellir gwrthbwyso hyn yn rhannol eto trwy ddefnyddio mwy o arian wrth gefn ond, unwaith eto, nid yw hyn ond yn gohirio'r angen i dorri'r gyllideb tan 2027/28.

9.4. Mae sefyllfa cyllid cyfalaf hefyd yn cael effaith ar y gyllideb refeniw yn y dyfodol, gan nad yw lefel bresennol y cyllid yn ddigon i gynnal adeiladau a ffyrdd y Cyngor i'r safon bresennol, yn ogystal â buddsoddi mewn cerbydau a chaledwedd TG newydd. Bydd y diffyg cyllid cyfalaf yma yn golygu bod costau trwsio a chynnal a chadw holl asedau'r Cyngor yn cynyddu wrth i'w hoes ddefnyddiol gael ei ymestyn. Bydd rhaid ystyried buddsoddi a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau y gellir cynnal gwasanaethau, yn ogystal â lleihau'r costau ychwanegol y bydd rhaid i'r gyllideb refeniw eu hysgwyddo yn y dyfodol.

9.5. Gallai'r sefyllfa wella yn 2027/28 a 2028/29, gan fod disgwyl i chwyddiant ostwng a chyrraedd targed Banc Lloegr, sef 2%, gan lacio'r pwysau ar gostau. Rhagwelir hefyd y bydd twf economaidd yn gwella, a gallai olygu fod y cyllid gan LIC yn cynyddu. Fodd

bynnag, gallai llywodraeth wahanol fod mewn grym yn dilyn etholiadau'r Senedd, ac efallai na roddir yr un flaenoriaeth i lywodraeth leol.

9.6. Y ffactor anhysbys fydd y galw am ofal cymdeithasol a gwasanaethau digartrefedd, a gallant roi pwysau sylweddol ar gyllidebau os bydd y galw yn y meysydd hyn yn cynyddu. Bydd unrhyw gynnydd sylweddol yn y galw'n effeithio ar y rhagolygon a ddangosir yn Nhabl 3.

9.7. Cynllun dangosol yn unig sydd i'w weld yn Nhabl 3, ac mae'n seiliedig ar y rhagdybiaeth fod y gyllideb refeniw net ar gyfer 2026/27 yn cael ei chynyddu yn unol â chwyddiant. Fodd bynnag, nodir y gallai'r Pwyllgor Gwaith ddewis gosod cyllideb refeniw net is, ynghyd â chynnydd is yn y Dreth Gyngor. Cyflwynir CATC wedi'i ddiweddaru i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2026.

10. CASGLIADAU

10.1. Mae'n bwysig bod y gyllideb a osodir yn gyraeddadwy a'i bod yn adlewyrchu'r galwadau a wynebir gan wasanaethau ar hyn o bryd, er y nodir y byddai'r argyfwng costau byw, os yw'n parhau, yn cael effaith sylweddol ar gyllideb y Cyngor. Nid yw'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn unigryw i Fôn, mae'r 22 gyngor arall yng Nghymru'n wynebu'r un sefyllfa hefyd, yn ogystal â mwyafrif helaeth o gynghorau yn Lloegr.

10.2. Mae'r setliad i lywodraeth leol yn uwch na'r rhagolygon gwreiddiol ond, er hynny, nid yw'r cynnydd yn y setliad yn ddigon i gwrdd â chynnydd mewn costau sy'n deillio o ddyfarniadau cyflog, chwyddiant a mwy o alw am wasanaethau. Yn ôl y disgwyl, yr unig ddewis sydd gan y Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys, wrth gynnal gwasanaethau a darparu ar gyfer cynnydd yn y galw, yw torri'r gyllideb, ynghyd â chynyddu'r Dreth Gyngor a defnydd rheoledig o arian wrth gefn.

10.3. Mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn parhau i fod yn gymharol gryf ac mae tanwariant yn cael ei ragweld yn 2025/26. Bydd hyn yn golygu fod y balansau cyffredinol yn parhau i fod yn iach ac yn uwch na'r isafswm a argymhellir, sef 5% o wariant net. Mae defnyddio arian wrth gefn i gydbwyso cyllideb 2026/27 yn strategaeth cymharol ddiogel, ond nid yw'n strategaeth y gellir ei defnyddio yn y tymor hir. Mae'n bosib y gellir defnyddio arian wrth gefn eto i gydbwyso'r gyllideb yn 2027/28, ond bydd angen asesu hyn ymhellach yn ystod 2026, cyn gosod cyllideb 2027/28.

10.4. Gallai'r sefyllfa wella yn 2027/28, ond byddai'n rhaid i'r economi dyfu, fyddai wedyn yn cynyddu derbyniadau treth, a byddai angen i gyfraddau llog ostwng a chwyddiant fod yn isel. Byddai hynny'n sicrhau fod y cyllid sy'n cael ei ddarparu gan y llywodraeth o leiaf yn cynyddu ar yr un raddfa â chynnydd mewn costau. Y galw am wasanaethau yw'r elfen bwysig arall ac, os yw'r galw'n dechrau codi eto, bydd yn rhoi pwysau unwaith eto ar gyllidebau, gan olygu bod rhaid torri gwasanaethau neu fod y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn uwch na chwyddiant.

10.5. Felly, ym marn broffesiynol y Swyddog Adran 151, mae'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2026/27 yn cyflawni'r amcanion canlynol:-

- Sicrhau bod adnoddau ariannol digonol yn cael eu neilltuo i bob gwasanaeth er mwyn cwrdd â'r pwysau presennol ar y gyllideb a diwallu'r galw am y swyddogaethau statudol y mae'n rhaid i'r gwasanaethau eu darparu.
- Defnyddio cyfuniad o dorri'r gyllideb, defnyddio arian wrth gefn a chynyddu'r Dreth Gyngor i osod cyllideb gytbwys.
- Gosod lefel Dreth Gyngor sy'n cymharu ag asesiad Llywodraeth Cymru o lefel Dreth Gyngor Ynys Môn, ac sy'n cyd-fynd â'r Dreth Gyngor a osodwyd gan awdurdodau eraill yng Nghymru sy'n debyg o ran maint a'r math o awdurdod.

ARGYMHELLION

11.1. Argymell bod y Cyngor llawn yn derbyn y gyllideb refeniw ddrafft arfaethedig a'i fod yn cynyddu'r Dreth Gyngor ar eiddo Band D gan 5.1%, gan olygu fod y gost ar gyfer 2026/27 yn £1,792.98.

Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG DERFYNOL 2026/27 FESUL GWASANAETH

	Cyllideb Arfaethedig Derfynol 2026/27 £'m
Addysg a Diwylliant	73.378
Gwasanaethau Oedolion	45.377
Gwasanaethau Plant	18.606
Gwasanaethau Tai	2.098
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	21.419
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	6.172
Trawsnewid Corfforaethol	8.822
Adnoddau	4.248
Busnes y Cyngor	2.380
Rheolaeth Gorfforaethol	0.878
Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth	**183.378**
Costau Corfforaethol a Democrataidd	3.487
Ailgodi tâl ar y CRT	(0.865)
Cefnogaeth ar gyfer Cynlluniau Cymorth Lleol i Brynu Tai	1.050
Ardollau	5.450
Cyllido Cyfalaf	5.396
Budd-daliadau a Roddir	0.110
Rhyddhad Trethi Dewisol	0.108
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	7.716
Cyfanswm Cyllidebau a Ddyrannwyd	**205.830**
Cyllidebau wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill	1.199
Cyfanswm Cyllideb 2026/27	**207.029**
Cyllidir Gan	
Grant Cynnal Refeniw	120.504
Trethi Annomestig	24.081
Y Dreth Gyngor (yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor)	60.759
Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor	1.685
Cyfanswm Cyllid	**207.029**

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	**PWYLLGOR GWAITH**
Dyddiad:	**24 CHWEFROR 2026**
Pwnc:	**CYLLIDEB GYFALAF 2026/27**
Deilydd Portffolio:	**CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER**
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	**MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	**MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** 01248 762601 rmjfi@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	**Amherthnasol**

A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb gyfalaf ar gyfer 2026/27, a bydd yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2026.

ARGYMHELLION

Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer 2026/27 i'r Cyngor llawn:-

	Cyf	£'000
Cynlluniau 2025/26 a Ddygwyd Ymlaen – Cronfa Gyffredinol	Para 4.1	8,394
Adnewyddu Asedau / Prynu Asedau Newydd	Para 4.2 a 4.3	6,937
Isadeiledd Gwastraff	Para 6.1	3,806
Pier a Phontynau Porthaethwy	Para 6.2	225
Adnewyddu Canolfan Hamdden Plas Arthur	Para 6.3	1,650
Balchder Bro	Para 6.4	1,500
Cyfrif Refeniw Tai	Para 7	31,572
Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2026/27		**54,084**
Cyllidir Gan:		
Grant Cyfalaf Cyffredinol		2,761
Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol		5,047
Cymunedau Dysgu – Benthyca Digefnogaeth		0
Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf		271
Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig		3,452
Grantiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru		10,044
Benthyca Digefnogaeth - Cronfa Gyffredinol		937
Gwarged Cyfrif Refeniw'r CRT		5,418
Grantiau Allanol y CRT		17,291
Benthyca Digefnogaeth y CRT		8,863
Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2026/27		**54,084**

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?		
Bydd nifer o gynlluniau ychwanegol yn cael eu hystyried yn y rhaglen gyfalaf, a'r prif ystyriaethau o ran cyllido fydd fforddiadwyedd a manteisio i'r eithaf ar gyllid grant allanol.		
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Mae cynnig y gyllideb gyfalaf yn fater a neilltuwyd i'r Pwyllgor Gwaith.		
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydi		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Amherthnasol		
DD – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?	Mae'r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid er mwyn cynnal asedau'r Cyngor, ac mae'n ffurfio rhan o'r strategaeth i wireddu'r amcanion a nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.
2	A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Bydd parhau i gynnal a chadw asedau'r Cyngor yn atal costau uwch yn y dyfodol
3	A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy	Mae prosiectau cyfalaf yn gysylltiedig â'r rhaglen Cymunedau Dysgu a'r CRT yn cyd-fynd â blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Fel rhan o'r broses ymgynghori ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor 2023 – 2028, gofynnwyd nifer o gwestiynau i ddinasyddion yn ymwneud â gwariant cyfalaf a'u blaenoriaethau.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Mae'r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid er mwyn cynnal asedau'r Cyngor, ac mae'n ffurfio rhan o'r strategaeth i wireddu'r amcanion a nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl.
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl.
E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		**Beth oedd eu sylwadau?**
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad ac mae'r sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Awdur yr adroddiad.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor yn aelod o'r TA.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Dim effaith uniongyrchol ar AD.

5	Eiddo	Lluniwyd y rhaglen gyfalaf mewn trafodaeth â'r Prif Swyddog Eiddo ac Asedau a'r Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Mae sylwadau'r Pennaeth TGCh wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad.
7	Sgriwtini	I'w gadarnhau
8	Aelodau Lleol	Mae'r cynigion yn berthnasol i'r holl Aelodau.
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Amherthnasol

F - Atodiadau:

Atodiad 1 – Adroddiad ar Gyllideb Gyfalaf 2026/27
Atodiad 2 – Cyllideb Gyfalaf Arfaethedig Derfynol 2026/27

FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

Adroddiad ar y Strategaeth Gyfalaf 2026 - 2031 - Pwyllgor Gwaith, 27 Ionawr 2026
Cyllideb Gyfalaf 2025/26 – Cyngor llawn 6 Mawrth 2025
Adroddiadau Monitro Cyfalaf Chwarterol 2025/26 – Pwyllgor Gwaith - 23 Medi 2025, 25 Tachwedd 2025, 24 Chwefror 2026

ATODIAD 1

1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2026/27, sydd wedi'i chynnwys isod, yn ystyried yr egwyddorion yn y Strategaeth Gyfalaf 2025 – 2030 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2025. Diweddarwyd y Strategaeth Gyfalaf i adlewyrchu'r gyllideb gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2026/27, ond nid yw egwyddorion y strategaeth wedi newid.

2. EGWYDDORION Y STRATEGAETH GYFALAF

2.1. Mae'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2025/26 wedi cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn, a chafodd ei diweddaru ar gyfer y cyfnod 2026/31 i adlewyrchu'r lefelau cyllido newydd, unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau'r Cyngor ac unrhyw newidiadau a nodwyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2026/27, fydd yn cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2026.

2.2. Mae'r Strategaeth Gyfalaf gyfredol yn nodi'r egwyddorion canlynol ar gyfer y Cyngor wrth lunio ei raglen gyfalaf:-

- Bob blwyddyn, bydd y cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu er mwyn sicrhau buddsoddiad mewn asedau presennol i'w diogelu ar gyfer y dyfodol.
- Bydd y Cyngor yn defnyddio cyllid cyfalaf allanol pryd bynnag y bo'n bosibl a fforddiadwy.
- Bydd cyllid cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer asedau sydd eu hangen ar y Cyngor i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.
- Mae'r Cyngor yn dal i fod wedi ymrwymo i'r Rhaglen Cymunedau Dysgu, a bydd yn parhau i ddefnyddio cyllid allanol Cymunedau Dysgu yn llawn.

2.3. Mae'r strategaeth yn cynnwys ychydig mwy o wybodaeth ynghylch sut y byddai'r egwyddorion hyn yn cael eu cyflawni, ac mae'n cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol:-

- Mae'r rhaglen Cymunedau Dysgu yn cael ei hystyried ar wahân i weddill y rhaglen gyfalaf gyffredinol.
- Mae prynu asedau newydd i gymryd lle asedau presennol ac asedau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes yn fuddiol o ran lleihau costau refeniw, a bydd y rhaglen gyfalaf yn dyrannu cyllid er mwyn prynu neu wella offer TG presennol, cerbydau ac adeiladu'r Cyngor.
- Mae'n ofyniad statudol i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl, a bydd y rhaglen gyfalaf yn dyrannu cyllid yn flynyddol er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.
- Bydd swm yn cael ei ddyrannu'n flynyddol er mwyn cyllido gwaith gwella ffyrdd. Bydd y swm yn ddibynnol ar y swm sydd ei angen i gyflawni isafswm gwerth unrhyw gontract, y lefel o gyllid allanol a mewnol sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod.
- Bydd prosiectau sydd angen cyllid cyfatebol yn cael eu hasesu fesul achos, a bydd unrhyw benderfyniad i ddyrannu cyllid yn seiliedig ar sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refeniw parhaus a'r gymhareb rhwng cyllid y Cyngor a chyllid allanol.
- Ni fydd y Cyngor yn ymgymryd â phrosiectau sy'n cael eu cyllido gan fenthyca digefnogaeth oni bai bod y gostyngiad mewn costau refeniw, neu'r incwm ychwanegol a gynhyrchir, yn ddigon i dalu am unrhyw gostau cyllido cyfalaf ychwanegol.

2.4. Mae'r Strategaeth Gyfalaf hefyd yn egluro sut y dylid asesu unrhyw fid newydd, fel a ganlyn:-

- I ba raddau mae'r prosiect yn cyfrannu at flaenoriaethau Cynllun y Cyngor;
- A yw'r prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol;
- A fydd y prosiect yn creu arbedion refeniw;
- A fydd y prosiect yn helpu i liniaru risg corfforaethol.

3. CYLLIDO RHAGLEN GYFALAF 2026/27

3.1. Dangosir y cyllid sydd ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2026/27 yn Nhabl 1, isod. Dylid nodi fod y ffigyrau ar gyfer y Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca â Chefnogaeth yn seiliedig ar ffigyrau'r setliad terfynol ar gyfer Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd ar 20 Ionawr 2026.

Tabl 1
Rhagolwg o'r Cyllid Cyfalaf ar gael ar gyfer 2026/27

Ffynonellau Cyllido	**£'000**	**£'000**
Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gyffredinol		
Cynlluniau / Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2025/26	7,457	
Grant Cyfalaf Cyffredinol 2025/26 ni ddefnyddiwyd	426	
Grant Cyfalaf Cyffredinol 2026/27	2,761	
Benthyca â Chefnogaeth	3,668	
Grantiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (gwarantedig)	5,306	
Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	48	
Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig	1,909	
Cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Gyffredinol (Cronfa'r Cyngor)		**21,575**
Cyfrif Refeniw Tai (CRT)		
CRT - Gwarged yn ystod y flwyddyn	5,418	
Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru a grantiau allanol eraill	17,291	
Cyllid ar gyfer y CRT		**22,709**
Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2026/27		**44,284**

3.2. Mae'r Cyllid Cyfalaf Cyffredinol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer 2026/27 £155k (3.15%) yn uwch na'r dyraniad ar gyfer 2025/26. Er bod y cynnydd yn cael ei groesawu, nid yw'n gwneud yn iawn am y gostyngiad yng ngwerth gwirioneddol y cyllid oherwydd effaith chwyddiant.

Er bod gan y Cyngor hen adeiladau ysgol sydd eto i'w gwerthu, mae'r derbyniadau cyfalaf wedi cael eu neilltuo ar gyfer cyllido'r ysgol newydd, e.e. nid yw adeilad Ysgol Llangaffo wedi cael ei werthu eto, ond mae unrhyw dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir yn y dyfodol yn sgil gwerthu'r adeilad ysgol wedi cael eu dyrannu er mwyn cyfrannu at gostau Ysgol Santes Dwynwen. Mae gan y Cyngor ychydig o asedau y mae'n dymuno'u gwaredu, ac mae yna falans o dderbyniadau cyfalaf sydd heb gael eu dyrannu ar gyfer unrhyw gynlluniau penodol. Ar hyn o bryd, mae £267k o dderbyniadau cyfalaf ar gael i gyllido gwariant cyfalaf yn 2026/27, neu mewn blynyddoedd i ddod.

3.3. Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi cadw arian mewn cronfeydd wrth Gefn clustnodedig er mwyn cyllido prosiectau unigol. Mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb refeniw. Defnyddiwyd £2.46m yn 2025/26 ac argymhellir defnyddio £1.685m yn 2026/27. Er hynny, mae'r balansau cyffredinol yn parhau i fod yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymell, sef 5% o'r gyllideb refeniw net. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd faint o gyllid uwchlaw'r ffigwr hwn fydd ar gael nes bydd cyfrifon terfynol 2025/26 wedi cael eu cau, ond mae'n bosib y gellir rhyddhau rhywfaint o gyllid o'r balansau cyffredinol i gefnogi'r rhaglen gyfalaf yn 2026/27.

3.4. Mae cyllid y CRT wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau'r CRT, ac ni ellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Erbyn hyn, rhagwelir y bydd balans cronfeydd wrth gefn y CRT wedi gostwng i'r isafswm ac ni fydd modd rhyddhau unrhyw gyllid pellach o'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r gwarged a gynhyrchir gan gyfrif refeniw'r CRT yn cael ei ail-fuddsoddi yn y stoc dai drwy'r rhaglen gyfalaf, ac mae'r ffigwr uchod yn seiliedig ar amcangyfrif o'r gwarged, fel y nodir yn y Cynllun Busnes 30 mlynedd. Mae'r cyllid grant yn cynnwys Lwfans Atgyweiriadau Mawr LIC a chyllid grant ar gyfer datblygu cyfleuster gofal ychwanegol ym Mhorthaethwy.

4. RHAGLEN GYFALAF ARFAETHEDIG 2026/27

4.1. Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2025/26

Mae adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf ar ddiwedd chwarter 3 2025/26 yn nodi tanwariant posib o £9.849m yn y rhaglen gyfalaf, er gall y sefyllfa derfynol newid yn ystod y chwarter olaf. Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith pan fydd y sefyllfa derfynol ar gyfer 2025/26 yn hysbys, ynghyd â chais am ganiatâd i ddwyn y cyllid ymlaen o 2025/26 i 2026/27. Mae'r cynlluniau sy'n debygol o gael eu dwyn ymlaen i 2026/27 i'w gweld yn Tabl 2, isod:-

Tabl 2
Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen o 2025/26

Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen o 2025/26	2026/27 £'000
Cynnal a Chadw Ysgolion	913
Cynnal a Chadw Adeiladau Cyngor Eraill	447
Cerbydau	120
Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus	280
Uwchraddio Toiledau mewn Ysgolion Uwchradd	43
Trwsio a Chynnal a Chadw - Llyfrgell Porthaethwy	17
Trwsio a Chynnal a Chadw - Cartref Preswyl Garreglwyd	355
Trwsio a Chynnal a Chadw - Cartref Preswyl Brwynog	12
Trwsio a Chynnal a Chadw - Cartref Preswyl Plas Mona	20
Trwsio a Chynnal a Chadw - Hen Reithordy	35
Trwsio a Chynnal a Chadw - Gors Felen	215
Cynllun Buddsoddi Rheoli Gwastraff	816
Canolfan Hamdden Plas Arthur	683
Canolfan Hamdden Amlwch	74
Canolfan Hamdden David Hughes	28
Safle'r Goron, Caergybi - Ailddatblygu	816
Trawsnewid Trefi - Terfynfa Forol Amlwch	480
Trawsnewid Trefi - Grant Creu Lle	301
Caergybi: Prosiect Trawsnewid a Yrrir gan Ddiwylliant a Threftadaeth	2,500
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol)	239

Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen o 2025/26	2026/27 £'000
Cyfanswm Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen	**8,394**
Cyllidir Gan	
Benthyca â Chefnogaeth - Cronfa Gyffredinol	1,379
Grantiau Llywodraeth Cymru	1,597
Grantiau Llywodraeth y DU	2,683
Derbyniadau Cyfalaf	223
Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig	1,117
Grant eEPR (Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros Becynwaith) DEFRA	458
Benthyca Digefnogaeth	937
Cyfanswm y Cyllid ar gyfer Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen	**8,394**

4.2. Adnewyddu Asedau / Prynu Asedau Newydd

Bob blwyddyn, mae'n rhaid buddsoddi yn asedau'r Cyngor er mwyn ymestyn eu hoes a sicrhau eu bod yn addas at eu diben, neu brynu asedau newydd i gymryd lle asedau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. Cynigir y symiau canlynol:-

- **Adnewyddu Ysgolion –** Mae'r gost o glirio'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn y 44 o ysgolion sy'n eiddo i'r Cyngor yn sylweddol, ac ni ellir ei gyllido'n llawn yn y tymor byr a chanolig. Efallai y bydd rhaglen moderneiddio ysgolion y Cyngor yn lleihau peth o'r gost hon, ond bydd nifer fawr o'r ysgolion presennol yn parhau i gael eu defnyddio yn y tymor hir. Dyranwyd swm o £900k.

- **Adnewyddu Adeiladau heblaw Ysgolion -** Oherwydd na fu digon o gyllid ar gael ers nifer o flynyddoedd, mae cyflwr adeiladau'r Cyngor yn parhau i ddirywio. Mae'r Tîm Gwasanaethau Eiddo wrthi'n diweddaru cost y gwaith sydd angen ei wneud. Dyranwyd £334k o'r gyllideb graidd ac efallai y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ddyrannu cyllid ychwanegol o gronfeydd wrth gefn y Cyngor, ar ôl cau'r cyfrifon a phan fydd union gost y gwaith sydd angen ei wneud yn hysbys.

- **Ail-wynebu Priffyrdd -** Mae'r Adroddiad Statws ac Opsiynau Blynyddol yn cadarnhau fod angen cyllideb flynyddol o £2.5m er mwyn cynnal amodau Sefydlogrwydd Eiddo (Ataliol) ar ein ffyrdd. Os yw'r gyllideb yn llai na'r swm gofynnol hwn, bydd y gwaith yn llai effeithlon ac ni fydd yn cynnig cystal gwerth am arian. Gallai greu costau ychwanegol i'r Awdurdod Priffyrdd, yn sgil gorfod gwario mwy ar waith brys ac mae risg hefyd y byddai'r Awdurdod yn wynebu mwy o hawliadau trydydd parti yn ei erbyn. Mae £1.7m wedi'i ddyrannu ar gyfer y gwaith hwn. Fodd bynnag, roedd y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol yn caniatáu i'r Cyngor fenthyca swm ychwanegol o £2.153m yn 2025/26 a £1.435m yn 2026/27, gyda LlC yn cyllido'r costau benthyca. Daw hyn â chyfanswm y cyllid ar gyfer Ail-wynebu Priffyrdd yn 2026/27 i £3.135m.

- **Cerbydau –** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad carbon niwtral ac, er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw, mae'n rhaid i'r Cyngor leihau nifer y cerbydau petrol a disel a ddefnyddir. Fodd bynnag, bydd yn anodd cyflawni hyn o fewn y cyfyngiadau cyllido presennol, a bydd y Cyngor yn dibynnu ar gyllid grant ychwanegol, neu bydd rhaid newid o brynu'n uniongyrchol i brydlesu er mwyn cyflawni'r newid. Bydd rhaglen y Gwasanaeth i brynu cerbydau graeanu newydd ac uwchraddio fflyd Cludiant Cymunedol Môn yn parhau hefyd. Dyranwyd cyfanswm o £550k er mwyn prynu cerbydau newydd.

- **Asedau TG -** Mae angen buddsoddiad parhaus er mwyn cynnal isadeiledd craidd y Cyngor ac adnewyddu dyfeisiadau a ddefnyddir gan staff i gael mynediad at systemau. Nodwyd bod angen £433k er mwyn cynnal yr isadeiledd craidd a phrynu dyfeisiau bwrdd gwaith. Fodd bynnag, mae angen rhaglen o wariant ychwanegol gwerth £426k yn 2026/27 er mwyn cyllido cost isadeiledd sydd angen ei hadnewyddu ar frys.
- **Asedau TG mewn Ysgolion -** Mae buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud er mwyn uwchraddio asedau TG mewn ysgolion, gan ddefnyddio cyllid LIC (HWB). Pan fydd yr asedau hyn yn cyrraedd diwedd eu hoes, y Cyngor fydd yn gyfrifol am gyllido asedau newydd i gymryd eu lle. Er mai swm bychan yn unig o wariant sydd ei angen yn 2025/26 (£259k), mae cyllid yn cael ei ddyrannu pan fydd o ar gael er mwyn sefydlu cronfa wrth gefn i gyllido'r gwariant angenrheidiol sylweddol o dros £2m yn 2027/28. Amcangyfrifir y bydd gan y gronfa falans o £983k ar ddechrau 2026/27, a bydd swm ychwanegol o £220k yn cael ei ychwanegu at y gronfa o'r gyllideb refeniw yn 2026/27. Bydd hyn yn gadael balans o £944k ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2026/27.

4.3. Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Mae'r galw am addasiadau mawr i alluogi trigolion anabl i barhau i fyw gartref yn parhau i fod yn uchel. Mae cyllid o £500k ar gyfer addasu tai Cyngor wedi'i gynnwys yng nghyllideb cynnal a chadw wedi'i chynllunio y CRT, ond mae'n rhaid i'r Cyngor gyllido gwaith mewn cartrefi preifat hefyd. Yr un yw'r dyraniad ag yn 2026/27, sef £900k.

5. RHAGLEN CYMUNEDAU DYSGU

5.1. Mae gwaith y Cyngor i foderneiddio'r ystâd ysgolion, drwy raglen Cymunedau Dysgu LIC, yn symud i'r cam nesaf ac, o ganlyniad, nid oes unrhyw waith wedi'i gynllunio ar unrhyw ysgolion newydd yn 2026/27. Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn datblygu'r ysgol uwchradd newydd arfaethedig yng Nghaergybi, ond nid oes unrhyw wariant cyfalaf wedi'i gynllunio ar gyfer 2026/27.

6. PROSIECTAU ERAILL

6.1. Bydd angen gwariant sylweddol yn y tymor canolig i uwchraddio cyfleusterau gwastraff y Cyngor. Yn ogystal â phrynu offer newydd i gymryd lle offer sydd wedi mynd yn hen, bydd hefyd yn caniatáu i'r cyfleusterau ym Mhenhesgyn a Gwalchmai gael eu gwella er mwyn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol newydd a chaniatáu i'r Cyngor gyflawni targedau ailgylchu LIC. Mae gwaith ar y gweill i sicrhau cyllid grant gan LIC i gyllido'r mwyafrif o'r buddsoddiad. Dechreuodd y Cyngor dderbyn cyllid drwy gynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr dros Becynwaith (eEPR) Llywodraeth y DU yn 2025/26, a bydd hyn yn parhau yn 2026/27. Amcangyfrifir y bydd y Cyngor yn derbyn £2.395m o gyllid yn 2026/27. Mae'r cyllid hwn wedi'i glustnodi i gyllido buddsoddiad hanfodol yn isadeiledd gwastraff nad yw'n cael ei gyllido drwy grantiau LIC. Mae £3.806m wedi cael ei ddyrannu yng nghyllideb 2026/27 a bydd hyn yn defnyddio'r cyfan o'r cyllid eEPR. Bydd lefel y gwariant yn y dyfodol yn dibynnu ar lefel y cyllid eEPR yn y dyfodol, yn ogystal ag unrhyw grantiau y gellir eu denu gan LIC.

6.2. Mae angen trwsio a gwella'r pier a'r pontynau ym Mhier San Siôr, Porthaethwy. Bydd hyn yn caniatáu i'r pier a'r pontynau barhau i gael eu defnyddio. Dyranwyd £225k ar gyfer y prosiect.

6.3. Mae cynlluniau ar y gweill i gwblhau gwaith adnewyddu ar Ganolfan Hamdden Plas Arthur. Mae'r cynllun yn cynnwys ail-fodelu'r dderbynfa, creu man chware meddal, ystafelloedd ffitrwydd newydd ac ystafelloedd cyfarfod. Cyfanswm cost y cynllun yw £2.333m a bydd yn cael ei gyllido o'r incwm a gynhyrchwyd trwy werthu Cwrs Golff Llangefni, ad-daliad TAW a dderbyniwyd nifer o flynyddoedd yn ôl yn dilyn newid dosbarthiad TAW gwasanaethau Hamdden, cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chronfeydd wrth gefn y Cyngor.

6.4. Mae'r Cyngor wedi derbyn dyraniad o £1.5m o Gronfa Balchder Bro Llywodraeth y DU ac mae angen ei wario erbyn Mawrth 2027. Mae'n rhaid defnyddio'r cyllid i ddarparu gwelliannau tymor byr, gweladwy mewn lleoedd a mannau sy'n werthfawr i gymunedau erbyn Mawrth 2027, gan adlewyrchu balchder lleol a meithrin twf economaidd. Bydd disgresiwn llwyr gan y Cyngor i wario'r cyllid ar brosiectau a rhaglenni fydd, yn ei farn o, yn dwyn ffrwyth fwyaf cyflym. Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl i'r ymgysylltu ganolbwyntio ar y gymuned, gyda mewnbwn gan chydranddeiliaid lleol. Er mwyn cyflawni prosiectau o fewn yr amser sydd ar gael, bydd rhan o'r cyllid yn cael ei ddosbarthu i'r 40 Cyngor Tref a Chymuned, a'r gweddill yn cael ei wario ar brosiectau'r Cyngor ei hun. Mae gwaith yn mynd rhagddo i lunio rhestr derfynol o'r prosiectau fydd yn cael eu gwireddu.

7. CYFRIF REFENIW TAI

7.1. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn gyfrif sydd wedi'i hamgau ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf. Bydd y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2026/27 yn parhau i fuddsoddi yn y stoc bresennol er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn parhau i gydymffurfio â safonau SATC, a bydd £15.71m yn cael ei fuddsoddi.

7.2. Mae gwaith cynllunio'n mynd rhagddo ar gyfer adeiladu cyfleuster gofal ychwanegol a gofal preswyl newydd ym Mhorthaethwy. Mae £14.001m o wariant wedi'i gynllunio ar gyfer 2026/27, a defnyddir cyllid grant i gyllido'r prosiect yn 2026/27, ond wedi hynny defnyddir cymysgedd o gyllid grant a benthyca digefnogaeth. Bydd costau refeniw'r benthyciad yn cael eu talu o'r incwm ychwanegol a gynhyrchir wrth osod y fflatiau gofal ychwanegol a'r ffioedd a godir ar y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer elfen breswyl y prosiect.

7.3. Mae'r Cyngor yn parhau i adeiladu tai newydd ar hyd yr Ynys, ac mae nifer o brosiectau wedi'u cynllunio ar gyfer 2026/27. Mae'n rhaid cynnal asesiad hyfywedd ariannol ar bob prosiect ac ni chaiff prosiect ei ychwanegu at y rhaglen oni bai bod yr asesiad yn gadarnhaol a'i fod yn cael ei awdurdodi gan y Pwyllgor Gwaith o dan y protocol awdurdodi a gytunwyd. O ganlyniad, dim ond £1.498m sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar hyn o bryd, ond gallai prosiectau ychwanegol gael eu hychwanegu yn ystod y flwyddyn, pan fydd y prosiectau hynny'n barod i gychwyn.

7.4. Bwriedir buddsoddi cyfanswm o £15.710m yn 2026/27 er mwyn cynnal a chadw stoc dai presennol y Cyngor. Bydd y rhaglen yn cael ei gyllido fel a ganlyn: y gwarged refeniw a gynhyrchir yn 2026/27 (£5.418m), Benthyca Digefnogaeth (£7.965m) a grantiau LIC (£2.690m).

7.5. Bydd y rhaglen fuddsoddi tymor hir, a sut y'i cyllidir dros y 30 mlynedd nesaf, yn cael ei nodi yng nghynllun busnes y CRT, a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith maes o law.

7.6. Neilltuwyd swm o £363k, wedi'i ariannu o warged yn ystod y flwyddyn, er mwyn prynu cerbydau newydd ar gyfer yr Uned Cynnal a Chadw Tai.

8. CRYNODEB O'R RHAGLEN GYFALAF A ARGYMHELLIR 2026/27

8.1. Mae Tabl 3, isod, yn crynhoi'r rhaglen gyfalaf a argymhellir ar gyfer 2026/27, ac mae dadansoddiad mwy manwl wedi'i gynnwys yn Atodiad 2:-

Tabl 3
Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf A Argymhellir 2026/27

	Cyf	£'000
Cynlluniau 2025/26 a Ddygwyd Ymlaen – Cronfa Gyffredinol		8,394
Adnewyddu Asedau / Prynu Asedau Newydd		6,678
Isadeiledd Gwastraff		3,806
Offer TG mewn Ysgolion		259
Pier Porthaethwy		225
Gwaith Adnewyddu Plas Arthur - Cam 2		1,650
Balchder Bro		1,500
Cyfrif Refeniw Tai		31,572
Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf A Argymhellir 2026/27		**54,084**
Cyllidir Gan:		
Grant Cyfalaf Cyffredinol		2,761
Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol		5,047
Cymunedau Dysgu – Benthyca Digefnogaeth		0,000
Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf		271
Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig		3,452
Grantiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru		10,044
Benthyca Digefnogaeth - Cronfa Gyffredinol		937
Gwarged Cyfrif Refeniw'r CRT		5,418
Grantiau Allanol y CRT		17,291
Benthyca Digefnogaeth y CRT		8,863
Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2026/27		**54,084**

ATODIAD 2

CYLLIDEB GYFALAF ARFAETHEDIG DERFYNOL 2026/27

Cynllun	Cyllideb £'000	Grantiau Allanol £'000	Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000	Benthyca â Chefnogaeth £'000	Benthyca Digefnogaeth £'000	Gwarged y CRT £'000	Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig £'000	Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000
Cynlluniau ymrwymedig 2025/26 a ddygwyd ymlaen								
Cynnal a Chadw Ysgolion	913			913				
Cynnal a Chadw Adeiladau Cyngor Eraill	447			169	119		159	
Cerbydau	120			120				
Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus	280						100	180
Uwchraddio Toiledau mewn Ysgolion Uwchradd	43							43
Trwsio a Chynnal a Chadw - Llyfrgell Porthaethwy	17			17				
Trwsio a Chynnal a Chadw - Cartref Preswyl Garreglwyd	355				355			
Trwsio a Chynnal a Chadw - Cartref Preswyl Brwynog	12			3	9			
Trwsio a Chynnal a Chadw - Cartref Preswyl Plas Mona	20			20				
Trwsio a Chynnal a Chadw - Hen Reithordy	35			35				
Trwsio a Chynnal a Chadw - Gors Felen	215				215			
Cynllun Buddsoddi Rheoli Gwastraff	816	458					358	
Canolfan Hamdden Plas Arthur	683	183					500	
Canolfan Hamdden Amlwch	74			74				
Canolfan Hamdden David Hughes	28			28				
Safle'r Goron, Caergybi - Ailddatblygu	816	816						
Trawsnewid Trefi - Terfynfa Forol Amlwch	480	480						
Trawsnewid Trefi - Grant Creu Lle	301	301						
Caergybi: Prosiect Trawsnewid a yrrir gan Ddiwylliant a Threftadaeth	2,500	2,500						

Cynllun	Cyllideb £'000	Grantiau Allanol £'000	Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000	Benthyca â Chefnogaeth £'000	Benthyca Digefnogaeth £'000	Gwarged y CRT £'000	Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig £'000	Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol)	239				239			
Cyfanswm Cynlluniau Ymrwymedig 2026/27	**8,394**	**4,738**	**0**	**1,379**	**937**	**0**	**1,117**	**223**
Adnewyddu Asedau / Prynu Asedau Newydd								
Adnewyddu Adeiladau Ysgol	900			900				
Adnewyddu Adeilad y Cyngor	334			334				
Prynu Cerbydau Newydd	550		550					
Prynu Offer TG Newydd - Cyffredinol	859			433			426	
Prynu Offer TG Newydd - Ysgolion	259						259	
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	900		900					
Ail-wynebu Priffyrdd	3,135		1,311	1,824				
Cyfanswm Adnewyddu Asedau / Prynu Asedau Newydd	**6,937**	**0**	**2,761**	**3,491**	**0**	**0**	**685**	**0**
Isadeiledd Gwastraff								
Uwchraddio Peiriannau a Chanolfannau Ailgylchu	3,806	3,806						
Cyfanswm Isadeiledd Gwastraff	**3,806**	**3,806**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**
Prosiectau Eraill								
Pier a Phontynau Porthaethwy	225			177				48
Gwaith Adnewyddu Plas Arthur - Cam 2	1,650						1,650	
Balchder Bro	1,500	1,500						
	3,375	**1,500**	**0**	**177**	**0**	**0**	**1,650**	**48**
CYFANSWM Y GRONFA GYFFREDINOL	**22,512**	**10,044**	**2,761**	**5,047**	**937**	**0**	**3,452**	**271**

Cynllun	Cyllideb £'000	Grantiau Allanol £'000	Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000	Benthyca â Chefnogaeth £'000	Benthyca Digefnogaeth £'000	Gwarged y CRT £'000	Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig £'000	Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000
Cyfrif Refeniw Tai								
Rhaglen Cynnal a Chadw SATC a Gynlluniwyd	15,710	2,690			7,965	5,055		
Cyfleuster Gofal Ychwanegol Porthaethwy	14,001	14,001						
Datblygiadau Newydd	1,498	600			898			
Prynu Cerbydau Newydd	363					363		
CYFANSWM CYFRIF REFENIW TAI	**31,572**	**17,291**	**0**	**0**	**8,863**	**5,418**	**0**	**0**
CYFANSWM RHAGLEN GYFALAF 2026/27	**54,084**	**27,335**	**2,761**	**5,047**	**9,800**	**5,418**	**3,452**	**271**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	**PWYLLGOR GWAITH**
DYDDIAD:	**24 CHWEFROR 2026**
PWNC:	**POLISI GOSTYNGIADAU DEWISOL Y DRETH GYNGOR - CYFLWYNO GOSTYNGIAD O 100% AR GYFER AELWYDYDD LLE MAE UNIGOLYN SYDD Â SALWCH TERFYNOL YN BYW**
DEILYDD PORTFFOLIO:	**CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER**
PENNAETH GWASANAETH / CYFARWYDDWR:	**MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**
AWDUR YR ADRODDIAD: Ffôn: E-bost:	**LLINOS MAIR ROBERTS** 01248 752651 LlinosRoberts5@ynysmon.llyw.cymru
AELODAU LLEOL:	Amherthnasol

A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

Argymhellion

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymell y canlynol i'r Cyngor:-

1. **Cymeradwyo'r** newid i Bolisi Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, er mwyn cyflwyno gostyngiad o 100% ar gyfer aelwydydd lle mae unigolyn sydd â salwch terfynol yn byw, yn unol ag Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
2. **Gweithredu'r** polisi o 1 Ebrill 2026, gan sicrhau fod proses ymgeisio a dogfennau ategol (gan gynnwys ardystiad SR1) ar waith.
3. **Dirprwyo awdurdod** i'r Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau weinyddu'r cynllun a gwneud unrhyw fân addasiadau gweithredol fydd angen eu gwneud.
4. **Monitro ac adolygu** effaith y polisi ar ôl 12 mis a chyflwyno'r canfyddiadau i'r Pwyllgor Gwaith.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Cytunodd y Pwyllgor Gwaith ar y polisi presennol ym mis Chwefror 2022 a phleidleisiodd y Cyngor llawn arno ym mis Mawrth 2022. Felly, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar unrhyw ddiwygiadau i'r polisi presennol a rhaid i'r Cyngor llawn bleidleisio arno.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Amherthnasol

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Bydd y newid yn arwain at ostyngiad yn yr incwm a godir drwy'r Dreth Gyngor ond, ar hyn o bryd, nid yw'n bosib mesur y gost oherwydd mae'n ddibynnol ar nifer y ceisiadau a dderbynnir, ar fand yr eiddo byddai'r eithriad yn berthnasol iddo, a yw'r ymgeisydd yn derbyn eithriad neu ddisgownt arall neu a yw'n gymwys i dderbyn cymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?	Gallai newidiadau i'r polisi olygu fod mwy o geisiadau'n cael eu cyflwyno o dan y polisi gostyngiadau dewisol. Fodd bynnag, mae'n dangos ymrwymiad i gefnogi preswylwyr agored i niwed. Mae hyn yn cyd-fynd â'n nod tymor hir o greu cymuned dosturiol, gynhwysol a chryfhau ymddiriedaeth mewn gwasanaethau lleol.
2	A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Gallai hyn o bosib arbed costau. Trwy leihau straen ariannol ar breswylwyr sydd â salwch terfynol a'u teuluoedd, gallai'r polisi leihau dibyniaeth ar wasanaethau cefnogi mewn argyfwng ac efallai na fydd rhaid i'r Awdurdod gychwyn prosesau costus i adennill dyledion.
3	A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy	Na, ond mae nifer gynyddol o awdurdodau lleol yn Lloegr eisoes yn cynnig 100% o ostyngiad i unigolion sydd â salwch hirdymor. Bu Marie Curie yn ymgyrchu am y newid hwn er mwyn sicrhau nad oes neb yn wynebu tlodi ar ddiwedd eu hoes.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Nac ydi.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Effaith Cadarnhaol: Mae'r polisi'n cefnogi unigolion sydd â chyflyrau iechyd difrifol (anabledd) a'u teuluoedd, gan hyrwyddo tegwch a lleihau anghyfartaledd ariannol. Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Effaith gadarnhaol sylweddol: Yn aml mae salwch terfynol yn arwain at leihau incwm a chynyddu costau. Mae cynnig gostyngiad o 100% yn lleddfu caledi ariannol i deuluoedd sydd eisoes yn agored i anfantais economaidd-gymdeithasol.
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Bydd yr holl ffurflenni cais, canllawiau a gohebiaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y polisi'n cynnal yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan sicrhau y gall preswylwyr gyfathrebu yn eu dewis iaith.
E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		**Beth oedd eu sylwadau?**
1	**Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol)	
2	**Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol)	Bethan H Owen, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, yn dirprwyo ar ran Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151
3	**Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)**	Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA.

4	**Adnoddau Dynol (AD)**	Ddim yn berthnasol
5	**Eiddo**	Ddim yn berthnasol
6	**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**	Ddim yn berthnasol
7	**Sgriwtini**	
8	**Aelodau Lleol**	
9	**Unrhyw gyrff allanol / eraill**	
F - Atodiadau:		
FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		

1. Pwrpas

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw gofyn am gymeradwyaeth i newid Polisi Gostyngiadau Dewisol y Dreth Gyngor, o dan Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r newid arfaethedig yn cyflwyno gostyngiad o 100% yn y Dreth Gyngor ar gyfer aelwydydd lle mae unigolyn sydd â salwch terfynol yn byw fel ei unig neu brif breswylfa. Nod y mesur hwn yw darparu cefnogaeth ariannol dosturiol i breswylwyr pan fyddant yn derbyn gofal diwedd oes, lleihau caledi a sicrhau fod y Cyngor hefyd yn mabwysiadu'r arfer orau a fabwysiadwyd gan awdurdodau blaengar eraill.

2. Cefndir

2.1 Ar hyn o bryd mae Polisi Gostyngiadau Dewisol y Dreth Gyngor yn cynnig rhyw gymaint o ostyngiad o dan amgylchiadau eithriadol, yn bennaf trwy ddarpariaethau caledi. Yn aml mae unigolion sy'n cael diagnosis o salwch terfynol yn wynebu heriau ariannol ac emosiynol, gan gynnwys gostyngiad yn eu hincwm a chynnydd mewn costau gofal. Gall y ffactorau hyn olygu fod unigolion yn mynd i ddyled a'u bod yn wynebu camau gorfodaeth, gan ychwanegu at eu gofidiau mewn cyfnod sydd eisoes yn anodd.

2.2 O dan Adran 13A Deddf Llywodraeth Leol 1992, gall awdurdodau lleol ddefnyddio eu disgresiwn i leihau neu ddileu atebolrwydd Treth Gyngor ar gyfer unigolion neu ddosbarthiadau o drethdalwyr. Mae sawl cyngor yn Lloegr wedi cyflwyno cynlluniau tebyg ac maent yn cynnig gostyngiad o hyd at 100% i breswylwyr sydd â salwch terfynol. Mae hyn yn cael ei ystyried yn arfer orau yn gyffredinol ac mae'n cael ei gefnogi gan grwpiau eiriolaeth cenedlaethol megis Marie Curie, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd lleihau straen ariannol pan fydd unigolion yn derbyn gofal diwedd oes.

2.3 Bydd y newid arfaethedig yn y polisi yn berthnasol i aelwydydd lle mae unigolyn sydd â salwch terfynol yn byw fel ei unig neu brif breswylfa. Bydd angen tystysgrif feddygol SR1 i gadarnhau bod yr unigolyn yn gymwys a bydd y gostyngiad yn parhau am ddau fis yn dilyn dyddiad marwolaeth y preswylydd, oni bai y byddai hyn yn golygu fod y gostyngiad yn weithredol am fwy na 12 mis.

3. Effaith Ariannol

3.1 'Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 36,054 o bobl wedi marw yn 2023 ac ystyriwyd bod tua 32,449 o'r unigolion hynny - sef tua 90% - angen gofal lliniarol neu ofal diwedd oes yn ystod y flwyddyn honno. Mae hynny'n rhoi darlun clir: bob blwyddyn, mae tua 32,000 o bobl yng Nghymru yn cyrraedd diwedd eu hoes ac mae angen gofal a chefnogaeth arbenigol arnynt'. (Ffeithiau ac ystadegau allweddol - Diweddarwyd 10 Gorffennaf 2025 - Marie Curie).

3.2 Mae 32,449 o bobl gyfystyr â thua 1.04% o boblogaeth Cymru (yn seiliedig ar yr amcangyfrif bod poblogaeth Cymru yn 3,107,500). Trwy ddefnyddio'r un ganran ar gyfer poblogaeth Ynys Môn, sef oddeutu 70,000, mae'n awgrymu fod tua 728 o unigolion yn debygol o fod yn wynebu diwedd eu hoes bob blwyddyn.

3.3 Mae'n anodd mesur goblygiadau ariannol caniatáu gostyngiad o 100% yn y Dreth Gyngor i unigolion sy'n wynebu diwedd eu hoes. Mae hyn oherwydd bod amgylchiadau'n gallu amrywio'n fawr: efallai bod rhai unigolion eisoes yn derbyn gostyngiadau neu eithriadau, a bydd llawer â hawl i gefnogaeth o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae'r ffactorau hyn sy'n gorgyffwrdd yn golygu ei bod yn anodd cyfrifo cyfanswm y gost ariannol heb ddadansoddi achosion unigol.

3.4 Bydd effaith ariannol y polisi hwn yn dibynnu ar nifer y ceisiadau cymwys a gyflwynir. Gallai'r gost gael ei hymgorffori yn y dyraniad presennol ar gyfer y gyllideb ddewisol, a gallai'r polisi gynorthwyo i leihau costau yn y dyfodol yn gysylltiedig â chasglu dyledion a chamau gorfodaeth yn erbyn teuluoedd agored i niwed. Rhoddir fframwaith fonitro ar waith er mwyn cadw llygaid ar y niferoedd sy'n defnyddio'r cynllun a'r oblygiadau ariannol a chynhelir adolygiad ffurfiol cyn pen 12 mis.

4. Newidiadau Arfaethedig i'r Polisi

4.1 Nod y newidiadau arfaethedig i'r polisi Treth Gyngor yw darparu cefnogaeth ychwanegol i breswylwyr sy'n cael diagnosis o salwch terfynol. Nodir y newidiadau hyn yn Atodiad A, yn yr adran sydd wedi'i hamlygu, ac mae'n dangos sut y byddai'r meini prawf cymhwysedd a'r gostyngiad yn cael eu gweithredu.

POLISI RHYDDHAD DEWISOL TUAG AT Y DRETH GYNGOR

Cefndir

Mae Adran 13A, is-adrannau (1) (c); (6) a (7), o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (DCLIL) 1992 (yn unol ag Adran 10 Deddf Llywodraeth Leol 2012) yn rhoi'r grym i awdurdod bilio ostwng swm y dreth sy'n daladwy fel a ganlyn:-

(1)(c) Mewn unrhyw achos, gellir ei lleihau i'r fath raddau (neu i raddau pellach os yw'r swm wedi ei ostwng dan baragraffau (a) neu (b)) sydd yn addas ym marn yr awdurdod bilio ar gyfer yr ardal ble lleolir yr annedd;

(6) Mae'r grym a roddir dan is-adran (1) (c) yn cynnwys y grym i ostwng y swm i ddim; a

(7) Gellir defnyddio'r grym o dan is-adran (1) (c) mewn perthynas ag achosion penodol neu drwy benderfynu ar ddosbarth o achosion penodol lle bydd yr atebolrwydd yn cael ei ostwng i'r graddau y darperir ar ei gyfer yn y penderfyniad.

Mae hyn yn golygu y gall Cyngor Sir Ynys Môn roi rhyddhad dewisol mewn perthynas ag unrhyw swm dreth gyngor sy'n ddyledus iddo, hyd yn oed os yw'r Cyngor eisoes wedi dyfarnu gostyngiad dan ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn unol ag Adran 13A (1) (b).

Mae'r polisi hwn yn nodi'r modd y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried ac yn caniatáu rhyddhad dan Adran 13A (1) (c).

Pwrpas y polisi

a) Adran 1 y polisi sy'n manylu ar y dosbarthiadau o achosion a all fod yn gymwys i dderbyn gostyngiad yn unol ag Adran 13A (1) (c);

b) Adran 2 y polisi sy'n amlinellu'r amodau y bydd raid eu bodloni er mwyn i'r Cyngor ystyried rhoi rhyddhad o dan Adran 13A (1) (c) ar gyfer pob achos arall nad yw wedi'i gynnwys yn Adran 1.

Bwriad y polisi yn y pen draw yw galluogi'r Cyngor i roi rhyddhad i'r rhai sy'n dioddef y caledi ariannol mwyaf eithafol o ran costau'r Dreth Gyngor.

Mae'r Cyngor eisoes â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Cyngor yn unol ag adran 13A (1) (b) o DCLIL 1992. Gellir lawrlwytho Cynllun y Cyngor ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn:-

https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Treth-cyngor/Gostyngiadau-ac-eithriadau/Cynllun-Gostyngiadaur-Dreth-Gyngor.aspx

Mae'r polisi hwn ar ryddhad dewisol yn un gwahanol ac yn annibynnol i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Adran 1

A. Adran 13A (1) (c) rhyddhad dewisol ar gyfer dosbarthiadau o bobl

1. Person(au) cymwys - gadawyr gofal – (MAE'R RHYDDHAD YMA'N GYMWYS AM GYFNODAU CYN 1 EBRILL 2019 YN UNIG)

Gall y Cyngor benderfynu peidio â chodi unrhyw dreth gyngor o gwbl ar y rhai sy'n gadael gofal ar yr amod eu bod yn cwrdd â'r holl feini prawf canlynol:-

- Bod y person yn adawr gofal perthnasol yn berson ifanc categori 3 fel y'i diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;
- Bod y person yn un yr oedd Cyngor Sir Ynys Môn yn rhiant corfforaethol iddo/iddi yn flaenorol;
- Bod y person wedi gadael gofal ac mae rhwng 18 ac 24 oed ac iau. Mae'r person yn byw yn ardal Cyngor Sir Ynys Môn ac mae'n atebol i dalu dreth gyngor i Gyngor Sir Ynys Môn.

Pan fo'r gadawr gofal yn atebol am fwy nag un annedd, rhoddir rhyddhad dewisol ar gyfer un eiddo yn unig - sef unig neu brif breswylfa'r person.

Os mai'r gadawr gofal yw'r unig berson sy'n byw yn yr annedd, ac os yw dros 18 oed, bydd swm y dreth gyngor sydd i'w dalu ar gyfer yr annedd honno'n cael ei ostwng i ddim.

Pan fo'r gadawr gofal yn byw gyda pherson arall yn yr eiddo ond, yn rhinwedd Adran 6 (2) o DCLIL 1992 "hierarchaeth atebolrwydd", bod y gadawr gofal yn gwbl gyfrifol am dalu'r dreth gyngor (ac nad yw atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol yn gymwys), caniateir gostyngiad o 25% yn y dreth gyngor sy'n daladwy ar gyfer yr annedd.

Pan fo'r gadawr gofal yn atebol ar y cyd ac yn unigol am yr annedd hefo rhywun arall sydd wedi gadael gofal, naill ai fel fel gŵr neu wraig neu fel partner (ac mai nhw yw'r unig bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn), bydd swm y dreth gyngor sydd i'w dalu ar gyfer yr annedd honno'n cael ei ostwng i ddim.

Pan fo'r gadawr gofal yn atebol ar y cyd ac yn unigol gyda gŵr neu wraig neu bartner nad ydynt wedi gadael gofal (ac mai nhw yw'r unig bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn), bydd gostyngiad o 25% yn swm y dreth gyngor sy'n daladwy ar gyfer yr annedd.

Os oes gan gadawr gofal denantiaeth ar y cyd â thenant arall (nad yw wedi gadael gofal) ac mai nhw yw'r unig bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn, bydd gostyngiad o 25% yn swm y dreth gyngor sy'n daladwy ar gyfer yr annedd.

Os yw gadawr gofal â thenantiaeth ar y cyd â thenant arall (sydd hefyd wedi gadael gofal) ac mai nhw yw'r unig bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn sy'n byw yn yr eiddo, bydd swm y dreth gyngor sydd i'w dalu ar gyfer yr annedd honno'n cael ei ostwng i ddim.

Gofyn am gymorth

Fel rheol, bydd ceisiadau am ostyngiad yn cael eu gwneud gan Wasanaeth Plant y Cyngor. Yn yr achos hwn, bydd ceisiadau:-

- Yn cael eu hanfon drwy e-bost at dîm y dreth gyngor;
- Yn cadarnhau bod y gadawr gofal wedi cael gwybod am y bwriad i gyflwyno'r cais ar ei ran ac y bydd y wybodaeth honno'n cael ei rhannu gyda thîm y dreth gyngor at y diben hwn a bod yr unigolyn wedi cytuno i hynny;
- Yn cadarnhau bod y gadawr gofal yn cwrdd â'r gofynion o ran hawl;
- Yn cadarnhau enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r gadawr gofal.

Gall gadawr gofal cymwys gyflwyno ceisiadau yn ysgrifenedig yn uniongyrchol i'r tîm dreth gyngor. Dylai ceisiadau gynnwys tystiolaeth ategol gan Wasanaeth Plant y Cyngor fod y gadawr gofal yn bodloni'r gofynion. Fel arall, dylai ceisiadau gadarnhau bod yr ymgeisydd wedi caniatáu i'r tîm dreth gyngor gael gwybodaeth yn uniongyrchol gan y Gwasanaeth Plant.

Wrth wneud y penderfyniad, asesir y canlynol:-

- A yw'r gadawr gofal wedi gwneud cais am unrhyw ryddhad, eithriadau neu ddisgowntiau cenedlaethol y byddent yn gymwys iddynt. Rhaid i'r rhain gael eu hasesu cyn caniatáu rhyddhad dewisol i adawyr gofal.
- A yw'r gadawr gofal wedi gwneud cais am unrhyw ostyngiad yn y Dreth Gyngor y byddent yn gymwys iddo. Dylai hyn gael ei asesu cyn caniateir rhyddhad Gadael Gofal.
- Dyddiad y diwrnod cyn pen-blwydd y gadawr gofal yn 25 oed sy'n pennu'r diwrnod y daw cyfnod y dyfarniad i ben.
- A yw Gwasanaeth Plant y Cyngor neu gorff cyhoeddus neu sefydliad proffesiynol arall wedi cadarnhau bod y person ifanc yng ngofal (yn 'derbyn gofal') gan y Cyngor.
- Pa Gyngor yw'r awdurdod bilio dreth gyngor y mae'n rhaid i'r gadawr gofal dalu dreth gyngor iddo?

Bydd y broses o wneud penderfyniadau a cheisiadau i gael ailystyried penderfyniadau yn cael ei hystyried yn unol â'r darpariaethau yn yr adran dan bennawd **G. "Gwneud penderfyniadau ac apeliadau"** yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

2. Person(au) cymwys – gofalwyr maeth

Bydd y Cyngor yn rhoi disgownt o 50% yn erbyn atebolrwydd dreth gyngor gofalwyr maeth dynodedig. Fe gynhwysir y disgownt fel rhan o'r pecyn maethu ar gyfer gofalwyr maeth yr awdurdod lleol ac fe'i rhoddir i'r gofalwyr maeth ar gofrestr y Cyngor **yn unig**. Fe roddir y disgownt yn yr amgylchiadau canlynol:-

- Mae enwau a chyfeiriadau'r gofalwyr maeth ar gofrestr y Cyngor;
- Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y Cyngor wedi cadarnhau hyn'
- Bydd Gwasanaethau Plant a Theuluoedd hefyd yn cynghori ar unrhyw ddiwygiadau i'r Gofrestr, gan ddarparu enw a'r cyfeiriad a dyddiad effeithiol y newid'
- Bydd y disgownt yn effeithiol **ar ôl** gweithredu'r eithriadau / disgowntiau statudol a, lle bo'n berthnasol, y cyfrifiad o'r Gostyngiad Dreth Gyngor;
- Bydd unrhyw falans sy'n ddyledus wedyn yn cael ei leihau gan 50% o dan y dosbarth yma o bersonau cymwys. Os nad oes balans yn ddyledus o ganlyniad i eithriadau / disgowntiau statudol neu gyfrifiad o'r Gostyngiad Dreth Gyngor, ni ellir roddi disgownt gofalwyr maeth;
- Fe roddir y disgownt i un cyfeiriad yn unig lle mae'r gofalwr/gofalwyr maeth yn atebol i dalu'r Dreth Gyngor i Gyngor Sir Ynys Môn, h.y. y cyfeiriad a ddangosir yng nghofrestr y Cyngor o ofalwyr maeth ac os yw'r eiddo hefyd yn brif neu unig breswylfa'r gofawlwr/gofalwyr maeth.

Yn flynyddol, yn Chwefror, bydd Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y Cyngor yn cyflwyno cadarnhad o'r enwau a chyfeiriadau cyfredol ar ggofrestr gofalwyr maeth y Cyngor a chymherir y gofrestr yma gan yr Adain Refeniw gyda chofnodion y Dreth Gyngor. Bydd unrhyw anghysondebau yn cael eu datrys rhwng y ddau wasanaeth.

Bydd y broses o wneud penderfyniadau a cheisiadau i gael ailystyried penderfyniadau, yn cael ei hystyried yn unol â'r darpariaethau yn yr adran dan bennawd **G. "Gwneud penderfyniadau ac apeliadau"** yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

3. Personau cymwys - unigolion sydd â salwch terfynol

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi penderfynu rhoi **gostyngiad o 100% ar y Dreth Gyngor** i aelwydydd lle mae gan breswylydd salwch terfynol a'i fod yn byw yn y sir.

Nod y gefnogaeth hon yw lliniaru pwysau ariannol i breswylwyr sydd â salwch terfynol a'u teuluoedd, a chaniatáu iddynt ganolbwyntio ar eu gofal heb wynebu'r straen o orfod talu'r Dreth Gyngor. Mae'r polisi'n adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i degwch, trugaredd a chefnogi preswylwyr agored i niwed.

Meini Prawf Cymhwyso

- Diffinnir person sydd â salwch terfynol fel person sydd wedi cael diagnosis gan ymarferydd meddygol cofrestredig o salwch neu gyflwr:-
  - nad oes modd ei wella; a
  - sy'n debygol o achosi marwolaeth.
- Mae'r gostyngiad yn weithredol o ddyddiad cyflwyno **ffurflen SR1**, ond nid cyn dyddiad cychwyn swyddogol y cynllun (**1 Ebrill 2026**), ac mae'n parhau am **ddau fis ar ôl dyddiad y farwolaeth** neu am 12 mis (pa un bynnag a ddigwydd gyntaf). Bydd y gostyngiad dewisol yn weithredol am hyd at 12 mis.

Cynllun Gostyngiadau

- Bydd y cynllun yn cychwyn ar **1 Ebrill 2026**; gellir cyflwyno ceisiadau o'r dyddiad hwn ymlaen.
- Mae'r gostyngiad yn berthnasol i:-
  - Eiddo yn ardal **Cyngor Sir Ynys Môn**.
  - Eiddo lle mae'r preswylydd sydd â salwch terfynol yn byw fel ei **unig a phrif breswylfa**, neu lle'r oedd yn byw cyn derbyn gofal mewn ysbyty / lleoliad gofal.
- Bydd y gostyngiad yn **100% o'r atebolrwydd Dreth Gyngor** ar ôl caniatáu rhyddhad, eithriadau neu ostyngiadau cenedlaethol eraill (e.e. Gostyngiad Person Sengl).
- Os yw'r atebolrwydd yn newid (e.e. mae disgownt arall yn cael ei ddyfarnu), bydd y gostyngiad ar gyfer salwch terfynol yn cael ei addasu fel nad yw'n fwy na chyfanswm yr atebolrwydd.
- Bydd y gostyngiad yn parhau'n weithredol am:-
  - Ddau fis ar ôl i'r preswylydd sydd â salwch terfynol farw; neu
  - 12 mis (pa un bynnag a ddigwydd gyntaf).
- Mae'n rhaid i'r trethdalwr hysbysu'r Cyngor os bydd ei amgylchiadau'n newid.
- Cyhoeddir bil Dreth Gyngor wedi'i addasu i ddangos y gostyngiad. Os gwrthodir y cais, bydd yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu gan esbonio'r rhesymau.

Gwneud Cais

- Mae'n rhaid gwneud cais trwy anfon **e-bost** at revenuerefeniw@ynysmon.llyw.cymru neu drwy **Borth Dinasyddion y Cyngor** ar y wefan.
- Bydd angen cyflwyno'r dystiolaeth ganlynol:-
  - Copi o'r **ffurflen SR1** sy'n dangos blaen a chefn y ffurflen.
  - Gall yr ymgeisydd / darparwr gofal ddarparu copi o'r ffurflen neu, o dan amgylchiadau eithriadol, a gyda chaniatâd, gall y Cyngor ofyn i'r ymarferydd meddygol / meddyg teulu am gopi.
- Mae angen datganiad sy'n cadarnhau bod y preswylydd sydd â salwch terfynol yn byw yn yr eiddo fel ei **unig a phrif breswylfa**.
- Bydd y broses ar gyfer penderfynu ar geisiadau a cheisiadau i gael ailystyried penderfyniadau yn cael eu hystyried yn unol â'r darpariaethau yn yr adran o dan y pennawd **G**. **"Gwneud penderfyniadau ac apeliadau"** yn ddiweddarach yn y polisi.

B. Adran 13a (1) (c) rhyddhad dewisol ar gyfer dosbarthiadau o anheddau

1. Annedd(anheddau) cymwys - anheddau sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir ac yn cael gwaith atgyweirio mawr neu y mae gwaith strwythurol yn cael ei wneud arnynt fel y gall pobl fyw ynddynt

Efallai na fydd y Cyngor yn codi'r premiwm Dreth Gyngor (fel y penderfynwyd arno ar gyfer y cyfnod perthnasol gan y Cyngor) ar gyfer anheddau dynodedig sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:-

- *"Os oes gwaith atgyweirio mawr neu gwaith strwythurol yn cael ei wneud yn yr annedd fel y gall pobl fyw ynddo, bydd yr annedd yn cael ei hystyried fel annedd Eithriedig Dosbarth A o dan Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Eithriedig) 1992 OS 558, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Eithriedig) (Diwygiad) (Cymru) 2000 OS 1025 (W.61), o'r dyddiad a bennwyd.*

- *Ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis, pan ddaw'r eithriad Dosbarth A i ben, efallai y caniateir eithriad pellach rhag talu'r premiwm eiddo gwag am gyfnod pellach o hyd at 12 mis, cyn belled:-*

  a. *Bod y gwaith atgyweirio/strwythurol yn mynd rhagddo a bod cynnydd yn cael ei wneud;*

  b. *Bod gwaith atgyweirio mawr / strwythurol yn cael ei wneud yn yr eiddo o hyd er mwyn galluogi i bobl fyw ynddo. (Os yw'r gwaith ar yr eiddo wedi cael ei gwblhau a bod yr eiddo'n dal i fod yn wag, bydd rhaid talu'r premiwm o'r dyddiad pryd y cwblhawyd y gwaith, os nad oes unrhyw eithriadau eraill yn berthnasol.)*

  Gweler Atodiad A am enghreifftiau o'r math o amgylchiadau lle caniateir eithriad.

- *Os bydd prynwr tro cyntaf * gyda chysylltiad lleol** yn prynu eiddo gwag hirdymor, gyda'r bwriad o atgyweirio'r eiddo i'w ddefnyddio fel eu prif neu unig breswylfan unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, gallant wneud cais i gael eu heithrio rhag talu'r Dreth Gyngor ar yr eiddo am y 12 mis cyntaf o ddyddiad prynu'r eiddo (yn unol â Dosbarth A) ac am eithriad pellach rhag talu'r premiwm eiddo gwag am gyfnod pellach o hyd at 24 mis cyn belled bod y gwaith yn mynd rhagddo, bod cynnydd yn cael ei wneud a bod y gwaith heb ei gwblhau. (Mae amodau ynghlwm â chaniatáu'r eithriad Dosbarth A).*

<u>Diffiniadau</u>

- ***Rhaid i ymgeiswyr fod yn brynwyr am y tro cyntaf erioed****
  (Prynwr/prynwyr am y tro cyntaf erioed yw pobl nad ydynt erioed wedi bod yn berchen ar eiddo yn y gorffennol, ar eu pen eu hunain neu fel cwpwl.)

- ***Rhaid i ymgeiswyr fod â chysylltiad lleol*****
  Mae cysylltiad lleol yn golygu bod yr ymgeisydd, neu o leiaf un o'r ymgeiswyr, wedi:-

  - Byw neu weithio ar Ynys Môn am gyfnod parhaus o bum mlynedd neu fwy yn union cyn cyflwyno'r cais; neu

  - Wedi byw ar Ynys Môn am gyfnod parhaus o bum mlynedd neu fwy rhywbryd yn y gorffennol

Gofyn am gymorth

Gall perchennog yr annedd ddynodedig gyflwyno cais ysgrifenedig yn uniongyrchol i'r tîm dreth gyngor. Dylai ceisiadau gynnwys tystiolaeth ategol o waith atgyweirio strwythurol mawr sy'n cael ei wneud yn yr annedd fel y gall rhywun fyw ynddi. Bydd y tîm dreth gyngor yn cynnal archwiliad o'r eiddo i wirio cyflwr presennol yr eiddo a'r gwaith sy'n cael ei wneud er mwyn cadarnhau a ydyw o natur strwythurol ai peidio.

Bydd y broses o wneud penderfyniadau a cheisiadau i gael ailystyried penderfyniadau yn cael ei hystyried yn unol â'r darpariaethau yn yr adran dan bennawd **G. "Gwneud penderfyniadau ac apeliadau"** yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

Adran 2

C. Adran 13a (1) (c) rhyddhad dewisol ar gyfer personau neu ddosbarthiadau o anheddau ac eithrio'r rhai a ddynodir yn Adran 1 y polisi hwn

1. Cynllun rhyddhad dewisol

Mae Adran 13A (1) (c) yn caniatáu i'r Cyngor y disgresiwn i roi cymorth i dalwyr y dreth gyngor mewn achosion lle nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu disgownt, eithriad neu ostyngiad neu mewn amgylchiadau lle mae'r Cyngor yn teimlo bod lefel y disgownt, eithriad neu ostyngiad yn annigonol o ystyried yr amgylchiadau. Wrth benderfynu a ddylid caniatáu cymorth dewisol, bydd y Cyngor yn ystyried pob cais yn ôl ei haeddiant (ac eithrio ceisiadau gan unigolion neu ar gyfer anheddau sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn Adran 1 y polisi hwn). Bydd egwyddorion rhesymoldeb yn cael eu defnyddio ym mhob achos gyda'r Awdurdod yn penderfynu ar bob achos ar sail ei rinweddau perthnasol.

Bydd pob penderfyniad yn cael ei wneud heb gyfeiriad at unrhyw ystyriaethau cyllidebol er bod rhaid cydbwyso unrhyw ddyfarniadau yn erbyn anghenion trethdalwyr lleol a fydd, yn y pen draw, yn talu am unrhyw ostyngiad yn incwm y Dreth Gyngor. Yn yr un modd, bydd cyfnod unrhyw daliadau gostyngol yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag amgylchiadau talwr y dreth gyngor neu'r annedd. I ddibenion gweinyddu, mae'r Cyngor yn cynnig y dylai'r grym dewisol i ganiatáu unrhyw ostyngiad yn y Dreth Gyngor gael ei ystyried o fewn y categorïau canlynol:-

a) Caledi ariannol eithriadol

Yn unol ag Adran 13A (1) (b) o DCLlL 1992, mae gan y Cyngor hwn Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sy'n darparu cymorth, ar ffurf gostyngiad, i'r sawl sydd angen cymorth i dalu eu costau Dreth Gyngor. Mae'r cynllun wedi'i ddylunio i gymryd i ystyriaeth amgylchiadau ariannol a phenodol unigolion trwy ddefnyddio symiau a phremiymau perthnasol a thrwy ddiystyru incwm.

Gall pob trethdalwyr wneud cais, fodd bynnag, fel rheol bydd y Cyngor, yn y lle cyntaf, yn disgwyl bydd i'r trethdalwr ganfod a yw'n gymwys ar gyfer Gostyngiad yn y Dreth Gyngor.
Fel rhan o'r broses o gyflwyno cais am ostyngiad dewisol yn y Dreth Gyngor, rhaid i bob ymgeisydd fod yn barod i wneud y **cyfan** o'r isod:-

- Gwneud cais ar wahân am gymorth;
- Rhoi manylion llawn am eu hincwm a'u gwariant (darperir ffurflen i'r pwrpas hwn);
- Rhaid i'r trethdalwr fedru bodloni'r Cyngor nad ydynt yn gallu talu eu dreth gyngor yn llawn neu'n rhannol;
- Nodi newidiadau posibl mewn dulliau talu a threfniadau i gynorthwyo'r ymgeisydd;
- Y trethdalwr i gynorthwyo'r Cyngor i ostwng y swm sy'n daladwy ganddynt drwy sicrhau eu bod wedi ymgeisio am yr holl ddisgowntiau, eithriadau a gostyngiadau yn y modd priodol a bod y rhain wedi eu caniatáu; a
- Nad oes gan y trethdalwr asedau y gellid eu gwireddu a'u defnyddio i dalu'r Dreth Gyngor.

Dyla'r trethdalwr ddarllen Polisi Preifatrwydd y Cyngor cyn gwneud cais am ryddhad dewisol oherwydd caledi ariannol eithriadol.

Bydd y ffactorau canlynol yn cael eu hystyried wrth asesu'r cais o dan y polisi hwn:-

- Cyfansoddiad presennol yr aelwyd ac amgylchiadau penodol gan gynnwys anableddau neu gyfrifoldebau gofalu;
- Amgylchiadau ariannol presennol;
- Penderfynu ar y cam(au) y mae'r ymgeisydd wedi eu cymryd i leddfu'r sefyllfa; Ystyried dulliau eraill o gymorth a all fod ar gael i'r ymgeisydd trwy:-

i. Ailbroffilio dyledion dreth gyngor neu ddyledion eraill;
ii. Gwneud cais am Dâl Tai Dewisol i gwrdd â chostau rhent (os yw'n berthnasol);
iii. Sicrhau cymaint o fudd-daliadau eraill ag sy'n bosibl (trwy mofyn cyngor lles);
iv. Penderfynu a ddylai blaenoriaethau gwariant yr ymgeisydd, ym marn y sawl sy'n gwneud penderfyniad, gael eu haildrefnu yn wyneb y ffaith bod y Dreth Gyngor yn ddyled y mae angen rhoi blaenoriaeth iddi.

Bydd y broses o wneud penderfyniadau a cheisiadau i gael ailystyried penderfyniadau yn cael ei hystyried yn unol â'r darpariaethau yn yr adran dan bennawd **G. "Gwneud penderfyniadau ac apeliadau"** yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

b) Argyfwng - llifogydd, tân ac ati

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am gymorth gan dalwyr y dreth gyngor sydd, heb unrhyw fai arnynt eu hunain, wedi dioddef argyfwng neu ddigwyddiad sy'n golygu nad yw eu tŷ yn addas i fyw ynddo, e.e. tân neu lifogydd, lle maent yn parhau i fod yn atebol i dalu'r dreth gyngor a heb unrhyw fodd o gael iawndal neu unrhyw eithriadau neu ddisgowntiau statudol.

Rhaid gwneud pob cais o'r fath yn ysgrifenedig yn manylu ar yr **union** amgylchiadau sy'n berthnasol i'r gostyngiad y gofynnir amdano ac yn nodi pryd y disgwylir i'r sefyllfa gael ei datrys.

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau fesul achos mewn ymgynghoriad â gwasanaethau neu sefydliadau eraill fel sy'n briodol. Bydd unrhyw ostyngiad yn cael ei ganiatáu mewn achosion lle maent yn parhau i fod yn atebol i dalu'r dreth gyngor a dim hawl ganddynt i unrhyw iawndal neu eithriadau neu ddisgowntiau statudol neu lle nad yw'r argyfwng neu'r digwyddiad wedi cael ei gynnwys mewn unrhyw bolisi yswiriant. Ni fydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan drethdalwyr lle mae canllawiau neu bolisi datganoledig gan y llywodraeth yn darparu ar gyfer gostyngiad mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft cynlluniau rhyddhad ar gyfer llifogydd.

c) Amgylchiadau eraill

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan dalwyr y Dreth Gyngor am ostyngiad yn eu dreth gyngor yn seiliedig ar amgylchiadau eraill nad ydynt wedi eu crybwyll yn benodol yn y polisi hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor fod o'r farn bod yr amgylchiadau sy'n berthnasol i'r cais yn teilyngu gostyngiad pellach yn y Dreth Gyngor y maent yn atebol i'w thalu, gan ystyried yr effaith ar dalwyr eraill y dreth gyngor.

Ni chaniateir gostyngiad yn y dreth gyngor sydd i'w thalu mewn amgylchiadau lle gellid caniatáu eithriad neu ddisgownt statudol. Ni chaniateir gostyngiad yn y dreth gyngor lle byddai hynny'n gwrthdaro ag unrhyw un o benderfyniadau, blaenoriaethau craidd neu amcanion y Cyngor.

CH. Newidiadau mewn amgylchiadau

Gall y Cyngor adolygu unrhyw ostyngiad dewisol yn y dreth gyngor sy'n daladwy a ganiatawyd dan Adran 1 ac Adran 2 lle mae amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid.

Mae'r trethdalwr yn cytuno bod rhaid iddo / iddi hysbysu'r Cyngor ar unwaith naill ai dros y ffôn, drwy e-bost neu yn ysgrifenedig am unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau a allai effeithio ar eu cais dan y polisi hwn. Gall methu â gwneud hynny arwain at dynnu'n ôl y gostyngiad a ganiatawyd am y flwyddyn a mynnu ad-daliad o unrhyw swm sy'n ddyledus i'r Cyngor. Rhaid rhoi gwybod am yr holl newidiadau mewn amgylchiadau ymhen 21 diwrnod.

D. Dyletswyddau'r ymgeisydd ac aelwyd yr ymgeisydd

Rhaid i berson sy'n gwneud cais am unrhyw ostyngiad dewisol yn y dreth gyngor sy'n daladwy:-

- Roddi i'r Cyngor unrhyw wybodaeth y mae ei hangen i wneud penderfyniad;
- Dweud wrth y Cyngor am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a all fod yn berthnasol i'w cais; a
- Rhoi i'r Cyngor unrhyw wybodaeth arall y gall fod ei hangen mewn cysylltiad â'u cais.
- Parhau i wneud taliadau yn unol â'r rhwymedigaeth statudol hyd nes y bydd penderfyniad terfynol wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r cais am gymorth o dan y polisi dewisol."

DD. Y dyfarniad a chyfnod y gostyngiad yn y dreth gyngor

Pennir swm a hyd y dyfarniad yn unol â disgresiwn y Cyngor a gwneir hynny ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd ac amgylchiadau'r cais.

E. Taliad

Yn unol â deddfwriaeth, bydd unrhyw ddyfarniad yn cael ei ganiatáu fel gostyngiad o ran y swm y bydd talwyr y dreth gyngor yn ei dalu ac a ddangosir ar eu bil, gan leihau swm y Dreth Gyngor sy'n daladwy.

F. Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor a roddwyd drwy gamgymeriad neu yn anghywir

Lle mae gostyngiad wedi ei ganiatáu yn anghywir neu drwy gamgymeriad, naill ai oherwydd methiant i ddarparu'r wybodaeth gywir i'r Cyngor neu darparu gwybodaeth anghywir neu oherwydd amgylchiadau eraill, bydd y swm yn cael ei adennill o gyfrif talwr y dreth gyngor yn y ffordd arferol.

FF. Hysbysiad o ostyngiad yn y swm taladwy

Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod ar bapur am ganlyniad pob cais. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys y rheswm dros y penderfyniad ac yn cynghori'r ymgeisydd am eu hawliau i apelio.

G. Cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ac apeliadau

Bydd unrhyw ryddhad a roddir yn unol ag Adran 1 y polisi hwn yn cael ei gymeradwyo gan swyddog ar lefel Arweinydd Tîm neu uwch yn nhîm y Dreth Gyngor.

Bydd unrhyw ryddhad a roddir yn unol ag Adran 2 y polisi hwn yn cael ei gymeradwyo gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 neu Reolwr y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau a bydd swyddog ar lefel Arweinydd Tîm neu uwch yn nhîm y Dreth Gyngor yn cyflwyno adroddiad i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 neu Reolwr y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau i'w ystyried wrth wneud y penderfyniad.

Gall trethdalwyr ofyn i'r Cyngor adolygu penderfyniad mewn perthynas â rhyddhad dewisol. Dylid cyflwyno cais ysgrifenedig am ailystyried penderfyniad ymhen 21 diwrnod o gael gwybod am y penderfyniad gwreiddiol a dylid nodi'r rhesymau dros y cais.

Ar ôl derbyn cais i ailystyried cais, bydd penderfyniadau a wneir dan Adran 1 y polisi yn cael eu hadolygu gan swyddog uwch o fewn tîm y Dreth Gyngor / Adnoddau. Ar gyfer penderfyniadau a wneir dan Adran 2 y polisi, yn dibynnu ar bwy wnaeth y penderfyniad, gellir eu hadolygu gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 neu gan unrhyw un o'r Prif Weithredwyr Cynorthwyol. Bydd y Cyngor yn hysbysu'r trethdalwr o'i benderfyniad o fewn 21 diwrnod o dderbyn y cais i ailystyried y penderfyniad.

Nid oes gan y Tribiwnlys Prisio awdurdodaeth i ymchwilio i benderfyniadau a wnaed gan y Cyngor ar achosion unigol mewn perthynas â rhyddhad dewisol dan Adran 13A yn Adran 2 y polisi. Mewn achosion o'r fath, mae'r Tribiwnlys Prisio o'r farn y dylai talwyr y dreth gyngor wneud cais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol.

Os yw talwyr y dreth gyngor yn anfodlon â phenderfyniad y Cyngor i wrthod glynu wrth ei benderfyniad ei hun i ganiatáu gostyngiad i rai ddosbarthiadau penodol, gall apelio ymhellach i Dribiwnlys Prisio.

Adran 3

NG. Adolygu'r Polisi

Adoligir y polici hwn yn rheolaidd a'i diweddaru fel bo'n briodol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas. Fodd bynnag, efallai y bydd adolygiad yn digwydd yn gynt os bydd unrhyw newidiadau sylweddol mewn deddfwriaeth.

Dyddiad Adolygu Ionawr 2022

Atodiad A

B.Adran 13a (1) (c) rhyddhad dewisol ar gyfer dosbarthiadau o anheddau.

1. Annedd (anheddau) cymwys – anheddau sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir y mae gwaith strwythurol yn cael ei wneud arnynt fel y gall pobl fyw ynddynt.

Esiampl 1

Prynir eiddo gan berchennog newydd sydd wedyn yn penderfynu gwneud gwaith mawr – dyfernir Dosbarth A ar gyfer y 12 mis cyntaf, wedyn rhoddir eithriad yn erbyn y premiwm am hyd at 12 mis pellach, cyn belled a bod y gwaith yn mynd rhagddo a bod cynnydd yn cael ei wneud.

Esiampl 2

Mae eiddo'n ddarostyngedig i eithriad Dosbarth A ac yna fe'i werthir i berchennog newydd cyn i'r cyfnod eithriad Dosbarth A ddod i ben. Bydd y perchennog newydd yn elwa o'r eithriad Dosbarth A hyd at ddiwedd y cyfnod 12 mis a bydd wedyn yn derbyn eithriad rhag y premiwm am 12 mis pellach, cyn belled a bod y gwaith yn mynd rhagddo a bod cynnydd yn cael ei wneud. Byddai'r eithriad rhag y premiwm yn dod i ben 2 flwyndedd ar ôl dyddiad caniatau'r eithriad Dosbarth A gwreiddiol, a dim 2 flynedd o ddyddiad prynu'r eiddo.

Esiampl 3

Mae eiddo'n ddarostyngedig i eithriad Dosbarth A ond mae hyn bellach wedi dod i ben. Nid yw y gwaith yn mynd rhagddo ac, o ganlyniad, mae'r eiddo'n ddarostyngedig i'r premiwm eiddo gwag. Wedyn, fe werthir yr eiddo ac mae'r perchennog newydd yn gwneud cais am eithriad Dosbarth A. Gwrthodir y cais ar y sail nad yw'r eiddo wedi ei feddiannu am gyfnod o 42 diwrnod ers i'r cais gwreiddiol Dosbarth A ddod i ben. Fodd bynnag, caniateir eithriad o'r premiwm eiddo gwag am gyfnod o 12 mis o ddyddiad prynu'r eiddo, cyn belled a bod y gwaith yn mynd rhagddo, bod cynnydd yn cael ei wneud ac nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau.

Esiampl 4

Mae eiddo'n ddarostyngedig i eithriad Dosbarth 4 ond mae hyn bellach wedi dod iI ben. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn yr eiddo ac fe ganiatawyd eithriad rhag y premiwm eiddo gwag. Gwerthir yr eiddo cyn diwedd y cyfnod eithriad rhag y premiwm eiddo gwaag. Caniateir parhad i'r cyfnod eithriad rhag y premiwm i'r perchennog newydd hyd at ddiwedd y 12 mis o pryd y rhoddwyd i'r perchennog blaenorol, cyn belled a bod y gwaith yn mynd rhagddo, bod cynnydd yn cael ei wneud ac nid yw'r gwaih wedi'i gwblhau. Efallai bydd hyn yn lleihau'r amser sydd gan y perchennog newydd i orffen y gwaith cyn i'r eithriad ddod i ben, ond ar yr eiddo rhoddir yr eithiad, nid i drethdalwr, ac mae wedi caniatau ar gyfer cyfnod o 2 flynedd I gwblhau'r gwaith, hyd yn oed os yw ar gyfer 2 berchennog gwahanol.

This page is intentionally left blank

F2. 2025/07

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Pwyllgor Gwaith Y Cyngor
Dyddiadau:	3 Chwefror 2026 24 Chwefror 2026 5 Mawrth 2026
Pwnc:	Diwygio'r Cyfansoddiad - Cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn Derfynol
Aelod(au) Portffolio:	
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad:	Lisa Lord, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro
Aelodau Lleol:	Pawb

A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

Argymhellion

Pwyllgor Gwaith

Bod y Pwyllgor Gwaith yn mynegi barn ar y newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn derfynol.

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Bod y Pwyllgor yn mynegi barn ar y newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn derfynol.

Y Cyngor

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn derfynol.

Rhesymau

- Ar hyn y bryd mae prif gamau'r broses ar gyfer paratoi a chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor fel a ganlyn:

  1. Proses fewnol (paratoi ac adolygu)

- Ailgyflwynwyd Grŵp Llywodraethu amlddisgyblaethol er mwyn cynorthwyo i lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Adolygu hyd at Fai 2026.
- Cyflwyno drafft i'r Tîm Arweinyddiaeth Mai/Mehefin 2026.
- Cyhoeddi drafft ar-lein ddiwedd Mehefin 2026. Anfonir manylion at yr holl gynghorwyr bryd hynny, gan wahodd sylwadau.

2. Adolygiad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Gorffennaf.

3. Cymeradwyo, y Cyngor llawn sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd (mewn da bryd ar gyfer cyhoeddi'r datganiad erbyn dim hwyrach na 30 Medi 2026)

- Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ffurfio rhan o Gyfrifon Blynyddol y Cyngor er mwyn bodloni'r gofyniad i gyhoeddi Datganiad Rheolaeth Fewnol. Yn ddiweddar, cymeradwyodd y Cyngor newid i'r Cyfansoddiad, er mwyn dirprwyo'r hawl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r Cyfrifon Blynyddol y Cyngor.

- Cyflwynwyd y newid hwn i gyd-fynd â Chynllun Blynyddol Archwilio Cymru ac mae'n cynnwys nod clir i fyrhau'r amserlen archwilio ar gyfer llywodraeth leol. Y dyddiad awdurdodi ar gyfer 2025/26 yw 30/09/2026 ac mae hyn fis yn gynharach nag yn 2024/25.

- Mae Llywodraeth Cymru'n argymell cyhoeddi'r Datganiad Rheolaeth Fewnol (sef y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y Cyngor hwn) yr un pryd â'r cyfrifon heb eu harchwilio, a'u bod yn cael eu llofnodi a'u dyddio gan y swyddog ariannol cyfrifol.

- Mae hyn yn golygu fod llai o amser ar gael i ymateb i unrhyw faterion a godir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a llunio fersiwn ddiwygiedig gywir a dwyieithog, mewn cyfnod pan fydd pwysau hefyd o ran cynhyrchu Cyfrifon Blynyddol y Cyngor.

- Os bydd y Cyngor yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r ddogfen, yna bydd rhaid symud cyfarfod Medi 2026, neu bydd angen cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn.

- Mae dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn broses gymeradwyo fwy effeithiol ac mae'n golygu y byddai'r amserlen ar gyfer cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn parhau i fod yr un fath â'r amserlen gymeradwyo ar gyfer Cyfrifon Blynyddol y Cyngor. Ni fydd hyn yn creu anfantais i unrhyw gynghorydd, na'r cyhoedd, gan y bydd yr adroddiadau ar gael yn ôl yr arfer a phan gyhoeddir y Datganiad Llywodraethu Drafft (bwriedir gwneud hynny ddiwedd Mehefin 2026), anfonir copi at bob cynghorydd yn gwahodd eu sylwadau.

- Yn erbyn y cefndir hwn, gofynnir am gael addasu paragraff 3.4.8.4.2 - "*Bydd y Pwyllgor yn adolygu a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ~~cyn gofyn am gymeradwyaeth y cyngor llawn~~ a bydd yn ystyried p'un yw'n adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol yn briodol, gan gynnwys barn flynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg. ~~Bydd yn ystyried~~ Bydd y Pwyllgor yn penderfynu p'un a yw'r arfarniad blynyddol ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn casglu'n deg bod y trefniadau llywodraethu yn addas i bwrpas, a'u bod yn cynorthwyo i gyflawni amcanion yr awdurdod.*"

- O dan baragraff 2.15.2.1 o'r Cyfansoddiad "…*ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig*".
- Cyflwynir adroddiad hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ar 3 Chwefror 2026, er mwyn gofyn barn y pwyllgor hwnnw ar y newid arfaethedig.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Bod y Cyngor llawn yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r ddogfen. Gwrthodwyd hyn gan fod y sefyllfa bresennol yn cael effaith negyddol ar effeithlonrwydd y broses, ac nid yw'r newid arfaethedig yn creu anfantais i unrhyw barti.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Nid yw hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith, a bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn. Fodd bynnag, o dan baragraff 2.15.2.1 o'r Cyfansoddiad, mae'n ofynnol rhoi cyfle i'r Pwyllgor Gwaith gyflwyno sylwadau ar unrhyw newidiadau y bwriedir eu gwneud i'r Cyfansoddiad.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'n rhaid i'r Cyngor llawn gymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad (nad ydynt yn ymwneud â 3.5.3.6.6. a 3.4.12.6.3)

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Nid oes unrhyw effaith ar y gyllideb

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

Mae'r newid arfaethedig yn hwyluso proses gwneud penderfyniadau effeithlon mewn perthynas â dogfennau sydd eu hangen fel rhan o gyfrifon statudol y Cyngor.

2. A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar y Cyngor yn y dyfodol? Os felly, sut?

Nid i unrhyw raddau sylweddol, ond bydd yn osgoi'r angen i gynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor.

3. A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, gyda phwy?

CIPFA

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut.

Nac ydy

5. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Dim effaith

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Dim effaith

7. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dim effaith

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Tîm Arweinyddiaeth yn cefnogi'r cynnig (20 Ionawr 2026)
2. Swyddog Cyllid / 151	Cefnogol o'r cais a fyddai'n dod â'r broses o gymeradwyo yn unol â'r broses o gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon blynyddol
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Dim gwrthwynebiad i'r argymhelliad
4. AD	Amherthnasol
5. Eiddo	Amherthnasol
6. TG	Amherthnasol
7. Caffael	Amherthnasol
8. Sgriwtini	Amherthnasol
9. Aelodau Lleol	Ymgynghorir â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 03 Chwefror 2026

F - Atodiadau

Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)

CIPFA, Delivering good governance in local government: framework addendum (Mai 2025) Delivering Good Governance in Local Government Addendum

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	24/02/2026
Pwnc:	Dyrannu hyd at £100k o Gyllid o'r Balansau Cyffredinol
Aelod(au) Portffolio:	Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer)
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
Aelodau Lleol:	Mae'n berthnasol i'r holl Aelodau:

A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

Argymhellion

1. Caniatáu i ryddhau hyd at £100k o falansau cyffredinol y Cyngor er mwyn:

   - cadw'r gefnogaeth a ddarperir gan staff asiantaeth er mwyn datblygu arbenigedd dau gyfreithiwr a allai gael eu penodi'n fuan;

   - cyllido costau parhaus, ond dros dro, cefnogaeth gan staff asiantaeth ar gyfer cleientiaid, er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth a diogel yn ôl i ddarpariaeth gyfreithiol fewnol yn y meysydd gwaith arferol hynny;

   - cadw'r Swyddog Diogelu Data Dros Dro presennol i sicrhau fod y Rhaglen Adfer a Gwella Llywodraethu Gwybodaeth yn cael ei chyflawni, yn ogystal ag adolygu a diweddaru'r system CRM, a datblygu paragyfreithiwr newydd.

2. Dirprwyo unrhyw geisiadau pellach o'r fath i'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, mewn trafodaeth â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

Rhesymau

1. Ymysg meysydd eraill, mae Busnes y Cyngor yn darparu gwasanaeth cyfreithiol mewnol mewn perthynas â gwaith llywodraeth leol arferol.

2. Mae’r tîm yn cynnwys 11 o gyfreithwyr cyflogedig.

3. Mae 5 o’r swyddi hyn yn wag ar hyn o bryd a bydd chweched swydd yn dod yn wag ddechrau Ebrill.

4. Yn hanesyddol ni fu problemau o ran cadw staff o fewn y tîm ac roedd swyddi gwag achlysurol yn cael eu llenwi, yn bennaf gan unigolion oedd yn dymuno dychwelyd i’r ardal.

5. Fodd bynnag, yn sgil datblygiadau diweddar o ran gweithio o bell, mae’r farchnad swyddi i gyfreithwyr wedi ehangu’n sylweddol.

6. Nid yw’r sector preifat ehangach, a gweddill y sector gyhoeddus yng Nghymru, wedi’i llyffetheirio gan y cynllun arfarnu swyddi i lywodraeth leol sy’n golygu nad yw ein cyflogau i gyfreithwyr bellach yn gystadleuol. Ynghyd â chyfleoedd i weithio’n gyfan gwbl o bell, mae rhai cyn aelodau o staff a darpar ymgeiswyr yn dewis bellach i “fyw fan yma a gweithio fan acw”.

7. Gyda’i gilydd, mae 41 ymgais i recriwtio wedi bod yn aflwyddiannus i raddau helaeth dros gyfnod o 20 mis. A hynny, er gwaethaf adolygu disgrifiadau swyddi/manylebau person sawl gwaith, ail-arfarnu swyddi, hyrwyddo’r Cyngor a’r Ynys, cynnal ymgyrchoedd hysbysebu cenedlaethol, cynnig opsiwn i weithio’n rhan-amser/rhannu swyddi, lleihau ein gofynion iaith Gymraeg ac wedyn eu hepgor yn gyfan gwbl.

8. Gwrthodwyd cais i roi Polisi Atodiadau Marchnad y Cyngor ar waith ar 22/05/2025.

9. Ar 02/05/2025 derbyniwyd cyngor gan yr adran Adnoddau Dynol i beidio â chynnig unrhyw fonws derbyn swydd / bonws croeso oherwydd eu pryder ynghylch her gyfreithiol.

10. Mae’r adroddiad hwn yn deillio o gydnabod bod rhaid yn awr recriwtio cyfreithwyr nad oes ganddynt arbenigedd perthnasol yn y meysydd gofynnol, a darparu cefnogaeth gyfreithiol arbenigol allanol i’w cynorthwyo i ddatblygu fel y gallant gyflawni eu swyddi. Byddai cefnogaeth o’r fath hefyd yn sicrhau parhad gwasanaeth, rhywbeth sy’n holl bwysig yn ystod y cyfnod datblygu.

11. Cyflwynir yr adroddiad hwn yn awr yn dilyn dau ddatblygiad newydd holl bwysig:

    - Mae ymgeiswyr wedi cael eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer dwy o’r swyddi gweigion. Mae’r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer naill ai newydd gymhwyso neu nid oes ganddynt brofiad yn y maes gwaith perthnasol. Mae’r ddwy swydd yn swyddi “annibynnol” lle nad oes arbenigedd mewnol i ddatblygu’r sawl a benodir. Staff asiantaeth sy’n gwneud y gwaith ar hyn o bryd. Er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth a diogel, ac ar yr amod bod y cais am arian yn cael ei ganiatáu, y bwriad yw cadw’r staff asiantaeth am dri mis, ac am chwe mis, yn y drefn honno. Yn amlwg, ni fydd cyfraniad ariannol gan unrhyw swydd wag gysylltiedig yn ystod y cyfnod trosiannol. Rhagwelir y bydd y costau oddeutu £80k.

    - Erbyn hyn mae pryderon sylweddol am drefniadau llywodraethu gwybodaeth y Cyngor, ac maent yn mynd ymhell tu hwnt i fethu â chydymffurfio â’r terfyn amser

statudol ar gyfer ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae polisïau a gweithdrefnau sydd wedi dyddio a'r angen i hyfforddi staff yn golygu fod perygl y gallai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gymryd camau gorfodaeth os bydd rhaid eu hysbysu am ddigwyddiad tor-diogelwch data. Lluniwyd Raglen Adfer a Gwella Llywodraethu Gwybodaeth. Yn ogystal, mae angen cefnogaeth broffesiynol arbenigol ar y prosiect i adolygu ac uwchraddio'r system CRM er mwyn cyflawni'r prosiect hwnnw'n llwyddiannus ac efallai y bydd cyfle i benodi paragyfreithiwr fydd angen ei gefnogi a'i ddatblygu. Mae cadw'r Swyddog Diogelu Data Dros Dro presennol yn ateb mwy cost effeithiol na cheisio'n aflwyddiannus, am yr wythfed tro, i hysbysebu a chaffael ymgynghorydd allanol i wireddu'r Rhaglen Wella. Rhagwelir y byddai cadw'r Swyddog Diogelu Data Dros Dro am chwe mis yn costio tua £20k.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Nid yw'n ymddangos bod unrhyw opsiynau eraill ar gael yn y tymor byr a'r tymor canolig, heblaw am ddibynnu ar staff asiantaeth/contractau yn ôl y gofyn am gyfnod amhenodol. Ar sail y swyddi gweigion presennol, mae cyllideb Busnes y Cyngor yn gorwario £250k y flwyddyn. Dyma'r gorwariant a ragwelir hefyd ar gyfer 2025/2026. Gallai'r swm gynyddu gan y bydd swydd cyfreithiwr arall yn dod yn wag o fis Ebrill 2026.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Nid yw'r penderfyniad yn un y gall Swyddogion ei wneud o dan y Cynllun Dirprwyo / nac o fewn y gyllideb a ddyrannwyd i wasanaeth Busnes y Cyngor. Mae gan y Pwyllgor Gwaith hawl i ddyrannu arian o falansau cyffredinol y Cyngor yn unol â phenderfyniad y Cyngor ynghylch y Gyllideb Flynyddol ar 06/03/2025. Mae'r ddarpariaeth benodol wedi'i chynnwys yn y 7fed pwynt bwled ym mharagraff 2 o Adroddiad y Pwyllgor Gwaith, 27/02/205; sydd ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 06/03/2025.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'n cyd-fynd â phenderfyniad y Cyngor ar y Gyllideb Flynyddol ar gyfer 2025/2026, a wnaed ar 06/03/2025.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Cais yw hwn i gael defnyddio arian o falansau cyffredinol y Cyngor. Mae'n unol â'r awdurdod a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Gwaith gan y Cyngor.

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

Y bwriad yw cynorthwyo'r Cyngor i gadw tîm cyfreithiol mewnol er mwyn cefnogi gwasanaethau i gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus presennol, a gwasanaethau yn y dyfodol, yn effeithiol ar yr Ynys. Mae model fewnol yn fwy cost effeithiol ac mae'n darparu gwell gwybodaeth gyd-destunol a sefydliadol, rhywbeth nad yw'n bosib gyda chefnogaeth allanol. Mae'n gofyn hefyd am lawer iawn llai o waith rheoli.

2. A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar y Cyngor yn y dyfodol? Os felly, sut?

Os caiff y cais ei ganiatáu, bydd y cynnig yn helpu i leihau'r ddibyniaeth ar dri chyfreithiwr asiantaeth, a thrwy hynny leihau costau dros gyfnod o amser. Dylid nodi, er hynny, fod tair swydd cyfreithiwr arall yn wag hefyd; ac nid yw cefnogaeth drosiannol mewn perthynas â'r swyddi hynny wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn. Mae un o'r swyddi hynny'n cael ei chyflawni o dan gontract yn ôl y galw ac un arall gan staff asiantaeth sy'n rhannu swydd. Hyd yma, nid oes ymgeiswyr/ymgeiswyr y gellid eu penodi wedi ymgeisio am y ddwy swydd. Bydd y drydedd swydd yn cael ei hysbysebu am y tro cyntaf ym mis Chwefror, felly nid yw'r sefyllfa'n eglur eto. Dyma'r rheswm am yr ail argymhelliad yn yr Adroddiad. Os yw'r Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r cynnig presennol, ac os gellir ei weithredu'n llwyddiannus, yna efallai y bydd angen cefnogaeth bellach arnom mewn perthynas â datblygu cyfreithwyr newydd eraill a benodir i'r swydd sy'n weddill.

3. A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, gyda phwy?

Na

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut.

Na

5. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Dim. Er bod y cyd-destun yn ymwneud â materion cyflogaeth, mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chael mynediad at arian ychwanegol, felly nid yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol.

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Nid yw'n berthnasol yn uniongyrchol.

7. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae cyflogi cyfreithwyr mewnol yn rhoi cyfle i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg. Nid yw cyfleoedd o'r fath yn codi pan ddibynnir ar staff asiantaeth/contractau yn ôl y galw. Mae hysbysebion diweddar yn parhau i nodi fod sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ac maent yn nodi'n glir y cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu'r sgiliau hynny. Er hynny, dylid nodi na fyddai'n bosib gorfodi hyn fel amod ar gyfer unrhyw gynnig o swydd yn gyfreithlon, a gallai atal ymgeiswyr rhag ymgeisio. Byddwn yn parhau i fynnu sgiliau iaith Gymraeg, yn unol â'n Safonau Iaith Gymraeg ym mhob swydd a hysbysebir o'r newydd.

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr ~~/ Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)~~	Yn cefnogi'r egwyddor
2. Swyddog Cyllid / 151	Argymell yr adroddiad hwn a'r dull ariannu y mae'n ei ddisgrifio.
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Awdur yr adroddiad
4. AD	Mae'r gwasanaeth wedi gweithredu'r holl brosesau recriwtio Adnoddau Dynol arferol ac wedi bod yn

	aflwyddiannus wrth geisio penodi swyddogion â phrofiad digonol. Mae felly angen yr opsiynau hyn o dan yr amgylchiadau digynsail y mae'r gwasanaeth yn darganfod ei hun ynddo.
5. Eiddo	
6. TG	
7. Caffael	
8. Sgriwtini	
9. Aelodau Lleol	

F - Atodiadau

Strategaeth Ariannol Tymor Canolig A Chyllideb 2025/2026

Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)

Llywodraethu Gwybodaeth - Adroddiad Blynyddol yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth 01/04/2024 - 31/03/2025

Cyngor Sir Ynys Môn	
Yn atebol i:	Pwyllgor Gweithredol
Dyddiad:	24ain o Chwefror
Pwnc:	Ymgynghoriad Cyhoeddus ar yr Ardoll Ymwelwyr arfaethedig
Deiliad/deiliaid Portffolio:	Y Cyng. Alun Roberts (Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Christian Branch Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Awdur yr Adroddiad: **Ffôn:** **E-bost:**	Andy Godber Rheolwr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol andygodber@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Yn berthnasol i bob Aelod Etholedig

A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Gofynnir i'r Pwyllgor Gweithredol gefnogi:

1. **Y gwaith o gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn seiliedig ar y posibilrwydd o gyflwyno ardoll ymwelwyr ar Ynys Môn (yn unol â chanllawiau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru).**
2. **Bod y broses ymgynghori yn cael ei chynllunio ar y cyd â Chyngor Gwynedd a Chyngor Conwy ond bod y broses yn cael ei chynnal yn annibynnol.**

Tâl isel ychwanegol i'w dalu gan bobl sy'n aros mewn llety ymwelwyr yng Nghymru yw'r ardoll ymwelwyr.

Bydd yr arian a godir drwy'r ardoll yn cael ei ddefnyddio i wella twristiaeth leol.
Bydd yr ardoll ymwelwyr yn helpu i wneud y canlynol:

- cynnal a chadw cyfleusterau a seilwaith lleol
- amddiffyn tirluniau godidog Cymru
- sicrhau y gall cymunedau barhau i groesawu ymwelwyr gan ddiogelu'r hyn sy'n gwneud pob ardal yn arbennig

Gall cynghorau lleol ddewis a ydynt yn dymuno cyflwyno'r ardoll ymwelwyr yn eu hardal.

Byddant yn gwneud y penderfyniad ar ôl ymgynghori â phreswylwyr a busnesau.

Golyga hyn y bydd yr ardoll yn cael ei chodi yn yr ardaloedd hynny y mae'r gymuned wedi penderfynu ei rhoi ar waith.

Mis Ebrill 2027 yw'r cynharaf y gallai'r cyngor gyflwyno ardoll ymwelwyr.

A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Mae Llywodraeth Cymru yn eirioli'r defnydd o Egwyddorion Gunning ar gyfer ymgynghori – sef:

- Rhaid i'r ymgynghori fod ar gam ffurfiannol – awgrymir y dylai'r ymgynghoriad ddechrau fis Mehefin/Gorffennaf 2026 yn amodol ar gael ei gymeradwyo.
- Rhaid rhoi digon o wybodaeth er mwyn caniatáu ystyriaeth ddeallus o'r ymatebion a gall gynnwys asesiad o effeithiau economaidd. Ymhlith ystyriaethau eraill mae gwybodaeth ynghylch y gwelliannau i reolaeth cyrchfannau a fyddai'n digwydd yn sgil y cyllid ychwanegol a godir drwy'r Ardoll.
- Rhaid rhoi digon o amser ar gyfer ystyried ac ymateb – Nid oes yna gyfnod ymgynghori diffiniedig ond argymhellir mabwysiadu ymgynghoriad sy'n para 12 wythnos yn unol â'r Egwyddor Gunning.
- Rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yr adborth a geir drwy'r ymgynghoriad.

Gweler rhagor o fanylion a'r dull ymgynghori yn Atodiad A

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod ac/neu optio allan o'r opsiwn hwn?

Yr opsiwn arall fyddai gwrthod cyflwyno Ardoll Ymwelwyr yn Ynys Môn a hynny heb ymgynghori â'r sector a'r cyhoedd yn ehangach.

C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gweithredol?

Gofynnir i'r Pwyllgor Gweithredol gefnogi'r argymhelliad i ymgynghori ar y posibilrwydd o gyflwyno'r Ardoll

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor cyfan?

Er na chyfeirir atynt yn y Cynllun Rheoli Cyrchfan na Chynllun y Cyngor, mae'r rhesymeg sydd wrth wraidd yr Ardoll i gyflawni rheolaeth cyrchfan gynaliadwy yn gyson â'r ddau bolisi.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor cyfan?

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor?
Cost yr ymgynghoriad a'r asesiad o effeithiau economaidd ac asesiad o effaith ar gydraddoldeb fydd oddeutu £15,000. Caiff cyllid y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ei ddefnyddio i gyflawni hyn.

Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yn berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Yr argymhelliad yw cefnogi'r gwaith o gyflawni proses ymgynghori lawn Bydd y rhain yn cynnig y sylfaen er mwyn penderfynu a ddylid mabwysiadu Ardoll Ymwelwyr ai peidio.
2	A yw hwn yn benderfyniad y disgwylir iddo atal costau / dibyniadau i'r Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Amherthnasol – cefnogaeth yn ofynnol ar gyfer y cam ymgynghori yn unig
3	A ydym ni wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill er mwyn cyrraedd y penderfyniad hwn? Os felly, nodwch pwy.	Y bwriad yw gweithio ar y cyd â chynghorau cyfagos, sef Cyngor Gwynedd a Chyngor Conwy, er mwyn dilyn amserlen a phroses osodedig ar gyfer yr ymgynghoriad.. Wedi dweud hynny, bydd yr ymgynghoriad ei hun yn cael ei chynnal yn annibynnol.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi cyfrannu at ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, yn cynnwys y rheini sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y penderfyniad? Eglurwch sut.	Bydd gan y cyhoedd gyfle i gynnig adborth drwy'r broses ymgynghori
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn eu cael ar y grwpiau sydd wedi'u gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Mae asesiad effaith cydraddoldeb llawn wedi'i gynnal a bydd yn cael ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad. ATODIAD B
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.	Mae asesiad effaith economaidd llawn wedi'i gynnal a bydd yn cael ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad – ATODIAD C

Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yn berthnasol):		
7	Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.	Bydd y broses ymgynghori yn gwbl ddwyieithog. Datblygwyd gwerthusiad cychwynnol o'r effeithiau posibl ar yr Iaith Gymraeg – ATODIAD B a D

E – Gyda phwy y gwnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu barn nhw?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Rheoli (UDRh) (gorfodol)	Awgrymu y dylid cynnal ymgynghoriad. Awgrymu y dylid cydweithio ar y dull ymgynghori gyda Chyngor Gwynedd a Chyngor Conwy ond y dylai'r ymgynghoriad ei hun fod yn annibynnol.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Paratoi'r deunyddiau ymgynghori digidol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Amherthnasol
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol

F - Atodiadau:
ATODIAD A -: Gofynion Ymgynghori ATODIAD B – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ATODIAD C – Asesiad Effaith Economaidd ATODIAD D – Gwerthusiad o'r Effeithiau Posibl ar yr Iaith Gymraeg ATODIAD E– Gwerthusiad o'r Effeithiau Posibl ar yr Amgylchedd.

Ff - Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):

Ardoll Ymwelwyr Llywodraeth Cymru

Disgwyliadau a gofynion ymgynghori ar gyfer Awdurdodau Lleol

1. Cyflwyniad

Cafodd Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 Gydsyniad Brenhinol ar 18fed Hydref. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll ymwelwyr (yr ardoll) a godir ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr yn yr ardal. Ardoll ddewisol ydyw; awdurdodau lleol fydd i benderfynu a ydynt am ei chyflwyno ar ôl ymgynghori â'u cymunedau a busnesau lleol.

Mae cyflwyno'r ardoll ei hun yn ddewisol ar gyfer pob awdurdod lleol ac ni all ddigwydd cyn 2027 gan fod angen ymgynghori ag ymgyngoreion gorfodol cyn hynny.

Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch yr ardoll yma;

Ardoll Ymwelwyr a Chofrestr o Ddarparwyr Llety Ymwelwyr

2. Canllawiau Ymgynghori Drafft Llywodraeth Cymru

Mae'r map ffordd ar gyfer y broses gwneud penderfyniadau gan yr awdurdod lleol wedi'i gyhoeddi ar ffurf drafft gan Lywodraeth Cymru ac yn ffurfio sail y diweddariad hwn ar y camau nesaf.

Mae awdurdodau cyfagos, sef Gwynedd a Chonwy, wedi dangos bwriad i ymgymryd â'r broses ymgynghori ar y posibilrwydd o gyflwyno'r Ardoll ym mis Mehefin/Gorfennaf 2026, ac mae swyddogion yn credu ei bod hi'n synhwyrol dilyn amserlen debyg.

Bydd y broses ymgynghori yn sail i benderfyniad y cyngor.

Gall pob awdurdod lleol ddewis a ydynt am fabwysiadu a rhoi'r ardoll ymwelwyr ar waith. Os yw awdurdod yn dymuno gweithredu ardoll, yna mae'n rhaid ymgynghori â phreswylwyr, busnesau a sefydliadau lleol eraill cyn ei rhoi ar waith.

3. Gofynion ymgynghori

- Rhaid i'r ymgynghori fod ar gam ffurfiannol
- Rhaid rhoi digon o wybodaeth er mwyn caniatáu ystyriaeth ddeallus o'r ymatebion a gall gynnwys asesiad o effeithiau economaidd. Ymhlith ystyriaethau eraill mae gwybodaeth ynghylch y gwelliannau i reolaeth cyrchfannau a fyddai'n digwydd yn sgil y cyllid ychwanegol a godir drwy'r Ardoll.
- Rhaid rhoi digon o amser ar gyfer ystyriaeth ac i ymateb – byddem yn dilyn yr arfer orau gyda dim llai na **6 wythnos**.
- Rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yr adborth a geir drwy'r ymgynghoriad.

3.1 Rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â'r grwpiau canlynol:

- Preswylwyr lleol, gweithwyr a myfyrwyr.
- Cynghorau cymuned yn ardal y prif gyngor.

- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Prif gynghorau cyfagos.
- Cyd-bwyllgor corfforaethol sy'n cynnwys o leiaf un uwch-aelod gweithredol o'r cyngor.
- Sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau sy'n gweithio yn y sector twristiaeth

3.2 Dylai'r ymgynghoriad gynnwys:

- Cynnig wedi'i gyhoeddi yn amlinellu'r achos dros yr ardoll.
- Buddion ac awgrymiadau posibl ar gyfer sut ellir buddsoddi'r ardoll.
- Asesiad o effaith leol (effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol).
- Deunyddiau hygyrch, clir ac amserlenni realistig.
- Cydweithio ag Awdurdod Cyllid Cymru am gyngor a chefnogaeth weithredol.

3.3 Rhaid i awdurdodau lleol hefyd:

- Cynnal Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Dilyn y Cod o Ymarfer Argymelledig ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu.

3.4 Dulliau Ymgysylltu

Bydd y costau ymgynghori yn cael eu talu gan yr awdurdod lleol ac, fel y cyfryw, awgrymir defnyddio'r dulliau ymgysylltu mwyaf cost effeithlon.

Byddai'r rhain yn cynnwys -

- Cyfryngau digidol a chymdeithasol.
- Radio lleol, cyfrwng argraffedig.

Gellid ystyried rhagor o ddulliau ymgysylltu sy'n fwy costus -

- Cyfarfodydd cyhoeddus, gweithdai, sesiynau pop-yp.

4. Ar ôl yr ymgynghoriad:

- Gall swyddogion argymell cyflwyno'r ardoll.
- Rhaid i'r cyngor cyfan fwrw pleidlais ar y penderfyniad.
- Os cymeradwyir, rhaid cyhoeddi hysbysiad ffurfiol yn cynnwys -
  - ◊ Canlyniadau'r broses gwneud penderfyniadau
  - ◊ Cyfraddau'r Ardoll sydd i'w cyflwyno
  - ◊ Dyddiad ar gyfer cyflwyno
  - ◊ Gwybodaeth arall mae'r awdurdod yn ei hystyried yn briodol

5. Opsiynau a rhwymedigaethau'r awdurdod lleol

Gall awdurdodau lleol benderfynu sut i ddefnyddio unrhyw refeniw a godir drwy'r ardoll ymwelwyr er mwyn cefnogi twristiaeth. Rhaid iddynt nodi i ba bwrpas maen nhw'n bwriadu defnyddio'r ardoll mewn adroddiad i'w gyhoeddi cyn cynnal unrhyw ymgynghoriad a bydd yn ofynnol iddynt ddarparu adroddiad blynyddol ar sut mae'r refeniw a godwyd wedi bod o fudd i'w hardal.

Y bwriad yw y bydd yr arian newydd hwn yn talu'r costau presennol sy'n ymwneud â chroesawu ymwelwyr, fel glanhau strydoedd, casglu gwastraff, gwarchod atyniadau naturiol a diwylliannol yn ogystal â chael ei ddefnyddio i gefnogi a gwella seilwaith twristiaeth, fel toiledau, llwybrau troed a chanolfannau ymwelwyr.

Bydd sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll, sy'n ofynnol gan bob cyngor sy'n mabwysiadu hyn, yn cefnogi'r penderfyniad o ran dyrannu'r gwariant. Awgrymir bod y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfannau yn ffurfio sail y Fforwm hwn os yw'r awdurdod yn penderfynu cyflwyno'r Ardoll wedi'r ymgynghoriad.

Yn ogystal, dylid nodi na ellir addasu na chael gwared ar yr ardoll nes ei bod wedi bod ar waith am o leiaf 12 mis a byddai unrhyw addasiadau iddi yn gofyn proses ymgynghori arall.

6. Gwybodaeth arall

Bydd yn ofynnol i bob darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru gofrestru ar y gofrestr genedlaethol.

Awdurdod Cyllid Cymru fydd yn rheoli'r gwaith o gasglu'r ardoll ar ran unrhyw awdurdod lleol sy'n penderfynu gweithredu ardoll ymwelwyr.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council
cyngormon / angleseycouncil
cyngormon / angleseycouncil
cyngormon

Asesiad Effaith Cydraddoldeb yr Ardoll Ymwelwyr

ynysmon.llyw.cymru anglesey.gov.wales

Cynnwys

1 Cyflwyniad _____ 1

2 Y Cyd-destun Deddfwriaethol _____ 3

3 Methodoleg _____ 4

4 Crynodeb o Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar lefel genedlaethol ___ 6

5 Asesiad o'r effaith leol ar gydraddoldeb _____ 11

1 Cyflwyniad

1.1 Yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ystyrir yr effeithiau a allai ddod i ran cydraddoldeb pe bai Cyngor Sir Ynys Môn yn gosod ardoll ymwelwyr. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno gwybodaeth i Gyngor Sir Ynys Môn i ategu ei ystyriaethau ynglŷn â gosod ardoll ymwelwyr mewn perthynas â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Trosolwg o'r Ardoll Ymwelwyr

1.2 Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn rhoi dewis i gynghorau godi tâl ar arosiadau dros nos. Gelwir y tâl hwn yn 'ardoll ymwelwyr', a gall cynghorau ddewis cyflwyno'r ardoll yn eu hardal o fis Ebrill 2027.

1.3 Gellir codi'r ardoll ar ddwy gyfradd wahanol:

- Lleiniau safleoedd gwersylla ac ystafelloedd a rennir (hostelau ac ystafelloedd aml-wely): 75c y pen, y noson
- Pob math arall o lety i ymwelwyr: £1.30 y pen, y noson

1.4 Ceir esemptiadau[1]; ni fydd ymwelwyr yn talu'r ardoll ymwelwyr os byddant:

- dan 18 oed ac yn gwersylla neu'n aros mewn ystafell a rennir (fel hostelau neu ystafelloedd aml-wely)
- yn aros am fwy na 31 noson ar un archeb
- yn aros mewn llety brys neu dros dro a drefnwyd gan y cyngor lleol

1.5 Bydd arian yr ardoll yn cael ei ailfuddsoddi mewn pethau fel rheoli'r gyrchfan a gwella'r ardal. Mae Adran 44 o Ddeddf 2025 yn nodi bod yn rhaid i gynghorau ddefnyddio arian yr ardoll ar gyfer:

- lleihau'r effaith a gaiff ymwelwyr;
- cynnal a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg;
- hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
- darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau at ddefnydd ymwelwyr (pa un a fyddant at ddefnydd pobl leol hefyd, ai peidio).

Diben yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

1.6 Wrth ystyried a ddylid gosod ardoll ymwelwyr ai peidio, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn ystyried yr effeithiau posibl ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010').[2] Diben yr Asesiad o'r Effaith ar

[1] Yr ardoll ymwelwyr: cyfraniad bach ar gyfer etifeddiaeth barhaol: Ar gael yma
[2] Deddf Cydraddoldeb 2010.

Gydraddoldeb yw cyflwyno gwybodaeth a all gynorthwyo'r cyngor yn ei rôl fel awdurdod lleol wrth arfer Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

1.7 Yn **Adran 2** yr adroddiad hwn, nodir y cyd-destun trwy bennu'r cyd-destun deddfwriaethol, ac esbonnir y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan ystyried effeithiau anghymesur a gwahaniaethol.

1.8 Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â gosod ardoll ymwelwyr ledled Cymru.[3] Yn **Adran 3**, crynhoir canfyddiadau'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb.

1.9 Yn **Adran 4**, ystyrir yr effaith a fyddai'n deillio o osod ardoll ymwelwyr yn Ynys Môn a'r ffyrdd posibl y gallai'r effeithiau hynny ryngweithio â nodweddion gwarchodedig.

1.10 Cynhaliwyd asesiad ar wahân o'r effaith economaidd – pan fo'n berthnasol, croesgyfeirir ato yn yr asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb.

[3] Llywodraeth Cymru, 2025. Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma

2 Y Cyd-destun Deddfwriaethol

2.1 Deddf 2010 yw sail y gyfraith atal gwahaniaethu ym Mhrydain Fawr. Yn Adran 4 o Ddeddf 2010, diffinnir gwahanol fathau o nodweddion gwarchodedig sy'n berthnasol i'r Ddeddf, sef:

- Oedran;
- Anabledd;
- Ailbennu rhywedd;
- Priodas a phartneriaeth sifil;
- Beichiogrwydd a mamolaeth;
- Hil;
- Crefydd a chred;
- Rhyw;
- Cyfeiriadedd rhywiol.

2.2 Mae Deddf 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau roi sylw dyladwy i ystyriaethau cydraddoldeb wrth iddynt arfer eu swyddogaethau. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyladwy i'r angen i wneud y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddwch, erledigaeth ac unrhyw beth arall a waherddir gan neu dan y Ddeddf hon;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno;
- Meithrin cydberthnasau da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno.

2.3 Mae'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol (fel y nodir yn Adran 149 (3) o Ddeddf 2010):

- Dileu neu leihau anfanteision a ddaw i ran unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol, sef anfanteision sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno;
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol, sef anghenion sy'n wahanol i anghenion unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno;
- Annog unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogiad unigolion o'r fath yn anghymesur o isel.

3 Methodoleg

Dull

3.1 Bydd pob ymyriad yn esgor ar amrywiaeth o effeithiau, gan gael effaith a all fod yn gadarnhaol neu'n negyddol.

3.2 Yn achos pawb y bydd rhyw ymyriad yn effeithio arnynt, byddant yn meddu ar rai nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf 2010, bydd croestoriadedd yn digwydd i wahanol raddau (megis oedran, hil a rhyw), ac ni fydd yr ymyriadau'n effeithio'n gyfartal ar bawb. Ond nid yw hyn yn cyfateb, o angenrheidrwydd, i effaith ar gydraddoldeb.

3.3 Er mwyn canfod pa effeithiau sy'n berthnasol i ystyriaethau cydraddoldeb, mae asesiadau cydraddoldeb yn pennu bod effeithiau cydraddoldeb yn cyfateb i effeithiau sy'n effeithio'n anghymesur neu'n wahaniaethol ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol o gymharu ag unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodweddion gwarchodedig hynny, fel yr esbonnir isod:

- **Anghymesur:** efallai y ceir effaith anghymesur ar gydraddoldeb pan fo cyfran fwy o bobl â nodwedd warchodedig arbennig yn dioddef effeithiau o gymharu â'r boblogaeth ehangach.
- **Gwahaniaethol:** efallai y ceir effaith wahaniaethol ar gydraddoldeb pan fo pobl â nodwedd warchodedig yn dioddef effeithiau gwahaniaethol o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, a hynny gan eu bod yn agored i niwed neu oherwydd cyfyngiadau a wynebant yn sgil y nodwedd warchodedig honno.

3.4 Nid oes modd mesur graddfa nac arwyddocâd effeithiau o'r fath bob amser. O'r herwydd, mae'r broses o ystyried effeithiau cydraddoldeb yn cynnwys dadansoddiad disgrifiadol o'r effeithiau posibl, a hefyd nodir a fydd effeithiau o'r fath yn niweidiol ynteu'n fanteisiol.

3.5 Mae effeithiau cydraddoldeb yn gymhleth, ac maent yn anodd eu rhagweld yn gywir ac yn gynhwysfawr. Mater personol yw nodweddion gwarchodedig pobl, ac ni wyddys beth ydynt bob amser. Ychwaith, nid yw'r holl bobl a fydd yn byw wrth ymyl yr ardal, yn gweithio yn yr ardal, neu'n ymweld â'r ardal yn y dyfodol, yno heddiw. Oherwydd hyn, dim ond effeithiau y gellir eu rhagweld yn rhesymol a ystyrir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

3.6 Mewn unrhyw benderfyniad a wneir gan gyrff cyhoeddus, efallai y bydd angen ystyried a chydbwyso amrediad o wahanol effeithiau cadarnhaol a negyddol. Efallai y ceir mesurau lliniaru rhesymol a all ddileu neu leihau rhai effeithiau anghymesur neu wahaniaethol ar gydraddoldeb, ond efallai na fydd modd osgoi rhai effeithiau bob amser.

Cwmpas yr Asesiad

3.7 Prif amcan yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw cyflwyno gwybodaeth i Gyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â'i effaith ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, er mwyn llywio'i benderfyniadau.

3.8 Gallai'r ardoll ymwelwyr effeithio ar dri grŵp cyffredinol o bobl, sef:

- Pobl sydd (neu a fydd yn y dyfodol) yn cael eu cyflogi mewn swyddi twristiaeth (neu sectorau cysylltiedig), y gallai cyflwyno'r ardoll effeithio ar eu cyflogaeth – yn cynnwys perchnogion busnesau y gellid effeithio arnynt.

- Pobl sy'n byw yn yr ardal, y gallai cyflwyno'r ardoll effeithio arnynt – trwy weld newid yn nifer yr ymwelwyr a/neu a fyddai'n elwa ar fuddsoddi arian yr ardoll.

- Ymwelwyr (neu bobl eraill sy'n aros dros nos) y byddai'n rhaid iddynt dalu'r ardoll.

3.9 O fewn y grwpiau hyn, fe fydd yna bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig, ac fe fydd yna wahanol raddau o groestoriadedd.

3.10 Y man cychwyn ar gyfer cynnal yr asesiad yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar lefel Cymru gyfan[4] (Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb), yn cynnwys yr asesiad, yr ymgynghoriad / gwaith ymgysylltu a'r mesurau lliniaru. Yna, awn ati i ystyried a oes yna unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn a allai newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac arwain at effeithiau anghymesur neu wahaniaethol.

[4] Llywodraeth Cymru, 2025. Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma

4 Crynodeb o Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar lefel genedlaethol

4.1 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn defnyddio ffigurau a data ystadegol yn ymwneud â phob nodwedd warchodedig a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn cynnwys elusennau, grwpiau anabledd a sefydliadau ffydd, er mwyn pennu – a lliniaru, pan fo modd – unrhyw effeithiau negyddol posibl ar gydraddoldeb.

4.2 Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb:

> ***'Nod cyffredinol yr ardoll yw cynhyrchu refeniw ychwanegol i awdurdodau lleol sy'n dewis defnyddio ardoll, ac ni ddisgwylir y bydd effeithiau "uniongyrchol" ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.'***

4.3 Yn yr asesiad, nodir y byddai cyflwyno ardoll ymwelwyr yn effeithio ar awdurdodau lleol, ymwelwyr, trigolion lleol a busnesau, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Diffinnir 'effaith uniongyrchol' fel unrhyw effaith bosibl yn sgil gorfod talu neu godi'r ardoll. Diffinnir 'effaith anuniongyrchol' fel unrhyw effaith bosibl yn sgil bodolaeth yr ardoll.

4.4 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cydnabod mai gwaith ymchwil cyfyngedig yn unig a geir mewn perthynas â'r effaith y byddai cyflwyno ardoll ymwelwyr yn ei chael ar nodweddion gwarchodedig, felly defnyddir gwybodaeth ansoddol a rhywfaint o ddata i lunio casgliadau ynglŷn ag effeithiau "anuniongyrchol" posibl. Mae'r un amodau'n berthnasol i'r asesiad lleol.

Y sefyllfa gyffredinol mewn perthynas ag ad-daliadau ac esemptiadau

4.5 Ar sail yr ymgynghoriad ffurfiol, gwelwyd bod y rhai a oedd o blaid esemptio rhai grwpiau yn tueddu i gredu bod angen gwneud hynny oherwydd y rhesymau canlynol:

4.5.1 dylid rhoi esemptiadau ar waith er mwyn hyrwyddo tegwch a chanlyniadau cyfartal trwy gynorthwyo grwpiau â nodweddion gwarchodedig, a hefyd

4.5.2 ni ddylai rhai grwpiau gael eu dosbarthu fel ymwelwyr, ac o'r herwydd ni ddylent orfod talu ardoll.

4.6 Yn achos y rhai a oedd yn anghytuno â gosod esemptiadau, roeddynt o'r farn y gallai esemptiadau gyflwyno cymhlethdodau a chynyddu'r baich gweinyddol i awdurdodau treth a darparwyr llety ymwelwyr, ac roeddynt o'r farn y gallai esemptiadau fod yn annheg gan fod pob ymwelydd yn elwa ar seilwaith a gwasanaethau i ymwelwyr.

4.7 Yn y pen draw, mae Llywodraeth Cymru yn bendant ei barn bod angen sylfaen bolisi glir ar gyfer esemptiadau neu gyfraddau is ar sail nodweddion gwarchodedig. Y dull, felly, yw lleihau'r defnydd o esemptiadau a defnyddio cyfradd ardoll is.

4.8 Er mwyn sicrhau dull graddoledig a gwneud yn siŵr na fydd pobl ar incwm is yn cael eu datgymell neu eu rhwystro rhag talu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r ardoll, nodir dwy gyfradd yn

y Bil, sef cyfradd is ar gyfer hostelau a safleoedd gwersylla a chyfradd uwch ar gyfer pob llety arall i ymwelwyr.

4.9 Bydd modd i Weinidogion Cymru asesu a diwygio'r cyfraddau a bennir yn y ddeddfwriaeth os daw effeithiau niweidiol i'r amlwg.

4.10 Caiff y grwpiau a'r sefyllfaoedd canlynol eu hesemptio:

- Arosiadau dros nos ar safleoedd sipsiwn a theithwyr.
- Arosiadau a drefnir gan y Swyddfa Gartref fel rhan o'i rhwymedigaethau statudol.
- Arosiadau brys mewn llety ymwelwyr a drefnir gan awdurdodau lleol fel rhan o'u dyletswyddau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
- Arosiadau a drefnir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel rhan o'i rhwymedigaethau statudol.
- Ni chynhwysir pobl dan 18 oed yn y tâl cyfrifadwy ar gyfer arosiadau cyfradd is.

4.11 Yn yr un modd, bydd modd cael ad-daliadau mewn achosion pan na fydd modd darparu esemptiad, megis:

- Arosiadau'n ymwneud â llety brys dros dro a drefnir gan sefydliadau elusennol mewn llety ymwelwyr ar ran pobl ddigartref, yn cynnwys ceiswyr lloches a phobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig.
- Pobl anabl sy'n cael budd-dal anabledd cymwys, a dalodd ardoll ymwelwyr tra'r oeddynt yn aros mewn llety ymwelwyr ac sydd yng nghwmni gofalwr.
- Arosiadau lle ceir risg i iechyd a diogelwch neu les pe bai rhyw unigolyn wedi aros yn ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa (er enghraifft, arosiadau a drefnir gan elusennau ar gyfer pobl agored i niwed; neu pan fo tân, llifogydd neu drychineb arall yn golygu nad oes modd byw yn yr eiddo; neu pan fo'r gwasanaethau brys wedi cynghori na ddylid aros yn yr eiddo am resymau o'r fath).

4.12 Fel rhan o'r broses ymgynghori, ymgysylltodd swyddogion llywodraeth Cymru â thimau polisi yn Llywodraeth Cymru ac yn y trydydd sector er mwyn deall mwy am brofiadau byw grwpiau agored i niwed sydd angen llety ymwelwyr.

4.13 O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu hwnnw, cymerwyd y camau canlynol mewn perthynas ag esemptiadau ac ad-daliadau.

- Esemptiadau:
  - Nodi'n glir yn Neddf 2025 y mathau o arosiadau mewn llety ymwelwyr a fydd yn esempt rhag talu ardoll ymwelwyr er mwyn sicrhau bod nodau'r polisi yn cael eu gwireddu.
  - Y gallu i gyflwyno esemptiadau newydd, ynghyd â'r gallu i addasu neu ddileu esemptiadau, pe bai tystiolaeth yn dod i'r amlwg ynglŷn ag unrhyw effaith anghymesur.
- Ad-daliadau – y gallu i ychwanegu at y rhestr o senarios a allai fod yn gymwys i gael ad-daliadau, pe bai tystiolaeth berthnasol yn dod i'r amlwg.

Nodweddion gwarchodedig

4.14 Yn Nhabl 3-1 isod, ceir crynodeb o'r effaith ar bob nodwedd warchodedig a'r mesurau ar gyfer lliniaru'r effeithiau a gynhwysir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Tabl 3-1: Yr effaith ar nodweddion gwarchodedig – Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Nodwedd warchodedig	Effeithiau posibl	Mesurau lliniaru
Oedran	Dim effeithiau negyddol na chadarnhaol uniongyrchol. Pennwyd rhai effeithiau eilaidd ar gyfer plant a phobl ifanc. Efallai y bydd y gallu i dalu ardoll yn effeithio'n wahanol ar bobl ar incwm is, e.e. pobl iau neu bobl hŷn.	Caiff pobl dan 18 oed eu heithrio rhag talu ardoll ar gyfer arosiadau cyfradd is.
Anabledd	Pe bai ardoll ymwelwyr yn cael ei chodi ar ofalwyr sy'n mynd gydag unigolion anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad, gellid dehongli y byddai hynny'n cyfateb i wahaniaethu anuniongyrchol. Y rheswm am hyn yw y gallai pobl anabl sydd angen gofalwr wynebu costau ychwanegol oherwydd bod yr ardoll yn berthnasol i'r gofalwr, pe bai'r unigolyn anabl yn ysgwyddo'r costau ychwanegol hynny.	System ad-dalu ar gyfer pobl sy'n cael budd-dal anabledd ac sy'n cael cwmni unigolyn sy'n darparu gofal, cymorth neu help.
Ailbennu rhywedd	Dim effaith negyddol uniongyrchol.	Caiff arosiadau mewn ysbytai preifat (e.e. fel rhan o broses ailbennu rhywedd unigolion) eu hesemptio rhag yr ardoll.
Priodas neu bartneriaeth sifil	Dim effaith negyddol uniongyrchol.	
Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim effaith negyddol uniongyrchol.	
2.4 Bydd arian yr ardoll yn cael ei ailfuddsoddi mewn pethau fel rheoli'r gyrchfan a gwella'r ardal. Mae Adran 44 o Ddeddf 2025 yn nodi bod yn rhaid i gynghorau ddefnyddio arian yr ardoll ar gyfer:

- lleihau'r effaith a gaiff ymwelwyr;
- cynnal a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg;
- hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
- darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau at ddefnydd ymwelwyr (pa un a fyddant at ddefnydd pobl leol hefyd, ai peidio).

Diben yr adroddiad hwn

2.5 Mae Ynys Môn yn dymuno canfod yr effaith economaidd bosibl a allai ddeillio o gyflwyno ardoll ymwelwyr.

2.6 Y man cychwyn yw adolygu'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru er mwyn deall effeithiau economaidd y Ddeddf ar lefel genedlaethol, ac i ba raddau y gallai'r dull fod yn berthnasol ar lefel fwy lleol.

[1] https://www.llyw.cymru/yr-ardoll-ymwelwyr-cyfraniad-bach-ar-gyfer-etifeddiaeth-barhaol

2.7 Mae'r sylfaen dystiolaeth mewn perthynas ag effaith economaidd ardollau ymwelwyr yn gymharol anaeddfed; o'r herwydd mae'r asesiad cenedlaethol, hyd yn oed, yn ddarostyngedig i nifer o amodau, ac mae'n ddibynnol ar ystodau eang.

2.8 Bydd y cyfyngiadau hyn yn amlycach fyth ar lefel leol. Dyma'r amodau hollbwysig sy'n berthnasol i'r asesiad lleol:

- Ceir ansicrwydd ynglŷn â faint o'r ardoll a drosglwyddir i ddefnyddwyr (modelir y sefyllfa ar sail 0% a 100% yn unig).
- Ceir cryn ansicrwydd ynglŷn ag elastigeddau'r galw – mae hyn yn wir ar lefel Cymru ac mae'n fwy acíwt fyth ar lefel Ynys Môn.
- Ar lefel genedlaethol, gellir disgwyl yn rhesymol y bydd y rhan fwyaf o wariant ymwelwyr yn cael ei gadw yng Nghymru. Nid yw hyn yn wir yn achos ardaloedd llai – er enghraifft, efallai y bydd rhywun sy'n ymweld ag Ynys Môn yn gwario rhywfaint o arian yng Ngwynedd (a *vice versa*).
- Yn yr un modd, efallai y bydd cryn dipyn o arian yr ardoll yn cael ei ddadleoli, oherwyddd efallai na fydd yr holl fusnesau a fydd yn elwa ar gontractau trwy wario'r ardoll wedi'u lleoli yn Ynys Môn.
- Yn yr asesiad cenedlaethol, rhagdybir (o reidrwydd) y bydd yr ardoll yn cael ei chodi ledled Cymru. Ar lefel Ynys Môn, byddai gwahanol effeithiau i'w cael pe bai un awdurdod lleol yn codi'r taliad ond pe na bai'r awdurdodau cyfagos yn codi'r taliad, o gymharu â sefyllfa pan fyddai'r holl awdurdodau cyfagos yn codi'r taliad.

2.9 O'r herwydd, mae nifer o amodau'n perthyn i'r asesiad lleol (Ynys Môn), a dylid darllen yr asesiad yng nghyd-destun y sylfaen dystiolaeth gymharol gyfyngedig, yn enwedig ar lefel leol.

2.10 Mae gweddill yr adroddiad yn ymdrin â'r canlynol:

- Adolygiad o'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru er mwyn deall effaith economaidd y Ddeddf (Adran 3).
- Adolygiad ehangach o lenyddiaeth er mwyn deall faint o dystiolaeth sy'n bodoli mewn perthynas â'r gallu i roi'r dull cenedlaethol ar waith ar raddfa ddaearyddol lai (Adran 4).
- Asesiad amodol o'r effaith economaidd ar lefel Ynys Môn (Adran 5)
- Croeswirio Dadansoddiad Llywodraeth Cymru, gan ystyried pwysigrwydd cymharol twristiaeth i Ynys Môn (Adran 6)
- Casgliadau (Adran 7)

3 Astudiaethau i ategu Deddf Llywodraeth Cymru – Yr Effaith Economaidd

3.1 Cynhaliwyd nifer o astudiaethau i ategu penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Ddeddf, yn cynnwys:

- 'Adolygiad tystiolaeth o elastigion sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru', Alma Economics, 2022
- 'Effeithiau Posibl Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru ar yr Economi a Nwyon Tŷ Gwydr', Ysgol Fusnes Caerdydd a Llywodraeth Cymru, 2024 – gelwir yr astudiaeth hon yn 'Ddadansoddiad Llywodraeth Cymru 2024' yn yr adroddiad hwn
- 'Dadansoddiad diwygiedig o effeithiau posibl ardoll ymwelwyr yng Nghymru ar yr economi a nwyon tŷ gwydr', Llywodraeth Cymru, 2025 – gelwir yr astudiaeth hon yn 'Ddadansoddiad Llywodraeth Cymru 2025' yn yr adroddiad hwn
- 'Adolygiad o effeithiau ardollau ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang', Prifysgol Bangor, 2024

3.2 Cynhaliwyd yr adroddiadau hyn ar lefel Cymru gyfan ac mae nifer o amodau'n perthyn iddynt.

Adolygiad tystiolaeth o elastigion sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru, Alma Economics, 2022

3.3 Cynhaliodd Alma Economics Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth. Adolygwyd y llenyddiaeth a oedd yn ymwneud ag elastigeddau sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru.

3.4 Anelwyd at amcangyfrif elastigedd pris y galw mewn perthynas â thwristiaeth a llety yn arbennig. Mae Elastigedd Pris y Galw (a elwir hefyd yn PED) yn mesur pa mor ymatebol yw'r galw am nwyddau neu wasanaethau ar ôl i'r pris newid. Mae PED negatif yn dynodi gostyngiad yn y galw ar ôl i'r pris godi. Mae elastigedd uchel yn arwydd bod y galw am nwyddau neu wasanaethau yn ymatebol iawn i newidiadau yn y pris; golyga hyn y gall newid bach yn y pris arwain at newid mawr yn y galw. Mae galw anelastig yn golygu nad yw'r galw yn ymatebol i'r pris.

3.5 Yn yr adroddiad, nodir bod yna gryn ansicrwydd a bylchau mawr yn y dystiolaeth. Hyd yn oed pan ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth berthnasol, gwelwyd amrywio mawr yn amcangyfrifon yr elastigeddau ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw astudiaeth a oedd yn nodi amcangyfrifon ar gyfer Cymru yn benodol. Ymhellach, dim ond nifer fechan o astudiaethau a oedd wedi ystyried marchnad y DU.

3.6 Gwelwyd cryn amrywio yn y canfyddiadau ar gyfer twristiaeth. Er bod y mwyafrif o'r astudiaethau (70%) wedi canfod bod twristiaeth yn anelastig, cyfeiriodd rhai astudiaethau at alw elastig. Y PED canolig cyfartalog ar draws yr holl astudiaethau oedd -0.7, a'r PED canolrifol oedd -0.9. Golyga hyn y byddai cynnydd o 1% ym mhrisiau nwyddau neu wasanaethau yn arwain at leihad o 0.7% yn y galw.

3.7 Dim ond dwy astudiaeth a aeth ati'n benodol i ystyried llety – a dangoswyd ei fod yn anelastig o ran pris (-0.7). Mae'r adroddiad yn nodi y dylid dehongli'r astudiaethau hyn gyda gofal, o gofio eu

nifer cyfyngedig. Roedd o leiaf un o'r adroddiadau hyn wedi'i seilio ar dwristiaeth ryngwladol – ac o'r herwydd, bydd yn llai perthnasol i farchnadoedd domestig.

3.8 Fel yr addefir yn yr adroddiad ei hun, ychydig iawn o dystiolaeth a ddeilliodd o'r adolygiad mewn perthynas â chwestiynau ymchwil mwy cynnil ac amwys, yn cynnwys (i) mewnwelediad i'r hyn sy'n ysgogi ymddygiad ymwelwyr, (ii) effaith ardollau ymwelwyr neu elfennau o'r fath ar y galw ym maes twristiaeth, (iii) y modd y gall yr elastigeddau a archwiliwyd amrywio gan ddibynnu ar nodweddion twristiaid (e.e. ar sail nodweddion gwarchodedig).

3.9 Hefyd, mae'r adroddiad ei hun yn nodi mai ychydig iawn o dystiolaeth a geir yn yr astudiaethau hyn mewn perthynas â gwahaniaethau a allai ddigwydd ar lefel is-ranbarthol, gan fod y mwyafrif o'r astudiaethau'n canolbwyntio ar effeithiau cenedlaethol a/neu dwristiaeth ryngwladol.

Effeithiau Posibl Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru ar yr Economi a Nwyon Tŷ Gwydr, Ysgol Fusnes Caerdydd a Llywodraeth Cymru, 2024

3.10 Mae'r adroddiad hwn yn amcangyfrif effeithiau ardoll ar lefel Cymru ar yr economi a nwyon tŷ gwydr. Rydym wedi adolygu'r adroddiad er mwyn deall i ba raddau y gellid defnyddio dull tebyg i amcangyfrif effaith ardoll ymwelwyr mewn Awdurdodau Lleol unigol.

3.11 Mae'r adroddiad yn cynnwys dwy senario:

i. Trosglwyddo'r holl ardoll o fusnesau i ddefnyddwyr.

ii. Caiff yr holl ardoll ei hamsugno gan fusnesau.

3.12 Nid yw'r dadansoddiad yn ystyried newidiadau'n ymwneud â'r cyflenwad, megis darparwyr yn gadael y farchnad oherwydd yr ardoll.

i. Trosglwyddo'r holl ardoll o fusnesau i ddefnyddwyr

3.13 Mae'r astudiaeth yn cyfrifo'r effaith debygol ar ffurf tair senario (optimistaidd, niwtral a phesimistaidd) ar sail ystod o elastigeddau sydd wedi deillio o astudiaeth Alma. Cymhwysir y rhain at wahanol segmentau o ymwelwyr (dau segment domestig gyda phatrymau gwario gwahanol ac ymwelwyr tramor). Mae hyn yn esgor ar newid yng ngalw'r defnyddwyr ar gyfer pob segment.

3.14 Mae'r adroddiad yn defnyddio elastigeddau sydd wedi deillio o astudiaeth economaidd Alma – sef astudiaeth (fel y nodir uchod) a chanddi gryn ansicrwydd a bylchau mewn data, ac sy'n seiliedig ar dwristiaeth ryngwladol ac effeithiau cenedlaethol. Tasg anos fydd cymhwyso elastigeddau cenedlaethol at Awdurdodau Lleol, yn hytrach nag at Gymru gyfan.

3.15 Mae'r astudiaeth yn rhagdybio bod elastigedd pris y galw yn bwydo'n uniongyrchol i'r economi – h.y. bod y cynnydd yn yr ardoll yn esgor ar leihad yn y galw (oddi mewn i ardal yr astudiaeth), sy'n arwain at ostyngiad yng nghyfanswm gwariant y trip (hefyd yn ardal yr astudiaeth). Gallai hyn ddigwydd gan nad yw pobl yn ymweld ag ardal yr astudiaeth, neu gan eu bod yn ymweld ag ardal yr astudiaeth am gyfnod byrrach, o ganlyniad i'r ardoll.

3.16 Yna, mae'r model yn defnyddio tablau Mewnbwn-Allbwn i bennu effaith debygol Economi Cymru.

ii. Caiff yr holl ardoll ei hamsugno gan fusnesau

3.17 Mae'r senario hon yn rhagdybio na ddaw unrhyw newid i ran nifer yr ymwelwyr na maint y refeniw, ac y bydd busnesau'n amsugno'r holl gostau. Mae'r adroddiad yn rhagdybio na cheir newidiadau'n ymwneud â'r cyflenwad – h.y. na fydd busnesau'n gadael y farchnad neu'n cael eu datgymell rhag ymuno â'r farchnad yn y dyfodol; yn hytrach, cymerir yr ardoll o allbwn y busnesau.

3.18 Rhagdybir na fydd swyddi'n cael eu colli, ac mai'r unig beth a welir fydd gostyngiad mewn cyflogau (ac elfennau eraill yn ymwneud â'r allbwn). Mae hyn yn debygol o danamcanu nifer y swyddi a gollir – mewn gwirionedd, byddai colli refeniw yn arwain at ostyngiad yn nifer y staff yn ogystal â gostyngiad mewn cyflogau.

Problemau ac Amodau

3.19 Mae'r adroddiad ei hun yn nodi amodau hollbwysig:

- **Ansicrwydd ynghylch elastigedd prisiau:** Fel y nodir uchod, ceir cryn ansicrwydd mewn perthynas ag elastigeddau – mae hyn yn wir ar lefel Cymru, a bydd yn fwy acíwt fyth yn achos ardaloedd llai.
- **Cyflenwad llety:** Fel y nodir uchod, nid yw'r model yn ystyried newidiadau yn y cyflenwad, megis darparwyr yn gadael y farchnad oherwydd yr ardoll.
- **Rhagdybiaethau trosglwyddo:** Fel y nodir uchod, mae'r adroddiad yn asesu ystodau'r effaith debygol trwy asesu'r effaith pe bai'r ardoll yn cael ei throsglwyddo i ymwelwyr neu'n cael ei hamsugno gan fusnesau – nid yw'n asesu i ba raddau y mae'r elfennau hyn yn fwy neu'n llai tebygol o ddigwydd.
- **Costau yng Nghymru:** Dim ond costau yng Nghymru a gynhwysir yn y dadansoddiad; felly, yn ôl pob tebyg, caiff cyfanswm cost y trip ei danamcanu, yn enwedig ar gyfer tripiau rhyngwladol. O'r herwydd, bydd hyn yn arwain at oramcanu'r gostyngiad mewn tripiau rhyngwladol ar ôl rhoi'r ardoll ar waith (ac o'r herwydd, cyflwynir y senario waethaf).
- **Cyfyngiadau sy'n perthyn i'r flwyddyn sylfaen:** Oherwydd cyfyngiadau o ran data, modelir yr ardoll ar ddata twristiaeth sy'n deillio o 2019, ac addasir y cyfraddau er mwyn ystyried chwyddiant.
- **Chwyddiant yn y dyfodol:** Ni chynhwysir newidiadau a ddaw i ran y sector na chwyddiant yn y dyfodol – yr hyn a geir, i bob pwrpas, yw cipolwg mewn amser mewn blwyddyn arbennig.
- **Costau gweinyddol:** Nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys unrhyw gostau ffrithiannol neu weinyddol a allai ddeillio o unrhyw ardoll newydd.

Dadansoddiad diwygiedig o effeithiau posibl ardoll ymwelwyr yng Nghymru ar yr economi a nwyon tŷ gwydr, Llywodraeth Cymru, 2025

3.20 Yn yr adroddiad hwn, eir ati i ddiweddaru gwaith blaenorol ar gyfer dwy set o gyfraddau. Cafodd un o'r cyfraddau hyn (sef cyfradd safonol o £1.30 / cyfradd is o £0.75) ei defnyddio'n ddiweddarach yn y Ddeddf. Ni chynhwyswyd yn yr adroddiad blant na phobl ifanc sy'n aros mewn llety Cyfradd Is, gan eu bod wedi'u heithrio rhag talu'r ardoll.

3.21 Defnyddiodd yr adroddiad fethodoleg a oedd yn debyg i'r fethodoleg wreiddiol, ond nodir y canlynol: 'Mae cyfyngiadau ar amser a mynediad i saernïaeth data (data architectures) yn golygu nad oes modd cymharu ac ail weithio asesiad o effaith 2024 yn llawn nac yn llwyr.'

3.22 Yn Nhabl 3.1, nodir canlyniadau'r dadansoddiad ar lefel Cymru.

Tabl 3.1: Crynodeb o'r effeithiau tebygol yn adroddiad Llywodraeth Cymru

			Ystod debygol
Cyflogaeth	Trosglwyddo'r ardoll i ymwelwyr	Swyddi cyfwerth ag amser llawn	-400 i 100
	Busnesau'n amsugno'r ardoll	Swyddi cyfwerth ag amser llawn	360
Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol (£m)	Trosglwyddo'r ardoll i ymwelwyr		-£7.5m i +£11.1m
	Busnesau'n amsugno'r ardoll		-£32.3m

Adolygiad o effeithiau ardollau ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang, Prifysgol Bangor, 2024

3.23 Cynhaliodd Prifysgol Bangor adolygiad o dystiolaeth ryngwladol yn ymwneud ag effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardollau ymwelwyr mewn gwahanol gyrchfannau byd-eang. Yna, cyflwynwyd argymhellion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithredu'r ardoll.

3.24 Yn yr adroddiad, nodir pum astudiaeth achos / ardal sydd wedi rhoi ardollau ymwelwyr ar waith – sef ardaloedd sy'n debyg i Gymru o ran eu dibyniaeth ar y sector twristiaeth a/neu o ran eu cyd-destun cymdeithasol, diwylliannol a/neu amgylcheddol. Golyga hyn fod yr astudiaethau achos yn cynnwys mannau a oedd, fel Cymru, yn ddibynnol ar eu diwydiant twristiaeth.

3.25 Canolbwyntiodd yr adroddiad ar weithredu'r ardoll – yn cynnwys y pethau y gellir gwario'r ardoll arnynt, yr awdurdod penderfynu a'r broses benderfynu, atebolrwydd lleol, cwmpas y prosiect a'r gweithgareddau a ariennir, effaith y prosiectau a ariennir (nodir diffyg tystiolaeth), a'r angen am dryloywder, atebolrwydd, monitro a gwerthuso.

3.26 Ni chanolbwyntiwyd ar yr effaith a gaiff yr ardoll ar y sector twristiaeth yn benodol; er, nodir rhai pwyntiau hollbwysig sy'n llywio ein hadroddiad:

- Tystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael mewn perthynas ag effeithiau trethi twristiaeth: '**Prin yw'r asesiadau cynhwysfawr o effeithiau trethi twristiaeth**, er gwaethaf y cymhellion amlwg dros eu rhoi ar waith'.
- Yn gyffredinol, gwelir **twf parhaus o un flwyddyn i'r llall mewn twristiaeth yn y lleoliadau sydd wedi cyflwyno ardoll ymwelwyr** (er, ni allwn wybod beth fyddai'r sefyllfa wrthffeithiol pe na bai'r ardoll wedi'i chyflwyno).
- **Mae rhai lleoliadau'n dewis amrywio'r dreth yn ystod gwahanol dymhorau** – er enghraifft, mae Ynysoedd Baleares wedi rhoi dwy ardoll ar wahân ar waith, sef €0.25 – €1 y pen, y noson yn ystod y tymor tawelaf (Tachwedd – Ebrill) a €1 – €4 y pen, y noson yn ystod y

tymor prysuraf (Mai – Hydref).[2] **Ond mae lleoliadau eraill wedi penderfynu peidio â gwneud hyn:** ym Mareo a San Martin, lle mae nifer yr ymwelwyr yn amrywio'n fawr o dymor i dymor (mae niferoedd yr ymwelwyr yn ystod y pedwar mis prysuraf fwy na deg gwaith yn fwy na niferoedd yr ymwelwyr yn ystod y pedwar mis tawelaf), codir ardoll ar gyfradd safonol drwy gydol y flwyddyn (sef €1.50 – €3.50 y pen, y noson).

- Mae rhai lleoliadau (Catalonia / Barcelona ac Ynysoedd Baleares) yn **amrywio'r gyfradd ar sail y math o lety / ansawdd y llety** o dan sylw (yn cynnwys gwahanol gyfraddau ar gyfer gwestai â safon 'seren' wahanol). Ond mewn lleoliadau eraill, **ni cheir rhyw lawer o wahaniaethu**: ar y cychwyn, cyflwynodd Gwlad yr Iâ gyfradd safonol, ac yn ddiweddarach holltwyd y gyfradd honno'n dri chategori cyffredinol – sef gwersylla, gwestai a llongau mordeithio.

Y casgliadau a'r goblygiadau ar gyfer ein hastudiaeth

3.27 Mae'r gwaith a wnaed i ategu Llywodraeth Cymru wedi dangos bod yna fylchau yn y sylfaen dystiolaeth ar gyfer deall effaith economaidd yr Ardoll Ymwelwyr. Oherwydd hyn, mae amodau'n perthyn i'r astudiaeth o'r effaith economaidd ar lefel Cymru, a chynhwysir ystodau eang ar gyfer yr effaith bosibl.

3.28 Byddai'r un amodau a'r un problemau'n berthnasol i ddefnyddio dull Llywodraeth Cymru ar lefel fwy lleol – a byddai rhai o'r problemau'n fwy acíwt o gofio bod ardal yr astudiaeth yn llai.

3.29 Nodir y manylion uchod, ond mae'r materion hollbwysig yn cynnwys y canlynol:

- **Prin yw'r dystiolaeth berthnasol ar gyfer Elastigedd Pris y Galw** – mae dau arfarniad economaidd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r PED a nodir yn Astudiaeth Alma, sef astudiaeth genedlaethol ar gyfer twristiaeth ryngwladol i raddau helaeth. Ni cheir unrhyw astudiaeth sy'n ymwneud yn benodol â Chymru, a dim ond dwy astudiaeth sy'n ystyried llety yn benodol (yn hytrach na thwristiaeth yn gyffredinol). Mae'r dasg o ddefnyddio'r elastigeddau hyn yn fwy acíwt fyth pan fo ardal yr astudiaeth yn llai, oherwydd nid yw'n glir a yw elastigeddau cenedlaethol yn gweithredu yn yr un modd ar lefel is-ranbarthol.
- Nid yw'r dadansoddiad yn **mynegi barn ynghylch i ba raddau y gellid trosglwyddo'r ardoll** – modelir y sefyllfa ar sail trosglwyddo 0% a 100% o'r ardoll i ddefnyddwyr.
- Ymhellach, nid ystyrir **newidiadau yn y cyflenwad** – h.y. nid ystyrir y gallai rhai busnesau adael y farchnad neu gael eu datgymell rhag ymuno â'r farchnad. Yn y senario pan drosglwyddir yr holl ardoll i fusnesau, rhagdybir na fydd swyddi'n cael eu colli (ac mai'r unig beth a welir fydd gostyngiad mewn cyflogau).
- **Ychydig iawn o dystiolaeth a geir mewn perthynas â chwestiynau ymchwil mwy cynnil ac amwys**, yn cynnwys (i) mewnwelediad i'r hyn sy'n ysgogi ymddygiad ymwelwyr, (ii) effaith ardollau ymwelwyr neu elfennau o'r fath ar y galw ym maes twristiaeth, (iii) y modd y gall yr elastigeddau a archwiliwyd amrywio gan ddibynnu ar nodweddion twristiaid (e.e. ar sail nodweddion gwarchodedig). **Golyga hyn fod y dadansoddiad yn gwneud rhagdybiaethau llinol yn bennaf ar sail cyfartaleddau**. O'r herwydd, mae'n anodd

[2] Llywodraeth Cymru, 2024. Adolygiad o effeithiau ardollau ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang yma

cymhwyso nodweddion lleol at yr astudiaeth (ac felly, mae'n anodd addasu'r fethodoleg a ddefnyddir yn yr asesiad cenedlaethol ar gyfer asesiad mwy lleol ei natur).

- **Ni chynhwysir costau y tu allan i Gymru**. Mae hyn yn debygol o danamcanu cyfanswm cost y trip, yn enwedig ar gyfer tripiau rhyngwladol. O'r herwydd, bydd y lleihad mewn tripiau rhyngwladol yn cael ei oramcanu ar ôl rhoi'r ardoll ar waith (ac o'r herwydd, cyflwynir y senario waethaf). Bydd hyn yn digwydd ar lefel ardaloedd awdurdodau lleol hefyd (ond caiff ei wrthbwyso i ryw raddau gan wariant y tu allan i ardal yr awdurdod lleol).
- Nid yw'r dadansoddiad yn ystyried pa wariant ymwelwyr a 'gollir' o ganlyniad i wario arian ar yr ardoll – er enghraifft, pobl yn mynd ar dripiau dydd yn hytrach nag aros dros nos, trigolion Cymru yn gwario arian ar bethau eraill yn hytrach na gwario arian ar fynd ar wyliau yng Nghymru. Drachefn, mae'n debygol ein bod yn sôn am y senario waethaf o ran effaith yr ardoll ar economi Cymru. Mae'n debygol y bydd hyn yn llai perthnasol ar lefel Ynys Môn o gymharu â Chymru gyfan, oherwydd go brin bod y bobl sy'n ymweld ag Ynys Môn (ac a gânt eu datgymell gan yr ardoll) yn byw yn Ynys Môn (ond gallai rhywun sy'n byw yng Nghymru fynd ar wyliau yng Nghymru – er enghraifft, gallai rhywun sy'n byw yng Nghaerdydd wario arian yng Nghaerdydd yn hytrach na mynd ar wyliau i Ynys Môn).

4 Adolygiad pellach o'r llenyddiaeth

4.1 Aethom ati i gynnal adolygiad pellach o'r llenyddiaeth er mwyn deall i ba raddau y ceir tystiolaeth a fyddai'n

- Ei gwneud yn bosibl i addasu'r 'dull Cymru gyfan' ar gyfer asesiad lleol
- Llenwi'r bylchau tystiolaeth a nodir uchod

4.2 Cyfyngedig oedd y dystiolaeth ychwanegol ynglŷn â'r hyn a ddefnyddiwyd yn y gwaith i ategu Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r Ddeddf.

4.3 Cafwyd enghreifftiau eraill lle gwelwyd twf parhaus mewn twristiaeth o un flwyddyn i'r llall mewn lleoliadau lle cyflwynwyd ardoll ymwelwyr (er, fel y nodir uchod, ni allwn wybod beth fyddai'r sefyllfa wrthffeithiol pe na bai'r ardoll wedi'i chyflwyno).

4.4 Dyma'r cwestiynau eraill yr anelodd yr adolygiad llenyddiaeth at eu hateb:

- I ba raddau y caiff ardollau ymwelwyr eu trosglwyddo i ymwelwyr?
- Sut y mae effaith ardollau ymwelwyr yn newid o dymor i dymor neu ar sail poblogrwydd y gyrchfan?
- Sut y mae cost y llety / trip yn newid effaith yr ardoll? Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth ychwanegol i ateb y cwestiwn hwn.
- A yw ymwelwyr yn addasu gwariant ehangach eu trip os ydynt yn gorfod dwyn cost yr ardoll?

I ba raddau y caiff ardollau ymwelwyr eu trosglwyddo i ymwelwyr?

4.5 Bydd y graddau y caiff ardollau ymwelwyr eu trosglwyddo i ddefnyddwyr yn pennu ai'r defnyddwyr ynteu'r darparwyr llety a fydd yn dwyn cost yr ardoll. Fel y nodir uchod, nid yw arfarniad economaidd Llywodraeth Cymru yn mynegi barn ynglŷn â hyn; yn hytrach, modelir y sefyllfa ar sail 0% a 100%.

4.6 Mae'r llenyddiaeth yn cyflwyno tystiolaeth gymysg ynglŷn â chyfraddau trosglwyddo ardollau ymwelwyr neu gyfundrefnau treth eraill. (Ystyr 'cyfradd drosglwyddo' yw'r graddau y bydd busnesau'n trosglwyddo newidiadau yn y dreth i ddefnyddwyr, ar ffurf prisiau).

4.7 Edrychwyd ar wahanol gyfundrefnau treth er mwyn canfod y cyfraddau trosglwyddo:

- Mewn adolygiad o drethi llety yn ninasoedd yr Unol Daleithiau, gwelwyd bod trethi llety yn annhebygol o gael eu trosglwyddo'n llwyr i'r ymwelwyr – telir oddeutu 86% o'r dreth gan ymwelwyr ac amsugnir yr 14% sy'n weddill gan ddarparwyr llety ar ffurf cyfraddau llety is neu gyfraddau deiliadaeth is.[3]

[3] Hudson, S., Meng, F., So, K. K. F., Smith, S., Li, J., a Qi, R. (2021). The effect of lodging tax increases on US destinations. *Tourism Economics*, *27*(1), 205-219. Ar gael yma

- Darganfu astudiaeth y Comisiwn Ewropeaidd fod trethi'n cael eu trosglwyddo i raddau helaeth yn y tymor hir, ond cafwyd enghraifft hefyd o sefyllfaoedd pan na chânt eu trosglwyddo. Er enghraifft, mewn astudiaeth achos yn ymwneud â Disneyland Paris, dywedodd y cwmni ei fod yn annhebygol o drosglwyddo cynnydd mewn TAW (a ddaeth i rym yn 2014) i'r ymwelwyr, a hynny gan fod yr ymwelwyr yn sensitif iawn i brisiau. O'r herwydd, amsugnwyd cost y cynnydd gan Disneyland er mwyn lliniaru'r effaith ar niferoedd a gwariant ymwelwyr.[4]
- Mewn astudiaeth yn ymwneud â throsglwyddo trethi teithwyr awyr i brisiau tocynnau hedfan ledled Ewrop, amcangyfrifwyd cyfraddau trosglwyddo rhwng 20% a 56%.[5] Mae'r un astudiaeth yn nodi bod cyfran y defnyddwyr o'r baich treth a ddeilliodd o ddiwygio TAW yn Ffrainc yn cyfateb i 57%-77%.

4.8 Felly, nid yw'r adolygiad llenyddiaeth yn cynnig tystiolaeth glir ynglŷn â gwahanol lefelau trosglwyddo y gellid eu defnyddio. O'r herwydd, glynwn at y dull a ddefnyddiwyd yn Asesiad Llywodraeth Cymru – sef defnyddio ystodau.

Sut y mae effaith ardollau ymwelwyr yn newid o dymor i dymor neu ar sail poblogrwydd y gyrchfan?

4.9 Mae nifer cyfyngedig o astudiaethau wedi mesur Elastigeddau Pris y Galw ar gyfer gwahanol dymhorau, ond mae nifer o astudiaethau'n nodi bod y galw'n llai elastig yn ystod y tymhorau prysuraf o gymharu â'r tymhorau tawelaf.[6]

- Yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chydbwyso'r refeniw a'r galw yn y diwydiant gwestai yn Dubai[7], darganfuwyd bod elastigedd y galw yn uwch o lawer yn ystod y tymhorau tawelaf (ac yn is yn ystod y tymor prysuraf). Mae'n debyg bod hyn yn cael ei sbarduno i raddau helaeth gan deithio rhyngwladol – darganfu'r adroddiad nad yw gwestai lleol yn wynebu amrywiadau tymhorol mawr i'r un graddau â gwestai rhyngwladol.
- Yn yr adroddiad sy'n ymwneud ag elastigeddau pris ar gyfer gwasanaethau llety ym Mhrag, dangoswyd bod ymwelwyr yn llai elastig yn ystod y tymhorau prysuraf o gymharu â gweddill y flwyddyn, gyda ffigurau PED o -0.22 i 0.78 yn ystod y tymhorau prysuraf o gymharu â ffigurau PED o 0.10 i -0.54 trwy weddill y flwyddyn. Mae'r ffigurau PED positif yn ystod y tymor prysuraf yn awgrymu nad yw'r gydberthynas ddisgwyliedig rhwng y pris a'r galw i'w gweld bob amser.[8]

4.10 Darganfu astudiaeth y Comisiwn Ewropeaidd fod yna elastigedd uwch yn y galw mewn cyrchfannau lle ceir dewisiadau amnewidiadwy tebyg. Dangoswyd bod gwledydd Ewropeaidd sy'n agos at ei gilydd yn dal i arddangos gwahaniaethau mewn ffigurau PED oherwydd natur dymhorol yr arlwy a gynigir i dwristiaid. Ceir galw anelastig yn Sbaen gan fod nifer o gyrchfannau yn Sbaen yn cynnig profiadau 'haul a glan môr', felly ceir cryn dipyn o amnewidiadwyedd rhwng y cyrchfannau hyn. Ceir galw anelastig yn yr Eidal hefyd gan fod y wlad yn cynnig cyrchfannau ac

[4] Y Comisiwn Ewropeaidd, 2017. The Impact of Taxes on the Competitiveness of European Tourism yma
[5] Wozny, F. (2024). *Tax incidence in heterogeneous markets: The pass-through of air passenger taxes on airfares* (Rhif 16783). IZA Discussion Papers. Ar gael yma
[6] Baždar Gašljević, T., Maradin, D., a Cerović, L. (2023). Price Elasticity of Demand For Hotel Services On The Business Example Of Two Hotels In The Republic Of Croatia. *Journal of accounting and management*, *13*(1), 1-14. Ar gael yma
[7] Alrawabdeh, W. (2021). Seasonal balancing of revenue and demand in hotel industry: the case of Dubai City. *Journal of Revenue and Pricing Management*, *21*(1), 36. Ar gael yma
[8] Petříček, M., a Chalupa, Š. (2020). PRICE ELASTICITY OF DEMAND FOR ACCOMODATION SERVICES–EMPIRICAL APPLICATION IN PRAGUE. *Ad Alta: Journal of Interdisciplinary Research*, *10*(1). Ar gael yma

eithrio 'cyrchfannau arfordirol' i dwristiaid; o'r herwydd, nid yw'r wlad yn dioddef effeithiau tymhorol i'r un graddau. Ceir galw rhywfaint yn anelasig yn Ffrainc oherwydd y trethi twristiaeth a weithredir yn y wlad. Dyma'r ffigurau PED yn ystod y tymor prysuraf (sef yr haf):

- Ffrainc: -0.068 i -1.042
- Sbaen: -0.018 i -0.719
- Yr Eidal: -0.002 i -0.224[9]

4.11 Ar wahân, dangosodd yr astudiaeth o'r cynnydd mewn trethi llety mewn cyrchfannau yn yr Unol Daleithiau fod oddeutu 40% o deithwyr wedi newid eu cynlluniau oherwydd trethi teithio uchel trwy wario llai, aros yn rhywle rhatach ac ymweld yn ystod tymor tawelach.[10]

4.12 Er bod yr adolygiad llenyddiaeth wedi tynnu sylw at dystiolaeth bellach yn ymwneud ag amrywiadau tymhorol, nid yw'r dystiolaeth hon yn ddigonol i'n galluogi i bennu sut y byddai Ynys Môn yn gwahaniaethu oddi wrth y cyfartaledd ar gyfer Cymru.

A yw ymwelwyr yn addasu gwariant ehangach eu trip os ydynt yn gorfod dwyn cost yr ardoll?

4.13 Er bod yr astudiaeth o'r cynnydd mewn trethi llety mewn cyrchfannau yn yr Unol Daleithiau (y sonnir amdani uchod)[11] yn dangos bod ymwelwyr wedi ymateb i'r ardoll trwy wario llai o arian, ni fesurwyd i ba raddau y mae ymwelwyr yn gwario llai. Ac yn gyffredinol, nid yw'r llenyddiaeth yn nodi'n glir sut y byddai ymwelwyr yn addasu gwariant ehangach eu trip pe baent yn gorfod dwyn cost yr ardoll.

[9] Heffer-Flaata, H., Voltes-Dorta, A., a Suau-Sanchez, P. (2021). The impact of accommodation taxes on outbound travel demand from the United Kingdom to European destinations. *Journal of Travel Research*, *60*(4), 749-760. Ar gael yma
[10] Hudson, S., Meng, F., So, K. K. F., Smith, S., Li, J., & Qi, R. (2021). The effect of lodging tax increases on US destinations. *Tourism Economics*, *27*(1), 205-219. Ar gael yma
[11] Ibid

5 Asesiad amodol o'r effaith economaidd ar lefel Ynys Môn

5.1 Fel y nodir yn yr adrannau blaenorol, ni cheir tystiolaeth ddigonol i'n galluogi i fodelu union effaith yr ardoll mewn modd manwl gywir. Ychwaith, ni cheir tystiolaeth ddigonol ynglŷn â'r modd y byddai gwahanol senarios yn effeithio ar faint yr effaith (er enghraifft, a fyddai awdurdodau lleol eraill yn codi'r ardoll hefyd).

5.2 O'r herwydd, rydym wedi rhoi dull deuol ar waith er mwyn cyflwyno ystodau (gan ddilyn dull Llywodraeth Cymru fwy neu lai) a gwirio synnwyr amrediad tebygol yr effaith:

- Atgynhyrchiad amodol o ddull Llywodraeth Cymru. Gweler Adran 5.
- Croeswirio Dadansoddiad Llywodraeth Cymru, gan ystyried pwysigrwydd cymharol twristiaeth i Ynys Môn. Gweler Adran 6.

Atgynhyrchiad amodol o ddull Llywodraeth Cymru

5.3 Rydym wedi defnyddio dull tebyg i'r un a ddefnyddiwyd yn nadansoddiad Llywodraeth Cymru 2025 i amcangyfrif yr effeithiau ar lefel Ynys Môn. Fel yn achos dull Llywodraeth Cymru, cynhwysir 'ystodau' gyda dwy senario – sef un senario pan fyddai 0% o'r ardoll yn cael ei hamsugno gan fusnesau, a senario arall pan fyddai 100% o'r ardoll yn cael ei hamsugno gan fusnesau.

5.4 Mae amodau'n perthyn i'r dull hwn oherwydd, fel y nodir yn Adran 3, ceir amodau yn adroddiad Llywodraeth Cymru sydd hefyd yn berthnasol yn y fan hon, ac mewn ambell achos maent yn amlycach fyth mewn asesiadau a gynhelir ar lefel leol.

5.5 Dyma'r amodau hollbwysig sy'n berthnasol i'r asesiad lleol:

- Ar lefel genedlaethol, gellir disgwyl yn rhesymol y bydd y rhan fwyaf o wariant ymwelwyr yn cael ei gadw yng Nghymru. Nid yw hyn yn wir yn achos ardaloedd llai – er enghraifft, efallai y bydd rhywun sy'n ymweld ag Ynys Môn yn gwario rhywfaint o arian yng Ngwynedd (a *vice versa*). At ddibenion yr asesiad hwn, rhagdybiwn y bydd yr holl wariant yn cael ei 'golli' o Ynys Môn, felly dyma'r senario waethaf o ran yr effaith ar yr economi ymwelwyr.
- Yn yr un modd, efallai y bydd cryn dipyn o arian yr ardoll yn cael ei ddadleoli, oherwydd efallai na fydd yr holl fusnesau a fydd yn elwa ar gontractau trwy wario'r ardoll wedi'u lleoli yn Ynys Môn. Er mwyn bod yn geidwadol, rydym wedi rhagdybio y bydd cryn dipyn o'r arian (50%) yn cael ei ddadleoli ac rydym wedi profi lefel ddadleoli is fel prawf sensitifrwydd.
- Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn rhagdybio y bydd newid ym mhris twristiaeth (h.y. yr ardoll) yn arwain at ostwng y galw am dwristiaeth. Nid ystyrir newidiadau ym mhatrymau gwario ymwelwyr yn ystod y trip (er enghraifft, lleihau costau eraill y trip yn unol â chost yr ardoll). Mae'n debyg mai dyma'r senario waethaf o ran effaith yr ardoll ar economi Cymru (gan ragdybio y bydd y ffigurau PED yn cipio'r holl newidiadau yn ymddygiad yr ymwelwyr). Defnyddir yr un dull yn yr asesiad lleol – unwaith eto, dyma'r senario waethaf yn ôl pob tebyg.

- Ceir cryn ansicrwydd ynglŷn ag elastigeddau'r galw – mae hyn yn wir ar lefel Cymru ac mae'n fwy acíwt fyth pan fo ardal yr astudiaeth yn llai. Nid oes unrhyw dystiolaeth amgen ar gael, felly rydym wedi defnyddio'r ystodau a ddefnyddiwyd yn asesiad Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag elastigeddau'r galw.
- Yn yr asesiad cenedlaethol, rhagdybir (o reidrwydd) y bydd yr ardoll yn cael ei chodi ledled Cymru. Byddai gwahanol effeithiau i'w cael pe bai un awdurdod lleol yn codi'r taliad ond pe na bai'r awdurdodau cyfagos yn codi'r taliad, o gymharu â sefyllfa pan fyddai'r holl awdurdodau cyfagos yn codi'r taliad. Nid oes modd asesu'n fanwl gywir beth fydd effaith y gwahanol gyfuniadau hyn mewn perthynas â pha awdurdodau a fydd yn codi'r ardoll, ond ystyrir maint yr effaith.
- Yn y senario lle trosglwyddir yr ardoll i fusnesau, nid ystyrir newidiadau'n ymwneud â'r cyflenwad, megis darparwyr yn gadael y farchnad oherwydd yr ardoll.
- Ymhellach, nid ystyrir unrhyw ostyngiad mewn cyflogaeth a rhagdybir y deuir o hyd i'r arbedion yng 'ngwerth ychwanegol' y busnesau. Mewn gwirionedd, byddai'n arwain at ostyngiad yn nifer y swyddi hefyd, yn ôl pob tebyg.

5.6 Fel yn achos dadansoddiad Llywodraeth Cymru, nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys chwyddiant (ystyrir yr effaith flynyddol pe bai'r ardoll ar waith yn 2024 – sef y flwyddyn ddiwethaf lle ceir data perthnasol). Ychwaith, nid yw'n cynnwys costau gweinyddol, ac nid yw'n cynnwys costau sydd y tu allan i Gymru (golyga hyn fod y dadansoddiad yn goramcanu rhywfaint ar effaith yr ardoll, yn ôl pob tebyg, yn enwedig ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol – a fydd yn talu costau uwch y tu allan i Gymru).

5.7 Oherwydd y diffyg tystiolaeth, ceir rhagdybiaethau (megis elastigeddau'r galw) lle nad ydym wedi mynd ati i lunio rhagdybiaethau sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn; yn hytrach, nodir a yw'r amcangyfrifon yn debygol o fod wedi tanamcanu neu oramcanu'r effeithiau, a darperir profion sensitifrwydd fel y bo'n briodol.

5.8 Rhagdybir y codir TAW ar yr Ardoll Ymwelwyr.

Trosglwyddo'r ardoll yn gyfan gwbl i dwristiaid

5.9 Yn yr adran hon, rhagdybir y bydd yr holl ardoll ymwelwyr yn cael ei throsglwyddo i ddefnyddwyr. Yn gyntaf, ystyrir yr effaith a ddaw yn sgil colli gwariant ymwelwyr, ac yna ystyrir i ba raddau y byddai gwariant yr ardoll ei hun yn gwrthbwyso'r golled.

Effaith y golled bosibl o ran gwariant ymwelwyr

5.10 Yn ôl Arolwg Twristiaeth Prydai Fawr, mae 0.28m o ymwelwyr dros nos domestig yn ymweld ag Ynys Môn bob blwyddyn. Ar gyfartaledd, maent yn treulio 4 noson ac yn gwario £305 y pen ar bob trip.

Tabl 5.1: Ymweliadau dros nos domestig ag Ynys Môn

	Cyfanswm (Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr) (cyfartaledd dros 2022-2024)
Cyfanswm yr ymweliadau ag Ynys Môn o du ymwelwyr dros nos domestig	0.28m
Cyfanswm nosweithiau gwely domestig ar gyfer Ynys Môn	1.142m
Hyd cyfartalog y trip (nosweithiau)	4.0
Cyfanswm gwariant dros nos domestig ar gyfer Ynys Môn (yn cynnwys TAW)	£86.33m
Cost fesul trip (yn cynnwys TAW)	£305
Cost fesul noson (yn cynnwys TAW)	£76

5.11 Nid oes data ar gael ynglŷn â gwahanol fathau o lety ar gyfer Ynys Môn – h.y. pa un a oedd yr ymwelwyr yn perthyn i'r band is neu i'r band safonol at ddibenion yr ardoll ymwelwyr.

5.12 Ond gallwn lunio rhagdybiaethau ynglŷn â'r rhaniad ar sail dwy set ddata:

- Data'n ymwneud â nifer y mannau gwely yn ôl math o lety fesul awdurdod lleol – gellir cymharu'r data hwn â chyfanswm y nosweithiau gwely ar gyfer Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr.
- Data'n ymwneud â rhaniad yr ymwelwyr rhwng llety band is a llety band safonol yng Nghonwy a Gwynedd.

5.13 Trwy gymharu'r setiau data hyn, awgrymir bod gan Ynys Môn gyfraddau deiliadaeth uwch nag awdurdodau lleol cyfagos (Gwynedd neu Gonwy).

5.14 Mae hyn yn esgor ar ddwy senario – (1) Senario arffin isaf sy'n rhagdybio'r un gymhareb rhwng mannau gwely a nosweithiau gwely yng Ngwynedd, gan ehangu i gyrraedd cyfanswm nosweithiau gwely Ynys Môn. (2) Senario graidd sy'n rhagdybio bod y gymhareb 'mannau gwely:deiliaid' yn aros yr un fath ar gyfer llety band is, a bod y gyfradd ddeiliadaeth uwch yn Ynys Môn yn deillio o ddeiliadaeth uwch mewn llety safonol. Cynhwysir y senario arffin isaf fel prawf sensitifrwydd yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Tabl 5.2: Ymweliadau dros nos domestig ag Ynys Môn – amcangyfrifir y rhaniad rhwng gwahanol fathau o lety

Ymwelwyr sy'n byw yn y DU	Arffin isaf – (llety safon is)			Craidd		
	Band Safonol (amcangyfrif)	Band Is (amcangyfrif)	CYFANSWM (Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr)	Band Safonol (amcangyfrif)	Band Is (amcangyfrif)	CYFANSWM (Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr)
Ymwelwyr (tripiau)	143,800	139,638	283,438	240,710	42,728	283,438
Nosweithiau gwely	565,204	576,915	1,142,120	950,284	191,836	1,142,120
Hyd cyfartalog y trip (nosweithiau)	3.9	4.1	4.0	3.9	4.5	4.0
Gwariant dros nos	£50.57m	£35.76m	£86.33m	£76.23m	£10.09m	£86.33m
Cost fesul trip	£352	£256	£305	£317	£236	£305
Cost fesul noson	£89	£62	£76	£80	£53	£76

5.15 Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru 2025 yn amcangyfrif bod 22% o'r rhai mewn llety Band Is yn blant, a'u bod felly yn esempt rhag talu'r ardoll. Tybir y bydd y rhagdybiaeth hon yn wir ar lefel Ynys Môn – pan fydd cyfran y plant yn llai, bydd effaith yr ardoll yn fwy; ac, i'r gwrthwyneb, pan fydd cyfran y plant yn fwy, bydd effaith yr ardoll yn llai.

5.16 Dim ond ymwelwyr cymwys a gynhwysir yn y tabl isod (h.y. ni chynhwysir plant sy'n aros mewn llety band is). Hefyd, cynhwysir data'n ymwneud ag ymwelwyr rhyngwladol (a ddeilliodd o'r arolwg o ymwelwyr rhyngwladol).

5.17 Sylwer: rhagdybir bod yr holl ymwelwyr rhyngwladol yn aros mewn llety safonol a'u bod, o'r herwydd, yn talu'r ardoll. Pe bai'r grŵp hwn yn cynnwys plant sy'n aros mewn llety arffin isaf, byddai effaith yr ardoll yn llai.

Tabl 5.3: Yr holl ymweliadau dros nos cymwys ag Ynys Môn – y rhaniad rhwng mathau o lety a mathau o ymwelwyr – senario graidd

	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Safonol)	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Is)	Ymwelwyr rhyngwladol
Ymweliadau dros nos cymwys	240,710	33,328	41,497
Nosweithiau gwely cymwys yn Ynys Môn	950,284	149,632	218,434
Hyd cyfartalog y trip (nosweithiau)	3.9	4.5	5.3
Gwariant dros nos cymwys yn Ynys Môn (yn cynnwys TAW)	£76.23m	£7.87m	£25.03m

Cost fesul trip	£317	£236	£603
Cost fesul noson	£80	£53	115

5.18 Mae'r ardoll yn cyfateb i £1.30 y pen y noson ar gyfer llety safonol, a 75c ar gyfer llety band is. Rhagdybir y codir TAW, felly bydd y costau'n cynyddu i £1.56 a 90c. Ar sail hyd cyfartalog y tripiau a chyfanswm cost y tripiau, amcangyfrifir y byddai'r ardoll ymwelwyr yn cyfateb i 1.1%-2.3% o gost y trip, gan ddibynnu ar y math o drip / ymwelydd.

5.19 Rhagdybir bod yr elastigedd yn -0.74. Mae hyn yn cyd-fynd ag arfarniad Llywodraeth Cymru 2025 (ar gyfer y senario niwtral). Hefyd, rydym wedi profi'r elastigedd mwy pesimistaidd (-1.12) a'r elastigedd mwy optimistaidd (-0.38) sy'n deillio o arfarniad Llywodraeth Cymru – cyflwynir yr amrediad hwn ar ddiwedd yr adran hon.

5.20 Fel y nodir uchod, ychydig iawn o dystiolaeth a geir ynglŷn ag elastigeddau lleol o ganlyniad i ardollau ymwelwyr – caiff y dadansoddiad cymharol gyfyngedig sy'n bodoli ei seilio ar dystiolaeth genedlaethol. Yn absenoldeb tystiolaeth fwy 'lleol' ei natur, defnyddiwyd ystod o luosyddion.

5.21 Dylid nodi hefyd y bydd elfen arall yn effeithio (i ryw raddau) ar elastigedd y galw yn Ynys Môn – sef a fydd awdurdodau lleol cyfagos yn cyflwyno'r ardoll ymwelwyr, ai peidio. Os mai Ynys Môn fydd yr unig awdurdod a fydd yn penderfynu cyflwyno'r ardoll, yn ôl pob tebyg gwelir mwy o effaith ar ymddygiad ymwelwyr (oherwydd efallai y bydd ymwelwyr yn dewis ymweld â Gwynedd neu Gonwy yn hytrach nag Ynys Môn). Ond os bydd ychwaneg o awdurdodau lleol yn cyflwyno taliad, mae'n debygol y gwelir llai o effaith.

5.22 Wrth ddefnyddio'r lluosydd niwtral (-0.74), gwelir gostyngiad yn y galw – sef gostyngiad o 0.8%-1.7% gan ddibynnu ar y math o drip / ymwelydd.

Tabl 5.4: Newid yn y galw o ganlyniad i'r ardoll – senario graidd

	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Safonol)	**Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Is)**	**Ymwelwyr rhyngwladol**
Ardoll y pen, y noson (heb gynnwys TAW)	£1.30	£0.75	£1.30
Ardoll y pen, y noson (yn cynnwys TAW)	£1.56	£0.90	£1.56
Hyd cyfartalog y trip (nosweithiau)	3.9	4.5	5.3
Gwariant cyfartalog fesul trip (yn cynnwys TAW)	£317	£236	£603
Ardoll Ymwelwyr fesul trip:	£5.51	£5.39	£6.82
a) Ar ffurf % o gost y trip	1.7%	2.3%	1.1%
b) Elastigedd	-0.74	-0.74	-0.74
Newid canrannol yn y galw o du defnyddwyr (a x b)	-1.3%	-1.7%	-0.8%

5.23 Mae'r gostyngiad hwn yn y galw yn esgor ar ostyngiad o £1.3m yng ngwariant ymwelwyr bob blwyddyn (yn cynnwys TAW), ac £1.1m (heb gynnwys TAW).

5.24 Ni fyddai'r holl arian hwnnw wedi cael ei wario yn Ynys Môn – byddai rhywfaint o'r arian wedi cael ei wario mewn awdurdodau lleol eraill (naill ai yn ystod tripiau dydd neu yn ystod y siwrnai). Ond er mwyn bod yn geidwadol, rhagdybir mai Ynys Môn a fydd yn teimlo'r golled i gyd. Bydd hyn yn goramcanu'r effaith (negyddol) ar economi Ynys Môn.

Tabl 5.4: Y golled o ran gwariant tripiau – senario graidd

	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Safonol)	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Is)	Ymwelwyr tramor (Band Safonol)	Cyfanswm
Gwariant dros nos cymwys yn Ynys Môn (yn cynnwys TAW)	£76.2	£7.9	£25.0	£109.1
Y newid canrannol yn y galw	-1.3%	-1.7%	-0.8%	
Gwariant yr Ardoll Ymwelwyr ar ôl y trip (£m) (yn cynnwys TAW)	£75.2	£7.7	£24.8	£107.8
Colledion gros yn ymwneud â gwariant tripiau (uniongyrchol) (£m)	-£0.98	-£0.13	-£0.21	-£1.3
Colledion gros yn ymwneud â gwariant tripiau (uniongyrchol) (£m)	**-£0.82**	**-£0.11**	**-£0.17**	**-£1.10**

5.25 Ar sail lluosyddion Llywodraeth Cymru ar gyfer 'llety a bwyd', cynhwysir effeithiau anuniongyrchol ac effeithiau a ysgogir hefyd. Drachefn, ni fyddai pob un o'r rhain wedi cael eu teimlo yn Ynys Môn; felly, yn ôl pob tebyg, caiff effaith (negyddol) y colledion o ran gwariant yn sgil codi'r ardoll ei goramcanu.

5.26 Rydym wedi cymhwyso lluosydd math 1 (sy'n cipio effeithiau uniongyrchol ac effeithiau anuniongyrchol) a lluosydd math 2 (sy'n cipio effeithiau uniongyrchol, effeithiau anuniongyrchol ac effeithiau a ysgogir) ar gyfer llety a bwyd[12] – defnyddir hyn fel procsi ar gyfer yr holl wariant ac mae'n debygol o gipio'r mwyafrif o'r patrymau gwario.

5.27 Mae hyn yn esgor ar golled o £0.8m-£0.9m mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol bob blwyddyn – sy'n cyfateb i golli 22-25 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

[12] Seilir hyn ar luosyddion economaidd dangosol Llywodraeth Cymru (tablau mewnbwn-allbwn): 2019

Tabl 5.5: Colled mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol a chyflogaeth o ganlyniad i golli gwariant ymwelwyr – senario graidd

	Math 1	Math 2
Newid mewn allbwn blynyddol uniongyrchol (heb gynnwys TAW)	-£1.1m	-£1.1m
Lluosydd	1.23	1.39
Newid yng nghyfanswm yr allbwn blynyddol	-£1.4m	-£1.5m
Y Gymhareb Allbwn:Gwerth Ychwanegol Gros	0.58	0.58
Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol	**-£0.8m**	**-£0.9m**
Gwerth Ychwanegol Gros fesul Cyflogaeth Cyfwerth ag Amser Llawn (llety a bwyd) yn Ynys Môn	£35,492	£35,492
Newid mewn Cyflogaeth Cyfwerth ag Amser Llawn	**-22**	**-25**

Effaith gwariant yr Ardoll Ymwelwyr

5.28 Bydd yr ardoll ymwelwyr yn esgor ar gynyddu gweithgarwch economaidd. Gellir gwario'r ardoll ymwelwyr ar y canlynol:

- lliniaru'r effaith a gaiff ymwelwyr;
- cynnal a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg;
- hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
- darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau at ddefnydd ymwelwyr (pa un a fyddant at ddefnydd pobl leol hefyd, ai peidio).

5.29 At ddibenion yr asesiad hwn, rhagdybir y bydd yr effaith yn cael ei theimlo'n gyfartal ar draws gwahanol sectorau o'r economi (ac o'r herwydd defnyddiwyd cyfartaleddau ar gyfer Ynys Môn). Gellir diweddaru hyn pan ddaw rhagor o wybodaeth i law ynglŷn â'r modd y gellir buddsoddi arian yr ardoll ymwelwyr.

5.30 Byddai'r ardoll yn esgor ar £1.6m o wariant ychwanegol (gweler Tabl 5.6) – mae'r ffigur hwn yn ystyried y gostyngiad yn y galw o ganlyniad i'r ardoll ac mae'n eithrio plant sy'n aros mewn llety band is. Ni fyddai'r holl arian yn cael ei wario ar gyflogwyr Ynys Môn, felly cymhwysir cyfradd ddadleoli o 50%. Mae'r amcangyfrif hwn yn geidwadol (ac mae'n debygol o oramcanu faint o arian a gaiff ei ddadleoli). Cynhwysir cyfradd ddadleoli is mewn prawf sensitifrwydd.

5.31 Drachefn, cymhwysir lluosyddion math 1 a math 2 a chymhareb Gwerth Ychwanegol Gros:allbwn[13] – mae hyn yn esgor ar gynnydd o oddeutu £0.5m mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol yn Ynys Môn, gan gefnogi 6-7 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (gweler Tabl 5.7).

[13] Seilir y lluosyddion a'r gymhareb ar luosyddion economaidd dangosol Llywodraeth Cymru (tablau mewnbwn-allbwn): 2019

Tabl 5.6: Colled o ran gwariant tripiau a refeniw'r ardoll – senario graidd

	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Safonol)	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Is)	Ymwelwyr tramor (Band Safonol)	Cyfanswm
Nosweithiau gwely ar ôl yr ardoll (miliynau)	0.94	0.15	0.22	£1.3
Ardoll y pen, y noson (heb gynnwys TAW)	£1.30	£0.75	£1.30	
Refeniw'r Ardoll Ymwelwyr (heb gynnwys TAW) (£m)	**£1.2**	**£0.1**	**£0.3**	**£1.6**
Refeniw'r Ardoll Ymwelwyr (yn cynnwys TAW) (£m)	£1.48	£0.13	£0.34	£2.0

Tabl 5.7: Cynnydd mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol a chyflogaeth o ganlyniad i wariant yr Ardoll Ymwelwyr – senario graidd

	Senario Isel – Math 1	Senario Uchel – Math 2
Refeniw'r Ardoll Ymwelwyr (heb gynnwys TAW) – allbwn uniongyrchol	£1.6m	£1.6m
Dadleoli	50%	50%
Refeniw'r Ardoll Ymwelwyr (heb gynnwys TAW) yn Ynys Môn – allbwn uniongyrchol	£0.8m	£0.8m
Lluosydd	1.21	1.33
Newid yng nghyfanswm yr allbwn (yn cynnwys allbwn uniongyrchol) yn Ynys Môn	£1.0m	£1.1m
Y gymhareb Allbwn:Gwerth Ychwanegol Gros	0.5	0.5
Newid yng Ngwerth Ychwanegol Gros Ynys Môn	**£0.50m**	**£0.55m**
Gwerth Ychwanegol Gros fesul Cyflogaeth Cyfwerth ag Amser Llawn ar draws pob diwydiant (Ynys Môn)	£80,541	£80,541
Newid yng Nghyflogaeth Cyfwerth ag Amser Llawn Ynys Môn	**6**	**7**

Cyfanswm effaith yr ardoll

5.32 Mae effaith gyfunol yr ardoll yn cyfateb i'r golled mewn gwariant ymwelwyr a'r cynnydd mewn gweithgarwch economaidd o ganlyniad i wariant yr ardoll yn Ynys Môn.

5.33 Yn y senario graidd, rhagwelir y bydd effaith gyfunol yr ardoll yn cyfateb i golled o £0.3m mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol (sef gostyngiad o 0.02% yng Ngwerth Ychwanegol Gros blynyddol Ynys Môn), a hefyd rhagwelir y bydd 16-18 o swyddi'n cael eu colli (sef 0.1% o weithlu Ynys Môn). Mae'r senario graidd, hyd yn oed, yn gymharol geidwadol (pesimistaidd), oherwydd

rhagdybir mai Ynys Môn a fydd yn dioddef yr holl golledion mewn gwariant ymwelwyr, a hefyd rhagwelir mai dim ond hanner y manteision a ddaw i ran Ynys Môn yn sgil gwario arian yr ardoll.

5.34 Seilir y senario graidd ar elastigedd o -0.74. Trwy ddefnyddio elastigedd optimistaidd Llywodraeth Cymru (0.38), caiff yr effaith o ran swyddi ei lleihau (sef colli 5-6 o swyddi) a cheir cynnydd o £0.1m mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol.

5.35 Mae cymhwyso elastigedd mwy pesimistaidd (-1.12) yn esgor ar golli mwy o swyddi (hyd at 31) a cholled flynyddol o £0.8m mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol.

Tabl 5.8: Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol a chyflogaeth – effaith gyfunol – y senario graidd

	Arffin Isaf (ar sail elastigeddau)	**Craidd (ar sail elastigeddau)**	**Arffin Uchaf (ar sail elastigeddau)**
Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol	**-£0.7m i -£0.8m**	**-£0.3m**	**£0.09m**
Gwerth Ychwanegol Gros Ynys Môn (2023)	£1,455m	£1,455m	£1,455m
Canran amcangyfrifedig Gwerth Ychwanegol Gros Ynys Môn	-0.05% i -0.06%	-0.02%	0.01%
Newid mewn Cyflogaeth Cyfwerth ag Amser Llawn	**-28 i -31 o swyddi**	**-16 i -18 o swyddi**	**-5 i -6 o swyddi**
Cyfanswm Cyflogaeth Cyfwerth ag Amser Llawn Ynys Môn	18,065	18,065	18,065
Canran amcangyfrifedig Gweithlu Ynys Môn	-0.15% i -0.17%	-0.09% i -0.10%	-0.03%

Prawf sensitifrwydd a'r effaith ar ragdybiaethau

5.36 Uchod, gwneir nifer o ragdybiaethau sy'n effeithio ar raddfa'r effaith. Nodir y rhagdybiaethau hollbwysig yn y tabl isod, ochr yn ochr â'r goblygiadau ar gyfer maint yr effaith.

5.37 Isod, cynhelir dau brawf sensitifrwydd ychwanegol – gweler Tabl 5.10.

Tabl 5.9: Goblygiadau'r rhagdybiaethau ar faint tebygol yr effaith

	A gynhaliwyd prawf sensitifrwydd?	Goblygiad
Mae rhaniad yr ymwelwyr yn cyd-fynd â'r arffin isaf yn Nhabl 5.2: Cyfran is mewn llety safonol	Do	Fe'i profwyd mewn prawf sensitifrwydd – **newid bach iawn ym maint yr effaith**
Mae cyfran y plant mewn llety safonol yn uwch na 22%	Naddo	Effaith lai o ran colli gwariant ymwelwyr (rhagor o blant, sy'n esempt) + Effaith lai o ran gwariant yr ardoll = **Effaith lai sylweddol**
Mae cyfran y plant mewn llety safonol yn is na 22%	Naddo	Effaith fwy o ran colli gwariant ymwelwyr (llai o blant, sy'n esempt) + Effaith fwy o ran gwariant yr ardoll = **Effaith fwy sylweddol**
Elastigedd mwy pesimistaidd mewn perthynas â'r galw	Fe'i cynhwysir yn Nhabl 5.8 (arffin isaf)	Fe'i cynhwysir yn arffin isaf uchod = **Effaith fwy sylweddol**
Elastigedd mwy optimistaidd mewn perthynas â'r galw	Fe'i cynhwysir yn Nhabl 5.8 (arffin uchaf)	Fe'i cynhwysir yn arffin uchaf uchod = **Effaith lai sylweddol**
Ynys Môn fydd yr unig awdurdod lleol i gyflwyno ardoll	Ddim yn benodol	Ddim yn benodol, ond mae'n debygol o fod yn nes at 'elastigedd mwy pesimistaidd mewn perthynas â'r galw' = **Effaith fwy sylweddol**
Bydd Ynys Môn ac awdurdodau lleol cyfagos yn cyflwyno ardoll	Ddim yn benodol	Ddim yn benodol, ond mae'n debygol o fod yn nes at 'elastigedd mwy optimistaidd mewn perthynas â'r galw' = **Effaith lai sylweddol**
Lefel ddadleoli is (25%)	Do	Fe'i profwyd mewn prawf sensitifrwydd = **Effaith lai sylweddol**

Tabl 5.10: Profion sensitifrwydd

	Craidd	Cyfran is mewn llety safonol	Lefel ddadleoli is (25%)
Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol	**-£0.3m**	**-£0.3m i -£0.4m**	**-£0.05m i -£0.08m**
Gwerth Ychwanegol Gros Ynys Môn (2023)	£1,455m	£1,455m	£1,455m
Canran amcangyfrifedig Gwerth Ychwanegol Gros Economi Ynys Môn	-0.02%	-0.02% i 0.03%	< -0.01%
Newid mewn Cyflogaeth Cyfwerth ag Amser Llawn	**-16 i -18 o swyddi**	**-16 i -18 o swyddi**	**-13 i -15 o swyddi**

Cyfanswm Cyflogaeth Cyfwerth ag Amser Llawn Ynys Môn	18,065	18,065	18,065
Canran amcangyfrifedig Gweithlu Ynys Môn	-0.09% i -0.10%	-0.09% i -0.10%	-0.07% i -0.08%

Darparwyr llety yn ysgwyddo'r ardoll ymwelwyr yn llwyr

5.38 Mae'r senario hon yn rhagdybio y bydd busnesau'n amsugno cost yr Ardoll Ymwelwyr – sy'n golygu na fydd lefel yr ymwelwyr sy'n ymweld ag Ynys Môn yn newid. Golyga hyn y bydd busnesau'n amsugno £1.96m yn cynnwys TAW (dyma'r senario waethaf, oherwydd bydd rhai busnesau'n trosglwyddo'r TAW).

Tabl 5.11: Cyfanswm y gost a amsugnir gan y busnes

	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Safonol)	**Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Is)**	**Ymwelwyr rhyngwladol**	**CYFANSWM**
Nosweithiau gwely cymwys yn Ynys Môn	0.95m	0.15m	0.2m	1.3m
Ardoll y pen, y noson (yn cynnwys TAW)	£1.56	£0.90	£1.56	
Cyfanswm y gost a amsugnir	£1.48m	£0.13m	£0.34m	£1.96m

5.39 Bydd busnesau'n amsugno £1.96m o gostau ychwanegol, a defnyddir refeniw'r busnesau i dalu'r costau hyn. Mae arfarniad Llywodraeth Cymru yn rhagdybio y bydd modd 'dod o hyd' i'r arian hwn yng ngwerth ychwanegol y busnes, felly mae'n cyfateb i Werth Ychwanegol Gros. Mewn gwirionedd, mae'n debygol y byddai rhai swyddi'n cael eu colli hefyd.

5.40 Ymhellach, mae arfarniad Llywodraeth Cymru yn rhagdybio na fydd prisiau mewnbwn yn newid, ac na fydd nifer yr ymwelwyr na darbodion maint yn newid. Golyga hyn na cheir unrhyw effeithiau lluosydd cadwyn gyflenwi 'Math 1'. Fodd bynnag, ceir rhai effeithiau anuniongyrchol o ganlyniad i wasgfa'r ardoll, gan leihau incwm i'w wario (yn rhannol) ar draws economi Ynys Môn, felly defnyddir lluosydd o 1.3 i gynnwys Gwerth Ychwanegol Gros uniongyrchol a Gwerth Ychwanegol Gros a ysgogir, ond gan eithrio Gwerth Ychwanegol Gros anuniongyrchol. Mae hyn yn esgor ar golled o £2.6m mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol.

Tabl 5.12: Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol gan fod effaith yr Ardoll yn cael ei hamsugno gan y busnes

	CYFANSWM
Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol uniongyrchol	-£1.96m
Lluosydd (Gwerth Ychwanegol Gros uniongyrchol a Gwerth Ychwanegol Gros a ysgogir, heb gynnwys Gwerth Ychwanegol Gros anuniongyrchol)	1.3
Cyfanswm Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol	-£2.6m

5.41 Fel y nodir uchod, disgwylir y bydd gwariant yr ardoll yn esgor ar gynnydd o £0.5m mewn Gwerth Ychwanegol Gros bob blwyddyn, ynghyd â chynnydd o 6-7 o swyddi (gan ystyried dadleoli o 50%). Bydd hyn yn esgor ar effaith gyfunol – sef colled o £2.1m mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol a chynnydd o 6-7 o swyddi.

Tabl 5.13: Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol a chyflogaeth – effaith gyfunol – senario graidd

	Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol	Cyflogaeth
Y newid yn sgil y ffaith y bydd yr Ardoll yn cael ei hamsugno gan y busnes	-£2.6m	0
Y newid yn sgil gwariant yr Ardoll	£0.5m	6-7 o swyddi
Newid net	**-£2.1m**	**6-7 o swyddi**

5.42 Pe bai'r dadleoli'n cael ei ostwng i 25%, dengys prawf sensitifrwydd y byddai'r gostyngiad mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol yn lleihau o -£2.1m i -£1.9m, ac y byddai'r newid yn y gyflogaeth yn cynyddu o 6-7 o swyddi i 9-10 o swyddi.

Tabl 5.14: Profion sensitifrwydd

	Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol	Cyflogaeth
Craidd	-£2.1m	6-7 o swyddi
Cyfran is mewn llety safonol	-£1.9m	9-10 o swyddi

6 Croeswirio Dadansoddiad Llywodraeth Cymru, gan ystyried pwysigrwydd cymharol twristiaeth i Ynys Môn

6.1 Rydym wedi cynnal 'gwiriadau synnwyr', lle defnyddir effaith gyffredinol yr Ardoll Ymwelwyr ar economi Cymru (gweler dadansoddiad Llywodraeth Cymru) i amcangyfrif yr effaith debygol ar Ynys Môn. Sylwer: nid yw'r gwaith hwn yn mynd i'r afael â'r amodau sy'n berthnasol i ddadansoddiad Llywodraeth Cymru na'i addaster ar lefel fwy lleol, ond mae'n cynnig hyder ychwanegol yn y dadansoddiad.

6.2 Yn gyntaf, er mai cyfran gymharol fechan o farchnad twristiaeth (a chyflogaeth) Cymru sy'n eiddo i Ynys Môn, dylid nodi bod economi'r ynys yn anghymesur o ddibynnol ar y farchnad hon. Dangosir hyn yn Ffigur 5.1 – gwelir bod ychydig dros 4% o gyfanswm cyflogaeth Ynys Môn yn perthyn i'r sector Llety, ond gwelir bod y cyniferydd lleoliad yn 2.54, sy'n golygu bod Llety yn anghymesur o bwysig i'r economi leol.

Ffigur 5.1: Cyflogaeth yn y sector Llety yng Nghymru – Cyniferydd Lleoliad a chyfrannau cyflogaeth yng Nghymru



6.3 Mae'r tabl isod yn dangos bod sector twristiaeth Ynys Môn yn cyfateb i 3%-7% o economi Cymru, ar sail nifer o ddulliau mesur gwahanol (cyflogaeth, mannau gwely, ymwelwyr).

Tabl 6.1: Sector twristiaeth Ynys Môn ar ffurf cyfran o gyfanswm Cymru

	Y gyfran o sector twristiaeth Cymru
Cyflogaeth yn y sector Llety	4.3%
Cyflogaeth yn y sector Llety a Bwyd	3.1%
Mannau gwely	5.2%
Nifer yr ymwelwyr domestig	3.7%
Nifer yr ymwelwyr rhyngwladol (ac eithrio cyfeillion a theulu a phobl sy'n aros yn eu cartrefi eu hunain)	6.6%

6.4 Fel ffordd o wirio synnwyr hyn oll, rydym wedi cymhwyso hyn at ganfyddiadau Arfarniad Llywodraeth Cymru 2024, a ddarganfu'r canlynol:

- Ledled Cymru, byddai'r Ardoll yn esgor ar ystod o -400 i 100 o swyddi
- Ynghyd â newid sy'n amrywio o -£7.5m i £11.1m mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol.

6.5 Pe baem yn cymhwyso'r ystod uchod (3%-7%), gellid disgwyl gweld effaith rhwng -12 a +7 o swyddi, ynghyd â newid sy'n amrywio o -£.53m i £0.78m mewn Gwerth Ychwanegol Gros. Mae hyn yn debyg i'r amcangyfrifon yn Adran 5 – sef rhwng -6 a -31 o swyddi cyfwerth ag amser llawn[14] a rhwng -£0.8m a £0.09m mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol.

6.6 Gellid disgwyl y byddai'r dull hwn o gymhwyso egwyddor *pro rata* at ddadansoddiad Llywodraeth Cymru yn esgor ar ganlyniadau uwch na'r dadansoddiad a nodir yn Adran 5 – oherwydd trwy ddefnyddio egwyddor *pro rata*, rhagdybir y byddai Ynys Môn yn hawlio'i chyfran berthynol o wariant yr ardoll ymwelwyr (ar ôl ystyried gwariant nad yw'n wariant rhanbarthol).

6.7 Mae'r dadansoddiad yn Adran 5 yn rhagdybio y byddai gwariant ardoll Ynys Môn yn cael ei ddadleoli i ardaloedd y tu allan i Ynys Môn, ac nid ystyrir yr 'enillion' a fyddai'n dod i ran Ynys Môn o ganlyniad i wariant ardoll awdurdodau lleol eraill (er enghraifft, cyflogi busnes o Ynys Môn i weithio ar brosiect yng Ngwynedd, sef prosiect y byddai'r ardoll Gwynedd yn talu amdano).

6.8 Dylid nodi mai amcangyfrifon dangosol yn unig yw'r rhain – ni cheir dulliau 'tebyg am debyg'. Serch hynny, mae tebygrwydd y ffigurau'n rhoi hyder yn y dadansoddiad a nodir yn Adran 5.

[14] Sylwer: swyddi a swyddi cyfwerth ag amser llawn a gaiff eu cymharu yn y fan hon, felly ni cheir cymhariaeth 'debyg am debyg'.

Tabl 6.2: Croeswirio o gymharu â Dull Llywodraeth Cymru – trosglwyddo 100% o'r Ardoll i ymwelwyr

			Pesimistaidd	Craidd	Optimistaidd
Cyflogaeth	Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Cymru	Swyddi	-400	-140	100
	Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Ynys Môn, 3%	Swyddi	-12	-4.2	3
	Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Ynys Môn, 7%	Swyddi	-28	-9.8	7
	Dull amodol Ynys Môn (trosglwyddo'r Ardoll i ymwelwyr) – Adran 5	Swyddi cyfwerth ag amser llawn	-28 i -31	-16 i -18	-5 i -6
Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol (£m)	Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Cymru		-7.5	2.1	11.1
	Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Ynys Môn, 3%		-0.23	0.06	0.33
	Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Ynys Môn, 7%		-0.53	0.15	0.78
	Dull amodol Ynys Môn (trosglwyddo'r Ardoll i ymwelwyr) – Adran 5		-0.8	-0.3	0.09

6.9 Trwy ddefnyddio'r un dull ar gyfer y senario lle byddai busnesau'n amsugno'r ardoll, a thrwy gymhwyso'r ystod 3%-7% wedyn, gwelir y byddai 11-25 o swyddi ychwanegol yn cael eu creu (o gymharu â 6-7 yn Adran 5), ac y byddai'r Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol yn amrywio o -£1.0m i -£2.3m (o gymharu â -£2.1m yn Adran 5). Drachefn, gellid disgwyl y byddai'r ffigur yn is o ystyried y dadleoli a gymhwyswyd at wariant yr ardoll.

Tabl 6.3: Croeswirio o gymharu â Dull Llywodraeth Cymru – trosglwyddo 0% o'r ardoll i ymwelwyr

			Craidd
Cyflogaeth	Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Cymru	Swyddi	360
	Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Ynys Môn, 3%	Swyddi	11
	Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Ynys Môn, 7%	Swyddi	25
	Dull amodol Ynys Môn (busnesau'n amsugno'r Ardoll) – Adran 5	Swyddi cyfwerth ag amser llawn	6-7
Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol	Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Cymru		-£32.3m
	Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Ynys Môn, 3%		-£1.0m
	Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Ynys Môn, 7%		-£2.3m
	Dull amodol Ynys Môn (busnesau'n amsugno'r Ardoll) – Adran 5		-£2.1m

7 Casgliadau

7.1 Tystiolaeth eithaf cyfyngedig sydd ar gael ynglŷn ag effaith ardollau ymwelwyr ar economïau lleol, a cheir rhai bylchau yn yr wybodaeth. Dylid cadw hyn mewn cof wrth ddarllen yr arfarniad hwn.

7.2 Rydym wedi anelu at atgynhyrchu'r dulliau arfarnu a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru, gan geisio sicrhau eu bod yn berthnasol ar lefel leol pan fo modd, ac rydym wedi cynnwys rhagdybiaethau ac amodau mewn modd tryloyw. Hefyd, rydym wedi ychwanegu profion sensitifrwydd a gwiriadau synnwyr er mwyn gwella trylwyredd yr arfarniad.

7.3 Er gwaethaf yr amodau sy'n gysylltiedig â'r fethodoleg a'r sylfaen dystiolaeth, rydym yn hyderus mai effaith gymharol fach a fyddai'n dod i ran Ynys Môn – mewn perthynas â'r effaith ar gyflogaeth a'r effaith ar Werth Ychwanegol Gros blynyddol.

7.4 Hyd yn oed gyda rhagdybiaethau ceidwadol (h.y. rhagdybiaethau sydd, o bosibl, yn goramcanu'r effaith negyddol), rhagwelwn y canlynol:

- O ran cyflogaeth, newid sy'n amrywio o -31 i +7 o swyddi – sef rhwng colled o -0.17% a chynnydd o 0.04% mewn cyflogaeth yn Ynys Môn.
- O ran Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol, newid sy'n amrywio o -£2.1m i +£0.09m – sef rhwng colled o -0.14% a chynnydd o 0.01% yn economi Ynys Môn.

Tabl 7.1: Crynodeb o'r effeithiau tebygol

			Ystod debygol
Cyflogaeth	Dull amodol Ynys Môn (trosglwyddo'r Ardoll i ymwelwyr)	Swyddi cyfwerth ag amser llawn	-31 i -5
	Dull amodol Ynys Môn (busnesau'n amsugno'r ardoll)	Swyddi cyfwerth ag amser llawn	6-7
	Ystod gyfunol	Swyddi cyfwerth ag amser llawn	-31 i +7
Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol (£m)	Dull amodol Ynys Môn (trosglwyddo'r Ardoll i ymwelwyr)		-£0.8 i +£0.09m
	Dull amodol Ynys Môn (busnesau'n amsugno'r Ardoll) – Adran 5		-£2.1m
	Ystod gyfunol		-£2.1m i +£0.09m

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council
cyngormon / angleseycouncil
cyngormon / angleseycouncil
cyngormon

Gwerthusiad o Effeithiau Posibl yr Ardoll Ymwelwyr ar y Iaith Gymraeg

ynysmon.llyw.cymru anglesey.gov.wales

Gwerthusiad o Effaith Bosibl yr Ardoll Ymwelwyr ar yr Iaith Gymraeg

1.0 Diben

Amlinellu effeithiau posibl cyflwyno'r ardoll ymwelwyr ar yr Iaith Gymraeg, gan gynnwys dangosyddion cadarnhaol a negyddol.

2.0 Cyflwyniad

Mae'r gwerthusiad hwn yn archwilio sut all Ardoll Ymwelwyr—tâl llety dros nos a alluogwyd gan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) (Cymru) 2025—effeithio ar yr iaith Gymraeg yn Ynys Môn. Mae'r asesiad yn dwyn ynghyd data cyfredol ar y sefyllfa ieithyddol, tueddiadau yn y sector twristiaeth, a chyfleoedd i'r ardoll gefnogi bywiogrwydd yr iaith Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg cenedlaethol ac mae hwn ar gael drwy'r hyperddolen ganlynol –

Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025: Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Fe wnaethant hefyd gynnal ymarfer ymgynghori fel rhan o'r asesiad hwn. Canfuwyd, er nad oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr farn benodol ynghylch effaith yr ardoll ymwelwyr ar yr iaith Gymraeg, bod nifer fach o ymatebwyr wedi mynegi pryder y gallai unrhyw ddirywiad mewn twristiaeth yn sgil ardoll leihau cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, yn ogystal â chael effaith negyddol bosibl ar gymunedau Cymraeg eu hiaith. Ar y llaw arall, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith y gellid defnyddio refeniw a godir drwy ardoll i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

3.0 Trosolwg o bwysigrwydd yr Iaith Gymraeg yn Ynys Môn

- Yn hanesyddol yn gadarnle i'r iaith Gymraeg, mae Ynys Môn yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd Cymraeg cryfaf yng Nghymru.
- Mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn nodi bod gan Ynys Môn un o'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg (62.5%) yng Nghymru.
- Mae data Menter Iaith Môn yn nodi bod tua 57% o drigolion yn siarad Cymraeg, gyda sawl ward—yn enwedig yn Llangefni—yn cofnodi dros 80% o siaradwyr Cymraeg.
- Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 47.7% o weithwyr 16 oed yn y sectorau llety a bwyd yn siaradwyr Cymraeg.

4.0 Effeithiau Cadarnhaol Posibl yr Ardoll Ymwelwyr ar yr Iaith Gymraeg

4.1 Cryfhau Seilwaith yr Iaith Gymraeg a'i Hyrwyddo

Gallai gwelliannau a ariennir gan ardoll gefnogi:

- Mentrau cymunedol sy'n hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg
- Digwyddiadau diwylliannol lleol, gwyliau, a phrofiadau ymwelwyr cyfrwng Cymraeg
- Grantiau i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg

4.2 Cefnogi Twristiaeth Gynaliadwy sy'n Parchu Hunaniaeth Cymru

Mae ardoll ymwelwyr yn rhyngwladol wedi helpu i ariannu:

- Rhaglenni diwylliannol
- Dehongli ac arwyddion mewn ieithoedd lleiafrifol
- Cadwraeth treftadaeth leol

Gallai'r rhain gryfhau hunaniaeth Gymreig ym mhrofiad yr ymwelwyr.

4.3 Lliniaru Pwysau ar Gymunedau sy'n Siarad Cymraeg

Gallai cyllid dargedu:

- Rheoli pwysau twristiaeth mewn cymunedau â chyfrannau uchel o siaradwyr Cymraeg.
- Seilwaith (llwybrau, meysydd parcio, gwasanaethau cyhoeddus) sy'n rhoi straen ar gydlyniant cymunedol ar hyn o bryd.

4.4 Cyfleoedd Economaidd i Siaradwyr Cymraeg

Os bydd yr ardoll ymwelwyr yn hybu cydnerthedd economaidd mewn ardaloedd â chyfraddau cymharol uchel o arosiadau dros nos lle mae siaradwyr Cymraeg yn gyffredin, gallai helpu i gefnogi cyflawniad un o amcanion 'Cymraeg 2050': creu amodau ffafriol i'r iaith Gymraeg ffynnu.

Gellir cyfoethogi cyflogaeth twristiaeth gyda:

- Hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid cyfrwng Cymraeg
- Anogaeth i fusnesau twristiaeth ddefnyddio'r Gymraeg mewn deunydd brandio
- Aliniad â chynlluniau presennol (e.e. ARFOR) sy'n cysylltu iaith a datblygiad economaidd.

5.0 Effeithiau Negyddol Posibl

5.1 Beichiau Ychwanegol Canfyddedig ar Weithredwyr Twristiaeth

Os na chaiff ei chyfleu'n dda, efallai y bydd rhai busnesau'n gweld yr ardoll fel rhwystr i ymwelwyr, er bod ymchwil yn dangos nad yw ardollau bach yn aml yn effeithio ar y galw. Gallai hyn effeithio'n anuniongyrchol ar gyflogaeth siaradwyr Cymraeg yn y sector.

5.2 Risg o Ail-fuddsoddi Annigonol mewn Blaenoriaethau'r Iaith Gymraeg

Os nad yw dyrannu elw'r ardoll yn ystyried lles ieithyddol, efallai y bydd cyfle i gryfhau'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn mannau twristiaeth yn cael ei golli.

5.3 Pwysau Parhaus oherwydd Niferoedd Uchel o Ymwelwyr

Os na chaiff arian ardoll ei sianelu'n effeithiol, gallai pwysau cynyddol gan ymwelwyr waethygu'r heriau demograffig a nodwyd mewn cymunedau arfordirol o hyd.

6.0 Cyfleoedd i Sicrhau'r Manteision Mwyaf Posibl i'r Iaith Gymraeg

Er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol cryf, gallai Cyngor Sir Ynys Môn:

6.1 Neilltuo Cyfran o Refeniw'r Ardoll ar gyfer Mentrau'r Iaith Gymraeg

Enghreifftiau:

- Rhaglenni defnyddio'r iaith Gymraeg yn y gymuned
- Ymgysylltiad ieuenctid mewn twristiaeth ddiwylliannol cyfrwng Cymraeg
- Arwyddion lefel stryd a gwelliannau dehongli dwyieithog

6.2 Datblygu Profiadau Twristiaeth yr Iaith Gymraeg

Gweithio gyda Menter Iaith Môn a busnesau lleol:

- Ehangu profiadau ymwelwyr sy'n dysgu'r iaith Gymraeg
- Cefnogi teithiau, llwybrau ac adrodd straeon drwy gyfrwng y Gymraeg
- Annog busnesau i ennill yr achrediad "Cynnig Cymraeg".

6.3 Darparu Cymorth a Hyfforddiant Busnes

Gallai refeniw ardoll gefnogi:

- Hyfforddiant iaith Gymraeg am ddim neu â chymhorthdal

- Cymorth brandio dwyieithog i weithredwyr twristiaeth.
  Mae'r rhain yn cryfhau capasiti cyfrwng Cymraeg yn yr economi ymwelwyr.

7.0 Casgliad

Mae gan cyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar Ynys Môn y potensial i gael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg—ar yr amod bod arian yn cael ei fuddsoddi'n strategol. Gall sylfaen ieithyddol gref Ynys Môn, ynghyd ag aiI-fuddsoddi wedi'i dargedu:

- Wella gweledegdd a defnydd bob dydd o'r iaith Gymraeg
- Cryfhau cydlyniant cymunedol yng nghanol pwysau demograffig
- Cefnogi model twristiaeth gynaliadwy sy'n parchu ac yn hyrwyddo iaith a diwylliant lleol

Mae'r ardoll yn cynnig cyfle sylweddol i alinio gweithgaredd economaidd â chadwraeth ddiwylliannol a bywiogrwydd ieithyddol.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council
cyngormon / angleseycouncil
cyngormon / angleseycouncil
cyngormon

Gwerthusiad o Effeithiau Posibl yr Ardoll Ymwelwyr ar yr Amgylchedd

ynysmon.llyw.cymru anglesey.gov.wales

Gwerthusiad o Effeithiau Posibl yr Ardoll Ymwelwyr ar Amgylchedd Ynys Môn

1.0 Diben

Amlinellu effeithiau posibl cyflwyno'r ardoll ymwelwyr ar yr Iaith Gymraeg, gan gynnwys dangosyddion cadarnhaol a negyddol.

2.0 Cyflwyniad

Mae darpariaeth twristiaeth Ynys Môn yn dibynnu'n helaeth ar argaeledd adnoddau naturiol o ansawdd uchel ac ecosystemau iach.

Mae prif ddefnydd ymwelwyr wedi'i ganoli ar Dirwedd Genedlaethol yr ynys sy'n cwmpasu rhannau helaeth o arfordir dramatig Ynys Môn. Mae'n cynnwys y rhan fwyaf o glogwyni a thraethau'r ynys, a llawer o'r tir ffermio a'r coedwigoedd sy'n ffurfio cefndir arfordirol yr ynys. Mae Ynys Môn yn cynnal ei statws fel cyrchfan wyliau boblogaidd am ei thraethau eang a'i childraethau cudd. Ond mae hefyd, yn hollbwysig, yn dirwedd weithredol o ffermydd a phentrefi, gydag economi wledig ac arfordirol amrywiol a ffyniannus.

• Mae gan Dirwedd Genedlaethol Ynys Môn (AHNE) un o'r tirweddau mwyaf nodedig, deniadol ac amrywiol yn Ynysoedd Prydain. Fe'i dynodwyd yn AHNE ym 1966 i amddiffyn apêl esthetig ac amrywiaeth tirwedd arfordirol a chynefinoedd yr ynys rhag datblygiad amhriodol.

• Mae'r ardaloedd a ddynodwyd yn Ynys Môn tua 83 milltir sgwâr o ran maint ac maent yn bodoli ar hyd arfordir yr ynys gyda thoriadau o amgylch yr ardaloedd trefol ac yng nghyffiniau Wylfa. Mae arfordir Ynys Môn, y mae llawer o rannau ohono wedi'u hynysu, yn cyfrannu'n fawr at apêl yr ynys. Mae clogwyni garw, baeau tywodlyd, corsydd, twyni, glannau cysgodol Afon Menai a llethrau gwyntog Mynydd Twr a Mynydd Bodafon yn rhoi amrywiaeth fawr o olygfeydd.

• Mae'r AHNE yn bennaf yn ddynodiad arfordirol, sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o arfordir 201 cilomedr Ynys Môn. Mae'n cynnwys Mynydd Twr a Mynydd Bodafon, ynghyd ag ardaloedd sylweddol o dir sy'n ffurfio cefndir hanfodol i'r arfordir. Cyfanswm arwynebedd yr AHNE yw tua 221 cilomedr sgwâr (22,100 hectar).

Mae tirweddau Cenedlaethol Ynys Môn yn cynnwys 5 ACA, 3 AGA, 1 GNG, 32 SoDdGA, a 3 GNL

Mae'r Dirwedd Genedlaethol hefyd yn cwmpasu Geoparc Byd-eang Geo Môn, sydd wedi'i gydnabod gan UNESCO, ac mae'n gweithio tuag at statws Gwarchodfa Awyr Dywyll. Mae'n cynnwys un o'r dwyseddau uchaf o Henebion Hynafol Rhestredig o'r holl Dirweddau cenedlaethol a thirweddau hanesyddol, ochr yn ochr â safleoedd eiconig fel Ynys Llanddwyn a chlogwyni Gogarth ar Ynys Cybi.

Daw ymwelwyr i ymgysylltu ag ardaloedd harddwch naturiol Ynys Môn, ac i archwilio'r amgylchedd naturiol sydd gan Gymru i'w gynnig. Fe'i gwelir fel cyrchfan ar gyfer gweithgareddau awyr agored – canfyddiad sy'n cael ei gefnogi gan yr amgylchedd gwyrdd a naturiol.

Er nad yw cyflwyno ardoll ymwelwyr ei hun wedi'i bwriadu i effeithio'n uniongyrchol ar yr amgylchedd, efallai y bydd effeithiau eilaidd o'i chyflwyno, pe bai cynnydd neu ostyngiad yn y galw twristiaeth ar gyfer ardaloedd sy'n cyflwyno ardoll, fel yr archwiliwyd yn yr asesiad effaith economaidd.

Nid bwriad yr ardoll ymwelwyr yw newid ymddygiad ymwelwyr, er bod yna adnoddau ychwanegol ar gyfer datblygu modelau twristiaeth adfywiol, a thrwy addysgu ymwelwyr am bwysigrwydd yr amgylchedd naturiol. Os bydd gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr â Chymru oherwydd cyflwyno'r ardoll, gallai hyn, yn ei dro, leihau rhai o effeithiau negyddol twristiaeth ar adnoddau naturiol, a drafodir yn fanylach isod.

3.0 Effeithiau Gor-dwristiaeth

Yn gyffredinol, gall twristiaeth gael effaith negyddol ar adnoddau naturiol trwy or-dwristiaeth – er enghraifft, y nifer fawr o ymwelwyr sy'n ymweld â safleoedd sy'n sensitif yn amgylcheddol gan gynnwys Tywyn Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn, Mynydd Twr a'r Fenai, neu nifer fawr o bobl yn ymweld â'r traethau yn ystod tywydd da.

Mae nifer o ganlyniadau i'r gweithgareddau hyn, megis cynnydd mewn sbwriel, difrod ffisegol i'r amgylchedd naturiol (er enghraifft i lwybrau troed gan gerddwyr), neu lefelau uwch o lygredd oherwydd cynnydd mewn traffig a pharcio. Edrychodd astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ardaloedd allweddol i ymwelwyr, gan gymharu'r cyfnod clo ym mis Mehefin 2020 â'r tymor twristaidd prysur a ddilynodd ym mis Mehefin 2021. Er mai dim ond ciplun oedd hwn, dangosodd yr asesiad fod y cynnydd yn nifer y twristiaid yn 2021 wedi cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth.

3.1 Prif Effeithiau Twristiaeth ar yr Amgylchedd Naturiol

- Heriau rheoli sbwriel a gwastraff, wrth i nifer yr ymwelwyr gynyddu felly hefyd mae swm y sbwriel a'r effaith ar wasanaethau rheoli gwastraff.
- Tagfeydd, lle nad yw seilwaith trafnidiaeth yn gallu cynnal traffig ymwelwyr mewn cyrchfannau poblogaidd
- Amcangyfrifir bod allyriadau carbon, a achosir gan deithio sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, wedi cyfrif am 5% o'r holl allyriadau carbon yn fyd-eang yn 2016

- Gellid effeithio ar gynnig twristiaeth Cymru oherwydd erydiad pridd a llwybrau troed, wrth i nifer fawr o dwristiaid ymweld â safleoedd twristaidd poblogaidd gan ddirywio amgylcheddau naturiol sydd, yn anochel, wedi'u heffeithio gan fwy o ymwelwyr a thraffig.

4.0 Effeithiau Cadarnhaol Posibl yr Ardoll ar yr Amgylchedd Naturiol

Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y rhagwelir effeithiau cadarnhaol ar draws economi Cymru wrth i awdurdodau lleol ledled Cymru ailwario'r refeniw treth.

Mae'r Ddeddf yn cynnig bod y refeniw yn cael ei wario ar brosiectau sy'n gysylltiedig â rheoli a gwella cyrchfannau sy'n cynnwys camau gweithredu sy'n:

• lliniaru effaith ymwelwyr.

• cynnal ac yn hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg.

• hyrwyddo ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio.

• darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau i ymwelwyr eu defnyddio (p'un a ydynt hefyd i'w defnyddio gan bobl leol ai peidio).

Fodd bynnag, swyddogion etholedig, ar ôl ymgynghori â'u hardaloedd lleol, fydd yn penderfynu sut mae awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r ardoll yn bwriadu defnyddio'r refeniw. Felly, gellir defnyddio'r refeniw a godir gan yr ardoll i fynd i'r afael â rhai o'r effeithiau hyn, gan helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n gynaliadwy. Gellid gwneud hyn trwy ddefnyddio refeniw o'r ardoll i helpu i warchod ardaloedd, ariannu prosiectau cadwraeth lleol, neu liniaru effeithiau twristiaeth – er y byddai maint a natur unrhyw fuddion yn dibynnu ar union brosiectau neu weithgareddau a ariennir gan awdurdodau lleol.

5.0 Enghreifftiau o'r Ardoll Ymwelwyr yn Ariannu Gwaith Amgylcheddol Cadarnhaol

Defnyddir ardoll ymwelwyr yn llwyddiannus mewn mwy na 40 o wledydd a chyrchfannau teithio ledled y byd ac mae sawl enghraifft o gyrchfannau sydd wedi defnyddio'r refeniw a gynhyrchir gan ardoll i fod o fudd i'r amgylchedd naturiol a'i wella.

Ariannodd Seland Newydd 10 prosiect yn 2019-20 drwy ei Ardoll Cadwraeth a Thwristiaeth Ymwelwyr Rhyngwladol. Nod y prosiectau hyn yw amddiffyn tirweddau sensitif a gwerthfawr yn ecolegol, uwchraddio llwybrau troed ac arwyddion amwynderau ymwelwyr ac amddiffyn rhywogaethau sydd mewn perygl.

Yng Ngwlad yr Iâ, lle sy'n adnabyddus am ei amgylchedd unigryw, ystyrir ei atyniadau naturiol fel ei brif apêl i dwristiaid. Mae Cronfa Diogelu Safleoedd Twristiaeth (TSPF) yn ariannu prosiectau sy'n cynnwys mynediad at atyniadau twristaidd naturiol a'u

cadwraeth. Mae prosiectau nodweddiadol yn cynnwys adeiladu llwybrau troed a llwybrau; rampiau mynediad, pontydd a chanllawiau llaw; llwyfannau gwylio a rhwystrau diogelwch; cyfleusterau parcio a thoiledau; ac arwyddion a byrddau gwybodaeth.

Enghraifft bellach yw cymuned Fforest Ddu Münstertal, sydd wedi defnyddio rhan o'i threth dwristiaeth leol yn llwyddiannus i hyrwyddo mesurau amaethyddol traddodiadol fel ffermio agored, gan helpu i gefnogi natur a gwarchod rhywogaethau tra hefyd yn gwarchod a gwella atyniad yr ardal i dwristiaid.

Mae manteision clir y gallai ardoll ymwelwyr yng Nghymru eu darparu. Mae defnyddio mannau cyhoeddus a gwasanaethau yn rhan annatod o brofiad cyffredinol yr ymwelydd. Gall buddsoddi ynddynt a'u cynnal a'u cadw wella enw da'r gyrchfan gan fod o fudd i ymwelwyr, trigolion, busnesau ac adnoddau naturiol Cymru.

Gallai cyflwyno ardoll helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, bydd hyn yn dibynnu ar sut mae awdurdodau lleol sy'n gweithredu'r ardoll yn dewis gwario'r refeniw ychwanegol.

6.0 Effeithiau ar Fioamrywiaeth

Mae'n anodd pennu effaith uniongyrchol ymddygiad ymwelwyr ar fioamrywiaeth yn gywir, fodd bynnag, yn anffodus mae tarfu ar fywyd gwyllt oherwydd gweithgareddau yn gymharol gyffredin, gydag adar fel y Frân Goesgoch a chytrefi adar môr a bywyd morol fel Dolffiniaid yn cael eu heffeithio amlaf. Mae sathru fflora prin hefyd wedi'i gofnodi'n helaeth.

Nid yw bioamrywiaeth yn agwedd uniongyrchol ar y broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr, fodd bynnag, o ystyried y gellir cyfeirio'r refeniw sy'n deillio o'r trethi hyn i ariannu prosiectau penodol sy'n cefnogi'r economi ymwelwyr, gallai'r rhain gynnwys rheoli unrhyw effeithiau negyddol twristiaeth fel dirywiad amgylcheddol.

Bydd gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb am wariant a rhaid iddynt ystyried ffactorau bioamrywiaeth fel rhan o'u proses gwneud penderfyniadau yn unol â'u dyletswyddau dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 133.

7.0 Effaith Llai o Ymwelwyr

Os bydd llai o ymwelwyr yn dod i Gymru (neu awdurdod lleol penodol yng Nghymru), yna gallai hyn arwain at ostyngiad mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (GHGs)34, a lefelau is o sbwriel ac erydiad bioamrywiaeth yn yr ardal honno (yn dibynnu ar sut mae busnesau ac ymwelwyr yn ymateb). Cydnabyddir yn eang y gall twristiaeth effeithio ar gyrchfannau

twristaidd mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol, gan gwmpasu dimensiynau economaidd, cymdeithasol-ddiwylliannol ac amgylcheddol.

Gellid defnyddio'r refeniw a gynhyrchir gan ardoll i gefnogi'r bwlch adnoddau hwn, drwy ymwneud yn uniongyrchol â chynnal a chadw ac adfer amgylcheddau naturiol lleol a chefnogi cyfleusterau i sicrhau bod ymwelwyr eisiau dychwelyd i Gymru, a thrwy hynny o bosibl gynyddu lefelau refeniw wrth i fwy o dwristiaid ddychwelyd i Gymru yn y tymor hir ac o ganlyniad y cyllid sydd ar gael i'w wario ar wella'r ardal leol.

Yn ogystal, er nad yn fwriadol, pe bai nifer yr ymwelwyr yn lleihau mewn rhai ardaloedd gallai hyn gael effaith amgylcheddol gadarnhaol gan gynnwys lleihau llygredd ac effeithiau negyddol eraill twristiaeth.

Gall fod effeithiau gwahanol ar wahanol awdurdodau lleol yn dibynnu ar nifer y twristiaid ym mhob ardal.

Neu, gallai gwella ardal a'i chyfleusterau gan ddefnyddio'r refeniw o'r ardoll ddenu mwy o ymwelwyr, felly efallai y bydd mwy o effaith amgylcheddol, ond mae hyn yn anodd ei amcangyfrif.

Neu, os bydd cyflwyno'r ardoll yn arwain at ymwelwyr yn dewis ymweld am ddiwrnod, gallai hyn waethygu'r effeithiau amgylcheddol negyddol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ddydd, heb gyllid o'r refeniw i helpu i liniaru'r effeithiau hyn (o ystyried y codir y tâl ar arosiadau dros nos). Un enghraifft yw y gallai fod cynnydd mewn traffig a llygredd mewn mannau poblogaidd gan gynnwys Pont Britannia, pentref Niwbwrch ac ym mhentrefi fel Benllech, ac o'u hamgylch.

Gallai'r senario hwn fod yn amlwg pe bai'r Ardoll yn cael ei chyflwyno mewn un awdurdod ond nid mewn awdurdod cyfagos, gan achosi cynnydd o bosibl yn nifer yr ymwelwyr sy'n aros yn yr awdurdod na ddewisodd ei mabwysiadu, a chynnydd yn nifer yr ymwelwyr undydd yn yr awdurdod a ddewisodd fabwysiadu'r Ardoll.

Os na chaiff yr amodau galluogi ar gyfer twristiaeth eu diogelu, yna gallai hyn arwain at ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr. Y dirwedd a'r harddwch naturiol sy'n denu ymwelwyr i Ynys Môn yw'r pethau y gall ymwelwyr effeithio arnynt fwyaf. Os nad oes cyllid ar gael i liniaru'r effeithiau, yna gallai fod effaith ar atyniadau twristiaid gan arwain at ddirywiad tymor hwy i dwristiaeth.

Yn ogystal, efallai y bydd rhai ardaloedd yn dymuno gwella eu darpariaeth leol neu'r gwasanaethau a ddarperir i fynd i'r afael â materion lleol unigryw er budd ymwelwyr a thrigolion ond nid oes ganddynt yr adnoddau i wneud hyn ar hyn o bryd.

8.0 Casgliad

Y disgwyliad yw y gallai cyflwyno'r Ardoll ymwelwyr gael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar amgylchedd naturiol Ynys Môn. Os caiff yr incwm a gynhyrchir ei dargedu at

welliannau i leddfu pwysau ymwelwyr, adfer natur, a datblygu model twristiaeth adfywiol, yna gallai'r Ardoll wella'r amgylchedd yn sylweddol.

O ystyried pwysigrwydd yr amgylchedd a harddwch naturiol i ddenu ymwelwyr i Ynys Môn, mae'n bwysig bod darpariaeth ar gael i ddiogelu a gwella'r asedau hyn fel nad yw'r cynnig twristiaeth yn lleihau. Gallai'r Ardoll gyflawni rhan o'r swyddogaeth alluogi hon.

Os gwelir bod nifer yr ymwelwyr dros nos yn lleihau, gallai hyn gael effaith gadarnhaol o safbwynt amgylcheddol o ran lleihau effeithiau nifer anghynaladwy o ymwelwyr ar safleoedd o bwys amgylcheddol a chymunedau cyfagos.

I'r gwrthwyneb, gellir gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr dydd a allai wrthbwyso'r enillion hyn a lleihau'r enillion economaidd a'r adnoddau i reoli'r asedau amgylcheddol yn effeithiol.

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	24/02/2026
Pwnc:	Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Trwyddedu 2026 - 2031
Aelod(au) Portffolio:	Y Cynghorydd Nicola Roberts Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Christian Branch - Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Awdur yr Adroddiad:	Siôn Hughes, Rheolwr Diogelwch Corfforaethol a Thrwyddedu **01248 752843** sionhughes@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Ddim yn berthnasol

A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

Argymhelliad:

Bod y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi cyflwyno'r Datganiad Polisi Trwyddedu 2026 - 2031 i'r Cyngor Llawn er mwyn ei fabwysiadu.

Cyd-destun
Pob pum mlynedd, mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu, sef Cyngor Sir Ynys Môn, adolygu ei Ddatganiad Polisi Trwyddedu, ymgynghori arno ac yna'i gyhoeddi. Mae'r Polisi'n nodi sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn cynnwys y gweithgareddau trwyddedig a ganlyn:

- Gwerthu neu gyflenwi alcohol
- Darparu adloniant trwyddedig
- Darparu lluniaeth gyda'r hwyr

Mae'r polisi'n nodi'r dull cyffredinol ar gyfer gwneud penderfyniadau trwyddedu; ystyried sylwadau, a gosod amodau yn ogystal â chynnig arweiniad i ymgeiswyr. Mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu gyflawni ei swyddogaethau er mwyn cefnogi'r amcanion trwyddedu y mae'r polisi yn seiliedig arnynt.

Mae'r 4 amcan trwyddedu fel a ganlyn:

- Atal Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Atal Niwsans Cyhoeddus
- Diogelu Plant rhag Niwed

Mae'r Datganiad Polisi Trwyddedu diwygiedig (2026-2031) ar gael yn atodiad A. Mae'r polisi wedi cael ei adolygu yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd o dan adran 182 o'r Ddeddf Trwyddedu a Deddf Trwyddedu 2023.

Cyhoeddwyd Datganiad Polisi Trwyddedu drafft ar wefan y Cyngor ac fe anfonwyd llythyrau at yr holl awdurdodau cyfrifol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 14 Tachwedd 2025 a 5 Ionawr 2026.

Derbyniwyd ymateb gan dîm Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), tîm Iechyd yr Amgylchedd adain Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Ynys Môn ac un deiliad trwydded.

Cynhaliwyd cyfarfodydd dilynol gyda'r tîm Iechyd yr Amgylchedd a Iechyd Cyhoeddus BIPBC i edrych mewn manylder ar eu sylwadau a phenderfynu i ba raddau y dylid eu cynnwys yn y cynigion drafft. Roedd y sylwadau a gyflwynwyd gan ddeiliad y drwydded yn ymwneud â diwygio'r ddeddfwriaeth ac felly nid oeddent yn berthnasol i'r polisi hwn.

Fe wnaeth yr adborth gyfrannu at gyfres o ddiwygiadau targedig i atgyfnerthu rhannau penodol o'r polisi.

Mae'r ymateb gan BIPBC ar gael yn atodiad B.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'r ddeddf yn nodi bod yn rhaid i'r Cyngor fabwysiadu Datganiad Polisi Trwyddedu.

Nid oes unrhyw opsiwn arall ar gael.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r polisi'n rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor fel y nodir yn y Cyfansoddiad yn rhan 3.2.2.1.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi, mae'n rhan o fframwaith polisi'r Cyngor.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi, mae'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r Datganiad Polisi Trwyddedu wedi cael eu cynnwys yn y strwythur staffio presennol a byddant yn cael eu cyflawni â'r gyllideb bresennol.

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

Ddim yn berthnasol

2. A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar y Cyngor yn y dyfodol? Os felly, sut?

Ddim yn berthnasol

3. A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, gyda phwy?

Buom yn ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfrifol sydd wedi'u nodi yn adran 5 o Ddeddf Trwyddedu 2003 rhwng 14 Tachwedd 2025 a 5 Ionawr 2026.

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar wefan y Cyngor rhwng 14 Tachwedd 2025 a 5 Ionawr 2026.

5. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau - ni ragwelir unrhyw effaith.

Atodiad C

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Ddim yn berthnasol

7. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ni ragwelir unrhyw effaith

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Dim sylwadau
2. Swyddog Cyllid / 151	Dim sylwadau
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	
4. AD	Ddim yn berthnasol
5. Eiddo	Ddim yn berthnasol
6. TG	Ddim yn berthnasol
7. Caffael	Ddim yn berthnasol
8. Sgriwtini	Ddim yn berthnasol
9. Aelodau Lleol	

F - Atodiadau

Atodiad A - Datganiad Polisi Trwyddedu Drafft 2026 - 2031 Atodiad B - Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad Atodiad C - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

Ddim yn berthnasol

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU, DEDDF TRWYDDEDU 2003

1. Cefndir
2. Cwmpas a Graddau Deddf Trwyddedu 2003
3. Amcanion Trwyddedu
4. Y Broses Drwyddedu a Gweinyddu Swyddogaethau
5. Trwyddedau Eiddo a Thystysgrifau Eiddo Clwb (Ceisiadau Newydd, Amrywiadau a Gwybodaeth Gyffredinol)
6. Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro (TENs)
7. Trwyddedau Personol
8. Tystysgrif Eiddo Clwb
9. Atodlen Weithredu
10. Ffioedd
11. Effaith Gronnol, Ardoll Hwyr y Nos a Gorchmynion Cyfyngu ar Werthu Alcohol yn Fuan yn y Bore
12. Cyfundrefnau perthnasol eraill
13. Camau Gorfodi
14. Amrywiol

ATODIADAU

Atodiad A Manylion cysylltu ar gyfer ceisiadau trwyddedu
Atodiad B Awdurdodau Cyfrifol
Atodiad C Gweithdrefn adolygu sy'n ymgorffori datrys problemau ar y cyd â'r weithdrefn orfodaeth
Atodiad D Dirprwyo swyddogaethau
Atodiad E Rhestr Termau

1 CEFNDIR

1.1 Cyflwynir y Polisi Trwyddedu (**y Polisi**) hwn yn unol â Deddf Trwyddedu 2003 (**y Ddeddf**). Mae'r Polisi'n nodi'r egwyddorion a weithredir gan Gyngor Sir Ynys Môn (**yr Awdurdod**) wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau, gwrandawiadau, adolygiadau ac apeliadau o dan y Ddeddf mewn perthynas â:

(a) Manwerthu alcohol;

(b) Cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i, neu ar orchymyn

(c) aelod o'r clwb;

(d) Darparu lluniaeth hwyr y nos (bwyd neu ddiodydd poeth o unrhyw eiddo rhwng 23.00 a 05.00); a

(e) Darparu adloniant rheoledig ar gyfer y cyhoedd neu aelodau o glwb neu gyda'r bwriad o wneud elw gan gynnwys codi arian tuag at elusen pan fydd yr adloniant yn cynnwys: perfformiad theatr neu arddangos ffilm; digwyddiad chwaraeon dan do; gornestau bocsio neu wreslo; perfformio cerddoriaeth fyw; chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio neu berfformiad dawns.

1.2 Lleolir Ynys Môn yng Ngogledd Orllewin Cymru. Tir isel a geir ar yr Ynys yn bennaf ac mae ganddi Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) arfordirol. Mae'n denu niferoedd mawr o ymwelwyr sy'n gwneud cyfraniad pwysig i'r economi lleol. Mae amaethyddiaeth yn parhau i fod yn weithgaredd pwysig ac yn rhan annatod o hunaniaeth a diwylliant yr ynys. Yng Nghyfrifiad 2021 cofnodwyd poblogaeth o 68,900 gyda 30,800 o aelwydydd. Caergybi yw'r dref fwyaf ym Môn, a lleolir y mwyafrif o'r aneddiadau mwyaf o amgylch yr arfordir. Yr anheddiad mwyaf i ffwrdd o'r arfordir yw Llangefni, sef y dref sirol. Mae gan Ynys Môn gysylltiadau trafnidiaeth rhyngwladol cryf ag lwerddon trwy Borthladd Caergybi. Mae'r A55, sy'n rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd (TERN), ynghyd â rheilffordd arfordir Gogledd Cymru yn cysylltu'r ardal â gweddill Gogledd Cymru a'r Deyrnas Unedig.

1.3 Mae mwyafrif yr eiddo trwyddedig yn dafarndai a bwytai sydd wedi'u lleoli mewn trefi a phentrefi ledled yr ynys. Nid oes unrhyw grynoadau dwys o eiddo trwyddedig sy'n gwerthu diod yn bennaf a chlybiau nos ar yr ynys. Mae neuaddau pentref ac ysgolion yn darparu lleoliadau ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol. Ceir nifer o gyngherddau a sioeau awyr agored sy'n ffurfio'r digwyddiadau mwy o ran maint a digwyddiadau dros dro.

1.4 Mae yfed alcohol a'i effeithiau niweidiol yn parhau i fod yn her iechyd cyhoeddus sylweddol. Mae defnydd niweidiol o alcohol yn parhau i gael ei nodi fel un o'r prif ffactorau risg mewn perthynas â chlefydau, anabledd a marwolaethau cynamserol ledled y byd. Yn gyffredinol, mae trwyddedu effeithiol sy'n cael ei orfodi'n dda yn cael ei gydnabod fel elfen hanfodol er mwyn

lleihau niwed yn gysylltiedig ag alcohol, amddiffyn plant a grwpiau agored i niwed a chefnogi cymunedau mwy diogel ac iach.

2 CWMPAS A GRADDAU DEDDF TRWYDDEDU 2003

2.1 Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw cyflawni ei ddyletswyddau dan y Ddeddf gyda golwg ar hyrwyddo'r **Pedwar Amcan Trwyddedu** yn gyfartal:

(a) Atal Trosedd ac Anrhefn;

(b) Diogelwch y Cyhoedd;

(c) Atal Niwsans Cyhoeddus; ac

(d) Amddiffyn plant rhag niwed.

2.2 Cydnabyddir mai dim ond un ffordd o gyflawni'r amcanion uchod yw'r swyddogaeth drwyddedu. Bydd yr Awdurdod felly'n parhau i weithio mewn partneriaeth â phob rhanddeiliad a phartner perthnasol arall.

2.3 Wrth ymgymryd â'i swyddogaeth drwyddedu, bydd yr Awdurdod yn ystyried deddfwriaeth arall a Strategaethau a Pholisïau'r Llywodraeth fel y bo'n briodol. Yn achos bod cyfundrefnau rheoleiddiol eraill yn gosod rhwymedigaethau ar ymgeiswyr, bydd yr Awdurdod yn osgoi gosod yr un rhwymedigaethau neu rai tebyg fel amodau ar drwydded i'r graddau y mae hynny'n bosibl.

2.4 Bydd yr Awdurdod hefyd yn ystyried mentrau ehangach sy'n berthnasol i drwyddedu fel:

(a) Camerâu Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) yng nghanol trefi

(b) Gorchmynion Gwahardd o Ganol Tref

(c) Cynllun Gwylio Tafarndai ("Pub Watch") a Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch

(d) Mentrau achredu megis Braf Bob Nos ("Best Bar None") neu gynlluniau eraill

(e) Mentrau i leihau achosion o drais trais tuag at ferched a genethod

(f) Galw Amser Newid (2025-2028) - Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol ar gyfer Gogledd Cymru (Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru 2025)

2.5 Dymuniad yr Awdurdod yw hwyluso eiddo sydd dan reolaeth dda gyda deiliaid trwyddedau yn dangos sensitifrwydd i'r effaith ar breswylwyr lleol. Mae'r Awdurdod yn sylweddoli fod eiddo trwyddedig ar yr ynys yn cyfrannu tuag at yr economi lleol. Maent yn denu ymwelwyr a thwristiaid, yn creu trefi a phentrefi bywiog ac yn gyflogwyr mawr. Yn ogystal, mae gan ddeiliaid masnachol eiddo ddisgwyliadau dilys o ran cael amgylchedd sy'n ddeniadol a chynaliadwy i'w busnesau. Ond mae'r Awdurdod yn ymwybodol y dylid sicrhau cydbwysedd rhwng hyn ac

anghenion preswylwyr lleol ynghyd ag ystyriaethau ehangach yn unol â'r Amcanion Trwyddedu.

2.6 Mabwysiadwyd y Polisi hwn gan yr Awdurdod ac mae'n amlinellu ymagwedd gyffredinol yr Awdurdod tuag at wneud penderfyniadau yng nghyswllt trwyddedu. Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, bydd yr Awdurdod yn ystyried y Polisi, yn ogystal â'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 182 o'r Ddeddf, wrth gydnabod bod rhaid ystyried pob cais yn ôl ei haeddiant.

2.7 Adolygwyd y Polisi hwn ddiwethaf ar [18 Mai 2021] ac fe'i mabwysiadwyd ar [X Mai 2026 (yn amodol ar gymeradwyaeth)].

2.8 Os bydd y canllawiau statudol a gyhoeddwyd dan Adran 182 o'r Ddeddf yn cael eu diwygio ar unrhyw adeg, neu os gwneir newidiadau deddfwriaethol neu reoleiddiol perthnasol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried datblygiadau o'r fath o ran eu heffaith bosibl ar y Polisi hwn.

3 AMCANION TRWYDDEDU

3.1 Nodir ymhellach isod sut y bydd yr Awdurdod yn gweithredu'r Amcanion Trwyddedu.

3.2 Yn ogystal â'i bwerau o dan y Ddeddf, bydd yr Awdurdod yn defnyddio amrediad cyflawn o fesurau gan gynnwys ei reolaethau cynllunio, rheolaethau trafnidiaeth, polisïau a phwerau trosedd ac anhrefn. Bydd yr Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth agos â'i reoleiddwyr; yr Heddlu, yr awdurdod tân a'r Bwrdd Iechyd lleol, yn ogystal â busnesau lleol, cynrychiolwyr yn y gymuned a phobl leol i gyflawni'r amcanion hyn.

Atal Trosedd ac Anrhefn

3.3 Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw i Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 sy'n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anrhefn yn yr ardal.

3.4 *Nod Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn/PDC (y mae'r Awdurdod yn aelod sefydlog ohono) yw mynd i'r afael â throsedd ac anrhefn drwy gynhyrchu Cynllun Diogelwch Cymunedol blynyddol. Mae'r cynllun yn cael ei lywio gan flaenoriaethau rhanbarthol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel. Bydd y Polisi'n rhoi sylw i effaith debygol trwyddedu o ran sicrhau bod eiddo a'r amgylchedd o'u cwmpas yn cael eu rheoli'n dda.*

3.5 Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw priodol i sylwadau Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru.

3.6 Dymuna'r Awdurdod hyrwyddo amgylchedd diogel ym mhob clwb nos. Gellir gosod amodau trwyddedu priodol a chymesur i reoli'r amgylchedd mewn eiddo perthnasol yn seiliedig ar arferion gorau cyfredol. **Cyffuriau -** Lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, gosodir amodau i leihau'r posibilrwydd o werthu a/neu ddefnyddio cyffuriau, gan gynnwys hyfforddi staff, darparu cymorth cyntaf a gwybodaeth am ddiogelwch cwsmeriaid. Ymgynghorir â'r Gwasanaethau

Alcohol a Chyffuriau Ileol a'r Heddlu ym mhob achos pan fydd angen gosod yr amodau hyn.

3.7 **Goruchwylwyr ar y Drysau -** Lle mae trwydded eiddo yn cynnwys amod sy'n gofyn i unrhyw un gyflawni gweithgaredd i sicrhau diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod sy'n gofyn i'r unigolyn hwnnw fod wedi'i drwyddedu gan yr Awdurdod y Diwydiant Diogelwch, onid yw wedi'i eithrio o ofyniad o'r fath am y rheswm ei fod yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau a nodwyd yn adran 21(2) o'r Ddeddf (trwyddedau sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu ar achlysuron eraill). Lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, gall yr Awdurdod arfer ei ddoethineb a gosod amodau bod rhaid cyflogi goruchwylwyr trwyddedig ar y drysau (a gymeradwyir gan yr Awdurdod y Diwydiant Diogelwch), naill ai trwy gydol yr amser neu ar yr adegau hynny a nodir gan yr Awdurdod, ac yn unol â'r nifer a'r gymhareb a bennir, yn seiliedig ar asesiad risg cytunedig o'r eiddo.

Diogelwch y Cyhoedd

3.8 Dymuna'r Awdurdod hyrwyddo safonau uchel o ddiogelwch i'r cyhoedd mewn perthynas â'r eiddo a'r gweithgareddau o fewn cwmpas y Ddeddf.

3.9 Ymgynghorir ag Adain Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod fel Awdurdod Cyfrifol yn hyn o beth i orfodi gofynion iechyd a diogelwch mewn eiddo perthnasol ac fe gaiff ei swyddogion hefyd weithredu fel Personau Awdurdodedig at ddibenion gorfodaeth o dan y Ddeddf.

3.10 Mae'r Awdurdod yn cydnabod na fydd dyletswyddau iechyd a diogelwch cyffredinol bob amser yn cynnwys materion penodol yn ddigonol, ac felly bydd angen gosod amodau ar Drwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb. Mae diogelwch corfforol yn cynnwys atal damweiniau ac anafiadau a mathau eraill o niwed uniongyrchol sy'n gallu digwydd o ganlyniad i yfed alcohol, fel bod yn anymwybodol, gwenwyn alcohol a digwyddiadau 'sbeicio'.

3.11 Pan fydd angen Trwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb, caiff yr Awdurdod ddewis rhai amodau sy'n briodol ac yn gymesur ar gyfer natur y gweithgareddau a nodwyd yn yr atodlen weithredu ac sy'n adlewyrchu'r amcanion trwyddedu.

3.12 Pan fo gweithgareddau'n cael eu trefnu gan wirfoddolwyr neu bwyllgor clwb neu gymdeithas neu eiddo cymunedol mae'r Awdurdod Trwyddedu yn credu ei bod yn arfer da bod yr un lefel o amddiffyniad iechyd a diogelwch yn cael ei darparu ag fel pe bai perthynas cyflogwr/cyflogai yn bodoli, boed dyletswyddau cyfreithiol llym yn bodoli o dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch presennol ai peidio. Anogir ymgeiswyr hefyd i gymryd ymagwedd ragweithiol tuag at faterion diogelwch cyffredinol, gan gynnwys rhai eu cwsmeriaid, ac i drafod camau priodol gyda'r Awdurdodau Cyfrifol dan sylw.

3.13 Pan fydd unrhyw amodau wedi'u gosod ar Drwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb, gall Swyddog Awdurdodedig ar ran yr Awdurdod archwilio'r eiddo hwnnw ar unrhyw adeg resymol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r amodau.

3.14 Byddai'r Awdurdod yn disgwyl i drefnwyr digwyddiadau mawr, lle y cynhelir gweithgareddau trwyddedadwy, baratoi cynllun rheoli digwyddiad gan gynnwys asesiadau risg priodol a'u cyflwyno i'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau mewn digon o bryd cyn unrhyw ddigwyddiad arfaethedig. Penderfyniad yr Awdurdod fydd unrhyw benderfyniad i drwyddedu ddigwyddiad o'r fath.

3.15 **Diogelwch Tân** Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw priodol i sylwadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a bydd yn ymgynghori â hwy fel un o'r Awdurdodau Cyfrifol sy'n ymwneud â cheisiadau. Caiff yr Awdurdod ddewis amodau priodol a chymesur o ran materion iechyd a diogelwch mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Bydd Rheoliadau Rhagofalon Tân (yn y gwaith) 1997 (fel y'i diwygiwyd) yn berthnasol mewn unrhyw eiddo lle bydd gweithgaredd gwaith yn digwydd a bydd Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 hefyd yn berthnasol. Gorfodir y rheoliadau hyn gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a bydd dyletswydd statudol ar oruchwylwyr eiddo i gynnal a diweddaru eu hasesiadau risg tân eu hunain ar gyfer pob eiddo. Ymhlith materion eraill, dylai'r ddogfen Asesiad Risg tân fynd i'r afael â dulliau adeiladu, y niferoedd a fydd yn defnyddio eiddo, systemau synhwyro mwg a thân, systemau larwm a chyfathrebu, diogelwch a goruchwyliaeth, y prif ddull a'r dull eilaidd o ddianc, ynghyd ag offer diffodd tân ar gyfer eiddo trwyddedig.

Atal Niwsans Cyhoeddus

3.16 Pan fydd yr Awdurdod yn dod i farn wrthrychol ynghylch yr hyn sydd yn cael ei ystyried yn niwsans bydd yn canolbwyntio ar effeithiau afresymol y gweithgareddau trwyddedadwy yn yr eiddo perthnasol ar y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cyffiniau. Bydd y materion yn ymwneud yn bennaf â'r canlynol: sŵn siarad, gwaeddi a cherddoriaeth a chwaraeir; gwastraff; sbwriel, parcio ceir a llygredd golau ac arogleuon niweidiol.

3.17 Pan fydd yr Awdurdod yn ystyried yr effaith bosibl a gaiff unrhyw eiddo trwyddedig ar yr ardal o amgylch i'r eiddo hwnnw, bydd y Cyngor yn cymryd i ystyriaeth y math o weithgaredd adloniant, yr oriau gweithredu a fwriedir, capasiti'r eiddo, natur yr ardal a'r agosrwydd at breswylwyr lleol.

3.18 Gorfodir darpariaethau Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n ymwneud â niwsans sŵn gan tîm Iechyd Yr Amgylchedd yr Awdurdod. Ymgynghorir â hwy ynghylch eiddo presennol os bydd niwsans statudol yn amharu ar breswylwyr neu'r gymuned fusnes. Ymgynghorir â hwy hefyd fel Awdurdod Cyfrifol mewn perthynas â cheisiadau a gallant gynnig cyngor i ymgeiswyr mewn perthynas ag atal niwsans cyhoeddus oherwydd sŵn.

3.19 Bydd yr Awdurdod yn defnyddio amrediad o amodau trwyddedu i reoli sŵn a gellir cyfeirio at arfer da cyfredol ynghylch rheoli sŵn o dafarndai a chlybiau. Mae'n debygol y gosodir amodau caethach ar gyfer rheoli sŵn mewn ardaloedd lle mae eiddo yn agos neu'n gyfagos i eiddo preswyl.

3.20 Ni fydd yr Awdurdod yn gosod amodau na fyddant dan reolaeth uniongyrchol deiliad trwydded, neu ynghylch materion nad ydynt yn gysylltiedig â chyffiniau'r eiddo.

3.21 Yn ogystal, mae gan Heddlu Gogledd Cymru hawliau dan y Ddeddf i reoli sŵn o eiddo. Pe byddai angen iddynt ddefnyddio'r pwerau hyn, byddant yn cysylltu, pan fo hynny'n ymarferol, gyda'r Awdurdod yn unol â'r protocol gorfodaeth a rennir.

3.22 Bydd yr Awdurdod yn cydbwyso'r posibilrwydd o rywfaint o aflonyddu ar gymdogaethau gyda'r angen i annog a hyrwyddo cerddoriaeth fyw, a dawnsio a theatr.

3.23 Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda Gweithredwyr Eiddo Trwyddedig i sicrhau y glynir wrth holl delerau priodol Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.

3.24 Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2013 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cau eiddo os yw sŵn o unrhyw eiddo trwyddedig yn achosi niwsans cyhoeddus.

Amddiffyn Plant Rhag Niwed

3.25 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gellir cyflwyno cais am drwydded ar gyfer amrywiaeth eang o eiddo. Er enghraifft, byddant yn cynnwys theatrau; sinemâu; gwestai; archfarchnadoedd; siopau llai; tai bwyta; tafarndai; clybiau nos; caffis; siopau tecawê; neuaddau cymuned ac ysgolion. Ni fydd plant yn cael eu rhwystro mewn unrhyw fodd rhag cael mynd i mewn i unrhyw eiddo (ac eithrio bo hynny'n unol â'r Ddeddf) oni fydd yn briodol a chymesur i wneud hynny i'w diogelu rhag niwed ac ecsbloetiaeth.

3.26 Wrth ystyried ceisiadau ac opsiynau sy'n briodol i atal niwed ac ecsbloetiaeth i blant, bydd yr Awdurdod yn ystyried hanes eiddo penodol a natur y gweithgareddau y bwriedir eu cynnal yno. Er enghraifft:

(a) A gafwyd euogfarnau am werthu alcohol i bobl ifanc dan oed neu a oes gan yr eiddo hanes/tystiolaeth o yfed dan oed (gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd gan Adain Safonau Masnach yr Awdurdod ynghylch pryniannau prawf o ran cyflenwi alcohol);

(b) A oes unrhyw gysylltiad hysbys gyda defnyddio neu ddelio mewn cyffuriau;

(c) A oes elfen gref o gamblo yn yr eiddo; neu

(d) A fydd adloniant i oedolion neu o natur rywiol yn cael ei gynnig yn aml.

3.27 Lle ystyrir bo hynny'n briodol, gellir gosod amodau sy'n:

(a) Cyfyngu ar yr oriau pan gaiff plant fod yn bresennol;

(b) Cyfyngu ar oedran y sawl sy'n cael bod yn yr eiddo (o dan 18);

(c) Cyfyngu a ba bryd y gellir cynnal rhai gweithgareddau neu rwystro plant rhag bod yn bresennol ar yr adegau hynny; neu

(d) Bod angen oedolyn yn gwmni i blentyn.

3.28 Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn caniatáu i Awdurdodau Trwyddedu a'r Heddlu y dewis o osod cyfnod o gau gwirfoddol am hyd at bythefnos (o leiaf 48 awr) yn achos eiddo sy'n gwerthu alcohol i blant yn gyson, fel opsiwn yn lle erlyn mewn rhai achosion.

3.29 Pan fydd niferoedd mawr o blant yn debygol o fod yn bresennol mewn unrhyw eiddo trwyddedig, er enghraifft ar gyfer sioe blant neu bantomeim, yna bydd yr Awdurdod yn gofyn am asesiad risg addas i sicrhau eu diogelwch ac i'w hamddiffyn rhag niwed.

3.30 Pan fydd caniatâd wedi'i roi i ddangos ffilmiau, bydd yr Awdurdod yn disgwyl y byddir yn cydymffurfio â chyfyngiadau oedran yn unol ag argymhellion Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain. Ni wnaiff yr Awdurdod ond ystyried amrywiadau i'r rheol gyffredinol hon mewn achosion eithriadol.

3.31 Ni ddangosir unrhyw ffilm mewn eiddo trwyddedig sy'n debygol o greu anhrefn, ennyn casineb neu ysgogi trais tuag at unrhyw garfan o'r cyhoedd ar sail lliw, hil neu dras ethnig neu genedlaethol, anabledd, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, beichiogrwydd neu rywedd.

3.32 Ni fydd yr Awdurdod yn gosod unrhyw amod sy'n gofyn yn benodol am ddarparu mynediad i blant i unrhyw eiddo. Pa na fydd unrhyw gyfyngiad wedi'i osod, mater i'w benderfynu gan y deiliad trwydded unigol fydd mynediad.

3.33 Mae Deddf Gamblo 2005 yn caniatáu rhywfaint o chwarae gemau cyfle cyfartal mewn eiddo trwyddedig, ynghyd â nifer gyfyngedig o beiriannau gemau. Rhaid i'r Awdurdod neu'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig fonitro presenoldeb plant neu bobl fregus.

4 Y BROSES DRWYDDEDU A GWEINYDDU SWYDDOGAETHAU – TROSOLWG

4.1 Mae **Atodiad A** yn darparu manylion cysylltu ar gyfer y broses geisiadau trwyddedu, tra bo'r adran hon yn darparu rhywfaint o ganllawiau cyffredinol.

Gweinyddu Swyddogaethau Trwyddedu a'r Pwyllgor Trwyddedu

4.2 Caiff pwerau'r Awdurdod o dan y Ddeddf eu cyflawni gan y Pwyllgor Trwyddedu, neu gan Is-bwyllgor, neu gan un neu ragor o swyddogion yn gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig (gweler **Atodiad D**).

4.3 Mae'r Pwyllgor Trwyddedu yn cynnwys 15 aelod o'r Awdurdod. Cynhelir gwrandawiadau (pan fo angen) gerbron yr Is-bwyllgor Trwyddedu sy'n cynnwys 3 aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu.

Hysbysebu a Sylwadau Perthnasol

4.4 Pan fydd cais yn cael ei hysbysebu, caiff yr Awdurdodau Cyfrifol (**gweler Atodiad B**) ac unigolion eraill y cyfle i wneud sylwadau. Ni fydd sylwadau ond yn cael eu hystyried yn berthnasol os ydynt yn ymwneud ag un neu ragor o'r amcanion trwyddedu.

4.5 Gall Awdurdodau Cyfrifol wneud sylwadau mewn perthynas â'r effaith y gallai pob cais am drwydded ei chael ar yr amcanion trwyddedu a ph'un a yw'r mesurau rheoli a gynhwysir yn yr atodlen weithredu yn ddigonol i liniaru'r effeithiau hynny.

4.6 Gall unrhyw un arall gyflwyno sylwadau (gan gynnwys trydydd parti neu Gynghorydd Ward sy'n cynrychioli unigolyn, os gellir bodloni'r Awdurdod o ran pwy ydyw'r unigolyn a bod y trydydd parti wedi'i awdurdodi i gyflwyno sylwadau ar ei ran).

4.7 Gall sylwadau fod yn rhai cadarnhaol yn ogystal ag yn negyddol, fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd angen cynnal gwrandawiad os mai dim ond sylwadau cadarnhaol a dderbynnir

4.8 Bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu fod yn fodlon bod cyswllt tystiolaethol rhwng y sylwadau a wnaed, yr amcanion trwyddedu a'r eiddo dan sylw. Pan fydd sylw'n gwneud dim ond ailrestru'r amcanion trwyddedu, heb nodi pam yr ystyrir y bydd caniatáu'r cais yn tanseilio'r amcanion neu'n methu â'u hyrwyddo, efallai y caiff y sylw ei wrthod fel un sy'n annilys.

4.9 Dylai unrhyw un sy'n gwneud sylw ar gais gadw mewn cof y bydd ei ddata personol (megis ei enw a'i gyfeiriad) yn cael eu datgelu i'r ymgeisydd. Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn golygu llythyrau sy'n cyflwyno sylwadau. Bydd pob llythyr sylwadau'n cael ei gynnwys ar yr agenda petai'r mater yn mynd ymlaen i wrandawiad gan yr Is-bwyllgor. Mae gwrandawiadau yn agored i'r cyhoedd a gallai aelodau o'r cyfryngau fod yn bresennol, onid yw'r is-bwyllgor yn penderfynu fel arall o dan Reoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005 neu Ddeddf Llywodraeth Leol 1972¸ Atodlen 12A (fel y diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, SI 2007/969, Erthygl 3). Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd data personol yn cael ei gyhoeddi yn y cofnodion sy'n cael eu dosbarthu i'r holl bartïon yn yr achos ac a fydd ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Sylwadau a thrafodaeth a'r angen am wrandawiad

4.10 Dan y Ddeddf mae rheidrwydd ar yr Awdurdod Trwyddedu i gymeradwyo cais oni bai y derbynnir sylwadau perthnasol. Os na dderbynnir unrhyw sylwadau perthnasol bydd swyddogion trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu yn delio â'r cais o dan y cynllun dirprwyo. Os ceir sylwadau perthnasol na ellir eu datrys (gweler isod) yna bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu yn ystyried y cais mewn gwrandawiad cyhoeddus.

4.11 Os cyflwynir sylwadau, bydd swyddog yn gyfrifol am sicrhau cysylltiad rhwng yr Ymgeisydd/Ymgeiswyr, yr Awdurdodau Cyfrifol ac unrhyw unigolyn arall sy'n gwneud sylwadau perthnasol.

4.12 Os cyflwynir sylwadau perthnasol, gallai swyddog o'r Awdurdod Trwyddedu gysylltu â'r partïon perthnasol i weld a yw "setliad" yn bosibl i oresgyn unrhyw wrthwynebiadau ac i ddatrys unrhyw faterion sy'n destun pryder, heb yr angen i'r mater fynd gerbron yr Is-bwyllgor Trwyddedu. Unwaith y bydd cais wedi'i wneud, gosodir amserlenni statudol ar y broses geisiadau a phenderfynu a allai cyfyngu ar y cyfle i drafod, sicrhau cyswllt a chyfryngu.

4.13 Os gellir dod i gytundeb, a bod yr holl bartïon yn cytuno bod gwrandawiad yn ddiangen, yna ni fydd gwrandawiad yn cael ei gynnal. Ni fydd materion ond yn cael eu hatgyfeirio i'w penderfynu gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu os na ellir cysoni unrhyw wrthwynebiadau a godwyd.

4.14 Er bod Ceisiadau Trwyddedu a Gwrandawiadau Adolygu sy'n cael eu herio yn lled-farnwrol o ran natur, bydd yr Is-bwyllgor yn ceisio sicrhau bod y trafodion mor anffurfiol â phosibl. Mae angen rhyw fath o ffurfioldeb i sicrhau bod yr holl bartïon yn derbyn gwrandawiad teg. Bydd yn rhaid sefydlu gofynion gweithdrefnol i sicrhau bod yr holl bartïon yn gallu mynegi eu safbwyntiau yn agored ac yn deg.

4.15 Er bod yr Is-bwyllgor fel arfer yn cyfarfod yn gyhoeddus, mae ganddo'r pŵer i wrando ar rai ceisiadau penodol yn breifat. Fodd bynnag, bydd yr Is-bwyllgor bob amser yn llunio'i benderfyniad yn breifat. Bydd cyhoeddiad cyhoeddus o'r penderfyniad yn cael ei wneud ar ddiwedd y Gwrandawiad fel arfer, ynghyd ag amlinelliad o'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

Amodau

4.16 Os na chyflwynir unrhyw sylwadau perthnasol, cymeradwyir y cais ar y telerau a geisiwyd, h.y. yn gyson â'r atodlen weithredu ac yn amodol ar yr amodau gorfodol. Ni osodir unrhyw amodau ychwanegol.

4.17 Yr Is-bwyllgor Trwyddedu sy'n delio â cheisiadau lle cyflwynwyd sylwadau perthnasol, neu os ceir cais i adolygu trwydded. Wrth ystyried ceisiadau, bydd yr Is-bwyllgor yn ystyried y Polisi hwn, y Ddeddf, y canllawiau statudol a rheoliadau cysylltiedig.

4.18 Os aiff y mater i wrandawiad, gall yr Is-bwyllgor Trwyddedu atodi amodau (yn ychwanegol i'r amodau gorfodol) os daw i'r casgliad (ar ôl derbyn sylwadau perthnasol) bod hynny'n briodol i hyrwyddo un neu ragor o'r amcanion trwyddedu. Bydd yr Awdurdod, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn osgoi gosod amodau anghymesur a beichus ar eiddo.

4.19 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y cyngor a dderbyniwyd gan y Swyddfa Gartref na ddylid caniatáu i safbwyntiau'r lleiafrif ddominyddu buddion cyffredinol y gymuned.

4.20 Bydd unrhyw amodau a atodir yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd yn yr eiddo ar y rheiny sy'n mynychu'r eiddo ac ar aelodau o'r cyhoedd sy'n byw, yn gweithio neu fel arall yn ymwneud â gweithgareddau arferol yng nghyffiniau'r eiddo. Wrth benderfynu a yw unigolyn yn byw neu a oes ganddo ddiddordebau busnes yn ddigon agos at yr eiddo fel ei bod yn debygol y caiff ei effeithio gan y gweithgareddau arfaethedig, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ffactorau o bwys megis:

(a) Maint yr eiddo.

(b) Natur yr eiddo.

(c) Pellter yr eiddo o leoliad cartref neu fusnes yr unigolyn sy'n gwneud y sylwadau.

(d) Effaith bosibl yr eiddo (e.e. nifer y cwsmeriaid a'r llwybrau y mae'r cwsmeriaid yn debygol o'u defnyddio).

4.21 Efallai y bydd rhaid gosod amodau sy'n ceisio rheoli ystod neu natur y gweithgareddau o fewn yr eiddo, neu sydd wedi'u dylunio i leihau'r potensial am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n bosibl y bydd amodau o'r fath hefyd yn ceisio dylanwadu'n uniongyrchol ar ymddygiad cwsmeriaid yn yr eiddo neu yng nghyffiniau'r eiddo.

Integreiddio Strategaethau ac Osgoi Dyblygu

4.22 Bydd unrhyw benderfyniad ynglŷn â chais am drwydded yn cael ei wneud yn hollol ar wahân i unrhyw benderfyniad sydd yn ymwneud â materion cynllunio - gellir cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Cynllunio ynglŷn â'r sefyllfa o ran trwyddedu yn yr ardal, ynghyd ag effaith gyffredinol trosedd ac anrhefn sydd yn gysylltiedig ag alcohol.

4.23 *Gall y Pwyllgor Trwyddedu dderbyn mewn perthynas â Throsedd ac Anrhefn drwy wneud cais i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd.*

4.24 Wrth ddelio â cheisiadau, mae'n bosibl y bydd angen rhoi sylw dyledus i nifer o faterion ehangach. Lle ystyrir bod hynny'n briodol, gall Pwyllgor Trwyddedu'r Awdurdod dderbyn adroddiadau i'w helpu i wneud penderfyniadau. Gall adroddiadau o'r fath gynnwys anghenion y diwydiant twristiaid lleol, Strategaeth Ddiwylliannol yr ardal, y sefyllfa o safbwynt cyflogaeth yn yr ardal, ar angen am fuddsoddiad a gwaith newydd ynghyd ag ystyriaethau cynllunio a allai effeithio ar eiddo trwyddedig.

4.25 Pan fydd unrhyw brotocolau y cytunwyd arnynt gyda'r Heddlu yn nodi angen penodol i wasgaru pobl o ganol y dref yn gyflym ac yn ddiogel er mwyn osgoi casgliadau o bobl a fyddai'n gallu creu trosedd ac anrhefn, bydd yr Awdurdod yn cynorthwyo, lle bo hynny'n ymarferol, i leihau'r posibilrwydd y bydd problemau'n codi.

4.26 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn gyfrifol am wneud sylwadau ar geisiadau am drwyddedau. Bydd BIPBC hefyd yn defnyddio gwybodaeth iechyd i lywio ei

benderfyniadau. Nid yw iechyd cyhoeddus yn amcan trwyddedu hyd yma, ond mae'r awdurdod trwyddedu'n credu bod gan iechyd cyhoeddus lawer i'w gyfrannu at drwyddedu o ran anghenion iechyd y boblogaeth leol mewn perthynas ag alcohol. Mae gan gyrff iechyd megis BIPBC fynediad unigryw at ddata nad yw ar gael i awdurdodau cyfrifol eraill, megis tystiolaeth o'r adran Ddamweiniau ac Achosion Brys a'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau lleol, a allai gyfrannu at benderfyniadau trwyddedu. Mae Iechyd Cyhoeddus yn ddefnyddiol wrth ddarparu tystiolaeth o niweidiau iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn enwedig mewn perthynas â pholisïau ar effeithiau cronnus.

5 TRWYDDEDAU EIDDO A THYSTYSGRIFAU EIDDO CLWB (CEISIADAU NEWYDD, AMRYWIADAU A GWYBODAETH GYFFREDINOL)

5.1 Bydd yr Awdurdod yn asesu pob cais newydd neu gais i amrywio amodau yng ngoleuni'r amcanion trwyddedu, a bydd yn rhoi sylw arbennig i'r canlynol:

(a) Y camau a gymerir neu'r rheiny y bwriedir eu cymryd i atal sŵn a dirgryniad o'r eiddo, gan gynnwys cerddoriaeth, sŵn o offer awyru a sŵn lleisiau. Gall y fath gamau gynnwys cyfarpar a dyfeisiau i ynysu'r eiddo rhag sain, i dymheru'r awyr, i gyfyngu ar sŵn ynghyd â lobïau acwstig.

(b) Y camau a gymerir neu'r rheiny y bwriedir eu cymryd i atal aflonyddwch gan gwsmeriaid a staff sy'n cyrraedd neu'n gadael yr eiddo.

(c) Y camau a gymerir neu y bwriedir eu cymryd i atal ciwio, neu, os yw ciwio'n anochel, i wyro'r ciwiau o'r eiddo cyfagos, neu i reoli'r ciw i atal aflonyddwch neu rwystr.

(d) Y trefniadau parcio i gwsmeriaid a wnaed neu y bwriedir eu gwneud, ac effaith parcio ar breswylwyr lleol.

(e) P'un a oes darpariaeth ddigonol ar gyfer cludiant cyhoeddus i gwsmeriaid.

(f) P'un a fydd y tacsis a'r cerbydau hurio preifat sydd yn cynnig gwasanaeth i'r eiddo yn debygol o darfu ar breswylwyr lleol.

(g) P'un a yw'r llwybrau i ac o'r eiddo ar droed neu mewn car neu gerbydau gwasanaeth neu ddosbarthu yn pasio eiddo preswyl.

(h) P'un a ystyriwyd unrhyw ddulliau eraill o atal niwsans, fel defnyddio camerâu cylch cyfyng neu gyflogi goruchwylwyr cofrestredig ar y drysau.

(i) Y camau y bwriedir eu cymryd i atal y defnydd neu'r gwerthiant o gyffuriau anghyfreithlon, gan gynnwys unrhyw weithdrefnau chwilio.

(j) Y camau y bwriedir eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

(k) Y tebygolrwydd bod unrhyw drais, anrhefn cyhoeddus neu broblem plismona yn codi pe bai trwydded yn cael ei chymeradwyo.

(l) Os yw'r ymgeisydd wedi dal trwydded gyda'r Awdurdod yn flaenorol, manylion unrhyw gamau gorfodi sydd wedi deillio o'r eiddo.

(m) P'un a fyddai cynnydd mewn problemau o ran storio neu waredu sbwriel, neu a fyddai sbwriel ychwanegol yng nghyffiniau'r eiddo.

(n) Derbyn sylwadau gan awdurdodau cyfrifol (gan gynnwys yr Heddlu, yr Awdurdod Tân ac Iechyd yr Amgylchedd).

(o) Derbyn sylwadau gan unrhyw unigolyn arall (megis aelod o'r cyhoedd neu fusnes arall).

(p) Unrhyw gamau lliniaru a gynigiwyd.

5.2 Mae'r Awdurdod hefyd yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol i gefnogi eu ceisiadau ac i ddangos ymwybyddiaeth o'r gymuned leol, gallai hynny gynnwys nodweddion demograffig yr ardal ac/neu faterion trosedd ac anrhefn lleol penodol er enghraifft.

5.3 Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw i unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth â gofynion statudol a ddaethpwyd i'w sylw, yn enwedig pan mae'n tanseilio'r amcanion trwyddedu. Gall unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth â gofynion statudol eraill ddangos nad yw'r eiddo'n addas ar gyfer y gweithgareddau a fwriedir; neu nad oes rheolaeth ddigonol ar yr eiddo i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed neu niwsans.

5.4 **Mân Amrywiadau** – Gall deiliad tystysgrif eiddo clwb/trwydded eiddo wneud cais dan y drefn mân amrywiadau ar gyfer mân amrywiadau na fydd yn cael effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu. Mae hon yn broses amrywio fwy syml ac nid oes unrhyw hawl i wrandawiad. Os gwrthodir y cais, gellir gwneud amrywiad llawn.

Gwybodaeth Gyffredinol

5.5 **Tynnu Amod bod rhaid cael Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig** – Os oes gan eiddo yn y gymuned drwydded sy'n caniatáu cyflenwi/gwerthu alcohol, gall deiliad y drwydded wneud cais i gael gwared ar yr amod gorfodol sy'n dweud bod rhaid penodi Goruchwyliwr Dynodedig ar gyfer yr eiddo. Mae hyn yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am werthu/cyflenwi alcohol i'r Pwyllgor Rheoli ar gyfer yr eiddo.

5.6 **Garejis** – Wrth wneud penderfyniadau am geisiadau ar gyfer garejis (h.y. siopau cwrt blaen) mae'n rhaid i'r Awdurdod benderfynu p'un a yw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio'n bennaf fel garej ai peidio, a bydd disgwyl i'r ymgeiswyr gyflwyno data sy'n sefydlu'r prif ddefnydd. Pan nad yw gwybodaeth o'r fath ar gael (er enghraifft, oherwydd nad yw'r eiddo ond newydd gychwyn masnachu), mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod yn ystyried gosod amod sy'n gofyn am gael

darparu'r wybodaeth hon yn rheolaidd i'r Awdurdod Trwyddedu am y blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau nad yw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio fel garej yn bennaf.

6 HYSBYSIADAU DIGWYDDIADAU DROS DRO (TENS)

6.1 Ceir meini prawf caeth a chyfyngiadau mewn perthynas â Hysbysiadau y dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol ohonynt a chydymffurfio â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys (ond nid wedi eu cyfyngu iddynt):

(a) **Nifer yr Hysbysiadau y gellir eu rhoi ym mhob blwyddyn galendr** - 50 ar gyfer deiliad trwydded bersonol (gan gynnwys uchafswm o 10 Hysbysiad hwyr), 5 i bobl eraill (gan gynnwys uchafswm o 2 Hysbysiad hwyr). Uchafswm o 15 Hysbysiad ym mhob blwyddyn galendr ar gyfer unrhyw eiddo penodol.

(b) **Uchafswm hyd un digwyddiad** – 168 awr (saith diwrnod).

(c) **Cyfanswm uchafswm hyd digwyddiadau drwy gydol blwyddyn galendr** - 21 diwrnod.

(d) **Cyfanswm nifer y mynychwyr ar unrhyw adeg** – 499.

(e) **Y cyfnod lleiaf rhwng digwyddiadau a awdurdodir o dan Hysbysiadau ar wahân mewn perthynas â'r un eiddo** - 24 awr.

6.2 Dylai ymgeiswyr ystyried a ydynt yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau cyn cyflwyno Hysbysiad.

Amseriadau ar gyfer cyflwyno

6.3 Mae'r Awdurdod yn argymell y dylai ymgeiswyr gyflwyno Hysbysiadau safonol **o leiaf 20 diwrnod** cyn y digwyddiad dros dro sydd dan sylw.

6.4 Gall yr Heddlu a'r tîm Iechyd yr Amgylchedd gyflwyno gwrthwynebiad i Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, cyn pen tri diwrnod i gyflwyno hysbysiad, a fydd yn caniatáu cyfnod ar gyfer adolygu'r Hysbysiad, a fydd yn arwain at ei newid mewn rhai achosion fel y gall yr Awdurdod ychwanegu amodau i'r Hysbysiad.

6.5 Hysbysiad hwyr yw un a gyflwynir rhwng 9 a 5 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad.

6.6 Gwahaniaeth allweddol rhwng Hysbysiad safonol a hwyr yw os derbynnir gwrthwynebiad mewn perthynas â Hysbysiad safonol, yna rhaid cynnal gwrandawiad (onid yw bob parti yn ystyried bod hyn yn ddiangen). Os yw'r Heddlu neu tîm Iechyd yr Amgylchedd yn gwrthwynebu i Hysbysiad hwyr, yna ni fydd gwrandawiad ac ni chynhelir y digwyddiad.

6.7 Bydd yr Awdurdod yn ceisio darparu cyngor ynghylch trefnu digwyddiadau o'r fath i ymgeiswyr, gan gynnwys ar faterion diogelwch y cyhoedd. Lle bo angen, bydd cydweithrediad rhwng

awdurdodau cyfrifol a'r gwasanaethau brys yn cael ei hwyluso trwy'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch.

6.8 Bydd llawer o ddigwyddiadau lleol wedi'u trefnu gan wirfoddolwyr neu bwyllgor clwb neu gymdeithas. Mae'r Awdurdod o'r farn ei bod yn arfer da bod yr un lefel o amddiffyniad iechyd a diogelwch yn cael ei ddarparu ag fel pe bai perthynas cyflogwr/cyflogai yn bodoli, boed dyletswyddau cyfreithiol llym yn bodoli o dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch presennol ai peidio..

7 TRWYDDEDAU PERSONOL

7.1 Rhaid i ymgeiswyr am Drwydded Bersonol gyflawni'r gofynion a ganlyn:

(a) Eu bod yn 18 neu drosodd.

(b) Bod ganddynt gymhwyster trwyddedu perthnasol.

(c) Na chafodd unrhyw drwydded bersonol a oedd ganddynt ei fforffedu yn ystod y 5 mlynedd cyn y cais presennol.

(d) Pan fo gan ymgeisydd euogfarn sydd heb ddarfod ar gyfer trosedd berthnasol neu drosedd dramor, a naill ai i) nad yw'r Heddlu wedi gwrthwynebu i gymeradwyo'r cais neu ii) mae'r Awdurdod wedi ystyried gwrthwynebiad yr Heddlu ond wedi penderfynu na fydd cymeradwyo'r cais yn tanseilio'r amcan atal trosedd ac anrhefn.

(e) Maent wedi talu'r ffi berthnasol.

7.2 Rhaid i'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig (DPS) ar bob Trwydded Eiddo, sef y prif bwynt cyswllt ar gyfer yr Awdurdod, yr Heddlu ac Awdurdodau Cyfrifol eraill ddal trwydded bersonol.

7.3 Mae Trwyddedau Personol yn ddilys am gyfnod amhenodedig, fodd bynnag, unwaith y byddant wedi'u cyflwyno, yr awdurdod â'u cyflwynodd sy'n parhau fel yr awdurdod trwyddedu perthnasol ar eu cyfer, er efallai y bydd deiliad y drwydded yn symud o'r ardal.

7.4 Bydd yn rhaid i'r sawl sy'n dal Trwydded Bersonol roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw euogfarnau perthnasol a rhoi gwybod i'r llysoedd bod ganddynt drwydded bersonol cyn gynted ag y bo modd fel bod modd ystyried ardystio, atal neu ddirymu trwydded. Bydd peidio â chydymffurfio â'r uchod yn drosedd.

7.5 Bydd Trwydded Bersonol yn cael ei dirymu os nad oes gan ddeiliad y Drwydded Bersonol bellach hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig.

8 TYSTYSGRIFAU EIDDO CLWB

8.1 Mae clwb yn sefydliad lle mae aelodau wedi ymuno â'i gilydd am resymau cymdeithasol, chwaraeon neu wleidyddol penodol. Ni ddylid eu cymysgu â chlybiau perchnogol, sef clybiau

sy'n cael eu rhedeg gan unigolion, partneriaethau neu fusnesau er elw. Er mwyn ymgeisio am Dystysgrif Eiddo Clwb, mae angen i'r clwb fod yn 'Glwb Cymwys', sy'n golygu bod rhaid i'r clwb gyflawni amodau a nodir yn y Ddeddf, gan gynnwys:

(a) O dan reolau'r clwb, bod cyfnod o o leiaf 2 ddiwrnod rhwng ymgeisio i fod yn aelod a chael mynediad i'r clwb. Mae hyn yn cynnwys breintiau aelodaeth (h.y. cael defnyddio'r cyfleusterau ac yfed alcohol).

(b) Bod y clwb wedi'i sefydlu a'i gynnal mewn ewyllys da fel clwb.

(c) Bod gan y Clwb o leiaf 25 aelod.

(d) Nad yw alcohol yn cael ei gyflenwi, neu y bwriedir ei gyflenwi, i aelodau yn yr eiddo ac eithrio gan neu ar ran y clwb.

8.2 Mae gan glybiau sy'n dal Tystysgrifau Eiddo Clwb yr hawl i fuddion penodol:

(a) Nid oes angen Deiliaid Trwydded Bersonol yn yr eiddo.

(b) Nid oes angen Goruchwylwyr Eiddo Dynodedig.

(c) Hawliau mynediad mwy cyfyngedig i'r Heddlu ac Unigolion Awdurdodedig (Swyddogion Trwyddedu) gan fod yr eiddo'n cael ei ystyried yn eiddo preifat ac nad yw ar agor i'r cyhoedd yn gyffredinol.

(d) Gwerthu bwyd poeth a diod rhwng 11pm a 5am i aelodau a gwesteion heb fod angen trwydded.

9 ATODLEN WEITHREDU

9.1 Dylai'r holl geisiadau newydd a cheisiadau am amrywio trwydded ar gyfer Trwyddedau Eiddo, Tystysgrifau Eiddo Clwb a Datganiadau Dros Dro gynnwys atodlen weithredu sy'n amlinellu sut y bydd yr eiddo'n cael ei weithredu. Dylai'r atodlen hon gynnwys manylion am sut y bydd yr ymgeisydd yn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu ac yn lleihau unrhyw effaith negyddol bosibl ar y gymuned leol sy'n deillio o weithredu eu busnes, yn dibynnu ar y math o eiddo, ei leoliad a phroffil y cwsmeriaid.

9.2 Bydd y cynigion a gynhwysir yn yr atodlen weithredu yn ffurfio prif gorff yr amodau sydd i'w gosod ar y drwydded, ynghyd ag unrhyw amodau mandadol sy'n berthnasol, unrhyw amodau y cytunir arnynt gydag awdurdodau cyfrifol yn ystod y broses ymgeisio ac unrhyw amodau sydd i'w gosod gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu (fel y bo'n berthnasol).

9.3 Wrth gwblhau atodlen weithredu, disgwylir i ymgeiswyr roi ystyriaeth i'r Polisi hwn ac arddangos bod ganddynt wybodaeth addas o'u hardal leol pan fyddant yn disgrifio'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu. Dylai ymgeiswyr ddangos,

pan fyddant yn amlinellu'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, eu bod yn deall:

(a) cynllun yr ardal leol a'r amgylchedd ffisegol gan gynnwys mannau lle mae llawer o drosedd ac anhrefn, agosrwydd at eiddo preswyl ac agosrwydd at fannau lle mae plant efallai'n ymgynnull;

(b) unrhyw risg i'r ardal leol o ganlyniad i weithgareddau trwyddedig arfaethedig yr ymgeiswyr; ac

(c) unrhyw fentrau lleol (er enghraifft, mentrau lleihau trosedd lleol neu gynlluniau gwirfoddol, gan gynnwys cynlluniau marsialiaid tacsi lleol, bugeiliaid y stryd a chynlluniau eraill) a allai fod o gymorth i liniaru risgiau posibl.

9.4 Cynghorir ymgeiswyr i drafod eu hatodlenni gweithredu arfaethedig gyda'r Awdurdod ac Awdurdodau Cyfrifol eraill cyn eu cyflwyno. Bydd swyddogion yr Awdurdod yn ymdrechu i ddarparu arweiniad ar gyfer y cam hwn o'r broses. Lle mae swyddog yn cynrychioli'r Awdurdod yn ei rôl fel Awdurdod Cyfrifol, lle bynnag y bo modd, dynodir swyddog arall i brosesu'r cais ac i ddarparu arweiniad i ymgeiswyr.

9.5 Bydd y cymhlethdod a'r manylion sydd eu hangen yn yr atodlen weithredu yn dibynnu ar natur a defnydd yr eiddo dan sylw. Er enghraifft, ar gyfer tafarndai lle na ddarperir adloniant wedi'i reoleiddio, dim ond dogfen eithaf syml fyddai ei hangen. Fodd bynnag, os yw'r atodlen weithredu yn rhan o gais ar gyfer digwyddiad neu leoliad adloniant mawr, bydd disgwyl i'r atodlen roi sylw manwl i faterion megis diogelwch y cyhoedd ac atal trosedd ac anrhefn.

9.6 Mae'n rhaid gosod yr atodlen weithredu ar y ffurflen benodedig a rhaid iddi gynnwys y canlynol:

(a) Manylion llawn am y gweithgareddau trwyddedig a fydd yn cael eu cynnal yn yr eiddo a'r defnydd a fwriedir ar gyfer yr eiddo;

(b) Yr amseroedd y bydd y gweithgareddau trwyddedadwy yn digwydd;

(c) Unrhyw adegau eraill pan fydd yr eiddo ar agor i'r cyhoedd;

(d) Pan fo angen y drwydded am gyfnod cyfyngedig, beth yw'r cyfnod hwnnw;

(e) Pan fo'r gweithgareddau trwyddedig yn cynnwys cyflenwi alcohol, enw a chyfeiriad yr unigolyn sy'n cael ei ddynodi'n oruchwyliwr eiddo dynodedig (fel y bo'n berthnasol);

(f) P'un a fydd alcohol yn cael ei gyflenwi i'w yfed yn yr eiddo neu oddi ar yr eiddo, neu'r ddau;

(g) Y camau y mae'r ymgeisydd yn eu cynnig er mwyn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

9.7 O ran rhai eiddo, mae'n bosibl na fydd angen unrhyw fesurau i hyrwyddo un neu ragor o'r Amcanion Trwyddedu, er enghraifft, am eu bod yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod pob atodlen weithredu yn fanwl gywir a bod modd ei gorfodi, nad yw'n annelwig, nad yw'n dyblygu darpariaethau statudol eraill, ei bod yn glir yn yr hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni, ac yn briodol, yn gymesur a bod modd ei chyfiawnhau.

Oriau Gweithredu

9.8 O dan y Ddeddf, nid oes rhagdybiaeth gyffredinol o blaid ymestyn oriau.

9.9 O ran oriau gweithredu, y pedwar amcan trwyddedu fydd y brif ystyriaeth bob amser a bydd pob cais yn cael ei farnu ar ei rinweddau ei hun. Fel rhan o hyn, mae'r materion allweddol a ystyrir yn cynnwys: ansawdd yr amgylchedd; amwynderau preswylwyr; cymeriad neu swyddogaeth ardal benodol a natur y gweithgareddau y bwriedir eu darparu yn yr eiddo.

9.10 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall oriau trwyddedu hirach ar gyfer gwerthu alcohol fod yn ffactor sy'n gallu lleihau problemau mewn lleoedd sy'n gwerthu bwyd yn hwyr yn y nos, safleoedd tacsi, swyddfeydd cerbydau hurio preifat a mathau eraill o gludiant sy'n gallu creu anrhefn ac aflonyddwch.

9.11 Caniateir i siopau, storfeydd ac archfarchnadoedd werthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo yn ystod oriau agor arferol y busnes. Os gwneir sylwadau perthnasol (er enghraifft gan yr Heddlu neu breswylydd/breswylwyr mewn perthynas â siopau unigol sy'n hysbys fel canolbwynt anrhefn ac aflonyddwch), efallai y bydd yn briodol i gyfyngu ar eu horiau. Mewn ardaloedd lle mae problemau'n gysylltiedig ag alcohol neu ymddygiad gwrthgymdeithasol eisoes yn bodoli, dylai ymgeiswyr ystyried yn ofalus a fyddai'n briodol gwerthu alcohol yn gynnar y bore neu'n hwyr y nos, gan y gallai argaeledd estynedig ddenu yfed allai achosi problemau neu waethygu problemau lleol.

9.12 Tra bo'r Awdurdod o blaid cymeradwyo'r oriau cau yr ymgeisiwyd amdanynt pan fydd yr ymgeisydd yn gallu dangos na fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar unrhyw un o'r uchod, gall yr Awdurdod bennu oriau cau cynharach os yw o'r farn, o ystyried yr amcanion trwyddedu, bod hyn yn briodol o ran natur y gweithgareddau ac amwynderau'r ardal.

9.13 Pan fo eiddo wedi'i leoli ger ardaloedd preswyl yna efallai y bydd amodau caethach o ran rheoli sŵn yn berthnasol, ond ni ddylai hyn gyfyngu'r oriau agor ar yr amod y cydymffurfir â'r amodau.

10 FFIOEDD

10.1 Er bod trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb yn cael eu cymeradwyo am gyfnod amhenodol, mae'n ofynnol i ddeiliaid trwydded/tystysgrif dalu ffi drwydded flynyddol i'r Awdurdod Trwyddedu. Rhaid talu'r ffi flynyddol ar ben-blwydd dyddiad cymeradwyo'r drwydded.

10.2 Os nad yw'r ffi flynyddol wedi'i thalu erbyn y dyddiad dyledus, bydd trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb yn cael eu **hatal dros dro** gan yr Awdurdod, yn amodol ar gyfnod gras o 21 diwrnod os na wnaed taliad o ganlyniad i anghydfod neu wall gweinyddol. Ar ôl talu'r ffi, bydd y drwydded yn cael ei hadfer yn awtomatig.

10.3 Ar ôl derbyn hysbysiad/darganfod na chafodd ffi flynyddol ei thalu, bydd yr Awdurdod yn cyflwyno rhybudd ysgrifenedig i ddeiliad y drwydded/dystysgrif:

(a) Y bydd y drwydded/dystysgrif yn cael ei hatal dros dro am 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad, ond ni ddaw hyn i rym os telir y ffi cyn y diwrnod y caiff ei hatal dros dro.

(b) Os oes honiad o wall gweinyddol, bydd y dyddiad atal dros dro yn 21 diwrnod o'r dyddiad dyledus, neu'r dyddiad atal dros dro ar yr hysbysiad 14 diwrnod, pa un bynnag yw'r hwyraf.

(c) Cyflwynir copi o'r hysbysiad hefyd i'r goruchwyliwr eiddo dynodedig/rheolwr yr eiddo os nad hwy yw deiliad trwydded yr eiddo.

10.4 Os nad yw'r ffi wedi ei thalu erbyn y dyddiad ar yr hysbysiad, ystyrir y bydd y drwydded/dystysgrif wedi'i hatal dros dro. Bydd deiliad y drwydded/dystysgrif a'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig/Rheolwr yn cael eu hysbysu ar unwaith bod yr ataliad dros dro yn dod i rym, a byddant yn cael gwybod na ellir cynnal unrhyw weithgareddau trwyddedadwy yn yr eiddo hyd nes y telir y ffi ac y bydd yr ataliad dros dro wedi'i godi. Pan wneir taliad llawn, bydd yr Awdurdod yn codi'r ataliad dros dro ar unwaith, ac yn cadarnhau hyn yn ysgrifenedig.

10.5 Lle bo trwydded/tystysgrif yn cael ei hatal dros dro a bod gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu darparu, bydd yr Awdurdod yn ystyried erlyn y darparwr am droseddau o dan adran 136 o'r Ddeddf.

11 EFFAITH GRONNOL, ARDOLL HWYR Y NOS, GORCHMYNION CYFYNGIAD CYNNAR YN Y BORE

Effaith Gronnol

11.1 Mewn rhai ardaloedd lle bo math neu nifer yr eiddo sy'n gwerthu alcohol neu'n darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos yn uchel neu'n eithriadol o uchel, gall hyn gael effaith negyddol ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Er enghraifft, gall nifer y bobl sydd naill ai'n cerdded trwy'r strydoedd neu'n hel at ei gilydd ar y strydoedd yn ystod oriau'r nos gynyddu oherwydd effaith gronnol niferoedd o eiddo adloniant sydd ar agor gyda'r hwyr (gan gynnwys caffis nos) mewn ardal benodol, sy'n gallu creu: cynnydd mewn trosedd; cynnydd yn y lefelau sŵn a fydd yn amharu ar breswylwyr; cynnydd sylweddol yn nifer y cerddwyr ar y strydoedd; tagfeydd traffig a/neu anawsterau parcio a/neu daflu sbwriel a baeddu strydoedd.

11.2 Gall hyn ymyrryd ag amwynderau preswylwyr lleol mewn modd annerbyniol, gan na fydd bob amser yn bosibl priodoli achos y problemau hyn i gwsmeriaid eiddo penodol. Mae hyn yn golygu, er y cymerir camau gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth ag amodau, ni fyddant efallai'n datrys yr holl broblemau mewn ardal.

11.3 O dan y Ddeddf, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn (ar ôl dilyn gweithdrefn benodol) i gyflwyno Polisi Effaith Gronnol a fyddai'n creu rhagdybiaeth wrthbrofadwy y bydd ceisiadau ar gyfer cymeradwyo neu amrywio trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb sy'n debygol o ychwanegu at yr effaith gronnol, fel arfer yn cael eu gwrthod neu'n destun cyfyngiadau penodol.

11.4 **Nid oes gan yr Awdurdod Bolisi Effaith Gronnol arbennig ar waith ar hyn o bryd ond bydd yn cadw hyn dan sylw.**

11.5 Nid yw absenoldeb Polisi Effaith Gronnol ar hyn o bryd yn atal unrhyw Awdurdod Cyfrifol neu unigolyn arall rhag gwneud sylwadau ar gais ar gyfer cymeradwyo neu amrywio trwydded ar y sail y bydd yn creu effaith gronnol negyddol ar un neu ragor o'r amcanion trwyddedu o ganlyniad i leoliad yr eiddo dan sylw.

11.6 Dylid nodi mai un ffordd yn unig o ddelio â'r problemau a nodwyd uchod yw Trwyddedu ac y dylid troi at y dulliau canlynol hefyd er mwyn ceisio delio â'r problemau:

(a) Rheolaeth gynllunio.

(b) Pwerau awdurdodau lleol i ddynodi rhannau o ardal yr awdurdod lleol yn fannau lle na chaniateir yfed alcohol yn gyhoeddus a lle bydd alcohol yn cael ei atafaelu.

(c) Pwerau'r Heddlu i gau eiddo neu ddigwyddiadau dros dro am hyd at 24 awr ar sail anrhefn, y tebygolrwydd o anrhefn neu sŵn gormodol.

(d) Erlyn deiliaid trwydded bersonol sy'n gwerthu alcohol i bobl sydd wedi meddwi.

(e) Pwerau'r Heddlu, awdurdodau cyfrifol neu breswylydd neu fusnes lleol i geisio cael adolygu trwydded neu dystysgrif eiddo.

Ardoll Hwyr y Nos

11.7 Mae pŵer Ardoll Hwyr y Nos yn galluogi'r Awdurdod i godi ardoll ar unigolion sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol rhwng hanner nos a 06.00 o'r gloch fel modd o godi cyfraniad tuag at gostau plismona'r economi hwyr y nos.

11.8 **Nid yw'r Awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol cyflwyno'r ardoll ar hyn o bryd.**

Gorchymyn Cyfyngiad Cynnar yn y Bore (EMRO)

11.9 Mae'r Gorchymyn hwn yn caniatáu cyflwyno cyfyngiadau ar werthu alcohol yn holl ardal yr Awdurdod, neu rannau ohoni, rhwng hanner nos a 06.00, os yw'n fodlon y byddai'n briodol gwneud hynny er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

11.10 **Nid yw'r Awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol cyflwyno'r Gorchymyn ar hyn o bryd.**

12 GWEITHDREFNAU PERTHNASOL ERAILL

Cynllunio/Rheoli Adeiladu

12.1 Nodir polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol. Nodir Polisïau Cynllunio'r Awdurdod o fewn Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn.

12.2 Mae swyddogaethau cynllunio, rheoli adeiladu a thrwyddedu wedi'u gwahanu'n briodol o fewn yr Awdurdod. Mae'r gweithdrefnau Cynllunio a Thrwyddedu yn ystyried materion gwahanol (er bod cysylltiad rhyngddynt), ac nid yw'r Pwyllgor Trwyddedu wedi'i rwymo gan benderfyniadau'r pwyllgor cynllunio (ac i'r gwrthwyneb).

12.3 Ar ôl i ymgeisydd fynd trwy'r broses gynllunio cyn cyflwyno ei gais trwyddedu, mae'r Awdurdod yn disgwyl y bydd atodlen weithredu'r ymgeisydd yn gyson ag unrhyw ganiatâd cynllunio neu amodau a osodir.

12.4 Pan fydd unrhyw oriau a bennir ar gyfer eiddo yn wahanol dan amodau Cynllunio o gymharu â Thrwyddedu rhaid i'r ymgeisydd lynu wrth yr amser cau cynharaf. Byddai modd erlyn, dan gyfraith cynllunio, yn achos unrhyw eiddo sy'n cael ei redeg mewn modd sy'n torri amodau caniatâd cynllunio.

12.5 Dylid cadw mewn cof fod Rheoliadau Adeiladu yn rheoli amryw o faterion, sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at yr Amcanion Trwyddedu, gan gynnwys dulliau o ddianc, cyfanrwydd strwythurol, hygyrchedd a diogelwch y cyhoedd. Efallai y bydd gofyn cael Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu a Thystysgrifau Cwblhau cyn medru defnyddio'r eiddo ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy.

Masnachu ar y Stryd

12.6 Bydd Masnachwyr Stryd yn rhoi ystyriaeth i Bolisi'r Awdurdod mewn perthynas â masnachu ar y stryd ac yn sicrhau bod pob safle a ddefnyddir wedi'u trwyddedu'n briodol.

Byrddau a Chadeiriau

12.7 Bydd Gweithredwyr yn ystyried gofynion adran Briffyrdd yr Awdurdod mewn perthynas â dodrefn gardd/stryd ac unrhyw oblygiadau posibl o ran cydymffurfio â'r pedwar amcan trwyddedu sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf.

Adloniant i Oedolion – Lleoliadau Adloniant Rhywiol

12.8 Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu Atodlen 3 o Ddeddf Lywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Mae hyn yn golygu bod rhaid i leoliadau sy'n bwriadu darparu adloniant rhywiol geisio am Drwydded Lleoliad Adloniant Rhywiol (yn ychwanegol i'w trwydded eiddo dan y Ddeddf) os bydd eiddo'n cael ei ddefnyddio ar fwy na 12 achlysur o fewn cyfnod o 12 mis ar gyfer unrhyw adloniant rhywiol perthnasol. Mae adloniant rhywiol perthnasol yn cynnwys: dawnsio glin, dawnsio polyn, dawnsio bwrdd, sioeau tynnu dillad, sioeau llygadu a sioeau rhyw byw.

12.9 Mae eithriad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 sy'n caniatáu i eiddo gynnig adloniant rhywiol ddim mwy nag 11 gwaith y flwyddyn ac nid yn fwy aml nag unwaith y mis. Pan fo gweithredwyr yn bwriadu cymryd mantais o'r eithriad hwn, mae'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl eglurhad clir yn yr atodlen weithredu o'r arwyddion mae'n bwriadu eu harddangos, yn ogystal â'r cyhoeddusrwydd arfaethedig a'r deunyddiau hysbysebu/arddangos allanol. Ni ddylai deunydd anweddus fod yn weladwy a dylai arwyddion sy'n ymwneud â natur yr adloniant a'r ffaith fod plant wedi'u heithrio fod yn amlwg ac yn weladwy.

12.10 Byddai'r awdurdod trwyddedu'n disgwyl gweld y mesurau a ganlyn yn cael eu cynnig yn yr atodlen weithredu:

(a) Ni fydd unrhyw un o dan 18 mlwydd oed yn cael mynediad i'r eiddo pan fo perfformiad o adloniant i oedolion yn digwydd.

(b) Ni fydd unrhyw berfformiad yn cynnwys cyswllt corfforol rhwng y perfformiwr/perfformwyr ac unrhyw un arall.

(c) Ni fydd unrhyw berfformiad yn cynnwys defnyddio teclynnau rhyw (fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 a bydd rhaid i'r perfformwyr bob tro wisgo 'g-string' neu ddillad tebyg eraill ar y rhan berthnasol o'r corff.

(d) Dylai camerâu teledu cylch cyfyng wylio'r holl fannau perfformio yn yr eiddo gan gynnwys y mannau hynny sydd wedi'u neilltuo ar gyfer perfformiadau/dawnsiau preifat.

12.11 Mae'n rhaid i ymgeiswyr am drwyddedau newydd ac i amrywio trwyddedau presennol hefyd egluro beth yw natur unrhyw adloniant i oedolion a fydd yn digwydd yn yr eiddo. Os na ddarperir unrhyw wybodaeth o gwbl, tybir nad oes unrhyw fwriad i ganiatáu gweithgareddau o'r fath a bydd yr awdurdod trwyddedu yn gosod amod i'r perwyl hwnnw.

13 GORFODAETH

13.1 Ceir protocolau ynglŷn â'r camau gorfodi y bydd yr Awdurdod a Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Tan ac Achub yn eu gweithredu ar y cyd yn ogystal â phrotocol gweithdrefn orfodaeth leol y cytunwyd arno gan yr Awdurdod a'r Heddlu (gweler **Atodiad C)**.

13.2 Bydd yr Awdurdod yn cymryd camau gorfodi yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, yr egwyddorion gorfodi a gytunwyd ac yn unol â pholisi gorfodaeth yr Awdurdod ei hun. I'r perwyl hwn, bydd y Cyngor yn cadw at brif egwyddorion cysondeb, tryloywder a chymesuredd.

Adolygiadau

13.3 Gall awdurdod cyfrifol neu unrhyw unigolyn ofyn i'r Awdurdod Trwyddedu adolygu trwydded eiddo oherwydd mater sy'n codi yn yr eiddo mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu.

13.4 Fel arfer, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gweithredu yn ei rôl fel Awdurdod Cyfrifol trwy alw am adolygiad ar ran pobl eraill, megis preswylwyr lleol neu grwpiau yn y gymuned. Mae gan yr unigolion a'r grwpiau hyn yr hawl i wneud hynny yn eu henw eu hunain pan fo ganddynt ddigon o sail i weithredu felly.

13.5 Pan fo gan Awdurdodau Cyfrifol bryderon am broblemau a ganfuwyd mewn eiddo, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ei bod yn arfer dda iddynt roi rhybudd cynnar i ddeiliaid trwydded o'u pryderon a'r angen am welliannau. Pan fo'n bosibl ac/neu'n briodol, disgwylir y byddai'r awdurdod yn rhoi cyngor ac arweiniad er mwyn mynd i'r afael â'r mater/materion.

13.6 Gall yr Heddlu weithredu dan y Ddeddf i gau eiddo am hyd at 24 awr ar sail anrhefn a niwsans sŵn. Mae ganddynt hefyd bwerau i wneud cais am adolygiad brys o drwydded eiddo sy'n gallu arwain at gau'r eiddo ar unwaith, lle bo eiddo sy'n gwerthu alcohol yn gysylltiedig â 'throseddau difrifol neu anrhefn ddifrifol neu'r ddau'.

13.7 Mae gan swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ragor o bwerau o dan Adrannau 76 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 i gau eiddo am 24 awr a hyd at 48 awr ar y sail bod sŵn o eiddo trwyddedig yn achosi niwsans cyhoeddus.

13.8 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cyfeirio'r Awdurdodau Cyfrifol at ganllawiau arfer gorau cyfredol mewn perthynas â mesurau ymarferol ar gyfer atal a delio â phroblemau'n gysylltiedig ag alcohol.

14 AMRYWIOL

Danfoniadau Alcohol

14.1 Ar gyfer ymgeiswyr sy'n ceisio am drwydded fyddai'n caniatáu iddynt ddarparu alcohol fel rhan o wasanaeth danfon alcohol, dylent gynnwys yn eu hatodlen weithredu y gweithdrefnau y maent yn bwriadu eu rhoi ar waith i sicrhau:

(a) Bod yr unigolyn y maent yn gwerthu alcohol iddo dros 18 mlwydd oed.

(b) Na chaiff alcohol ond ei ddanfon i rywun sydd dros 18 mlwydd oed.

(c) Bod trywydd dogfen clir o'r broses archebu, o'r pwynt archebu i'r pwynt danfon, yn cael ei gadw (gydag amseroedd a llofnodion) a'i fod ar gael i'w archwilio gan swyddog awdurdodedig.

(d) Bod yr amser pan gaiff alcohol ei werthu ar y wefan/dros y ffôn a'r amser pan gaiff yr alcohol ei ddanfon o fewn yr oriau a nodir ar y drwydded ar gyfer gwerthu alcohol.

(e) Mae staff yn derbyn hyfforddiant digonol ynghylch trefniadau gwirio oed yn y man gwerthu a chyflenwi.

Nwyddau Anghyfreithlon

14.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ceisiadau i adolygu trwyddedau pan fo tystiolaeth y bu alcohol anghyfreithlon yn cael ei werthu ar y safle. Pan fo nwyddau anghyfreithlon eraill, megis tybaco, wedi cael eu canfod, gallai'r Awdurdod Trwyddedu ystyried bod hyn yn dystiolaeth o reolaeth wael sydd â'r potensial i danseilio'r amcanion trwyddedu.

14.3 Ymagwedd yr Awdurdod Trwyddedu, sy'n gyson â'r Arweiniad a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, yw y bydd yn cymryd y mater o gyflenwi nwyddau anghyfreithlon yn o ddifrif gan fod y materion hyn yn tanseilio'r amcanion trwyddedu. Gall Deiliaid Trwydded sy'n cyflenwi nwyddau anghyfreithlon ddisgwyl i'r Awdurdod Trwyddedu osod camau rheoli a sancsiynau ychwanegol, a bydd risg hefyd y byddant yn colli eu trwydded.

Cysylltiad â pholisïau eraill

14.4 Wrth weithredu'r polisi hwn bydd yr Awdurdod, lle'n berthnasol, yn rhoi ystyriaeth ddyledus i bolisïau eraill a fabwysiadwyd. Bydd hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i faterion cydraddoldeb, polisïau iaith Gymraeg a Diogelu yng nghyd-destun y Ddeddf Trwyddedu.

14.5 Mae'r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allweddol er mwyn atal ac ymateb i risgiau diogelu, trwy fod yn rhan o drefniadau diogelu amlasiantaethol a gweithio'n agos â'r Bwrdd Diogelu, yr Heddlu ac awdurdodau cyfrifol eraill. Mae diogelu'n gyfrifoldeb ar y cyd ac mae gwaith partneriaeth effeithiol yn hanfodol er mwyn nodi risgiau'n gynnar, amddiffyn unigolion agored i niwed ac amharu ar weithgarwch troseddol.

14.6 Yn gysylltiedig â chaniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd, ni ddylid rhoi cyfyngiadau afresymol ar fusnesau sy'n bodoli eisoes o ganlyniad i ddatblygiad a ganiateir yn ddiweddarach.

Pe byddai busnes sy'n bodoli eisoes yn cael effaith andwyol ar ddatblygiadau newydd, dylai'r ymgeisydd ddarparu mesurau lliniarol.

14.7 Mae'r datganiad polisi Trwyddedu hwn yn cydnabod bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus. Bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu gan roi sylw dyledus i'r rhwymedigaethau hynny.

14.8 O dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau. Rhoddir sylw dyladwy i ddarpariaethau'r Ddeddf wrth weithredu'r polisi hwn.

14.9 Rhoddir ystyriaeth i Gynllun Sŵn a Seinwedd Cymru 2023 – 2028 lle bo hynny'n berthnasol i faterion yn gysylltiedig â'r Ddeddf Drwyddedu.

Addasu i Ffactorau Allanol

14.10 Lle bo angen i'r Awdurdod addasu i ffactorau allanol sy'n cael effaith sylweddol ar gyflawni busnes bydd yn gwneud hynny mewn modd hyblyg ac ystwyth. Gwneir hyn mewn modd tryloyw sy'n cynnal egwyddorion y polisi hwn ac yn sicrhau parhad busnes cyn belled ag y bo modd.

ATODIAD A – MANYLION CYSYLLTU AR GYFER CEISIADAU TRWYDDEDU

Gellir gwneud ceisiadau am drwyddedau eiddo, tystysgrifau clwb, trwyddedau personol ac amrywiadau trwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae cyngor ar gael cyn cyflwyno cais - codir tâl am y gwasanaeth hwn. Os ydych yn dymuno defnyddio'r gwasanaeth, cysylltwch â: trwyddedu@ynysmon.gov.uk

Gallwch gysylltu â'r adain drwyddedu trwy: trwyddedu@ynysmon.gov.uk

ATODIAD B – AWDURDODAU CYFRIFOL

1. **Heddlu Gogledd Cymru**

Cydlynydd Trwyddedu
Heddlu Gogledd Cymru
Gorsaf yr Heddlu
Yr Ala
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5BU
Ffôn : 01286 670053
e-bost : Elizabeth.Williams@nthwales.pnn.police.uk

2. **Teulu Môn**

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
01248 725 888
teulumon@ynysmon.gov.uk

3. **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Gorsaf Dân
Ffordd Llanberis
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2DF
Ffôn : 01286 662999
e-bost : gwynedd.mon@nwales-fireservice.org.uk

4. **Safonau Masnach**

Rheolwr Safonau Masnach
Adain Gwarchod y Cyhoedd
Adran Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
01248 752 840
safonaumasnach@ynysmon.gov.uk

5. **Iechyd yr Amgylchedd**

Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd
Adain Gwarchod y Cyhoedd
Adran Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor

LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
01248 752 840
ehealth@ynysmon.gov.uk

6. **Cynllunio**

Rheolwr Datblygu Cynllunio
Adain Cynllunio
Adran Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
01248 752 421
cynllunio@ynysmon.gov.uk

7. **Bwrdd Iechyd Gogledd Cymru**

Swyddog Gweinyddu ac Adnoddau
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyfarwyddiaeth Iechyd y Cyhoedd
Preswylfa
Ffordd Hendy
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1PZ
BCUHB.Licencing@wales.nhs.uk

8. **Gorfodaeth Mewnfudo y Swyddfa Gartref**

IE Licensing Compliance Team (IELCT)
2 Ruskin Square (floor 6)
Dingwall
Croydon
CR20 2WF
IE.licensing.applications@homeoffice.gov.uk

ATODIAD C – GWEITHDREFN ADOLYGU YN CYNNWYS GWEITHDREFN DATRYS PROBLEMAU A GORFODAETH

GWEITHDREFN AR GYFER ADOLYGU EIDDO TRWYDDEDIG YN CYNNWYS DATRYS PROBLEMAU AR Y CYD



Dylid nodi y dyluniwyd y siart lif hon fel templed ar gyfer monitro eiddo trwyddedig trafferthus, ond gall Awdurdodau wneud yn groes i'r weithdrefn a amlinellir fel y bo angen fesul achos.

PARTNERIAETH TRWYDDEDU HEDDLU GOGLEDD CYMRU A'R AWDURDOD LLEOL

GWEITHDREFN ORFODAETH AR GYFER EIDDO

Dylid nodi mai pwrpas y weithdrefn orfodaeth yw sicrhau y gellir cwrdd â'r nod cyffredin o sicrhau 'trefniadaeth dda' ac 'arferion gorau' trwy gydweithio. Nid oes bwriad o gwbl i adolygu trwyddedau cyn belled â bod y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn fodlon rhoi sylw i unrhyw broblemau gyda chymorth Heddlu Gogledd Cymru a'r Awdurdod Trwyddedu.

Senario Enghreifftiol

CAM UN - Achos o anrhefn/yfed dan oed/ymdrechion i brynu alcohol gan unigolyn dan oed neu ar ran unigolyn dan oed mewn/o eiddo trwyddedig lle mae'r unigolyn sydd â gofal yn galw'r Heddlu am gymorth ac yn cytuno i weithio gyda nhw.

Os bydd problemau'n parhau, symudwch o Gam 1 i Gam 2

CAM DAU - Cyfarfod rhwng yr Arolygydd Heddlu/Sarsiant Cymdogaeth, Adran y Gorllewin, Rheolwr yr Eiddo Trwyddedig a chynrychiolydd yr Awdurdod Lleol. Trafodir y materion yn ffurfiol a rhoddir rhybudd ysgrifenedig ffurfiol.

Os bydd problemau'n parhau, symudwch o Gam 2 i Gam 3

CAM TRI - Bydd yr Arolygydd Heddlu/Sarsiant Cymdogaeth, Adran y Gorllewin a Rheolwr yr Eiddo Trwyddedig yn gwneud cais am adolygiad o'r Drwydded Eiddo, fel sy'n briodol i'r amgylchiadau.

Cytunir ar **Gydgynllun Gweithredu** a fydd mewn grym am dri mis. Os na fydd unrhyw achosion pellach, gellir rhoi'r gorau i ddilyn y weithdrefn orfodaeth.

Bydd yr Heddlu'n gwneud popeth sy'n bosibl i gynorthwyo ac yn gweithio gyda Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig i roi'r gorau i orfod dilyn y weithdrefn orfodaeth. Fodd bynnag, mae gofyn i'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig fod yn gyfrifol am redeg busnes/eiddo da.

Gall achosion mwy difrifol olygu symud ymlaen yn syth i gam dau neu gam tri yn awtomatig (e.e. gweini alcohol i bobl sydd wedi eu gwahardd dan y cynllun Pub Watch, ymosodiad ar heddwas gan Oruchwyliwr Eiddo Dynodedig, staff awdurdodedig neu deulu). Mater i ddisgresiwn yr Arolygydd Heddlu yw hwn. Bydd gorfod defnyddio'r weithdrefn mwy na dwywaith (mewn unrhyw gyfnod o 12 mis) ar gyfer achos penodol yn arwain at adolygiad cam 3 ar unwaith (bydd mwy nag un yn arwain at adolygiad cam 2).

ATODIAD D – DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU

Dirprwyo Swyddogaethau

Mater	**Pwyllgor Llawn**	**Is-bwyllgor**	**Swyddogion**
Cais am Drwydded Bersonol		Os ceir gwrthwynebiad gan yr Heddlu	Os na chyflwynir sylwadau
Cais am Drwydded Bersonol gydag euogfarnau sydd heb ddarfod		Pob achos	
Cais am Drwydded Eiddo / Tystysgrif Eiddo Clwb		Os cyflwynir sylwadau perthnasol	Os na chyflwynir sylwadau perthnasol
Cais am Ddatganiad Dros Dro		Os cyflwynir sylwadau perthnasol	Os na chyflwynir sylwadau perthnasol
Cais i Amrywio Trwydded Eiddo / Tystysgrif Eiddo Clwb		Os cyflwynir sylwadau perthnasol	Os na chyflwynir sylwadau perthnasol
Cais i Amrywio Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig		Os ceir gwrthwynebiad gan yr Heddlu	Pob achos arall
Cais i beidio â bod yn Oruchwyliwr Eiddo Dynodedig mwyach			Pob achos
Cais i Drosglwyddo Trwydded Eiddo		Os ceir gwrthwynebiad gan yr Heddlu	Pob achos arall
Cais ar gyfer Awdurdodau Dros Dro		Os ceir gwrthwynebiad gan yr Heddlu	Pob achos arall
Cais i Adolygu Trwydded Eiddo / Tystysgrif Eiddo Clwb		Pob achos	
Penderfynu a yw Cwyn yn amherthnasol, yn wacsaw neu flinderus ac ati			Pob achos
Penderfyniad i wrthwynebu pan fo'r Awdurdod Lleol yn ymgynghorai ac nad yw'n awdurdod perthnasol sy'n ystyried y cais		Pob achos	
Penderfynu ar wrthwynebiad yr Heddlu i Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro		Pob achos	

ATODIAD E – RHESTR TERMAU

Nodwch os gwelwch yn dda y darperir y rhestr dermau hon er mwyn cyfeirio ati fel y bo angen. Ni chawsant eu defnyddio drwy'r Polisi cyfan ac fe'u darperir er arweiniad yn unig.

Adolygiad - Yn dilyn caniatáu **trwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** gall **awdurdod cyfrifol** neu **unigolyn arall** ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded neu'r dystysgrif oherwydd mater sy'n codi yn yr eiddo mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu.

Adolygiad barnwrol - Yn cynnwys dim ond y rheiny lle hysbysodd yr Uchel Lys bartïon o'i benderfyniad yn y cyfnod amser penodedig.

Adolygiad Brys/ Cryno - Gall prif swyddog yr heddlu wneud cais am adolygiad brys/ cryno o **drwydded eiddo** oherwydd troseddau difrifol ac / neu anhrefn difrifol o dan a.53A **Deddf Trwyddedu 2003.**

Amodau - mae tri math o amodau

1. **Amodau Arfaethedig** - amodau a gynigir gan yr ymgeisydd yn yr atodlen weithredu

2. **Amodau a osodir** - amodau a osodwyd gan yr awdurdod trwyddedu ar ôl gofyn am ei ddisgresiwn yn dilyn derbyn sylwadau perthnasol.

3. **Amodau Gorfodol** - amodau a ragnodir gan y Ddeddf ac maent yn cael eu cynnwys ym mhob trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb pan fo gweithgareddau trwyddedadwy penodol yn cael eu cynnal.

Amrywiad (i drwydded eiddo) - Ceisiadau a wneir o dan adran 34 **Deddf Trwyddedu 2003** i newid telerau'r **drwydded eiddo**, er enghraifft yr oriau agor, y gweithgareddau trwyddedadwy neu'r amodau. Mae'r ffi ar gyfer amrywio **DPS** wedi'i rhagnodi yn y Ddeddf.

Amrywiad (i dystysgrif eiddo clwb) - Ceisiadau a wneir o dan adran 84 **Deddf Trwyddedu 2003** i newid telerau'r **dystysgrif eiddo clwb**, er enghraifft gweithgareddau trwyddedadwy neu'r amodau.

Ardal effaith gronnol – Ardal mae'r **awdurdod trwyddedu** wedi nodi yn eu datganiad polisi trwyddedu fel un sydd â dirlawnder o eiddo trwyddedig a gallai'r 'effaith gronnol' o unrhyw eiddo trwyddedig ychwanegol gael effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu statudol.

Awdurdod cyfrifol - cyrff cyhoeddus y mae'n rhaid eu hysbysu am geisiadau **trwydded eiddo** penodol neu **dystysgrif eiddo clwb** ac mae ganddynt hawl i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod trwyddedu. Maent yn cynnwys.

- yr awdurdod trwyddedu ac unrhyw awdurdod trwyddedu arall dros yr ardal mae'r eiddo wedi'i leoli,
- prif swyddog yr heddlu sy'n gyfrifol am yr ardal ble y mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod tân ac achub ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli
- y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod gorfodi ar gyfer y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y gwaith ac ati 1974 ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am leihau neu atal y risg o lygru'r amgylchedd neu o niwed i iechyd pobl mewn unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- corff sy'n cynrychioli rhai sydd, mewn perthynas ag unrhyw ardal o'r fath, yn gyfrifol am, neu â diddordeb mewn, materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed, ac maent yn gymwys i roi cyngor ar faterion o'r fath,
- mewn perthynas â llong, awdurdod mordwyo sydd â swyddogaethau mewn perthynas â dyfroedd lle mae'r llong wedi ei hangori neu ei docio, neu unrhyw ddyfroedd lle mae, neu y bwriedir iddo, fordwyo ar adeg pan mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy,
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am bwysau a mesurau mewn unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli.

Awdurdod trwyddedu - yr awdurdod trwyddedu sy'n gyfrifol am drwyddedu alcohol, adloniant rheoledig a lluniaeth hwyr y nos.

Bandiau Ffi - Wrth benderfynu ar y swm ffi'r drwydded ar gyfer ceisiadau am **drwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb newydd**, ac amrywiadau llawn i drwyddedau neu dystysgrifau, mae pob eiddo yn disgyn i fand yn seiliedig ar ei werth ardrethol annomestig. Ers cyflwyno Deddf 2003 tan 2012/13, mae'r ffioedd ceisiadau sy'n gysylltiedig â phob band am drwydded neu dystysgrif newydd wedi bod fel a ganlyn: Band A (£100); Band B (£190); Band C (£315); Band D [dim **lluosydd**] (£450); Band D trwydded eiddo gyda **lluosydd** (£900); Band E [dim lluosydd] (£635); Band E trwydded eiddo gyda lluosydd (£1905). Mae'r ffioedd blynyddol dilynol sy'n gysylltiedig â phob trwydded neu dystysgrif fel a ganlyn: Band A (£70); Band B (£180); Band C (£295); Band D [dim lluosydd] (£320); Band D trwydded eiddo gyda lluosydd (£640); Band E [dim lluosydd] (£350); Band E trwydded eiddo gyda lluosydd (£1,050).

Clwb cymwys - Mae'n rhaid i nifer o feini prawf gael eu bodloni cyn cael ei ystyried yn glwb cymwys am **dystysgrif eiddo clwb**. Sef:

- dan reolau'r clwb, na fydd pobl yn cael eu derbyn am aelodaeth neu gael eu derbyn fel ymgeiswyr ar gyfer aelodaeth, neu i unrhyw un o freintiau aelodaeth heb gyfnod o ddau ddiwrnod o leiaf rhwng eu henwebiad ar gyfer aelodaeth a'u derbyn;
- bod y clwb wedi'i sefydlu a'i gynnal mewn ewyllys da fel clwb;
- bod gan y clwb o leiaf 25 aelod; a
- nad yw alcohol yn cael ei gyflenwi i aelodau yn yr eiddo ac eithrio gan neu ar ran y clwb.

Darfod (trwydded eiddo) - Pan mae **trwydded eiddo** wedi dod i ben oherwydd marwolaeth, analluogrwydd, ansolfedd ac ati deiliad y drwydded, fel y nodir o dan adran 27 **Deddf Trwyddedu 2003**. Nid yw'n cynnwys achosion lle'r oedd trwydded eiddo mewn grym am gyfnod cyfyngedig, ond bod y cyfnod wedi dod i ben ers hynny (e.e. digwyddiadau un-tro).

Darfod (tystysgrif clwb) – Pan mae **tystysgrif eiddo clwb** wedi dod i ben oherwydd ei fod wedi bod mewn grym am gyfnod cyfyngedig, ond bod y cyfnod wedi dod i ben ers hynny.

Dirymu (trwydded bersonol) - Os yw'r deiliad **trwydded bersonol** yn cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd yn ystod y cyfnod ymgeisio am y drwydded, gall y drwydded gael ei dirymu o dan a.**124 Deddf Trwyddedu 2003**.

Fforffedu (trwydded bersonol) - Atal yn dilyn gorchymyn llys o dan a.129 **Deddf Trwyddedu 2003** penodedig (a lle nad yw'r gorchymyn hwnnw wedi cael ei atal dros dro, hyd nes apêl o dan a.129(4) neu 130 o'r Ddeddf).

Gorchymyn ardoll hwyr y nos - Pŵer dewisol i **awdurdodau trwyddedu** o dan adran 125 Deddf **Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011**. Mae'r ardoll hwyr y nos yn cael ei dalu gan yr eiddo trwyddedig hynny i werthu alcohol yn hwyr yn y nos i godi cyfraniad tuag at gostau plismona'r economi hwyr y nos.

Gorchymyn cyfyngu alcohol yn gynnar yn y bore - Pŵer o dan adran 119 **Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011** i wahardd gwerthu alcohol am gyfnod penodol o amser rhwng yr oriau o 12am a 6am, os ystyrir yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig (DPS) – Fel arfer, hwn fydd yr unigolyn sydd wedi cael y cyfrifoldeb am redeg yr eiddo o ddydd i ddydd gan y deiliad **trwydded eiddo**. Mae'n ofynnol i bob trwydded eiddo sy'n awdurdodi gwerthu alcohol o dan Ddeddf 2003 i nodi DPS. Rhaid i'r DPS fod yn ddeiliad **trwydded bersonol**. Yr unig eithriad yw ar gyfer eiddo cymunedol sydd wedi gwneud cais llwyddiannus i'r ALl i gael eu heithrio o'r gofyniad.

Gwerthu Alcohol i'w yfed ar yr eiddo - Gwerthu alcohol trwy fanwerthu a'i gyflenwi (gan glybiau) i'w yfed ar yr eiddo.

Gwerthu Alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo – Gwerthu alcohol trwy fanwerthu i'w yfed oddi ar yr eiddo

Gwrandawiad - A ddefnyddir yng nghyd-destun ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** sy'n mynd i wrandawiad ar gyfer penderfynu ar geisiadau am drwydded eiddo, ar gyfer datganiadau dros dro, i amrywio trwydded eiddo, am dystysgrifau eiddo clwb, ac i amrywio tystysgrifau eiddo clwb.

Hysbysiad o ddigwyddiad dros dro (TEN) - Hysbysiad o dan adran 100 **Deddf Trwyddedu 2003**, a ddefnyddir i awdurdodi gweithgareddau trwyddedadwy ar raddfa fach yn gymharol, yn amodol ar feini prawf a'r terfynau penodol. Mae'n cynnwys yn unig hysbysiadau sydd wedi cael eu rhoi yn gywir ac yn briodol yn y cyfnod amser penodol h.y. mae'n eithrio hysbysiadau a gafodd eu hanfon yn ôl oherwydd camgymeriadau ar y ffurflen. Mae hyn hefyd yn cynnwys hysbysiadau a gafodd eu tynnu'n ôl ar ôl hynny. Mae'r ffi ar gyfer TEN wedi'i ragnodi yn y Ddeddf.

Ildio (trwydded) - Os yw'r deiliad trwydded yn dymuno ei hildio, mae'n cael ei wneud yn unol â darpariaethau o dan adran 28 (am **drwydded eiddo**), adran 81 (am **dystysgrif clwb**) ac adran 116 (ar gyfer **trwydded bersonol**).

Lluniaeth gyda'r hwyr - Darparu bwyd poeth neu ddiod i'r cyhoedd, i'w yfed ar neu oddi ar yr eiddo, rhwng 11pm a 5am neu gyflenwi bwyd poeth neu ddiod boeth i unrhyw un rhwng yr oriau hynny ar neu o eiddo lle mae mynediad i'r cyhoedd.

Lluosydd – Caiff lluosyddion eu defnyddio mewn perthynas ag eiddo a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed yn yr eiddo o dan awdurdodiad **trwydded eiddo** (**bandiau ffioedd** D ac E yn unig).

Mân amrywiad (i drwyddedu neu dystysgrif) - Ceisiadau a wneir o dan a.41A neu a.86A **Deddf Trwyddedu 2003** i wneud newidiadau risg isel i delerau **trwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb**. Mae'r ffi ar gyfer mân amrywiad wedi'i ragnodi yn y Ddeddf.

Personau Awdurdodedig - personau awdurdodedig yw cyrff â grym i wneud gwaith arolygu a gorfodi o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Personau eraill - Unrhyw unigolyn, corff neu fusnes sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ganiatáu ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb**. Gall unigolion eraill gyflwyno sylwadau perthnasol i'r awdurdod trwyddedu perthnasol, a gallant ofyn am adolygiad o'r drwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb.

Sylwadau perthnasol - Sylwadau sydd am effaith debygol caniatáu ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, sy'n cael eu gwneud gan awdurdod cyfrifol neu unigolyn arall o fewn y cyfnod a ragnodir o dan adran 17(5)(c) o'r Ddeddf, sydd heb gael eu tynnu'n ôl, ac yn achos y sylwadau a wnaed gan bobl eraill, nad ydynt, ym marn yr awdurdod trwyddedu perthnasol yn wacsaw neu'n flinderus.

Trwydded bersonol – Yn awdurdodi unigolyn i gyflenwi neu awdurdodi cyflenwi alcohol yn unol â **thrwydded eiddo** o dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Mae ffi'r cais am drwydded bersonol yn cael ei rhagnodi yn y Ddeddf.

Trwydded Eiddo - Awdurdodi eiddo i gael ei ddefnyddio ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol, darparu adloniant rheoledig neu ddarparu **lluniaeth hwyr y nos**, dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Mae hyn yn cynnwys trwyddedau eiddo â therfyn amser. Mae ffi trwydded eiddo yn seiliedig ar ei werth ardrethol annomestig. Mae ffioedd cais yn amrywio o £100 (Band A) i £1,905 (Band E gyda lluosydd); mae ffioedd blynyddol yn amrywio o £70 i £1,050.

Tystysgrif eiddo clwb – Yn awdurdodi **clwb cymwys** i gynnal 'gweithgareddau clwb cymwys' o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae hyn yn cynnwys tystysgrifau â chyfyngiad amser.

Public Health Directorate, Betsi Cadwaladr University Health Board

Isle of Anglesey County Council - Statement of Licensing Policy consultation response

05/01/2026

The Health Board welcomes the opportunity to respond to this draft Statement of Licensing Policy. We recognise the importance of a clear evidence-based approach to addressing alcohol related harm and acknowledge the significant impact of alcohol misuse on individuals, families, communities, and health services.

Overall, the draft policy is well-worded, comprehensive, and clearly structured. The Health Board supports the policy's overarching aims and values the inclusive and proportionate approach taken. We support the draft Statement of Licensing Policy and welcome the council's commitment to evidence-led licensing, partnership working, and community safety.

Alcohol remains a major preventable cause of illness, death, and social harm in North Wales. It is associated with a wide range of health conditions, crime, violence, family breakdown and inequality, with impacts extending beyond the individual drinker. Evidence shows that alcohol availability and consumption contribute to significant health harms, including hospital admissions, premature mortality and harm to children and young people. Deprivation exacerbates these effects, with the most deprived communities experiencing poorer health outcomes and longer periods of ill health linked to alcohol use.

Reducing the availability of alcohol has been identified by the World Health Organization as one of the most effective measures for preventing alcohol-related harm. The licensing process is therefore a key preventative tool, enabling local authorities to regulate the number, location, and operation of licensed premises, including opening hours, age-restriction enforcement, and the responsible selling of alcohol.

The comments provided below are intended to further support and strengthen the policy to enhance its positive impact on population health.

In summary, we recommend:

1. **An increased focus on protecting vulnerable individuals, including children and young people.**
2. **Include reference to Public Health data/ local evidence of alcohol related harm being used to inform decisions.**
3. **Strengthen reference between the SLP and other relevant strategies including calling Time For Change and the Wellbeing of Future Generations Act 2015.**

To align with the above recommendations, we recommend including wording similar to the following in the relevant sections of the document:

Section 1 – Background

We recommend including a further bullet point; 1.4 to acknowledge and emphasise the impact alcohol may have on communities and those individuals that may be at increased risks of alcohol

related harms. We acknowledge that the Statement of Licensing Policy may be in place for 5 years and therefore the data will be out of date, therefore it may not be appropriate to include the data highlighted in yellow below.

Alcohol consumption and its associated harms continue to present a significant public health challenge. Harmful alcohol use is consistently identified as one of the leading risks factors for disease, disability, and premature deaths worldwide.

In Ynys Mon, 36.6% of young persons aged 11-16, reported drinking alcohol. This is higher than the Wales average of 35.6% (SHRN, 2023).

During 2023-24; 196 individuals per 100,000 population in Ynys Mon were admitted to hospital for an alcohol-specific condition; this is a decrease of 22% since 2022-2023 (PHW 2025).

During 2023-24; 837 individuals per 100,000 population in Ynys Mon were admitted to hospital with an alcohol attributable condition. This is a decrease of 17% since 2021-22 (PHW 2025).

There are areas of deprivation on the island with some communities amongst the 10% most deprived in Wales across all domains including Community Safety.

On average, people on low incomes drink less than people on higher incomes, with affordability being one of the key drivers in alcohol consumption. However, people in deprived areas are many times more likely to experience an alcohol related hospital admission or die of an alcohol related cause.

Overall, effective, and well-enforced licensing is recognised as a vital component in reducing alcohol-related harm, protecting children and vulnerable groups, and supporting safer, healthier communities.

Section 2 - Scope and Extent of the Licensing Act 2003

Section 2.3 In this section there is reference that the Authority will have regard to other policies, Acts and Strategies. We would encourage specific reference to the below within the main policy or within the appendices:

Regional and National Policies

Calling Time for Change (2025-2028) – North Wales Alcohol Harm Reduction Strategy (North Wales Area Planning Board 2025)

Calling Time for Change (2025-2028), is the North Wales's Alcohol Harm Reduction Strategy. Priorities include:

- *Safe and Supportive Environments – to promote responsible retailing and support a safe, vibrant and diverse night-time economy, through working in partnership with local alcohol businesses to reduce alcohol related harm.*

- *Changed attitude and social norms – to increase knowledge and understanding of alcohol related harms and enable people in North Wales to have a positive relationship with alcohol, and work towards a culture in which non-drinking or a low level of alcohol consumption is valued and accepted as a norm.*

- *Reduce availability of alcohol – to reduce alcohol related crime, disorder, and anti-social behaviour by preventing and tackling alcohol related offending by individuals and irresponsible alcohol retailing.*

- *Children, Young People and Families to protect children, young people, and families from alcohol related harm*

Substance Misuse Delivery Plan (2019-2022) (Welsh Government 2019)

The vision set out by Welsh Governments' Substance Misuse Delivery Plan (2019-22) is that everyone should have longer healthier lives, free from the potential harms of substance misuse, building resilience so they can be active and contribute positively to their communities.

The Well-being of Future Generations Act, 2015 (Future Generations Commissioner for Wales 2015)

The Well-being of Future Generations Act requires public bodies in Wales to think about the long-term impact of their decisions, to improve how they work with people, communities, and each other, and to prevent persistent problems such as poverty, health inequalities and climate change. This legislation provides a unique opportunity in Wales to create positive change by working collectively to protect the health and wellbeing of our future generations.

The Public Health (Minimum Price for Alcohol) (Wales) Act 2018, which aims to reduce alcohol-related harm by controlling affordability.

The Act provides for a minimum price for the sale and supply of alcohol in Wales by certain persons. It also makes it an offence for alcohol to be sold or supplied below that price and establishes a local authority led enforcement regime.

Wales without Violence: A shared Framework for Preventing Violence among Children and Young People, Violence Prevention Unit, 2023 Public Health Wales.

This framework references Safe community environments to create physically and psychologically safe spaces for children and young people.

The Framework notes Alcohol and Licensing Policy as a key programme/ intervention to help address risk factors and prevent violence.

https://waleswithoutviolence.com/wp-content/uploads/2023/04/WWV-Framework-Digital-English.pdf

North Wales without Violence, North Wales Serious Violence Response Strategy, 2024

Access to Alcohol is listed as one of the Causes and risk factors of serious violence and therefore emphasises the importance of the Alcohol licensing regime.

Section 3 Licensing Objectives

Section 3.10 Public Safety

Specifically include 'spiking' as below. The Revised guidance issued under section 182 of Licensing Act 2003 guidance (November 2025 update) specifically mentions that licensing authorities 'may wish to consider additional licence conditions to safeguard patrons against spiking' in appropriate cases, where there is evidence to justify such action. This reflects an awareness of a health-related safety risk on licensed premises and offers local authorities the discretion to tackle it through licensing conditions if appropriate.

3.10 The Authority recognises that general health and safety duties will not always adequately cover specific issues and therefore conditions may need to be attached to a Premises Licence or Club Premises Certificate. Physical safety includes the prevention of accidents and injuries and

***other immediate harms that can result from alcohol consumption such as unconsciousness, alcohol poisoning and** 'spiking' incidents.*

We would also encourage including wording in Section 3 of the document to encourage applicants to consider supporting wider campaigns. For example:

Applicants and licensees should support wider harm-reduction strategies and campaigns, including campaigns around awareness of spiking incidents and have regard to relevant Welsh Government substance misuse strategies. Where age restrictions apply, appropriate control measures should be in place, including staff training and the adoption of schemes such as Challenge 25.

Section 3 (Licensing Objectives) or at the end of section 4 (The Licensing Process and Administration of Functions 4.26 - where there is reference to the Local Health Board).

Corrections are provided for Section 4.26 where reference is made to Public Health Wales; following the transfer of the Public Health team to the Health Board in 2022. As representatives of the Health Board, we have submitted data as part of representations from services within the Health Board.

Furthermore, we suggest that you reference the Local Health Board as the either the Health Board or BCUHB.

To strengthen BCUHB Public Health input we suggest that you may include narrative similar to:

The Authority recognises that the licensing regime plays an important role in supporting and protecting public health. Alcohol availability and consumption can contribute to a range of harms, including alcohol-related hospital admissions, injury, violence, long-term health conditions and poor mental wellbeing.

The Local Health Board is responsible for making representations and observations on licencing applications. While public health is not a standalone licensing objective under the Act, the Authority will take relevant public health evidence into account where it supports the promotion of the existing licensing objectives, particularly the prevention of crime and disorder, public safety, and the protection of children from harm

The Health Board can provide data and evidence from A&E and the local Substance Misuse Service may also provide input. The information provided by the Health Board is not available to other responsible authorities and it may help inform licensing decisions.

Section 5: Premises Licences and Club Premises Certificates (New Applications, Variations & General Information).

5.6 Garages** - **In determining applications for garages, (i.e. forecourt shops) the Authority must decide whether or not premises are primarily used as a garage and will expect applicants to submit data which establishes the primary use. Where such information is not available (because for example the premises have only just started trading), the Authority may consider imposing a condition requiring this information to be provided to the Licensing Authority on a regular basis for the following years to ensure the premises are not primarily used as a garage.

We suggest to include *that as part of the application you will consider the location and the risks related to drink and drug driving and that applicants need to give this due consideration (to consider ways to minimise risks such as supporting local campaigns around drink and drug driving).*

Section 9 Operating Schedule

Section 9.11 Shops, stores and supermarkets will generally be permitted to sell alcohol for consumption off premises at times when they are normally open in the course of their business. Where relevant representations are made (for example from the Police or resident(s) in the case of individual shops, which are known to be a focus of disorder and disturbance), restrictions on hours may be appropriate.

On-sales and off-sales have different implications for public health, as well as for the prevention of crime and disorder, public safety, the prevention of public nuisance, and the protection of children from harm. For example, off-sales needs to consider the potential for 24-hour access and delivery of alcohol. There is a growing body of evidence that highlights the harm this can cause to vulnerable individuals including those with acute alcohol dependency or those in recovery.

We would consider further additions to strengthen this section, for example:

In areas where alcohol-related problems or anti-social behaviour are already evident, applicants should carefully consider the appropriateness of selling alcohol during early morning or late evening hours, as extended availability may attract problematic drinking and exacerbate local issues.

Within this section we would also encourage including the below:

Applicants are strongly encouraged to apply only for the hours they genuinely intend to operate. Applications for unnecessarily extended hours may increase the likelihood of representations. The existence of other premises with similar hours in the vicinity will not be regarded as justification for granting extended hours

Section 14 Miscellaneous

Remote and Delivery Sales of Alcohol

We suggest strengthening this section with reference to employee training and seeking advice where relevant, for example:

Operating schedules should clearly set out effective age-verification procedures at both the point of sale and point of delivery, alongside appropriate staff training.

Applicants are encouraged to seek advice from the Licensing Authority or police where proposing delivery services, particularly in relation to delivery times, quantities, and age-restriction controls

Safeguarding - Safeguarding is noted within this section (14.4) We would encourage more detail around safeguarding, some wording below that may be appropriate to use:

The Licensing Authority works in partnership with key agencies to prevent and respond to safeguarding risks, including through participation in multi-agency safeguarding arrangements and close collaboration with the Safeguarding Board, Police and other responsible authorities. Safeguarding is a shared responsibility, and effective partnership working is essential to identifying risks early, protecting vulnerable individuals, and disrupting criminal activity.

The Authority will work proactively with partner agencies to undertake compliance activity, including test purchase operations, to ensure appropriate safeguards are in place.

Licence holders are expected to regularly review their practices to ensure continued compliance with the licensing objectives. Where premises are found to be repeatedly exposing children or vulnerable people to harm, the Authority will take prompt and proportionate enforcement action, in consultation with other responsible authorities, using the full range of powers available.

Concerns relating to the safety or welfare of a child should be reported to North Wales Police or the local authority safeguarding teams without delay.

In addition to the above we include some further comments below that you may wish to consider as part of the development of the final document:

Late night refreshments.

- BCUHB recommend that the policy considers the public health implications of late-night refreshment provision between 23:00 and 05:00. The availability of hot food and drink during these hours may contribute to unhealthy eating behaviours, increased calorie consumption, and alcohol-related harm, particularly when combined with extended hours of alcohol availability.
- Late-night refreshment premises can contribute to increased levels of crime, disorder and anti-social behaviour, particularly when operating during the early hours of the morning. Applicants seeking to provide hot food or drink between 23:00 and 05:00 should be required to demonstrate how their proposed operation will not exacerbate existing issues of crime and disorder within the locality.

Drug Misuse

- Expectation of licensed premises to take reasonable steps to prevent drug misuse, including staff training, clear procedures, customer safety information and appropriate first-aid provision, particularly in larger venues.

Operating schedule

- Some Licensing authorities consider further information around closing times, for example a minimum 30-minute drinking-up or wind-down period before closing that may support the safe and gradual dispersal of customers and help minimise disturbance to the surrounding area. Larger venues and events should consider a longer wind-down period where appropriate. Licensed premises should also be encouraged to make available contact details for licensed Taxi's to support customers in leaving the premises safely and promptly.

Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (gan gynnwys yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol) Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
0.1	19/09/2025	

Cam 1: Y Cefndir	
1 - Beth sy'n cael ei asesu?	Datganiad Polisi Trwyddedu fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Pob pum mlynedd mae'n rhaid i'r Cyngor fabwysiadu Datganiad Polisi Trwyddedu. Cafodd y polisi cyfredol ei fabwysiadu yn 2021 ac felly mae'n rhaid ei ddiwygio yn 2026. Mae'r Polisi hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau yn gysylltiedig â rheoli gweithgareddau rheoledig Trwyddedig. Mae'r polisi drafft wedi cael ei gynhyrchu yn unol â chanllawiau statudol y Ddeddf Trwyddedu ar ffurf a chynnwys Polisïau. Mae'n fersiwn diwygiedig a mwy diweddar o bolisi blaenorol y Cyngor.
2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?	Fersiwn diwygiedig o gynnig sy'n bodoli eisoes.
3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma?	Nod y cynnig yw cwrdd â gofynion statudol Deddf Trwyddedu 2003 drwy gynhyrchu Datganiad Polisi Trwyddedu. Bydd y datganiad yn nodi'r dull cyffredinol ar gyfer gwneud penderfyniadau trwyddedu yn unol â Deddf Trwyddedu 2003. Mae'n rhaid darparu datganiad cyn y gall y Cyngor wneud unrhyw benderfyniadau yn gysylltiedig â cheisiadau a rhybuddion a gyflwynir o dan y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf. Pwrpas y cynnig yw rhoi polisi mewn grym a fydd yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaeth statudol.

Cam 1: Y Cefndir		
4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?	Trystan Owen – Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd	
5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?	Siôn Hughes, Rheolwr Diogelwch Corfforaethol a Thrwyddedu	
6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma?	Ddim yn berthnasol	
7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill? Er enghraifft, oes yna unrhyw gynigion neu bolisïau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu'r effaith?	Nac oes	
8 - Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grŵp a warchodir.	Dileu camwahaniaethu ac aflonyddu	Nac ydi
	Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Nac ydi
	Meithrin perthynas dda	Nac ydi
	Diogelu hyrwyddo hawliau dynol	Nac ydi
9 - Ydy'r cynnig yn benderfyniad strategol? Os hynny, mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol - gweler atodiad 1.	Nac ydi	

Cam 1: Y Cefndir	
10 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)? **Os yw'r penderfyniad yn un strategol,** sicrhewch eich bod yn ystyried yn benodol a fyddai'r cynnig yn effeithio mwy ar bobl sy'n byw mewn amgylchiadau economaidd gymdeithasol llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas (gweler atodiad 1).	• Awdurdodau Cyfrifol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 • Deiliaid trwyddedau safle a thystysgrifau clwb • Deiliaid trwyddedau personol i werthu alcohol • Bwrdd Iechyd Lleol • Busnesau Lleol • Trigolion ac ymwelwyr Nid yw'n gynnig strategol

Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011	
11 - A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?	Mae'r cynnig yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor.
12 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?	Nid yw'r cynnig yn berthnasol na'n debygol o newid cyfleoedd i ddysgu neu ddefnyddio'r Gymraeg. Gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd drwy drwyddedu busnesau Cymraeg lleol.
13 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?	Nid yw'r cynnig yn berthnasol na'n debygol o wneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i ddefnyddwyr.
14 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?	Bydd y cynnig yn cyfrannu at yr economi leol mewn ardaloedd Cymraeg.

Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Er mwyn eich cynorthwyo i ateb y cwestiynau uchod, mae'r **Canllawiau Asesu Effaith** corfforaethol yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Fodd bynnag: • Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisïau, strategaethau, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu • Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trin yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg; **dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg**. Mae templed ar wahân ar gael ar MonITor. Mae **dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach .

Cam 2.2: Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998	
15 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd?	(Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 2). Nac oes

Cam 2.3: Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015		
16 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? (Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 3)	Cymru lewyrchus	Nod y cynnig yw rhoi polisi ar waith ar gyfer gwneud penderfyniadau yn unol â Deddf Trwyddedu 2003. Dylai hyn greu masnach drwyddedig sy'n cefnogi'r amcanion trwyddedu. Yn ei dro dylai hyn gyfrannu at yr economi leol a chynnal neu gynyddu ffyniant drwy ddarparu cyflogaeth neu incwm drwy'r sector drwyddedu.
	Cymru gydnerth	Ddim yn berthnasol
	Cymru iachach	Ddim yn berthnasol
	Cymru sy'n fwy cyfartal	Ddim yn berthnasol

Cam 2.3: Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015		
	Cymru o gymunedau cydlynus	Mae'r sector trwyddedu yn helpu i annog cymunedau cydlynus a llewyrchus drwy ddarparu adloniant rheoledig yn ystod digwyddiadau a gwyliau ac mewn lleoliadau lle gall trigolion ac ymwelwyr gymdeithasu.
	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Mae adloniant rheoledig yn darparu cyfleoedd diwylliannol a chynyrchiadau a digwyddiadau Cymraeg a all helpu'r Gymraeg i ffynnu.
	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Ddim yn berthnasol

Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor	
17 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig yma?	Byddwn yn ymgynghori â'r isod, sydd wedi'u nodi fel ymgyngoreion statudol yn Neddf Trwyddedu 2003: • Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru • Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru • Y Bwrdd Iechyd Lleol • Personau/cyrff sy'n cynrychioli deiliaid trwyddedau safle lleol • Personau/cyrff sy'n cynrychioli deiliaid tystysgrifau safle clwb lleol • Personau/cyrff sy'n cynrychioli deiliaid trwyddedau personol • Personau/cyrff sy'n cynrychioli busnesau a thrigolion yn yr ardal

Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor	
18 – Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei ddefnyddio fel rhan o'ch asesiad? Rhestrwch unrhyw adroddiadau, gwefannau ayyb a ddefnyddiwyd yma a chynnwys y dystiolaeth berthnasol a gafwyd yn y tabl yng Ngham 3 isod.	Canllawiau Statudol o dan adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 Canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd o dan adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (Chwefror 2025) (fersiwn hygyrch) – LLYW.CYMRU
19 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?	Ddim yn berthnasol

Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

20 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma. *Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewiswch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

Y grŵp / a warchodir	***Yr effaith debygol**	**Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)	**Camau i liniaru effaith negyddol**
Oed	Positif	Bydd y cynnig yn cefnogi'r amcan trwyddedu i ddiogelu plant rhag niwed. Mae hon yn brif ystyriaeth wrth gyflawni swyddogaethau trwyddedu	
Anabledd	Niwtral	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon	
Rhyw	Niwtral	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon	
Newid Rhyw	Niwtral	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon	

Y grŵp / a warchodir	***Yr effaith debygol**	**Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)	**Camau i liniaru effaith negyddol**
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Niwtral	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon	
Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd	Niwtral	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon	
Crefydd neu Gred	Niwtral	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon	
Cyfeiriadedd Rhywiol	Niwtral	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon	
Priodas neu bartneriaeth sifil	Niwtral	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon	
Yr iaith Gymraeg	Niwtral	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon	
Hawliau Dynol	Niwtral	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon	
Unrhyw fater perthnasol arall	Ddim yn berthnasol	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon	
Mae cysylltiadau clir rhwng materion cydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol. Gall camwahaniaethu achosi anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol. Os daw unrhyw faterion o'r fath i'r amlwg wrth asesu materion sydd ddim yn rai strategol, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt a'u cofnodi o dan y grŵp gwarchodedig perthnasol, neu o dan 'unrhyw fater perthnasol arall' uchod.			

Cwblhewch y rhan yma os yw'r cynnig yn fater strategol (gweler atodiad 1)

Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol	***Yr effaith debygol**	**Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)	**Camau i liniaru effaith negyddol**
A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?	Nid yw'n fater strategol		

Cam 4 – Canlyniad yr asesiad

Mae pedwar canlyniad posibl – cadwch y rhain mewn cof wrth gwblhau'r rhan nesaf:

- **Canlyniad 1: Dim newid mawr -** Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.
- **Canlyniad 2: Addasu'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu problemau posibl neu gyfleoedd a fethwyd. Addaswch y cynnig i oresgyn rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.
- **Canlyniad 3: Parhau â'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu'r potensial am effaith niweidiol neu gyfleoedd a fethwyd i hyrwyddo cydraddoldeb. Amlinellwch yn glir y cyfiawnhad dros barhau ag ef. Dylai'r cyfiawnhad gael ei gynnwys yn yr asesiad a rhaid iddo fod yn unol â'r ddyletswydd i roi ystyriaeth briodol. Ar gyfer y cynigion perthnasol pwysicaf, bydd angen rhesymau cymhellol.
- **Canlyniad 4: Atal a dileu'r cynnig -** Mae'r cynnig yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosibl. Rhaid ei atal a'i ddileu neu ei newid. (Mae'r codau ymarfer a'r arweiniad ar bob un o ddyletswyddau'r sector cyhoeddus ar wefan y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon)

Cam 4 – Canlyniad yr asesiad	
21 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol (sef crynodeb o'r tabl/au yng ngham 3).	Canlyniad yr asesiad yw na fydd unrhyw newid sylweddol. Drwy fabwysiadu'r cynnig hwn bydd y Cyngor yn gallu cyflawni ei oblygiadau statudol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Bydd sector Trwyddedu llewyrchus, sydd wedi'i reoli'n dda yn helpu i gynnal a chreu busnesau economaidd hyfyw. Bydd hefyd yn darparu cyfleodd i fusnesau Cymraeg a digwyddiadau diwylliannol yn y gymuned.

Cam 4 – Canlyniad yr asesiad	
22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed, neu a fwriedir, i wneud y mwyaf o hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, os yn berthnasol, i sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd,	Bydd y cynnig yn cyfrannu at hyfywedd busnesau Trwyddedig a fydd o fudd i'r economi a chymunedau lleol drwy ddarparu gweithgareddau rheoledig trwyddedig. Cynhelir ymgynghoriad yn unol â darpariaethau Deddf Trwyddedu 2003.
23 - A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?	Na fyddai
24 - A oes angen edrych ar beth y gellid ei wneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan gwbl, o ganlyniad i gynnal yr asesiad hwn? (Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os ydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylech ystyried a oes modd parhau â'r cynnig ar yr adeg hon).	Nac oes. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i fabwysiadu'r cynnig, fel y gall wneud penderfyniadau ynglŷn â safleoedd a gweithgareddau Trwyddedig. Pe byddai'r Cyngor yn cymryd unrhyw gamau eraill ni fyddai'n gallu cyflawni ei oblygiadau statudol.
25 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?	Ddim yn berthnasol
26 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?	Bydd. Cyngor llawn Cyngor Sir Ynys Môn.
27 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?	Nac oes

Cam 5 – Cynllun Gweithredu

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

Cyf	Gweithrediadau arfaethedig	Swyddog arweiniol	Amserlen
	Ymgynghoriad llawn ar y polisi arfaethedig	Siôn Hughes	Hydref - Tachwedd 2025
	Adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad	Siôn Hughes	Tachwedd - Rhagfyr 2025

Atodiad 1 - Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Beth yw'r Ddyletswydd?

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Pwy sydd yn debygol o brofi anfanteision economaidd-gymdeithasol?

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn 'cymunedau buddiant' a hefyd mewn 'cymunedau lle', gan arwain at fwy o anghydraddoldeb o ran canlyniadau, ac mae croestoriad o'r ddau yn gallu dwysau hynny:

Cymunedau buddiant - grwpiau sydd â phrofiad cyffredin, ee bod yn ddigartref; neu bobl sydd â'r un hunaniaeth, ee unig rieni, gofalwyr. Hefyd pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Cymunedau lleoedd – pobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd oherwydd lle maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser yno.

Croestoriad – yn ei hanfod, mae croestoriadedd yn ymwneud â deall sut y mae nodweddion fel rhyw, hil neu ddosbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at brofiad ac anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol. Ni ellir, ac ni ddylid deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

Pa bryd fydd y Ddyletswydd yn berthnasol?

Wrth wneud **penderfyniadau strategol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai enghreifftiau o benderfyniadau strategol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Cyfeiriad a bwriad strategol
- Strategaethau a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
- Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)
- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus
- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau ynghylch caffael a chomisiynu
- Datblygu polisïau strategol.

Mae canllawiau penodol o ran y Ddyletswydd hon ar gael ar wahân ar MonlTor.

Atodiad 2 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

Atodiad 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

Cymru lewyrchus:
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

Cymru gydnerth:
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

Cymru iachach:
Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

Cymru sy'n fwy cyfartal:
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Cymru o gymunedau cydlynus:
Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu:
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:
Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

This page is intentionally left blank

F2. 2025/07

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Y Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	24/02/2026
Pwnc:	Maes Parcio Ger y Castell, Biwmares
Aelod(au) portffolio:	Cynghorydd Ieuan Williams
Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr:	Huw Percy, Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff & Eiddo
Awdur yr adroddiad:	Julie Jones, Rheolwr Busnes a Strategaeth Gwasanaeth
Aelodau lleol:	Cyng. Gary Pritchard, Cyng. Carwyn Jones, Cyng. Alun Roberts

A – Argymhellion a rhesymau

Yr argymhelliad yw fod y Cyngor yn gwrthod cais sydd wedi ei gyflwyno mewn cynllun busnes gan Cyngor Tref Biwmares i drosglwyddo maes parcio Ger y Castell, Biwmares iddynt, ond yn cynnig prydles newydd iddynt hyd at 31/03/2026 ar yr un telerau â'r brydles gwreiddiol.

Y rheswm dros yr argymhelliad i gynnig prydles, yw fod y brydles gwreiddiol wedi ei gytuno er mwyn cefnogi'r Cyngor Tref i ariannu gynnal a chadw y Carchar a'r Llys, ond oherwydd fod argyfwng Covid wedi tarfu ar allu'r Cyngor Tref i gynhyrchu incwm o'r maes parcio am oddeutu 9mis, byddai cynnig prydles newydd hyd at ddiwedd Mawrth 2026 yn digolledi'r Cyngor Tref a'u galluogi i greu incwm yn ystod y cyfnod Covid.

Arwyddwyd y brydles 5 mlynedd gwreiddiol ar 15/07/2020 fel rhan o'r gytundeb i drosglwyddo'r Carchar a Llys i berchnogaeth y Cyngor Tref. Mae'r cyfnod o 9mis a gyfeirir at uchod o gychwyn y brydles hyd at ddiwedd Ebrill 2021. Rhent o £1 y flwyddyn oedd yn daladwy o dan y brydles a ddaeth i ben 15/07/2025. Fe gytunwyd i'r Cyngor Tref gadw meddiant o'r maes parcio am gyfnod bur tu hwnt i'r prydles ddod i ben er mwyn i'r Cyngor Tref gael cyfle i gyflwyno Cynllun Busnes mewn perthynas a meddiant wrth symud ymlaen a gan nad oedd newid trefniadau casglu incwm yng nghanol tymor yr haf yn cael ei ystyried yn ddelfrydol. Cyflwynodd y Cyngor Tref eu Cynllun Busnes ar 19/09/2025 ac mae wedi ei gynnwys fel atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

Mae'r rhesymau am wrthod y cais i drosglwyddo'r maes parcio wedi ei esbonio yn rhan B o'r adroddiad hwn.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'r opsiynau canlynol wedi eu diystyru am y rhesymau a nodwyd:

1. Trosglwyddo'r maes parcio i'r Cyngor Tref.

1.1 Mae Adran 123 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (y Ddeddf) yn gwahardd Cynghorau rhag gwaredu eiddo (ac eithrio trwy denantiaeth fer) am lai na'r gwerth gorau y gellir ei sicrhau (heb ganiatâd y Gweinidog).

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

1.2 Ar sail y elw gros cyfartalog a ddyfynnir yn y cynllun busnes, amcan gyfrir fod gwerth cyfalaf y maes parcio rhwng £900,000 a £1,200,000. Er yr uchod, mae Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 (y Caniatâd) yn caniatáu gwaredu am hyd at £2m yn llai na'r gwerth gorau (heb orfod sicrhau caniatâd y Gweinidog) ble mae'r Cyngor o'r farn fod hyn er budd economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ardal neu boblogaeth y Cyngor hwnnw.

